- Matters that people can get heard. Everyone needs to be heard and everyone’s opinions should be heard if they choose to be.
- Everyone should listen to each other even if not in same party might share same views. Otherwise just an unfair opinion. Could be more compromise to make more people happy
- Different view on education (changing to suit children with learning disabilities)
- More work experience x2
- Not everyone wants to go to university
- Health problems
- Becoming more independent/self-sustaining
- More universities in Wales/more specific to Wales
- More police patrols in major town centres and cities at night
- The safety and wellbeing of the upcoming generations need to be considered
- Help with exam stress with students x2
- Help lower cost of living to make it easier for young adults to live without stress of food prices and bills
- More police training in Wales
- Cost of living crisis and how young people can’t afford essentials is a problem
- The problems that will arise because of global warming not being pushed onto upcoming generations
- Mental health x2

Future of Wales:

Nobody wanted the current system to stay the same but nobody wanted a fully independent Wales. All young people wanted Wales to have more powers but shared they felt there are difficulties with being fully independent:

- “Need status and support of the UK but more independence to build our own position in making laws etc.”
- We need more powers on taxes, policing, immigration, environmental laws and exports/imports
- Tolls would be an issue if we were fully independent when going in and out of Wales – what is the border of Northern Ireland & Republic of Ireland like?
- Worries that if we were fully independent we wouldn’t be able to keep up with things and other countries
- Currently too difficult for us to be independent
- People in Wales might want something but it might not work. Say if Wales could afford but England couldn’t – could cause disagreement and agitation. E.g. if English people didn’t find it fair. Think having to approve through [UK] Parliament think it’s a good way as not all on Wales’ shoulders to make decisions.

Submitted by:

A handwritten signature in black ink that reads "Rocio Cifuentes". The signature is written in a cursive style with a horizontal line underlining the name.

Rocio Cifuentes MBE

Children’s Commissioner for Wales

Comisiwn Annibyniaeth - cyflwyniad Climate Cymru

Mae Climate Cymru yn rhwydwaith gweithredol o dros dri chant o sefydliadau partner o bob sector yn y gymdeithas Gymreig, a mudiad o dros 14,000 o unigolion o bob rhan o Gymru sy'n pryderu am newid hinsawdd. Rydym yn dymuno gweld Cymru lle gallwn wrthdroi effeithiau gwaethaf newid yn yr hinsawdd, drwy roi polisïau ar waith a fydd yn rhyddhau Cymru o danwydd ffosil, a fydd yn cefnogi ac yn datblygu trawsnewidiad teg i swyddi gwyrdd, ac yn sicrhau bod byd natur yn cael ei barchu.

Cydnabyddwn nad ydym yn bodoli mewn gwagle, a dymunwn bwysleisio ein gwaith ar gyfiawnder hinsawdd byd-eang, a sut y mae angen i unrhyw newidiadau neu datblygiadau i setliadau cyfansoddiadol Cymru sicrhau bod Cymru'n esiampl, yn arwain y ffordd o ran datblygu technolegau newydd. Mae angen i ni ymrwymo i dorri allyriadau carbon, ac gweithio ochr yn ochr â gwledydd eraill i gyrraedd ein targedau byd-eang yn y maes hwn.

A yw'r setliad cyfansoddiadol presennol yn cefnogi neu'n rhwystro gallu llywodraethau yn y DU i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd?

Mae'r setliad presennol yn llesteirio gallu ein Cenedl i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan fod y setliad ariannu cyffredinol yn annheg, ac nid yw'n caniatáu i'n Llywodraeth ariannu cynlluniau yng Nghymru mewn perthynas â newid yn yr hinsawdd yn deg, a myrdd o faterion eraill sy'n effeithio ar y gwlad. Mae angen ailwampio'r setliad ariannu'n llwyr, er mwyn sicrhau bod Cymru'n cael ei chyfran deg o gyllid – yn seiliedig ar angen – er mwyn gallu cyflawni dros bobl Cymru.

Mae'r setliad presennol ar hyn o bryd yn llesteirio gallu llywodraethau yn y DU i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, er enghraifft, mewn perthynas â mynediad i'r grid gan gwmnïau adnewyddadwy cymunedol Cymru, a sut y gellir bwydo'r elw o'r creu ynni hwnnw yn ôl i'r gymuned leol.

Mae'n bwysig bod cymunedau'n cael budd o gynnal seilwaith grid o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae diffyg polisi neu gymhellion clir yn cyfeirio cwmnïau datblygu ynni ar sut i ddarparu buddion digonol i gymunedau sy'n cynnal seilwaith grid. Dylid ymgynghori'n uniongyrchol â chymunedau ar y manteision yr hoffent eu cael. Dylid cyflwyno rhagdybiaeth gychwynnol bod yn rhaid i gyfran o'r holl brosiectau ynni yn y dyfodol fod yn rhannol ym mherchnogaeth y gymuned neu ddarparu buddion uniongyrchol i'r gymuned sy'n cynnal y prosiect ynni a'r seilwaith grid cysylltiedig, megis biliau ynni is.

Mae'n rhwystro gallu llywodraethau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, gan nad Llywodraeth Cymru, er enghraifft, sy'n gyfrifol am y penderfyniadau ariannu sy'n deillio o'r DU yn gadael Ewrop. Credwn ei bod yn hanfodol i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid disodli digonol (UE) i Gymru ac i'r cyllid hwnnw gael ei ddyrannu'n uniongyrchol i Lywodraeth Cymru i fuddsoddi ynddo – gan gynnwys y newid i economi di-garbon, a fydd yn cael ei datblygu ac a gytunwyd arnynt gyda phartneriaid Gymreig o'r sector addysg uwch a phellach, llywodraeth leol, busnes a'r trydydd sector.

Mae'n rhwystro gallu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd gan nad yw'n caniatáu, arhyn o bryd, unrhyw brosiect ynni â chapasiti o fwy na 350MW wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae prosiectau gwynt ar y môr yn aml yn fwy na hyn felly

unwaith eto mae datblygiad yn cael ei gyfyngu gan Lywodraeth y DU. Gallai forlyn llanw yng Nghaerdydd gynhyrchu 3 GW (3,000 MW) ond hyd yma, er gwaethaf ymgyrchu yng Nghymru, nid yw wedi dwyn ffrwyth eto.

Nid oes gan Gymru bwerau llawn dros ein seilwaith rheilffyrdd, ac mae hyn yn llesteirio gallu llywodraeth Cymru i wneud newidiadau hyfyw, hirsefydlog ar gyfer dyfodol y rhwydwaith, a fydd yn helpu i newid dulliau trafndiaeth pobl o'r rhai sy'n cyfrannu at y rhwydwaith ar hyn o bryd. dirywiad ein hinsawdd.

Mae'n rhwystro gallu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gan fod y cynllun HS2, er enghraifft, yn cael ei ystyried yn brosiect Cymru a Lloegr, ond nid yw'n effeithio ar Gymru, ac nid yw Cymru ychwaith yn cronni unrhyw gyllid canlyniadol ohono. Pe bai cyllid canlyniadol, gallai Cymru benderfynu ariannu seilwaith sector cyhoeddus yma i annog pobl i adael eu ceir, ond nid oes cyllid wedi dod i law.

Mae'n rhwystro gallu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan fod pwerau ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU i allu diwygio Deddf y Diwydiant Glo. Rhaid newid y Ddeddf hon i ddileu dyletswydd statudol yr Awdurdod Glo i gynnal a datblygu diwydiant glo sy'n economaidd hyfyw. Mae angen ei newid i adlewyrchu'r angen i'r Awdurdod Glo ystyried polisi hinsawdd yn ei benderfyniadau.

Mae'n llesteirio gallu Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan fod potensial hefyd i orsafoedd niwclear newydd gael eu gorfodi ar Gymru gan lywodraeth y DU. Bwriedir i SMRs a gynigir gan Rolls Royce fod â chapasiti o 470 MW.

Os yr olaf, sut y dylid newid y setliad presennol er mwyn galluogi rhoi polisiau newid hinsawdd mwy effeithiol ar waith?

Rhoi pwerau i Gymru wneud penderfyniadau ar bob cynnig ynni, i ddatganoli pwerau dros gyfreithiau sy'n effeithio ar Gymru (fel Deddf y Diwydiant Glo ac ynni dros 350MW), i newid y setliad presennol i sicrhau y gall Llywodraeth Cymru ddylanwadu ar sut a ble y bydd yn disodli'r UE cyllid yn cael ei wario mewn perthynas â Chymru.

Mae angen datganoli gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd yn llawn, a setliad ariannu teg i sicrhau bod Cymru'n gallu datgarboneiddio ei rhwydwaith rheilffyrdd ar gyfradd ddigonol i gyflawni cyllidebau carbon.

A oes pwerau sy'n cael eu dal ar hyn o bryd ar lefel y DU a fyddai'n cael eu harfer yn well gan Weinidogion Cymru er mwyn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd?

Oes, mae pwerau sy'n cael eu dal ar hyn o bryd ar lefel y DU a fyddai'n cael eu harfer yn well gan Weinidogion Cymru. Enghraifft o'r pwerau hynny yw'r rhai sy'n ymwneud â rheoli Ystâd y Goron. Ar hyn o bryd mae hyn yn byw yn San Steffan, a chredwn y dylent gael eu datganoli i Gymru. Yn ddiweddar, cadarnhaodd yr Ystad chwe chytundeb prydlesu ynni gwynt alltraeth newydd, gwerth tua £1 biliwn. Mae Ceidwad y Cyfrin Bwrs wedi ysgrifennu at y Prif Weinidog a'r Canghellor i rannu dymuniad y Brenin i'r arian annisgwyl hwn gael ei gyfeirio er budd ehangach y cyhoedd, yn hytrach

nag at y Grant Sofran, trwy ostyngiad priodol yng nghyfran gwarged Ystâd y Goron sy'n ariannu'r Grant. Bydd un o'r 6 phrosiect wedi'i leoli oddi ar arfordir Gogledd Cymru, ac mae'n gyfle i wynt ar y môr gefnogi a helpu i dyfu economi Cymru. Mae rheolaeth ar Ystad y Goron yng Nghymru wedi'i chadw, ond eto yn yr Alban, mae'r rheolaeth wedi'i datganoli i Lywodraeth yr Alban ers 2017. Mae cefnogaeth gynyddol i Lywodraeth Cymru dderbyn yr un pwerau â'r Alban fel y gallwn elwa'n uniongyrchol o'r economi cyfleoedd a gyflwynir gan y cynhyrchiad ynni adnewyddadwy posibl dan sylw. Credwn y dylai'r Pwyllgor archwilio'r mater hwn, gyda golwg ar ddeall sut y gallai datganoli yn y maes hwn fod o gymorth gwell i'n heconomi.

Fel y nodwyd uchod, mae angen datganoli gwasanaethau a seilwaith rheilffyrdd yn llawn, a setliad ariannu teg i sicrhau bod Cymru'n gallu datgarboneiddio ei rhwydwaith rheilffyrdd ar gyfradd ddigonol i gyflawni cyllidebau carbon.

Rydym yn cefnogi galwadau i ddatganoli dŵr. Os ydych yn ystyried bod angen dŵr arnom ar gyfer datblygiadau megis argaeau morglawdd, byddai angen pŵer dros ddŵr arnom er mwyn cael rheolaeth dros ddatblygiadau yn y dyfodol.



Independent Commission on the Constitutional Future of Wales Briefing Paper

Context

- Ynni Cymunedol Cymru's core mission is to support and accelerate the transition to a fair, equitable net zero and community-led energy system. Communities should not only shape the energy system through participation, but also, Welsh communities should retain the benefits of transition.
- Community Energy Wales supports communities to deliver renewable energy projects, we connect community organisations to share learning and best practice and we inspire through leading on innovative projects in partnership with our members so that others can learn and take action to start a project themselves. We support groups like Ynni Ogwen in Bethesda and Awel Aman Tawe in Neath Porth Talbot to share their knowledge and expertise with new groups through our Fforwm Datblygu and our working groups.

Benefits of Community Energy

- Community energy delivers 12-13 times more social and community benefit than equivalent commercial installations. It is a model that seeks to retain revenue within Welsh communities and support the circular economy.
- Our members describe it as a 'catalyst' that generates an income stream to support other green initiatives in their area. It builds community resilience across renewables, energy efficiency, housing, transport, biodiversity and culture. Integrated community energy has a genuine impact on local economic resilience.
- It is a positive, practical and value-led way for people to participate in decarbonisation and support their community at the same time.

Barriers to expansion

- Access to start up finance, limited capacity in terms of technically trained personnel, reliance on volunteers, and the lack of financial incentives (nothing has replaced the feed-in-tariff) are all challenges for the sector.
- Community energy has been limited to more rural areas in Wales. This has had an influence on the demographics of those engaged in community energy. Models that work within the urban environment have not been implemented in Wales.

Grid Connection barriers:

- Time delays and the cost of grid connections are serious barriers for communities wanting to be a part of decarbonising the energy system.



- Decisions relating to the grid are not devolved. Nor is its regulation. A change away from private, profit-driven distribution infrastructure to more local and smart distribution and significantly reduce injustices in the current energy system. Devolving regulation would enable greater flexibility to implement WG stated policies (target of 1.5GW of energy from community owned sources and its zero carbon targets). An energy regulator for Wales would fit neatly alongside the IWA's proposal for a Wales Systems Operator.
- The Welsh government through Ynni Cymru are considering smart local energy systems. At the same time, the UK Government must facilitate upfront investment in the electricity grid - We would like to see incentives or even specific requirements to be put in place that deliver strategic investment in grid ahead of need - both to facilitate the earlier connection of new generation and also as part of both (i) wider social policy objectives such as around community regeneration and (ii) also other decarbonisation targets such as EV take up/necessary charging infrastructure.
- The Welsh Government's guidance on shared ownership indicates that there is an expectation of at least an element of shared ownership in 'all energy projects'. This includes shared ownership of grid assets with a stake for local communities for any new grid assets that are built.
- Small-scale private networks that are independent of the grid is a possibility but will need ongoing support.

Local Trading

- Non devolved regulation also affects the ability to trade locally (or implement tier one – see below). Local trading – where community energy providers can sell the energy they produce at a reduced cost to local consumers – would also mean that smaller generators could achieve long-term stability for their business plans and create more certainty for the sector, enabling growth. It would also contribute to improved energy security, protecting communities from the shocks in the market we witnessed following Russia's invasion of Ukraine.
- Welsh Government are supportive of local trading and are considering what can be done on the distribution side of the energy equation with Ynni Cymru – their new green energy initiative. However, the UK Government opposed recent amendments to its energy bill that would enable local trading, offering £10 million for community energy start-ups in England only instead.
- The sector has participated in "sleeved" supply agreements that help reduce costs for consumer, while maintaining revenues for the generator.

Just Transition

- A just transition cannot be achieved unless people and communities are at the centre of our energy system. A just transition is not possible with the current energy model. The risk is that the transition will be paid for by the customers who can least afford to pay and there will be an understandable backlash to that. This can be avoided if communities have a right to community energy (tier one – see below).



- We want to develop a two-tier energy market, with community renewable energy, tier one, supplying as much local energy demand at lower prices as possible. The lower price would reflect minimised distribution costs and the avoided infrastructure costs arising from local, demand balancing and time of use impacts
- 'Tier two' would be more expensive energy from energy non-community energy sources eg the larger commercial renewable energy sector and its (much expanded) developments (bearing full transmission and distribution costs). Tier two must not be allowed to encroach on the democratising power of Tier one.

A two tier system would incentivise people to use locally produced energy (from energy assets that they may part own) when it is available and during low demand times, with tier two use disincentivised. A shortage of cheaper tier one energy would incentivise its expansion, enabling its growth over time.

Further Measures that would help the sector to grow

- Easier access to low interest loan finance for community energy projects to overcome the barrier associated with access to finance, especially in the project's early stages.
- Reform planning legislation so that community ownership is regarded as a material consideration in planning applications. We support the recommendations in NICW's renewable energy report in respect of planning reform. (Mandate renewable technologies in all new buildings, permitted development rights to remove barriers to renewable energy & the 'positive silence' approach).
- Control over The Crown Estate in Wales would enable us to impact the affordability of offshore wind licensing. (If Westminster regulation goes in the wrong direction, the benefit could be lost)
- A requirement on all public sector bodies to prioritise the procurement of local, community owned energy wherever possible.
- Give communities stronger rights to own and control buildings and local land.
- Local Authority land asset reviews to be shared with local community energy organisations.
- All suitable public sector land and buildings should be allocated to develop renewable energy projects either by the public body or made available to community energy organisations.
- Further collaboration with the public sector, with guarantees that control and ownership stay in community hands.
- Make community benefit a material consideration in planning.
- Public information campaign to promote greater understanding of the energy system, and the opportunities involved in community energy.

International Examples

- This is what a vision for renewable energy in a country with a population of 3million could look like: [This Country Runs on 98 Percent Renewable Energy | Ramón Méndez Galain | TED - YouTube](#)



Ynni
Cymunedol Cymru
Community Energy
Wales

- Ecopower Co-op in Belgium, who have 50,000 domestic customers supplied by wind and sun: Cwmni Cydweithredol Ecopower Co-op yng Ngwlad Belg, sydd â 50,000 o gwsmeriaid domestig yn derbyn cyflenwad ynni o solar a gwynt: https://www.spiegel.de/international/europe/more-affordable-and-sustainable-how-towns-in-belgium-are-producing-their-own-green-power-a-a8b14196-3fb3-4b16-82a3-15b5b726afbb?utm_source=pocket-newtab-global-en-GB



Ynni Cymunedol Cymru
17 West Bute Street
Caerdydd
CF10 5EP

Community Energy Wales
17 West Bute Street
Cardiff
CF10 5EP

info@communityenergywales.org.uk

02920 190260

www.communityenergywales.org.uk

Co-operatives and Mutuals Wales

1. What matters to you about the way Wales is run?

- I. This is not just about government but also us as citizens. How will civic society develop capacity to effectively engage citizens a broad range of citizens? As Ed Mayo points out: <https://www.pilotlight.org.uk/news/are-we-past-peak-volunteering> This is becoming increasingly problematic, and no easy solutions are available.
- II. That existing and future devolved powers are not eroded by the UK Government.
- III. The Senedd should take decisions which enables a biodiverse natural environment with healthy functioning ecosystems that supports social, economic, and ecological resilience with the capacity to adapt, based upon international co-operative values and principles <https://www.ica.coop/en/cooperatives/what-is-a-cooperative>
- IV. Good governance and public policy require effective government machinery able to implement existing, and new laws and regulations, whilst ensuring effective service delivery. With funding constraints, we will need to become much smarter.
- V. A closed Party 'list system' and 'good governance' do not sit easily together. A more transparent, directly elected Senedd via PR is required. Political parties should ensure those elected are easily accessible and regularly accountable to their electors. This requires fresh thinking and commitment. For example, see future reference to Community Wealth Building which Welsh Government refers to as the 'Foundational Economy'.

2. What do you think the priorities for the Independent Commission should be?

- I. We urge attention be given, in its broadest sense, to how political education and active citizenship is delivered within our new national curriculum. For example, do we require changes in the current legislative framework for schools? Government provides information on teaching citizenship and guidance for practitioners on remaining neutral. Does this sphere require more attention?
- II. Several years ago, Co-ops & Mutuals Wales organised 'A Co-operative Education System for a Co-operative Wales?' conference <https://www.youtube.com/watch?v=cjYSYuWUIUc&t=21s> We urge this co-operative approach be explored, since it sits well within the aspiration of renewing our democracy.
- III. Such a long-term approach to our labour market and building a Co-operative Wales should enable people working inside and between public institutions to work co-operatively and collaboratively to tackle challenges that face us. Our national curriculum provides a once in a lifetime opportunity to bring this about, provided teachers are properly supported.
- IV. We urgently require a genuine and widespread national debate about the Commission's recommendations, to include investigating, recommending, and promoting voting systems which encourage collaborative and co-operative styles of governance at all levels (e.g., STV).
- V. J S Mill, J. J. Rousseau, and G. D. H. Cole, emphasise people need to learn democracy. How it works, how to reflect on big issues, how to discuss them, how to make decisions together, if we are not going to end up with too-powerful elites and apathetic citizens. This requires some level of political education to work.
- VI. What Pateman was pointing out over half a century ago was that people don't have control over their lives through national democratic politics, even if they do participate in it. It is only when people have democratic participation in the things that most affect them, like their workplace, that they can start to gain some semblance of control over their lives
- VII. If individuals are to exercise the maximum amount of control over their own lives and environment, then authority structures in these areas must be so organised so they can participate in decision-making. Spheres such as employment and schools should be seen as a political system, offering areas of participation additional to the conventional level.

3. Thinking about how Wales is governed, by the Welsh Government and the UK government, what are the strengths of the current system, what aspects do you most value and wish to protect? Provide examples?

Wales:

- I. As Co-ops & Mutuals Wales are relatively inside the system we have the confidence and the tenacity to speak out and encourage developments such as Macora's Law which is currently a proposed 'backbench' law to boost the Co-operative Economy. We don't think all have this privileged position and it would be nice if they did.
- II. As a small, self-financed organisation, we are working with several Welsh High Schools to highlight the iconic role of the educationalist, social reformer and pioneer Robert Owen and his impact upon Wales and the wider world; and the contribution of the Co-operative Movement in bringing about a fairer world. Our aim being to make learning packages and material available on the Welsh Hwb with support from the People's Collection Wales, at the National Library for Wales.

4. Are there any problems with the current system, and if so, how could they be addressed? Again, please provide examples.

- I. The UK constitution needs to be codified with the agreement of citizens from the four nations.
- II. Many electors have become disengaged. This is in part due to the system of "First Past the Post Voting" and needs replacing with a more proportionate system. See our response to Question 1, 2 & 3. above.
- III. Our system of Electoral Registration should be more inclusive, and we welcome recent pilots to remedy certain barriers to voting. New voting methodologies need to be trialled. E.g., weekend voting.
- IV. At Question 3. II we point to the potential role of the new national curriculum contributing to learning democracy. (See our response to Question 2.) Is our approach sufficiently rigorous and meaningful for pupils, some of whom rightly have the vote? If this is not the case, learning packages should be developed and shared via the Welsh Hwb. This could be done with minimal pump-priming from Welsh Government.
- V. We need to expand civic society capacity bearing in mind Ed Mayo's comments <https://www.pilotlight.org.uk/news/are-we-past-peak-volunteering> How do we strengthen capacity? We propose changed government priorities and funding of Adult Learning Wales.

5. Thinking about the UK government, the Welsh Government and Welsh local government, what do you think about the balance of power and responsibility between these three types of government – is it about right or should it change and if so, how? For example, who should have more power, or less?

- I. In our view, the key issue is not about the distribution between three levels of government. It is citizens who should have more power, with this being enabled at the local level through Community Wealth Building. Only when people have democratic participation in matters that most affect them, like their work, learning space or community, that they can start to gain some semblance of control over their lives.
- II. New patterns of work, consumption, and production in light of the pandemic and the climate crisis have raised critical questions as to who the economy works for and how wealth is created and distributed. Community Wealth Building with its focus on wealth and who an economy works for is key.
- III. It advances economic development into a new era of genuine economic system change – tackling the causes of wealth inequality and transforming how wealth flows to secure a wellbeing economy for people, place, and planet.

- IV. To this end, the global Co-operative and Community Wealth Building movements offers Wales a systemic and historic step change to how we approach the economy and the role of economic development. Neil McInroy, the Scottish Government Community Wealth Building Advisor, eloquently made this case at a recent Co-ops & Mutuals Wales event <https://www.youtube.com/watch?v=Pvr96GkT4ds&t=153s>
- V. This approach is slowly beginning to emerge in Wales. For example, through for example, multi-stakeholder social care co-operatives at Cartrefi Cymru Co-operative <https://www.cartrefi.coop> In turn this model could provide greater opportunity for quality and choice, This as an alternative to a future centralised social care system as part of the Welsh NHS.

6. As a distinct country and political unit, how should Wales be governed in the future?

- I. In feedback, our members views were torn between (a) move towards Wales having more autonomy to decide for itself within a more federal UK, with most matters decided by the Senedd and Welsh Government, and the Westminster Parliament decides UK-wide matters on behalf of Wales (and other parts of the UK); and (b) move towards Wales having full control to govern itself and be independent from the UK.
- II. So much radical change is taking place at Westminster for any clear response to be given at this time.

7. Alongside any of these options, should more responsibilities be given to local councils bringing decision making closer to people across Wales and if so, please provide examples

Please see <https://www.inclusivegrowth.scot/north-ayrshire-scotlands-first-community-wealth-building-council/> This is an ambitious example of “bringing decision making closer to people across Wales” and one which materially makes a real difference to people’s lives. *We provide the following detail to emphasise that Community Wealth Building is far more than a public sector body ‘locally invoicing goods and services’.*

“North Ayrshire Council launched Scotland’s first Community Wealth Building strategy in May 2020. It sets out how the council will work in partnership with local communities, businesses, and wider regional anchor institutions to create a fairer local economy to tackle poverty and inequality, embedding a new economic model focused on wellbeing and inclusion.

“The new [strategy](#) sets out the CWB mission of ‘Enhancing local wealth and the creation of fair jobs, and maximising the potential of all our places through working in partnership with our communities and businesses’. The strategy includes a comprehensive 55-point action plan and sets out six objectives to deliver CWB:

- Community Wealth Building Council: We will work across all our services and wider local and regional partners to implement Scotland’s first approach to Community Wealth Building.
- Procurement: We will use our spend to actively encourage and support a growing, diverse, and resilient local business base, and to support our net zero carbon ambitions.
- Fair Employment: We will encourage the creation of fair and meaningful jobs with progression opportunities to unlock the potential of our residents.
- Land and Assets: We will support the wider regeneration of our communities by maximising all our land and assets including through alternative uses for community and business benefit.
- Financial Power: We will invest locally and encourage regional and national institutions to invest in our communities.
- Plural Ownership of the Economy: We will support the creation and sustainability of a range of business models including SMEs, social enterprise, employee ownership, cooperatives, municipal activity, and community enterprises.

“A Community Wealth Building Commission of local and regional anchor institutions was formed in September 2019 to implement the CWB approach and establish North Ayrshire as a Community Wealth Building Council. To guide the Council’s work, an Expert Advisory Panel (chaired by the Wellbeing Economy Alliance Scotland) was created and includes renowned experts on Community Wealth Building, wellbeing economy, fair work, and climate change.

“In September 2020, the Council launched its Economic Recovery and Renewal Approach to build back better, fairer, and greener. The [approach](#) is based on the foundation of the Council’s Community Wealth Building approach and sets out a Local Green New Deal. The twin priorities of a North Ayrshire Green New Deal to build back better, fairer, and greener are to:

- Ensure an inclusive economic recovery by delivering our Community Wealth Building mission; and
- Ensure a green economic recovery focused on achieving our net zero carbon ambitions through the creation of sustainable infrastructure and regeneration projects and creating fair jobs”.

8. Overall, what is most important to you in about the way in which Wales should be governed in the future? Is there anything else you want to tell us?

- i. This question is very connected with strengthening the Welsh economy and how the benefits are shared fairly between its citizens, alongside the conditions for building a healthy democracy without an overweening State at local or national levels. In addition to municipalisation, co-operative and mutual business models strengthen economic democracy and provide ingredients to strengthen civic society. This is because they are member-owned, member-governed businesses that operate for the benefit of their owners according to common principles agreed upon by the international co-operative community. In co-operatives, owners pool resources to bring about economic results that are unobtainable by one person alone. They are driven by members and or they will fail if directed from above. All levels of government, including the national curriculum have an important part to play in realising the potential of this ethical business model. Please see our response to Question 3. II.
- ii. We understand that a country-wide consultation through a system of regional and specific events and roadshows to ensure wider meaningful participation and engagement takes place. However, there is no substitute for the hard work of delivering curriculum reform and long-term organising in our communities for transformative politics.

9. In responding to these questions, we would welcome views on how the current forms of governance, and any proposals to change governance in the future, might impact on the Welsh language.

- i. A proud and independent sovereign Wales will be a society that promotes and protects its culture, heritage, and the Welsh language, and where people are proud to learn and speak Welsh and to participate in the arts, and sports and recreation. Further devolution should bring enhanced broadcasting responsibilities for the Senedd which would materially improve provision of Welsh language broadcasting and increase the number of people speaking Welsh.

31 July 2022

Cymdeithas yr Iaith

Mae Cymdeithas yr Iaith yn fudiad sy'n ymgyrchu'n ddi-drais dros y Gymraeg a holl gymunedau Cymru.

Bu Cymdeithas yr Iaith yn rhan o'r alwad am ryddid i Gymru ers y 70'au.

Erbyn hyn mae seiliau cyfansoddiadol y Deyrnas Gyfunol yn cael eu siglo ac annibyniaeth i'r Alban ac ail-uno Iwerddon yn debygol yn y dyfodol buan.

Wrth i annibyniaeth ddod i amlygrwydd yn y prif ffrwd gwleidyddol yn y blynyddoedd diweddar gwelodd Cymdeithas yr Iaith angen i ailddatgan ein dyhead am Gymru rydd mewn Cyfarfod Cyffredinol o aelodau yn 2017.

Mae'r cynnig hynny yn datgan:

Mae'r Cyfarfod Cyffredinol yn ailddatgan awydd Cymdeithas yr Iaith i weld rhyddid cenedlaethol llawn i Gymru, a hynny fel bod modd grymuso'n pobl i ddatblygu ein diwylliant fel cyfraniad at wareiddiad y byd, ac i ddatblygu ein cyfundrefnau cymdeithasol-economaidd fel esiampl i'r byd. Datganwn ein hawydd i weld y Gymraeg yn cael ei derbyn yn llawn ymhlith ieithoedd a diwylliannau'r byd, ac i Gymru hithau gymryd ei lle mewn sefydliadau cydwladol. Datganwn mai dim ond trwy gymryd ein lle yn y byd fel Cymry yr enillwn ein rhyddid ein hunain.

Ailddatganwn fod ennill rhyddid cenedlaethol llawn i Gymru'n golygu llawer yn fwy nag un newid cyfansoddiadol yn unig. Yn ogystal â sicrhau grymoedd llawn i Senedd Cymru a rhyddid iddi wneud cytundebau cydwladol, golyga hefyd ryddhau a grymuso cymunedau lleol Cymru.

Ailddatganwn fod rhyddid llawn yn golygu grymuso ieuenctid Cymru fel y bydd y cyfrifoldeb a'r gallu ganddynt i lunio Cymru'r dyfodol. Golyga hefyd ryddid a chyfrifoldeb i weithwyr ym mhob sector o economi Cymru o ran llunio strategaeth eu mentrau. Golyga hefyd roi grymoedd i fyfyrwyr yn ein sefydliadau addysgol i gyfrannu at yr hyn sy'n digwydd yn y sefydliadau, a golyga ddatblygu cwricwlwm Cymreig sy'n eu grymuso gyda'r wybodaeth a sgiliau hanfodol i gymryd rhan llawn yn y ddemocratiaeth Gymreig newydd.

Ailddatganwn na ddylid amddifadu unrhyw garfan o ran llawn yn y rhyddid hwn, a bod croeso i bawb sydd am ddod i gyfrannu at y Gymru newydd.

Yn fwy na sicrhau grymoedd llawn i'n Senedd ac, yn hytrach nag ail-greu'r wladwriaeth Brydeinig gyfalafol a gormesol ar raddfa llai, rydyn ni'n dymuno adeiladu cymdeithas tra wahanol, wedi'i seilio ar ryddid i holl bobl a chymunedau'r wlad.

Yn yr 80'au cynnar daeth pwysigrwydd cymunedau yn amlwg i'r frwydr dros y Gymraeg, ac mae'n parhau felly. Fel Cymdeithas, credwn fod cymunedau lle mae'r Gymraeg yn brif gyfrwng yn holl-bwysig er mwyn sicrhau dyfodol i'r iaith.

Mae cymunedau a fu'n gadarnleoedd traddodiadol i'r Gymraeg wedi bod o dan warchae economaidd a chymdeithasol ers degawdau. Mae patrymau allfudo a mewnfudo, tueddiadau'r farchnad dai, a datblygiadau anaddas wedi sicrhau bod y farchnad dai yn aml allan o gyrraedd pobl leol.

Yn ddiweddar mae'r broblem tai wedi ei hamlygu ac wedi gwaethygu, mae 'dianc' i'r wlad yn fwy deniadol yn sgil y pandemig ac arferion gweithio newydd wedi caniatáu pobl i symud i gymunedau Cymru o ardaloedd mwy llewyrchus, gan brisio pobl leol o'r farchnad.

Credwn felly y dylid ystyried tai fel cartrefi ac nid fel adnodd economaidd, ac y dylid sicrhau bod pobl leol yn cael mynediad at y farchnad dai, ac y dylai'r farchnad dai adlewyrchu cyflogau lleol.

Ond yn fwy na hynny bod angen galluogi ein pobl ifanc i aros, ac iy fw, yn ein cymunedau. I wneud hynny mae angen buddsoddi yn ein cymunedau ac yng Nghymru.

Tra bydd Cymru'n dal i gael ei gweld fel gwlad israddol, parhau i gael eu hesgeuluso bydd ein cymunedau a'n pobl.

Cyfeiriwn at ddiffyg diwydiant Cymru. Ers cau y pyllau glo prin fu unrhyw fuddsoddiad mewn diwydiant yng Nghymru, gan arwain at orfodi pob o'u cymunedau i chwilio gwaith.

A bu tanfuddsoddi difrifol yn isadeiledd Cymru yn gyffredinol wrth i Lywodraeth Prydain flaenoriaethu prosiectau fel HS2, nad ydyn nhw o fudd i Gymru, tra bod system drafnidiaeth cyhoeddus Cymru ar chwâl a'r Llywodraeth yn honni bod rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerdydd yn rhy ddrud.

Mae ynysu cymunedau yn y fath fodd ac atal cysylltedd rhyngont yn ei gwneud yn anodd i nifer aros yn eu cymunedau.

Mae datganoli wedi rhoi lle mwy amlwg i'r Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn iaith swyddogol yma yng Nghymru, wedi i'r Cynulliad (fel ag yr oedd ar y pryd) orfod mynd ar ofyn Llywodraeth San Steffan am yr hawl i wneud y Gymraeg yn iaith swyddogol.

Ond nid yw rhoi statws mewn deddfwriaeth yn ddigon i ddiogelu'r Gymraeg. Er mwyn sicrhau dyfodol y Gymraeg fel iaith gymunedol ac iaith bob dydd i bawb yng Nghymru mae angen ei sefydlu yn briod iaith Cymru ac arddel y cysyniad o ddinasyddiaeth Gymraeg i bawb.

Rhaid i hynny ddisodli'r dueddiad bresennol sy'n arddel dwyieithrwydd 'swyddogol' tra'n gweld y Gymraeg yn dirywio yn ein cymunedau ac yn parhau i gael ei chyfyngu i leiafrif ein dinasyddion.

Yn ogystal, mae profiad ymgyrchu dros y degawdau wedi dangos pwysigrwydd hunan-lywodraeth i ni. Mae'n henillion ni gymaint yn fwy, nid oherwydd lliw a thueddiadau llywodraeth y dydd ond am bod y penderfyniad a wneir yng Nghymru yn effeithio'n uniongyrchol ar y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau hynny.

Cymerwn S4C er enghraifft. Sianel y bu raid brwydro am ddegawd drosti, ac sydd heb gael cyfle i ddatblygu ers ei sefydlu 40 mlynedd yn ôl, er ei bod dan gyfrifoldeb llywodraethau gwahanol iawn San Steffan.

Yn y blynyddoedd diweddar mae S4C wedi dioddef toriadau i'w chyllideb a cholli ei hannibyniaeth wrth i gyfran uwch o'i chyllideb ddod gan y BBC, a bod S4C yn rhannu adnoddau gyda'r BBC bellach.

Ar y llaw arall mae'r rhestr o enillion a ddaeth trwy ymgyrchu mewn llai na 25 mlynedd o ddatganoli yn cynnwys creu Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Mesur y Gymraeg 2011, ac mae rheoliadau yn ymwneud ag ysgolion bellach yn gosod rhagdybiaeth o blaid cadw ysgolion bach a gwledig ar agor.

Mae darlledu yn un o'r meysydd i ni alw am ei ddatganoli ers degawdau, ac rydyn ni'n parhau i alw am hynny.

Mae'r pandemig wedi amlygu'r angen am ddatganoli grymoedd dros ddarlledu. Achoswyd dryswch wrth i ddarparwyr newyddion Prydeinig sôn am gyfyngiadau a mesurau Lloegr

mewn cyd-destun cenedlaethol gan roi'r argraff bod yr un rheolau mewn lle yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon, er nad oedd hynny'n wir.

Dangoswyd effaith hynny wrth i gyfyngiadau teithio Lloegr rheoliadau am wisgo mwgwd gael eu codi ynghynt yn Lloegr na Chymru achosi trafferth i bobl oedd yn mynnu hawliau Lloegr yng Nghymru.

Dydy hyn ddim yn rhywbeth newydd, bu dryswch ers blynyddoedd am feysydd sydd wedi eu datganoli ond fe wnaeth y pandemig amlygu'r broblem, a dangos effaith a goblygiadau hynny.

Mae'r cytundeb cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn nodi cefnogaeth i ddatganoli grymoedd darlledu i Gymraeg a'r bwriad i ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru. Credwn bod darlledu yn un o'r meysydd i'w blaenoriaeth o ran datganoli mwy o rymoedd i Gymru.

Dim ond trwy newid sylfaenol yn ein strwythurau democrataidd, cymdeithasol ac economaidd y bydd sicrhau Cymru rydd, Gymraeg, a byddwn yn parhau i arddel a gweithio tuag at y weledigaeth hon fel rhan o'r symudiad ehangach tuag at annibyniaeth.

Cymdeithas yr Iaith,
Gorffennaf 2022

Ymateb y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol i ymgynghoriad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Gorffennaf 2022

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru.

Cefndir

Sefydlwyd y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol ym Mehefin 2019 gydag aelodau cyntaf o'r Bwrdd yn cael eu hethol i'w swyddi, gan bobl lawr gwlad Cymru, ym mis Awst 2019.

Mae'r Cyngor yn gweithio ar ddatblygu strwythur rheoleiddio addas ar gyfer y cyfryngau cyfathrebu yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys datblygu polisi a syniadau yn y maes cyfryngau, cyfathrebu a darlledu.

Bwrdd y Cyngor yn y cyfnod 2021 – 2022 ydy:

- Angharad Mair
- Barrie Jones
- Beti George
- Betsan Powys
- Bethan Jones Parry
- Euros Lewis
- Llion Iwan

- Marc Webber
- Nia Ceidiog
- Owain Gwilym
- Sharon Morgan

Am wybodaeth bellach am y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol ymwelwch â:

www.cyfathrebu.cymru

Gyda'r Cyngor wedi bod yn galw am ddatganoli pwerau yn y maes cyfathrebu a darlledu ers 2019, mae'n edrych yn debyg fod yr agenda hwnnw wedi symud ymlaen yn eithriadol ers hynny, gyda'r Cytundeb Cydweithio rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru wedi'i gyhoeddi, ble y nodir ynddo, dan yr is-bennawd 'Darlledu':

'Ymchwilio i greu Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru, i fynd i'r afael â'n pryderon ynghylch elfennau bregus yn y cyfryngau ar hyn o bryd a'r ymosodiadau ar eu hannibyniaeth. Byddai'r corff hwn yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig yn y maes digidol ac yn annog lluosogrwydd yn y cyfryngau. Rydym ni o'r farn y dylai pwerau darlledu a chyfathrebu gael eu datganoli i Gymru.'

Erbyn hyn mae Panel Arbenigol ar Ddatganoli Darlledu wedi'i greu a fydd, ymysg pethau eraill yn gyfrifol am: 'gynghori ac yn darparu argymhellion ac opsiynau i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiad i greu

Awdurdod Darlledu a Chyfathrebu cysgodol i Gymru.' Gwybodaeth bellach yma: <https://llyw.cymru/cyhoeddi-panel-arbenigol-ar-ddatganoli-darlledu>

Gyda'r Pwyllgor hwnnw wedi'i sefydlu rydym yn disgwyl iddynt fod wedi cyhoeddi eu hargymhellion erbyn yn gynnar yn 2023 a bod yr Awdurdod Darlledu cysgodol wedi hen ddechrau ar ei waith erbyn fis Mai.

Cyfraniad y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol i drafodaeth y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Yn fras, hoffwn yma roi'r ddadl gerbron y Comisiwn ei fod:

1. Yn hanfodol bod Pwerau dros Ddarlledu a Chyfathrebu yn cael eu datganoli i Gymru fel mater o frys i sicrhau democratiaeth iach, cenedl iach ac i amddiffyn hunaniaeth ein cenedl. A bod hyn yn digwydd fel symudiad datganoli ar y cyd â meysydd eraill yn y broses ddatganoli.
2. Yn hanfodol ein bod yn gosod sylfeini cadarn o ran yr amcanion wrth i ni fynd ati i gynllunio pa lun fydd ar y maes cyfathrebu a darlledu yn y dyfodol. Nid pwrpas y datganoliad fyddai ail greu pethau fel y maent ar hyn o bryd o dan Lywodraeth Lloegr. Mae'n bwysig sefydlu egwyddorion a chymhelliant cadarn, gwastadol. Ac ar y seiliau hynny bydd ein rheoliadau yn y maes hwn yn cael eu creu.

Mi ymatebwn yn ôl y cwestiynau a nodir ar wefan y Comisiwn. Ar ddiwedd y ddogfen hon gwelir ein hymateb i Bwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar y pwnc o ddatganoli darlledu, a gyflwynwyd gennym yn Hydref 2020. Mi fyddwn yn cyfeirio at hwn yn aml yma i gefnogi ein dadleuon gan ein bod, yn y ddogfen honno, wedi cynnig nifer o atebion. Mae'r achos dros ddatganoli darlledu yn cael ei wneud yn y ddogfen honno gan gyflwyno darlun o sut allai pethau fod.

Hefyd, gweler bedwar Atodiad:

Atodiad 1: Enghraifft o reoliadau posibl parthed newyddion ar y teledu, ar y radio, yn y wasg brintiedig a'u safleoedd we cysylltiol i fynd i'r afael â diffygion gwybodaeth a democratiaeth.

Atodiad 2: Tystiolaeth a gasglwyd ar y Cyfryngau Cymdeithasol o'r angen i ddatganoli darlledu a chreu rheoliadau ein hunain yn y maes, er mwyn democratiaeth, eglurdeb a gwirionedd (cefnogi Atodiad 1).

Atodiad 3: Y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon yn Rhagfyr 2019. (Ail-agorwyd yr ymgynghoriad hwn ym Medi 2020 oherwydd y materion a amlygwyd ymhellach yn sgil y pandemig – ein dystiolaeth i'r ail agoriad hwn y gwelir ar waelod yr ymateb hwn).

Atodiad 4: Erthygl Sharon Morgan i'r Cymro y mis hwn yn nodi bygythiad i'n diwylliant ym maes dramâu yng Nghymru.

Ein Hymateb i Gwestiynau y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol

Cyfansoddiadol Cymru

1. Beth sy'n bwysig i chi o ran sut y caiff Cymru ei rhedeg?

Mae'n hanfodol bod Cymru yn wlad ddemocrataidd, ymhob ystyr o'r gair; yn Gymru sydd yn cefnogi'r gwanaf a'r mwyaf agored i niwed yn ein mysg, yn Gymru hafal; yn Gymru â'i gwleidyddiaeth yn dryloyw ac yn Gymru sydd yn dathlu ac yn hyrwyddo ei hiaith, ei diwylliant a'i hunaniaeth; yn Gymru sydd â'i byd olwg wedi'u sylfeini ar y pethau hynny.

Yn hyn o beth rhaid bod gennym reoleiddiadau cyfathrebu a darlledu sydd yn adlewyrchu ac yn cefnogi hynny. Er mwyn cael democratiaeth rhaid bod dinasyddion y genedl yn hyddysg i wneud penderfyniadau wedi'u seilio ar wirionedd ac mae angen system ddarlledu a chyfathrebu sydd yn gallu craffu yn effeithiol ar bob lefel o Lywodraeth. Gweler dudalennau 9 – 39 ble rydyn ni'n nodi'r broblem sydd ar hyn o bryd ac yn darparu atebion posibl i hyn.

Mae angen ein bod hefyd yn dathlu yr hyn sydd yn Gymreig a taw o'r fan hon y daw ein cryfder a'n hysbrydoliaeth – yn gelfyddydol ac yn economaidd. Eto, gweler dudalennau 9 – 39 ble rydyn ni'n nodi'r problemau sydd ar hyn o bryd ac yn darparu atebion posibl iddynt.

O ran Cymru hafal sydd eisiau dileu tlodi, mae hyn yn cynnwys cyfartaledd o ran tlodi gwledig a thlodi digidol, ynghyd ag anghyfartaledd o ran buddsoddiadau. Eto, gweler dudalennau 9 – 39.

Mae'n hanfodol bod y pethau hynny sydd yn bwysig i Gymru yn cael eu hamddiffyn. Credwn fod hyn yn cynnwys nad cwmnioedd mawr a'r farchnad rydd a chyfalaf yw'r prif yriant ym maes darlledu a chyfathrebu, nac mewn unrhyw faes Llywodraethu. A dyma ble mae rhaid i reoleiddiadau ein Cenedl adlewyrchu hynny yn y maes cyfathrebu a darlledu, fel mewn meysydd eraill.

2. Yn eich barn chi, beth ddylai blaenoriaethau y Comisiwn fod?

Rydyn ni'n argyhoeddedig wrth i'r broses ddatganoli ddatblygu, na ddylasai hyn fod yn fater o'r naill beth na'r llall, gall y broses ddatblygu mewn sawl maes, law law â'i gilydd. Ond yn sicr rhaid blaenoriaethu darlledu a chyfathrebu wrth symud ymlaen gyda datganoli pethau pwysig eraill gan fod angen cyfathrebu'r wybodaeth yn effeithiol i sicrhau democratiaeth.

Er enghraifft, gwyddom bod datganoli maes Cyfiawnder yn un o flaenoriaethau'r Llywodraeth, ac arbennig o beth yw hynny. Cytunwn bod hwn yn faes hynod bwysig ac y dylasai gael ei ddatganoli ar frys. Ond gwrthodwn unrhyw ddadl y dylasai fod cystadleuaeth rhwng meysydd ac y dylsem orfod dewis rhwng meysydd – wedi'r cyfan wrth ddatganoli cyfiawnder, sut fyddai dal pobl i gyfrif a gwybod beth yw'r problemau, heb sôn am wybod yr atebion heb reoliadau cyfathrebu a rheoleiddio call wedi'u creu gennym ni.

Ond yn ogystal â hyn, wrth i ni ddatganoli fwyfwy, mae angen i ni allu codi cyfalaf ein hunain i allu gwneud hyn, fyddai'n golygu pwerau datganoli pellach.

Eto, gweler dudalennau 9–39 sydd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r atebion.

Mae Atodiad 2 hefyd yn werthfawr i weld pa mor rhyng-ddibynnol a rhyng-berthnasol mae pob maes.

3. Wrth ystyried sut y caiff Cymru ei llywodraethu, gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, beth yw cryfderau'r drefn bresennol, pa agweddau sy'n fwyaf gwerthfawr i chi ac yr hoffech eu hamddiffyn? A allwch roi enghreifftiau?

Mae Lloegr a Chymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn genhedloedd hollol wahanol, â'u hanes a'u traddodiadau yn wahanol, eu blaenoriaethau a'u byd olwg. Does dim byd yn gweithio i Gymru dan y system bresennol. Mae'r system bresennol wedi'i chreu i sicrhau nad oes dim byd yn gweithio i Gymru. Mae holl lwyddiannau Cymru yn digwydd er gwaethaf ein rhan yn yr 'undeb' anghyfartal, nid o'i herwydd.

O ran y maes cyfathrebu a darlledu sydd â'r pwerau yn gorwedd gyda gwlad arall, nid yn unig fod diffyg democratiaeth yng Nghymru ar hyn o bryd oherwydd cymysgwch negeseuon, gan ei gwneud yn anodd iawn i wybod ble

mae cyfrifoldebau yn gorwedd, ac felly yn ei gwneud hi'n anodd dal pobl i gyfrif, ond gellir yn wir ddadlau fod y system yn wrth-ddemocrataidd.

4. A oes unrhyw broblemau gyda'r drefn bresennol? Os oes, sut y gellid mynd i'r afael â nhw? Rhowch enghreifftiau os gwelwch yn dda.

Gweler bob rhan o'r ddogfen isod, tudalennau 9–39 sydd yn nodi'r holl broblemau gyda'r drefn gyfathrebu bresennol, a'r atebion posibl y gellir eu creu pan y datganolir y maes hwn i Gymru. Mae yma enghreifftiau penodol hefyd – yn ogystal â'r enghreifftiau yn yr Atodiadau.

5. Wrth ystyried Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru (eich cyngor lleol), beth yw eich barn ynglŷn â'r cydbwysedd pŵer a chyfrifoldeb rhwng y tri math o lywodraeth – a yw'n iawn ar y cyfan, neu a ddylai newid, ac os felly, sut? Er enghraifft, pwy ddylai gael mwy o bŵer, neu lai?

Credwn mai cenedl o gymunedau yw Cymru yn wastad wedi bod a dyma un o'i chryfderau pennaf. Credwn ei fod orau pan fod y rhan fwyaf o benderfyniadau yn cael eu gwneud mor agos â phosibl at y bobl – boed yn Gynghorau Cymuned / Tref neu yn Awdurdodau Lleol, gyda Llywodraeth Genedlaethol yn llywio rhywfaint ar hynny.

Ond, law yn llaw â hyn mae rhaid gael newyddiaduraeth ymchwiliadol leol gref. Ac mae rhaid cefnogi hynny. Eto, gweler tudalen 9 – 39.

Yn ogystal â hyn credwn bod yr economi yn elwa petai datganoli (o Gaerdydd a'r ardal) enfawr yn digwydd i ar draws Cymru, gyda'r bunt yn teithio ac yn cylchdroi ymhellach ac yn hwyach, yn lleol.

Mae hyn yn arbennig o wir am y maes celfyddydau ac rydym yn amau yn fawr ai rhywbeth i'w ddathlu ydy yr arian cyhoeddus sydd yn cael ei wario i ddenu cwmnïau o bant i Gaerdydd ar y foment.

Nodwn bod peryg weithiau o ddathlu rhai llwyddiannau yn y maes cynhyrchu, gweithiasydd wedi'u creu gan gwmnïau sydd â phresenoldeb yn ne Ddwyrain Cymru ac nad sydd bob amser yn cynrychioli ein diwylliant unigryw, ac hynny ar draul cynrychiadau cynhenid Cymreig.

Mae hyn hefyd yn wir am gwmnïau 'parachute' sydd yn ennill arian comisiwn gan ddarllledwyr cyhoeddus Cymru.

Rhaid bob amser ddathlu a chefnogi cynrychiadau hyderus Cymreig, sydd wedi'u gwreiddio yma ymhob ystyr, a pheidio cyfrannu at danseilio hynny.

Nodir hefyd, bod 'llwyddiannau' economaidd weithiau yn cael eu mesur yn ôl yr arian a warir unwaith, heb ystyried gwir werth y bunt honno a'i chylchrediad pellach yng Nghymru. Hefyd heb ystyried ei gyfraniad pellach, neu beidio, i fywyd y genedl.

Gweler Atodiad 4 am wybodaeth bellach.

6. Fel gwlad ac uned wleidyddol benodol, sut ddylai Cymru gael ei llywodraethu yn y dyfodol?

O'r rhestr a gynigir gennych, mae'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol o'r farn mai'r opsiwn hwn fyddai orau i bobl Cymru:

- symud tuag at ymreolaeth lawn i Gymru lywodraethu ei hun yn annibynnol o'r DU.

7. Drwyddi draw, beth sy'n fwyaf pwysig i chi am sut y dylid llywodraethu Cymru yn y dyfodol? A oes unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym?

Gweler Ateb Cwestiwn 1

**RHAN O YMATEB Y CYNGOR CYFATHREBU CENEDLAETHOL
I'R GWAHODDIAD I GYFLWYNO TYSTIOLAETH BELLACH I'R
PWYLLGOR DIWYLLIANT, Y GYMRAEG A CHYFATHREBU AR Y
PWNC O DDATGANOLI DARLLEDU – HYDREF 2020**

**NODWN FOD HWN YN ATEGU AT Y DYSTIOLAETH A GYFLWYNWYD EISIOES I'R
PWYLLGOR HWNNW AR 17 RHAGFYR 2019 A'R DYSTIOLAETH LAFAR A RODDWDYD GER
BRON Y PWYLLGOR AR 11 MAWRTH 2020**

NODWN FOD DAU ATODIAD I GYD-FYND Â'R ADRODDIAD HWN

CYFLWYNIAD

Credwn fod dyfodiad Coronafeirws wedi cefnogi ac yn wir atgyfnerthu ein tystiolaeth wreiddiol a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fis Rhagfyr 2019.

Mae'r dystiolaeth newydd y cyflwynwn yma yn tynnu sylw at y sefyllfaoedd hynny sydd wedi'u hamlygu ymhellach yn y maes darlledu, y cyfryngau a chyfathrebu o herwydd Coronafeirws. Credwn mai wedi amlygu y diffygion oedd eisoes yn bodoli yn y maes y mae Coronafeirws wedi ei wneud yn fwy na heb.

Mae dau atodiad pwysig i'r ddogfen hon:

1. Dogfen a gyhoeddwyd gan y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol fis Mehefin 2020: Rheoliadau arfaethedig ar gyfer platfformau sy'n darparu newyddion yng Nghymru fyddai yn sicrhau cyflwyno gwybodaeth gywir i bobl Cymru.

2. Dogfen o dystiolaeth sydd wedi'i gasglu o Twitter ers dechrau'r pandemig yn tynnu sylw at ddiffygion ein system gyfryngol a chyfathrebu.

Beth sydd yn bwysig am y ddogfen hon a gyflwynwn i'r Pwyllgor ydy ein bod yn ogystal â chyflwyno'r sefyllfa fel ag y mae, dan benawdau penodol, rydym yn cynnig atebion.

Mae'r atebion yn cynnig ffordd newydd o weithio ac yn cynnig modelau newydd sydd yn unol â'n dyheadau, â'n gwerthoedd ac â byd-olwg Cymru. Mae'r atebion hefyd yn mynd i'r afael â'n democratiaeth simsan – i'w warchod ac i'w ddatblygu gan hefyd edrych ar y buddion economaidd a all ddod. Mae'r posibilïadau yn ddi-ddiwedd.

Credwn mai'r ffordd mwyaf effeithiol i wireddu cynlluniau i fynd i'r afael â diffygion yn y maes, ac yn wir, yr unig ffordd mewn amryw o'r achosion hyn fyddai i ddatganoli pwerau darlledu i Gymru, ac hynny fel mater o frys.

Credwn fod gweithredu ar yr atebion a gynigir yn y ddogfen hon yn cefnogi y saith nod llesiant a welir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn wir, byddai peidio gweithredu yn methu yn y cyfrifoldeb o weithredu'r Ddeddf honno.

CYNNWYS

1. Ein Gwasg Brintiedig a'u Gwefannau Perthnasol; y Cyfryngau Cymdeithasol; a Newyddiaduraeth yn Gyffredinol.
2. Mynediad i'r We
3. Radio Lleol
4. Endid Creu Cynnwys
5. Cyllidol
6. Ymarferoldeb
7. Canlyniad

1. Ein Gwasg Brintiedig a'u Gwefannau Perthnasol; y Cyfryngau Cymdeithasol; a Newyddiaduraeth yn Gyffredinol.

Y Sefyllfa

Dros y misoedd diwethaf, prin y gellid fod wedi pwysleisio'n gliriach, na chyda mwy o frys, yr anawsterau a'r dryswch sy'n dod yn sgil diffygion yn y wasg brintiedig, gwefannau a rhaglenni newyddion sy'n cael eu gwyllo a'u clywed yng Nghymru.

Mewn cyfnod lle roedd hi'n allweddol fod negeseuon uniongyrchol i ddarllenwyr, gwylwyr a gwrandawyr yn glir, a dulliau strategol gwahanol lywodraethau yn cael eu hegluro a'u cyd-bwysu ac yn bennaf oll, eu deall, roedd yna ddryswch.

Mae argyfwng Covid-19 wedi dangos yr anawsterau a'r dryswch yn glir yn yr ystyr bod dulliau strategol ein Llywodraeth wedi ennill cryn gefnogaeth a chanmoliaeth yn ystod y cyfnod hwn, ond eto eu bod wedi'u cyfleu yn wael iawn gan y cwmnïau cyfryngol o Loegr sydd yn cyhoeddi a darlledu yng Nghymru. Bu iddynt ddrysu'r neges yn rheolaidd drwy gydol y cyfnod heb yr un syniad am y gwahaniaethau hollbwysig o ran safbwynt a pholisïau sy'n berthnasol i'r Gymru ddatganoledig, fel y maent yn parhau i wneud.

Os oes unrhyw beth erioed wedi tynnu sylw at yr angen i wneud rhywbeth i ddiwygio ein cyfryngau ar yr ochr hon i'r ffin, hwn yw e.

Mae'r Prif Weinidog wedi sôn yn yr wythnosau diwethaf bod ceisio cryfhau'r cyfryngau yng Nghymru yn hanfodol ond y byddai'n anodd i'r Llywodraeth gamu i'r bwlch hwnnw'n effeithiol. Gellir gwerthfawrogi'r pwynt hwnnw wrth gwrs ond mae'n deg dweud hefyd mai strategaeth gyffredinol y cwmnïau mawr Seisnig yw cynnal eu helw –

a does dim byd yn bod ar hynny – yn hytrach na sicrhau bod gan gyfryngau ein gwlad ni strwythur sy'n adlewyrchiad teilwng ohoni.

Roedd yn sicr yn wir ar un adeg bod meithrin newyddiaduraeth o safon yn mynd law yn llaw â'r ymgyrch honno am elw. Roedd yn gwneud synnwyr busnes cadarn bryd hynny i gwmnïau sicrhau bod eu papurau yng Nghymru yn cadw llw o newyddiadurwyr profiadol talentog. Cynyddodd maint eu cynulleidfaoedd – a gellid gwerthu'r gynulleidfa honno i hysbysebwr wedyn. Yn wir – tan yn gymharol ddiweddar, roedd y disgwyliad elw ymhlith cwmnïau papurau newydd mawr y DU oddeutu 30% yn rheolaidd pan oedd busnesau'r stryd fawr yn brwydro i ennill 8%.

Y gwir yw bod y dyddiau hynny wedi mynd ac na fyddant yn dychwelyd. Mae'r toriadau diweddar i swyddi yn cydnabod nad yw'r refeniw yno mwyach ac mae swyddi yn cael eu colli rwan er mwyn cadw cymaint o elw â phosib. Gyda chwmnïau Reach, Newsquest – a BBC Cymru – yn wynebu toriadau swyddi newyddiadurol, a Media Wales yn dod dan adain yr “English Midlands division” yn y dyfodol, mae natur y bygythiad i newyddiaduraeth rymus yng Nghymru yn gliriach nac erioed.

Mae hyn yn anfantais ddifrifol i newyddiaduraeth o safon ac i ddemocratiaeth. Ond mae'n anochel y byddent yn cael eu haberthu er mwyn creu enillion rhesymol i ddeiliaid cyfranddaliadau er gwaethaf yr holl honiadau y bydd y safonau yn cael eu maethu a'u cynnal.

Mae'n ffaith bod gennym gwmnïau Seisneg enfawr yn cyflenwi ein cyfryngau yng Nghymru a go brin ei bod yn syndod felly nad yw'r sefyllfa bresennol yn cyflawni ei bwrpas.

Efallai mai'r darlun mwyaf amlwg yn ystod y misoedd diwethaf oedd cario hysbysebion ar tudalennau papurau dyddiol ‘Cymreig’, heb sôn am y rhai Seisnig sy'n cael eu

gwerthu yng Nghymru, yn tynnu sylw at neges San Steffan am yr hyn y dylem ei wneud yn ystod cyfnod y feirws – roedd hyn yn gwrth-ddweud neges ein Llywodraeth ni yng Nghaerdydd yn gyfan gwbwl.

Dros y blynyddoedd mae cwmnïau mawrion papurau newydd wedi llyncu cwmnïau bach er mwyn cynyddu eu helw. Mae hynny wedi golygu lleihad dramatig yn nifer y newyddiadurwyr proffesiynol. Mae 80% o'r wasg brint yng Nghymru, yn bapurau newydd dyddiol ac wythnosol, sydd â phresenoldeb cryf ar-lein, ym mherchnogaeth dau gwmni sy a'u pencadlysoedd yn Llundain. Mae yna gyfraith cystadleuaeth yn y Deyrnas Gyfunol (fel y gellir ei mabwysiadu yng Nghymru pe dymunir pan y datganolir y system gyfiawnder i'w briod le) er mwyn osgoi monopolïau lle mae rhaid rhoi gwybod i Gomisiwn Cystadleuaeth os ydy unrhyw uno cwmnïau yn golygu fod gan gwmni fwy na 25% o siâr o farchnad arbennig. Pe bai datganoli y cyfryngau wedi digwydd, fyddai deuopoli y wasg brint ddim wedi cael ei ganiatáu yng Nghymru.

Flwyddyn neu ddwy yn ôl cafwyd y syniad y dylai Cynulliad Cenedlaethol (y Senedd erbyn hyn) gyflogi tîm o newyddiadurwyr ei hun oherwydd torri swyddi gan y cyfryngau confensiynol.

Roedd adroddiad ar y pryd yn argymhell y syniad o gyflogi tîm o newyddiadurwyr ynghyd â 'golygydd profiadol, diduedd' ac i wneud popeth posib i sicrhau mai codi proffil penderfyniadau polisi wnaed yng Nghymru oedd y bwriad, annog gwell dealltwriaeth o'r hyn oedd yn cael ei gyflawni yn y Cynulliad/Senedd, nid siarad ar ran y Llywodraeth. Hwyrach i hyn gyflwyno'i hun fel ffordd gredadwy ymlaen ond hyd yn oed gyda'r ewyllys orau, byddwn yn awgrymu bod y canlyniadau'n debygol o ymylu ar PR i'r Llywodraeth, nid y math o newyddiaduraeth sy'n craffu ar y prosesau pwysig. Dyna fyddai'r Llywodraeth yn elwa ohono yn y tymor hir.

Ond sut mae darparu newyddiaduraeth gref yng Nghymru sy'n adlewyrchu ein gwlad?

Mewn sawl ffordd, mae'r cyfng-gyngor yn adleisio materion ehangach ar draws newyddiaduraeth ranbarthol.

Mae'r hen fodel busnes wedi torri. Gyda'r tybiad bod dirywiad cyffredinol yng ngwerthiant print, mae'r sbardun i fuddsoddi mewn newyddiaduraeth wedi lleihau hefyd. Os gall fideo deg eiliad o gath yn dawnsio ennyn mwy o ddiddordeb ymysg y gynulleidfa dorfol na brand newyddion, nid oes fawr o ysgogiad i gyflogi timau newyddion medrus ag adnoddau da.

Y sefyllfa yw, bod Cymru yn gorfod derbyn fersiwn ohoni ei hun trwy bersbectif y cyfryngau Saesneg. Er yr holl ddatblygiadau wedi datganoli a chyfrifoldebau cynyddol Llywodraeth Cymru, prin yw'r sylw, os o gwbl, y gellir ei ddisgrifio fel newyddiaduraeth lle gallwn weld olwynion democratiaeth ein gwlad yn troi gyda'r holl ffrithiant a gwreichion y gall hyn ei greu weithiau.

Credwn ei bod hi'n deg dweud hefyd bod pobol Cymru wedi sylweddoli, gyda mwy o eglurdeb nac erioed yn 2020, faint o rymoedd sydd bellach yn nwylo Llywodraeth Cymru.

Hynny yw, mae datganoli yn golygu rhywbeth allweddol i'w hiechyd, i'w swyddi, i'w hawliau nhw a'u teuluoedd. Mae codi 5c am fag plastig yn un peth. Mae i bob diben gau pobol yn eu cartrefi am fisoedd a chyfyngu ar eu hawliau i deithio yn stori gwbl wahanol. Ein dadl ni yw y byddai pobol Cymru - y rheiny sy'n prynu papurau newydd, yn darllen y newyddion diweddaraf ar-lein, yn gwyllo ac yn gwrando ar newyddion yn gyson - yn gweld gwerth cryfhau'r gwasanaeth newyddion yng Nghymru rwan yn fwy nac erioed.

Yr Atebion

Ar un llaw mae'r cysyniad o ymyrraeth y Llywodraeth i helpu i greu cyfryngau o safon yn un anodd. Ond ymhell o fod yn amhosibl. Mae gwir angen cyfryngau ar Gymru â llais Cymreig – nid fersiwn ohoni ei hun trwy lygaid Lloegr.

Byddai datblygu rhywbeth a allai fod angen cefnogaeth gan y Llywodraeth i ddechrau yn her ond yn un hynod ddiddorol.

Byddai angen i'w ymreolaeth a'i annibyniaeth gael ei ystyried yn 'sanctaidd' ar draws y sbectwm gwleidyddol gyda dyfeisiau dibynadwy ar waith i sicrhau y gallai adrodd mor ddiduedd ag unrhyw asiantaeth allanol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi siarad yn y gorffennol am ddechrau trafodaeth ffurfiol i ddadansoddi'r anghenion a'r opsiynau ar yr hyn y gellid ei wneud i wella ein cyfryngau. Ond tydi siarad efo'r cwmnïau mawr presennol ddim yn mynd i wella'r broblem o ddiwallu ein hanghenion ni. Gwaethygu mae'r sefyllfa wrth i'w hadnoddau hwy ddirywio ac i flas Saesnig ein cyfryngau gryfhau.

Dyw hi ddim yn opsiwn bellach a ddylai ein Senedd ymyrryd – yn wir mae yn gyfrifoldeb arni i wneud.

Mae angen i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu roi ger bron ein Llywodraeth y dewisiadau o ymyrraeth a all ddigwydd. Dylid wrth gwrs, yn ogystal ag ymchwilio i bosibiliadau gwreiddiol, hefyd ymchwilio i'r hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill ar draws y byd.

Dylid hefyd gadw mewn cof a gweithio ar sail yr hyn sydd yn hanesyddol wir am Gymru – mai gwlad o gymunedau o bapurau y mae Cymru wedi bod, ers canrifoedd bellach. Mae papurau lleol iawn wedi bodoli a rheiny yn bapurau ag iddynt lais cryf a galw

mawr. Mae yn sicr le amlwg i'r math hyn o fodel, boed yn wasg brintiedig neu ar lein. Arwain hyn at wneud lles i'n gwleidyddiaeth leol ac i'n gwleidyddion yn lleol gan arwain at genedl wleidyddol iachach.

Mae'r byd digidol yn magu stêm, a deliwn â hyn ymhellach isod, ond mae angen edrych hefyd ar fodolau busnes a fyddai yn gweithio i'r papurau traddodiadol a gochel rhag rhagdybio bod eu dyddiau hwy ar ben. Byddai ymchwil a chanfyddiadau i'r perwyl hwn yn werthfawr wrth i ni symud ymlaen.

Mae i'r dechnoleg ddigidol botensial aruthrol fel arf newyddiadurol. Fyddai'r Gwanwyn Arabaidd ddim wedi digwydd heb y ffonau symudol yn nwylo'r protestwyr a fydden ni ddim yn gwybod dim am rai o'r erchyllterau yn Syria heddiw hebddyn nhw chwaith. Mae yna rôl allweddol i'w chwarae gan 'newyddiaduraeth y dinesydd' ond mae rhaid hefyd cael ffordd o ddilysu yr hyn sy'n ymddangos.

Mae'r wasg draddodiadol gennym ni ers canrifoedd ac mae system o'i rheoleiddio wedi esblygu dros amser. Ac wrth gwrs, fel y dadleuwn drwyddi draw, mae dirfawr angen ei esblygu ymhellach yng Nghymru er mwyn democratiaeth ein pobl, ac i wneud hynny'n llwyddiannus yr UNIG ffordd ymlaen fyddai trwy ddatganoli pwerau darlledu, mae hynny yn hollol glir. Ond y pwynt ydy bod rheoliadau (er mor ddiffygiol ydynt i Gymru) wedi bodoli yn y maes ers canrifoedd.

Ers cwta chwarter canrif mae'r wasg ddigidol yn bod ac yn ei hanfod mae'r we yn anarchaidd, ddi-reolaeth.

Galwn ar y Pwyllgor hwn hefyd felly i ymchwilio i'r mater o fod rhaid i Nteflix, Google, Apple a Facebook a'r 'cewri' eraill fod yn atebol, fel y mae'r cyfryngau traddodiadol i gyfraith enllib, dirmyg llys, hawlfraint a phreifatrwydd.

Cyda Llywodraeth yn San Steffan yn ddiweddar wedi cyhoeddi y byddan nhw'n rhoi pwerau i OFCOM reoleiddio cynnwys y cyfryngau cymdeithasol i ddiogelu defnyddwyr rhag cynnyrch niweidiol ac anghyfreithlon, mae angen sicrhau nawr bod y pwerau hyn yn cael eu trosglwyddo i'r rheoleiddwyr yng Nghymru i gael penderfynu, yn unol â dyheadau, gwerthoedd ac anghenion pobl Cymru sut fyddai datblygu hyn.

Bydd angen ymchwilio hefyd ar frys i'r angen i osod ardoll ar y cwmnïau 'mawrion' hyn sy'n gwneud eu harian yng Nghymru ond ddim yn talu treth yma. Bydd angen argymhell, o gadw'r arian hwnnw mewn pot, ble byddai gwariant posibl yr arian hwnnw – er enghraifft ar ddatblygu newyddiaduraeth, ar ddeunydd ar-lein yn yr iaith Gymraeg, ar greu platfformau newydd, mae'r rhestr posibiliadau yn hir faith a'r angen yn fawr.

Gofynnwn hefyd i'r Pwyllgor ail ymweld ag adroddiadau'r gorffennol sydd yn ymndrin â dyfodiad y we a'r cyfryngau cymdeithasol sydd wedi arwain at fod llai o newyddion Cymreig ar gael y tu fewn a'r tu allan i ffiniau'r wlad gyda corfforaethau mawr rhyngwladol, y BBC a llond dwrn o unigolion pwerus, bron yn monopoleiddio y cynnwys newyddiadurol.

Dyma rai o'r adroddiadau hynny. Cynigwn fod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Cyfathrebu yn ail ymweld â rhai o'r adroddiadau hyn, ac eraill, gan edrych ar a ydy'r argymhellion wedi cael eu gwireddu, os nad ydynt, yna pam ddim:

*Y Sefydliad Materion Cymreig – 'Media Audit 2008' ac wedyn 2015 ac un mwy diweddar yn yr arfaeth. Rhain ydi'r adroddiadau mwyaf cynhwysfawr sy'n cynnwys pob elfen o'r cyfryngau yng Nghymru yn cynnwys newyddiaduraeth.

*Is-Bwyllgor Darlledu y Cynulliad – ymchwiliad 'Y Diwydiant Papurau Newydd yng Nghymru' – Mehefin 2009

*Tasglu Comisiwn y Cynulliad ar Newyddion Digidol a Gwybodaeth 2017 – ‘Creu Deialog Digidol’ dan gadeiryddiaeth Leighton Andrews

*Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd wedi cynnal sawl ymchwiliad i faes y cyfryngu sy'n cynnwys rhannau am y wasg, ac mae un adroddiad arbennig yn 2018 – ‘Penawdau’ – yn ymchwiliad i newyddiaduraeth newyddion yng Nghymru.

*Yn Brydeinig cyhoeddwyd Adolygiad Cairncross yn Chwefror 2019. Roedd yn adroddiad cynhwysfawr gan yr academydd a'r newyddiadurwraig Dame Frances Cairncross. Mi nath yr adroddiad 9 argymhelliad oedd a'r potensial i wella y rhagolygon ar gyfer newyddiaduraeth o safon. Yn eu plith roedd creu corff newydd – Y Sefydliad Newyddion Budd Cyhoeddus, cronfa ar gyfer mentrau newydd a manteision threth. Byddai gwerth edrych ar adroddiadau o'r fath yn ymwneud â'r maes hwn sydd wedi'u cynnal ar draws y byd.

Gellir hefyd ystyried rôl y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol fel rheoleiddwyr wrth fwrw ymlaen â'r cynlluniau.

Fis Mehefin eleni cyhoeddodd y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol bedwar rheoliad fyddai yn mynd i'r afael â'r her y nodir uchod o gamarwain a cham wybodaeth ar blatfformau newyddion yng Nghymru. O weithredu'r pedwar rheoliad hwnnw yn unig, mi fyddai safon a chywirdeb yr adrodd yn ein cyfryngau, ar bob platfform, yn gwella yn sylweddol a byddai rhan hanfodol o'r broses ddemocrataidd wedi'i warchod. Credwn fod y rheoliadau hyn yn hanfodol i hynny. Mae'r rheoliadau hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1. Gofynnwn i'r Pwyllgor hwn ystyried yn ddifrifol dulliau o weithredu'r rheoliadau hyn ar frys wrth i'r broses o ddatganoli grymoedd darlledu i Gymru fynd rhagddi.

2. Mynediad i'r Wê

Y Sefyllfa

Mae sefyllfa'r Coronafeirws wedi amlygu ymhellach annhegwch o ran mynediad ein cymunedau i'r we fyd eang.

Mae pobol o bob oedran wedi gorfod troi at y we, yn eu anheddau ar gyfer gwaith, gwaith ysgol a choleg, cwmniaeth ac ar gyfer gwasanaethau.

Mae'r broblem o dlodi digidol a thlodi gwledig wedi'u hamlygu eu hunain ymhellach ac wedi gyrru'r lledaeniad yn y bwlch rhwng y rhai breintiedig a'r difreintiedig.

Cafwyd cyfnod, ac mae'n bosibl y bydd eto, pan oedd plant yn gwneud eu gwaith ysgol i gyd ar-lein o'u cartrefi. Roedd hyn yn her i nifer o'n plant mwyaf bregus a difreintiedig nad oedd a chanddynt fynediad addas i'r we fyd eang, heb sôn am yr offer cywir i wneud.

Yn ogystal â hyn doedd gan bobl yn ein cymunedau ddim mynediad i'r we am gwmniaeth teulu a chyfeillion, mewn cyfnod ble mae hynny wedi bod mor bwysig i'n hiechyd. Ar ben hyn, roedd pobl heb fynediad teilwng i'r we yn wynebu heriau ychwanegol ar gyfer gwasanaethau elfennol, sydd wedi symud ymhellach a pellach o'n cymunedau, fel bancio neu archebu meddyginiaeth. Mae'r banciau i nifer erbyn hyn dros ugain milltir i ffwrdd.

Mae hyn yn cynyddu'r bylchau yn ein cymdeithas. Ac mae hyn yn wirioneddol godi'r cwestiwn o ba fath o gasgliad o gymunedau a chymdeithasau yr ydyn ni eisiau i Gymru fod?

Pwysleisiwn eto yr hyn a roddwyd yn ein ymateb i'r ymgynghoriad gwreiddiol fis Rhagfyr y llynedd – ma rhaid ail edrych ar sut mae Cymru yn dewis tendro i gwmnïau sydd eisiau darparu'r we i'n cymunedau.

Os ydy Cymru eisiau bod yn wlad gynhwysol, sydd yn hyrwyddo cyfartaledd ac sydd yn gweld gwerth yn ei chymunedau gwledig ac mewn galluogi unigolion a busnesau i ffynnu yn y fan honno, yna ni ellir parhau â'r model presennol sydd yn cael ei benderfynu yn Lloegr.

Nodwn yma hefyd bod y feirws hwn, o fod angen ei drosglwyddo o berson i berson, wedi ffynnu yn ein ardaloedd mwyaf poblog. Wrth edrych i'r dyfodol ac ar fyd sydd wedi globaleiddio ble y gall pandemig fel hyn ddigwydd yn amlach, mae o ddiddordeb mawr i lywodraethau tybiaswn i i beidio gyrru pobl i'r dinasoedd i fyw oherwydd diffyg gwasanaethau yn ein cymunedau mwy gwledig. Yn wir mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gynnal y system gweithio o gartre sydd wedi profi'i werth yn ystod cyfnod y clo mawr fel polisi at y dyfodol.

Hefyd, mae'r ffaith nad yw mynediad i'r we ar gael i bobol nad sydd yn byw mewn tref neu ddinas yn trin y bobl hynny fel dinasyddion eilradd ac yn gwahaniaethu yn eu herbyn. Mae yma ddiffyg parch. I gael y we mewn rhai ardaloedd, mae rhaid i'r cymunedau hynny a'r unigolion sydd yn rhan ohonynt frwydro ac ymgyrchu a gwneud ceisiadau i gael mynediad i ffeibr (heb sôn am 5G sydd ar y ffordd). Ai dyma sut mae Llywodraeth Cymru eisiau trin eu dinasyddion. Gyda Brexit o'n blaen rhaid dechrau parchu ein cynhyrchwyr bwyd a'u busnesau. Gan nodi yma fod busnesau amaeth erbyn hyn yn gweithredu'n llawn ar lein – o gofrestru anifeiliaid ar gyfer pasbortau i ddefnyddio apiau effeithiolrwydd, i wneud eu trethi. Rhaid i'n polisiau fel cenedl

adlewyrchu y math o wlad yr ydyn ni, beth sydd yn bwysig i ni a beth yr ydyn ni yn ei barchu fel cenedl.

Gyda chammau yn cael eu cymryd i osod 5G, rhaid i ni symud ar frys ar hyn i allu gosod ein termau ein hunain o ran mynediad iddo, sydd yn adlewyrchu ein dyheadau a'n gwerthoedd ein hunain o ran y bwlch rhwng y breintiedig a'r di-freintiedig a rhwng ardaloedd trefol a gwledig.

Mae datblygiadau 5G yn mynd i fod yn bwysig iawn i fusnesau o bob math. Mae 5G yn mynd i alluogi ymhellach mwy o fand llydan, mynediad di-wifr band llydan, datblygiadau IoT ('the Internet of things'), y gallu i weithredu o bell, cynhyrchu effeithiol a rhwydwaith gydweithredol. Mae'r rhain oll yn mynd i fod yn hanfodol i ddatblygiad ein economi ynghyd ag i'n bywydau personol bob dydd. Mae 5G hefyd yn golygu mwy o ddata a mwy o ddyfeisiau ac ymateb cyflymach.

Gall Cymru ddim fforddio cael ei gadael ar ôl a gallwn ni ddim fforddio gadael hyn yn nwylo neb arall ond yn ein dwylo ni.

Mae'r penderfyniadau fel pwy fydd yn cael y sbectrwm a ble bydd y sbectrwm yn eistedd, ble fydd yr isadeiledd yn cael ei osod, beth fydd targed cyrhaeddiad argaeledd y dechnoleg ddiweddaraf, ac yn wir pwy fydd y cwmnïau fydd yn gyfrifol am hyn, oll yn cael eu gwneud ar hyn o bryd gan Lywodraeth Lloegr ac Ofcom. Ac o edrych ar ddogfennau cyfredol ac hanesyddol, nid Cwmtwrch na Thalylychau fydd ar frig blaenoriaethau y rheiny.

Wrth i ni wella mynediad i'r we bydd angen sicrhau hefyd bod ein holl ddyfeisiadau yn 'siarad' Cymraeg er mwyn gallu sicrhau ein bod oll, wrth i ni anelu at Gymru Gymraeg, yn medru defnyddio'r Gymraeg yn y cartref ac yn y gwaith. Mae normaleiddio hynny yn hanfodol wrth anelu tuag at y miliwn o siaradwyr (a defnyddwyr) yr iaith.

Yr Atebion

Mae targedau sydd yn cael eu gosod gan Lywodraeth San Steffan ar gyfer cyrhaeddiad y we, yn hanesyddol, wedi cael eu pennu yn ôl canran holl boblogaeth / anheddau y 'Deyrnas Gyfunol', yn hytrach na fesul gwlad oddi fewn i ynysoedd Prydain. Meddir cyrraedd y targedau hyn wrth ddarparu ar gyfer dinasoedd a threfi Lloegr yn unig, ac ambell i un yng Nghymru efallai, a chyrraedd y targed, gan olygu nad yw Cymru yn elwa o'r targedau hyn o gwbl. Mae'r dull hwn ynddo ei hun, yn ein barn ni, yn afiach gan ei fod yn ddull sydd, nid yn unig, yn gwahaniaethu yn erbyn pobl sydd yn dymuno creu eu cartrefi a sefydlu eu busnesau yn yr ardaloedd mwy gwledig, ond hefyd yn gwahaniaethu yn erbyn rhai o'r gwledydd oddi mewn i'r wladwriaeth. Credwn fod iechyd cefn gwlad unrhyw wlad, a'r parch sydd yn cael ei ddangos tuag ato yn hanfodol i lwyddiant bob cwr o wlad waraidd. Drwy ddatganoli darlledu gellid sefydlu system llawer mwy addas parthed cyrhaeddiad y we.

Mae'n allweddol bod dewis gan bobol Cymru i aros yn eu cymunedau ac i allu rhedeg eu busnesau o'r fan honno. Mae'n allweddol nad yw rheoliadau a pholisïau llywodraeth ganolog yn cyfrannu tuag at dlodi a difreintedd. Ac felly, mae'n dilyn ei bod yn hanfodol bod Cymru yn gallu gosod ei rheolau ei hun yn y maes hwn. Er enghraifft, pan gyflwynodd Llywodraeth San Steffan gyfleon i gwmnïau ymgeisio am dendr 3G, y cytundeb oedd ymgeisio am tua 70% o'r gwasanaeth yn hytrach na, dyweder, 99% ohono fel a wnaethpwyd yn Sweden. Ond y gwahaniaeth oedd mai mond £100,000 ddaeth nôl i Drysorlys Sweden, gyda £2.3 biliwn yn dod nôl i Drysorlys San Steffan, drwy werthu'r sbectrwm. Roedd hyn oherwydd y gwahaniaeth yn natur y gofynion a roddwyd i gwmnïau 'fidio' amdanynt gan San Steffan o'i gymharu â gofynion Sweden, a

oedd llawer mwy uchelgeisiol a chyfartal. Felly arweiniodd hyn at ddarpariaeth gwe gwell a thecach yn Sweden. Mae rhai gwledydd yn dewis gwneud fel y gwnaeth y Deyrnas Unedig ac yn gosod targed isel iawn, ond yn rhoi'r arian sydd yn dod nôl i'r Trysorlys i gyd mewn pot ac yn ei bridianu yn benodol ar gyfer gwella'r we mewn ardaloedd gwledig a difreintiedig. Mae rhai gwledydd yn gwneud fel mae Sweden yn ei wneud, gwledydd eraill yn gwneud cyfuniad o'r ddau. Mae angen i Gymru gael y pŵer i allu llunio ei gweledigaeth ei hun parthed hyn, yn ôl anghenion ein gwlad a'n pobol. I wireddu hyn mae angen i bŵer rheoleiddio ym maes y we gael ei ddatganoli i Gymru. Byddai awdurdod Gymreig hefyd yn gallu hybu'r Gymraeg mewn technoleg newydd fel Alexa a phodlediadau er mwyn sicrhau defnydd yr iaith Gymraeg.

3. Radio Lleol

Y Sefyllfa

Yn hanesyddol mae radio lleol wedi bod yn wasanaeth pwysig iawn i gymunedau ac yn le pwysig i fagu sgiliau, yn bennaf oherwydd ei natur unigryw lleol. Ta waeth, gyda symud i ffwrdd yn llwyr wrth hynny, dydy hyn ddim bellach yn wir.

Gallasai'r gorsafoedd lleol hyn fod wedi cynnig cymaint mwy yn ystod cyfnod Coronofeirws, gallasent fod wedi bod yn wasanaeth amhrisiadwy – yn cynnig gwybodaeth gywir leol parthed rheolau'r feirws, yn cynnig trafodaeth leol ac hefyd yn cynnig y gwmniaeth gyda'r hunaniaeth leol hynny y mae cymaint o bobol wedi bod yn ei erfyn yn ystod y cyfnod hwn.

Tybiwn ei bod yn hollol deg i ddweud fod Cymru wedi colli'i llais ar radio yng Nghymru.

Ac wedi colli'r Gymraeg bron yn llwyr. Ac mae'r rheswm am hyn yn llwyr oherwydd rheoliadau diffygiol ac annigonol Ofcom. Yn 1998 roedd yna chwech gorsaf radio masnachol yn darlledu rhaglenni Cymraeg. Dim ond dau sydd yn gwneud hynny erbyn hyn – Capital Cymru a Sain Abertawe. Mae Cymru wedi colli dros 50 awr Cymru wedi colli dros 50 awr o raglenni Cymraeg yr wythnos ers 1998.

Mae Ofcom yn Llundain wedi sicrhau dinistrio gwasanaeth masnachol Cymraeg drwy eu polisi i gloi radio masnachol lleol. Hynny yw, y ffaith mai polisi Ofcom (a Llywodraeth Llundain) yw rhoi caniatâd i gwmnïau fel Global Radio i gloi brandiau masnachol lleol fel yr hen Champion FM neu Red Dragon Radio a'u troi nhw mewn i rwydwaith radio Prydeinig fel Heart FM neu Capital FM gyda'r rhan fwyaf o'u rhaglenni yn darlledu o stiwdios Llundain.

Yr Atebion

Byddai awdurdod Gymreig yn gallu trawsnewid hyn ac agor tonfeydd newydd ar gyfer gwasanaethau Cymraeg.

Mi fyddai hefyd yn bosibl, ar ôl datganoli darlledu, i newid rheolau masnachol i sicrhau arian hysbysebu ar gyfer radio cymunedol. Ar hyn o bryd, mae gorsafoedd cymunedol dan reolaethau llym parthed faint o arian maen nhw'n gallu creu trwy hysbysebion (o achos fod cwmnïau masnachol yn cwyno am hyn).

Byddai rheoleiddwyr Cymreig yn gallu sicrhau rheoliadau sydd yn gwarchod natur leol ein radio lleol, a theledu lleol o ran hynny, gan alluogi y gorsafoedd hyn i chwarae eu rhan yn y broses ddemocrataidd ac adloniannol. Byddai rheoleiddwyr Cymreig hefyd yn sylweddoli gwerth y Gymraeg i gymunedau'r genedl ac i'r naws leol honno sydd yn ganolog i'r gwasanaethau hyn, ac yn gallu rheoleiddio yn unol â hynny.

Wrth ddatblygu rheoliadau yn y maes hwn rhaid edrych ar fodelau newydd, hybrid o rwydweithiau sydd wedi'u cysylltu i wasanaeth newyddion annibynnol Gymreig.

4. Sefydlu Endid Creu Cynnwys

Y Sefyllfa

Mae cyfnod Coronafeirws wedi amlygu a phwysleisio nifer o bethau am y maes cyfathrebu a chyfryngau yng Nghymru o ran cynnwys. Dyma rai ohonynt.

Cymru Ar-lein

Wrth i fwy ohonom ddefnyddio fwyfwy o dechnoleg, mae diffyg cynnwys Cymraeg a Chymreig ar-lein yn boenus o amlwg – efallai yn fwy na dim, deunydd ar gyfer ein plant a phobl ifanc. Ac yn arbennig felly plant a phobl ifanc o gefndiroedd llai breintiedig.

Yn ogystal â hyn mae perygl gwirioneddol fod yr ychydig iawn o ddeunydd ar-lein sydd ar gael yn Gymraeg ddim yn cyrraedd y bobl hynny nad sydd yn dod o gefndiroedd Cymraeg eu hiaith. Arwain hyn at fwlch pellach rhwng y rhai hynny sydd â'r sgil ieithyddol honno a'r rhai sydd hebddo. Ar y llaw arall mae'r dewis mor brin yn y Gymraeg mae plant o deuluoedd Cymraeg hefyd yn dueddol o droi at ddeunydd Eingl-Americanaidd ac yn tybio nad yw'r Gymraeg yn perthyn i'w byd nhw nac i fyd y dyfodol. Mae effaith hyn yn bellgyrhaeddol yn wir.

Newyddiaduraeth Ymchwiliadol Cymru

Mae'r angen am newyddiaduraeth ymchwiliadol Gymreig wedi dod yn amlycach.

Mae graddfa adrodd newyddion a ffeithiau nad sydd yn wir am Gymru, ar bob platfform, wedi cael ei bwysleisio ac mae'r angen dybryd am fwy o graffu ar yr hyn sy'n digwydd yn ein Senedd wedi'i amlygu ymhellach. Er bod rhai tudalennau newyddion ar rhai platfformau yn gwneud y gwaith hwn, prin ydyn nhw ac yn bendant nid oes yn agos i fod digon yn y cyfryngau prif ffrwd.

Rydym yn croesawu 'AM', dan nawdd Cymru Greadigol, fel platfform sy'n gartref, ymhlith pethau eraill, i'n podlediadau. Heb anghofio wrth gwrs mentrau unigolion fel ypod.cymru. Croesawn hyrwyddiad pellach ohonynt.

Ond beth am blatfform i bodlediadau Cymreig Saesneg eu hiaith?

Llwm iawn yw'r arlwy ymchwiliadol sydd yn mynd o dan groen ein gwleidyddiaeth yma yng Nghymru ac mae'r ychydig drafodaeth wleidyddol Gymreig sydd i gael wedi'u cyfyngu i raglenni penodol ar amseroedd penodol. Mae gwleidyddiaeth Gymreig yn golledig i ran fwyaf ein poblogaeth yma yng Nghymru, yn yr iaith Gymraeg ac yn yr iaith Saesneg. Dydy cwestiynu adeiladol ddim yn ganolog i bopeth yn ein cyfryngau a'n cyfathrebiadau, fel y dylasai fod.

Er mwyn sicrhau gwireddu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol rhaid i gwestiynu gwleidyddol fod yn gynhwysol yn ein holl gyfathrebiadau a dim yn ystyriaethau atodol ac ymylol.

Prin iawn yw ein rhaglenni dogfen Cymreig a'n rhaglenni craffu Cymreig ac mae'r ychydig sydd yn bodoli wedi'u boddi ynghanol llif o ddeunydd Seisnig nad sydd hyd yn oed yn ymwybodol o'n bodolaeth fel cenedl, nac sydd ag unrhyw ddiddordeb ynddi.

Mae hyn yn warth ar ein democratiaeth ac mae hi'n warth nad oes dim wedi ei wneud cyn nawr i fynd i'r afael â hyn. Ond ni phoener, gwell hwyr nag hwyrach. Dyma'r awr.

Cynyddu Nifer o Sianeli a Gorsafoedd Cenedlaethol

Gellir dweud mai un o'r rhesymau am y diffyg amrywiaeth yn ein rhaglenni yw mai dim ond un sianel radio genedlaethol Saesneg 'Gymreig' sydd gennym, a llai na hanner sianel deledu Saesneg 'Gymreig'. Mae un sianel radio Gymraeg genedlaethol, (mae sianel Radio Cymru 2 hefyd yn cynnig peth amrywiaeth, sianel y BBC yw hon hefyd) ac

un sianel deledu genedlaethol Gymraeg. Mae hyn yn gwneud cam enfawr â'r genedl. Rhaid i'r sianeli hynny fod yn bopeth i bawb. Ac nid yw hynny yn bosibl. Rhaid sefydlu mwy o sianeli Cymreig ar frys gyda chynulleidfaoedd targed penodol.

Efallai bod gwerth nodi yma hefyd fod iPlayer yn cynnwys BBC Scotland ynghyd ag S4C ac Alba. Ond does dim sôn am BBC Wales.

Nodwn yma hefyd fod enghreifftiau lu ar lawr gwlad o weithwyr o'r BBC yn Lloegr (nad sydd â chysylltiad na gwybodaeth am Gymru) yn dod i ddweud wrth y BBC yng Nghymru sut i wneud eu gwaith. Rhaid i ni gofio mai sefydliad Lloegr yn y bôn yw'r BBC ac mae ganddynt fonopoli dros ein holl newyddion 'Cenedlaethol', yn Saesneg ac yn Gymraeg, ar ein setiau radio a theledu.

Nodwn yma bod S4C wrthi'n creu egin wasanaeth newyddion ar-lein, hynny yw, gwasanaeth newyddion nad yw'n dod gan y BBC nac ITV a bod hyn i'w groesawu. Cam bach cyntaf yw hwn ond mae'n gam i gynnig ffynhonnell newyddion sy'n cynnig peth lluosogrwydd. Ac o ystyried llwyddiant Hansh, mae yna blatfform yna'n barod sy'n denu pobol iau tuag at y cynnwys, felly dyma gyfle i'w denu nhw at gynnwys newyddion. Nodwn fod hyn yn digwydd nid o herwydd polisiâu a rheoliadau presennol, ond er eu gwaethaf.

Mae gennym fwy na digon o allu yng Nghymru i gynhyrchu ar gyfer, dyweder tair sianel deledu genedlaethol Gymraeg a thair sianel deledu genedlaethol Saesneg eu hiaith a thair gorsaf radio genedlaethol Gymraeg a thair gorsaf radio genedlaethol Saesneg.

Mae S4C ei hun yn destament o'r hyn y gallwn ei gynhyrchu a pha mor gyflym a chreadigol all y diwydiant addasu, mae cynnyrch S4C y cyfnod Coronafeirws wedi dangos hynny.

Cymrwn S4C fel enghraifft yn unig, gan mai dyma'r unig sianel genedlaethol sydd gennym ar y teledu ac ar y radio, mewn unrhyw iaith, nad sydd yn dod dan y British Broadcasting Corporation o ran ei hannibyniaeth golygyddol, er bod lle i ddadlau bod hyd yn oed hynny dan fygythiad parhaus.

Ar hyn o bryd mae cannoedd o bobol sydd â'r sgiliau i weithio yn y maes hwn wedi gorfod croesi Clawdd Offa a thu hwnt i chwilio am waith.

Yn ogystal â hyn mae cannoedd yn fwy o bobol sydd â'r galluoedd a'r sgiliau i weithio yn y diwydiant hwn ond nad sydd yn gweithio yn y sector o gwbl ar hyn o bryd.

Mae'r gallu a'r sgiliau a'r angen yma. Dydy'r cyfleon ddim.

Gall yr Endid Creu Cynnwys adnabod yr anghenion ddaw gyda'r datblygiadau hyn a magu ac adeiladu ar y sgiliau, y talentau a'r diddordeb sydd eisoes yma. Yn syml iawn, creu gwaith.

Byddai bod yn flaengar yn y maes hwn yn ddatblygiad anferth i'n economi tra ar yr un pryd yn gwarchod ac yn datblygu ein democratiaeth, ein hygyrdedd a'n hyfywedd fel cenedl. Buddsoddiad a fyddai'n talu ar ei ganfed yn wir.

Economi

Mae dirfawr angen syniadau a buddsoddiadau newydd o ran ein economi cynaliadwy, ble mae llwybrau gyrfaol cryf, y tâl yn dda a'r swyddi yn rhai parhaol. Mae angen buddsoddiadau a sgysiau mwy creadigol a chynaliadwy am ein economi ac mae'r diwydiant cyfryngau a chyfathrebu yn cynnig rhan o'r ateb i'r pair hwnnw. Gall y diwydiant hwn fod yn ddiwydiant cynaliadwy ymhob ffordd, gan gynnwys un sydd yn parchu ac yn datblygu diwylliant a iaith Cymru a'r economi ar draws bob cwr o'r wlad.

Yr Atebion

Mae Coronafeirws wedi amlygu diffygion a chyfleon ac mae hyn wedi rhoi'r cyfle i ni graffu, nid yn unig ar ein rheoliadau, ein strwythurau a'n platfformau, ond hefyd ar y sgiliau sydd gennym yng Nghymru i wireddu ein nod a sicrhau gwlad ddemocrataidd sydd yn gwneud y mwyaf o'r diwydiant cyfathrebu a chyfryngol er mwyn ein hiaith, ein diwylliant a'n byd-olwg ac hefyd er mwyn ein economi.

Mae'r rhan hwn o'r dystiolaeth yn cynnig ffordd ymlaen o sut allai ran o strwythur y diwydiant cyfryngol a chyfathrebu gyfrannu yn ddiwylliannol ac economaidd i'n cenedl wrth ddatblygu cynnwys. Byddai datganoli pwerau darlledu i'n gwlad yn angenrheidiol i wireddu'r oll o'r rhain, er mwyn gallu eu hariannu wrth gwrs, ond wrth fod y broses honno yn mynd yn ei blaen, mae angen edrych beth gellir wneud nawr i fynd i'r afael â'r heriau, gan gydnabod yr argyfwng.

Credwn y byddai Endid Creu Cynnwys yn gam gwych ymlaen.

Rydym yn cynnig felly fod endid yn gorwedd oddi mewn i'r corff rheoleiddio, y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol, fyddai â chyfrifoldeb dros sicrhau ein bod yn gallu cynhyrchu'r cynnwys gorau, ym mhob maes cyfathrebu, i gefnogi ein dyheadau diwylliannol, democrataidd ac economaidd.

Byddai adrannau oddi mewn i'r endid hwn yn gyfrifol am wahanol feysydd, a gall yr adrannau hynny fod yn hyblyg o ran creu adrannau newydd yn ôl y galw neu diddymu rhai os yw'r galw wedi'i ddiwallu.

Byddai'r adrannau hyn, yn ddechreuol, yn edrych ar yr angen ac ar beth sydd ar gael yn bresennol i ddiwallu'r angen, i alluogi cynnwys. Byddant wedyn yn penderfynu os oes angen camau pellach i ddiwallu angen, nad yw yn ddigonol ar hyn o bryd i greu cynnwys digon safonol, digon amrywiol a digon niferus.

Byddant yn penderfynu ar y ffordd ymlaen gyda chynlluniau clir ac yn bwrw ati.

Byddai'r adrannau yn hyrwyddo eu gwaith yn ddwys ac yn effeithiol i gynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd. Mae'n holl bwysig bod cynwysoldeb yn ganolog i weledigaeth yr endid.

Adrannau posibl oddi mewn i'r Endid Creu Cynnwys fyddai:

- Adran Cynnwys Cymraeg Ar-lein

Byddai'r Adran Cynnwys Cymraeg Ar-lein yn ymchwilio i'r ffyrdd gorau i greu mwy o gynnwys Cymraeg o bob math ar lein, ac yn galluogi hynny. Byddant hefyd yn ymchwilio i'r platfformau sydd eisoes yn bodoli, neu i'r angen i greu platfformau newydd yn gartref i'r cynnwys hyn ac yn galluogi hynny. Byddai angen i'r adran ystyried y ffordd mwyaf effeithiol o gyrraedd cynulleidfaoedd, ac mae hynny yn cynnwys cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd, ac os mai trwy greu platfformau newydd fydd yr ateb gorau yna'r adran hon fyddai'n gyfrifol am greu y rheiny a'u hyrwyddo. Mae nifer fawr o bobol yng Nghymru eisoes yn arbenigwyr yn y maes hwn. Byddai'r adran hon yn gyfrifol am sicrhau cydweithio a'r angen i ddod at ein gilydd i sicrhau llwyddiant ac effeithiolrwydd.

- Adran Newyddiaduraeth

Byddai'r Adran Newyddiaduraeth yn edrych ar newyddiaduraeth yng Nghymru o ran ansawdd a lluosogrwydd. Gall yr Adran hon, er enghraifft, fod yn gyfrifol am sefydlu cyrsiau a phrentisiaethau pellach os y gwelir fod safon newyddiadurwyr ymchwiliadol yn wan yng Nghymru neu nad oes digon ohonynt.

Yr adran hon hefyd fyddai'n sicrhau bod yr arfer o gwestiynu yn digwydd ar draws pob genre o raglenni.

Bydd modd ystyried a all unrhyw ariannu newyddion annibynnol, sydd yn derbyn arian cyhoeddus, brintiedig neu ar lein gael ei ariannu drwy'r adran hon.

Oddi mewn i'r adran hon hefyd byddai modd cartrefu y ganolfan newyddion a fyddai yn darparu newyddion i'n gorsafoedd radio a theledu lleol a chymunedol.

- Adran Cynnwys sy'n Gywir

Byddai'r Adran Cynnwys sy'n Gywir yn gyfrifol am sicrhau bod platfformau sydd yn adrodd newyddion yng Nghymru yn ffeithiol gywir a ddim yn camarwain cynulleidfaoedd. Byddai hefyd yn sicrhau bod rhaglenni yng Nghymru ac am Gymru yn gynrychioliadol o Gymru ac yn cynnwys yr ongl a'r ffenestr Gymreig. Bydd angen i'r adran ddod o hyd i ffyrdd o gydweithio yn rhagweithiol â chwmnïau cynhyrchu.

- Adran Technegwyr

Byddai'r adran hon yn edrych ar yr angen yng Nghymru ym maes cyfathrebu ac yn sicrhau bod y gweithlu yng Nghymru wedi'i gynllunio i ateb yr alwad hon gan gydweithio â'r adrannau perthnasol i sicrhau hyn.

- Adran Sgriptio

Byddai'r adran hon yn magu cenedlaethau o sgriptwyr talentog o bob math a fyddai yn gallu cyfrannu i greu cynnwys Cymreig ar bob mathau o blatfformau.

- Adran Darparu Adnoddau

Byddai'r Adran hon yn y lle cyntaf yn edrych ar argaeledd stiwdios bychain ac isadeiledd cynhyrchu ar draws Cymru ac yn gyfrifol am sefydlu (ac yna rhedeg) isadeiledd o'r fath, yn ôl y galw, yn ein cymunedau ym mhob cwr o'r wlad. Byddai'r isadeiledd hyn ar gael am ddim, neu o leiaf yn rhad ar gyfer galluogi pobl Cymru,

ein cymunedau a chwmnïau bychain Cymru i greu deunydd ar lawr gwlad i'w ddarlledu ar amrywiol blatfformau.

- Adran Creu i'r Diwydiant

Byddai'r Adran Creu i'r Diwydiant yn rhagweld pa offer – meddalwedd, caledwedd ac adnoddau dynol, fyddai angen ar Gymru a thu hwnt yn y maes cyfathrebu i'r dyfodol. Bydd yr adran yn adrodd i'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol ar yr angen hwn a'r posibiliadau ariannol ynghlwm â'r fenter, ac yna, o brofi ei werth, bwrw ymlaen â'r gwaith o'i greu. Byddai hyn yn golygu bod Cymru yn gallu elwa i'r eithaf yn ariannol o'r diwydiant wrth fod yn flaengar gan edrych i greu a gwerthu offer a chynnyrch i'r diwydiant adref, i wledydd eraill ynnysoedd Prydain ac i'r byd.

Bydd yr Endid Creu Cynnwys yn atebol i'r Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol.

5. Cyllidol

Byddai'n bosibiliad i gostau'r Endid Creu Cynnwys gael ei ariannu gan ardoll y cwmnïau 'mawrion' nad sydd yn talu treth yng Nghymru ar hyn o bryd, er eu bod yn gwneud arian yng Nghymru, er enghraifft Google, Netflix, Facebook ac yn y blaen.

Wedi dweud hyn, byddai'r oll o'r uchod, o fuddsoddi ynddynt, yn datblygu i fod yn fuddsoddiadau a fydd yn cynnal ei hunain o fewn rhai blynyddoedd.

Galwn ar y Pwyllgor hwn a'n Senedd i fwrw ati ar frys i wneud y symiau perthnasol ar hyn. Galwn arnynt hefyd i ymchwilio a chydweithio gyda gwledydd eraill ar draws y byd sydd yn symud i gyflwyno ardollau ar gwmnïau digidol mawrion sy'n gweithredu yn eu gwledydd.

Mae hefyd angen gwneud ymchwil i werth posibl model newydd Gymreig o'r math yr amlinellir yn y papur hwn, i economi y wlad.

Ble mae'r Gymraeg yn y cwestiwn, a'i chyfraniad i'r economi nodwn argymhellion diweddaraf yn Adroddiad Terfynol Marchnad Lafur Cymru:

Argymhelliad 2 - Ymchwil Newydd - Mae ymchwil ar berthynas yr iaith a'r economi yn brin ofnadwy. Gallai ymchwil pellach gryfhau achos gwerth y pwnc fel ffordd o ehangu defnydd y Gymraeg yn ein cymunedau. Mae angen mwy o ddeallusrwydd academiaidd er mwyn medru dylanwadu ar bolisi yn hytrach na dadansoddi ymchwil blaenorol nad yw bellach yn berthnasol. Bydd ymchwil cynhwysfawr ar ddylanwad yr iaith a'r economi yng Nghymru yn medru creu amodau mwy ffafrïol i'r iaith mewn byd busnes a Chymru'n arwain y byd mewn perthynas iaith leiafrifol a'r economi.' (Argymhellion yr Adroddiad Terfynol Marchnad Lafur Cymraeg, 2020).

Nodwn hefyd eu bod yn nodi yn yr adroddiad:

'...wrth geisio datblygu ymyraethau economaidd sydd o fudd i'r Gymraeg. Cred y tîm ymchwil y dylid ystyried y ffactorau allweddol canlynol: 1. Diffyg data a thystiolaeth o'r hyn sydd yn gweithio. Fel a nodwyd, mae cryn gonsensws ynghylch dylanwad prosesau economaidd ar batrymau defnydd a niferoedd siaradwyr Cymraeg. Serch hyn, prin iawn yw'r ymchwil sydd yn dadansoddi a manylu ar effaith newidynnau a phatrymau neu brosesau economaidd ar lefelau bywiogrwydd neu gynaliadwyedd ieithyddol. Ychydig o ddata a gwerthusiadau sydd ar gael ynghylch prosesau economaidd a'u heffaith ieithyddol h.y. nid oes data ynghylch pa fathau o ymyraethau sydd o fudd i'r iaith. Mae prosiectau megis Marchnad Lafur Cymraeg, Arfor a Revitalise yn ogystal ag adolygiad diweddar o'r lenyddiaeth yn cynnig arweiniad ac argymhellion ar gyfer ymchwil pellach...'

Mae angen i'r Pwyllgor hwn, y Senedd a'r Llywodraeth fynd ati i gynnal nifer o astudiaeth dichonoldeb fel man cychwynnol i'r symudiad tuag at ymreolaeth o'r maes cyfathrebu.

6. Ymarferoldeb

Yn ymarferol, mae gweithredu hyn oll yn hollol bosibl, yn dechnegol, fel y gwelir mewn gwledydd ar draws y byd.

Fel sydd yn wir am ymchwilio i'r amrywiol ffyrdd y gellir ariannu 'Yr Atebion' yn y ddogfen hon, mae angen cynnal astudiaethau ac ymchwil i sut y gellir ddechrau'r broses o symud y pwerau yn ôl i Gymru, ac hefyd sut mae sicrhau blaenoriaethu deunydd sy'n berthnasol i Gymru ar ein dyfeisiau.

Dyma un dolen o'r gorffennol, o laweroedd, sydd wedi'u paratoi gan yr IWA. Os yw'r ddogfen hon yn dangos unrhyw beth i ni, mae hi'n dangos ers faint o amser mae'r angen i ddatganoli darlledu wedi cael ei sylweddoli a'i ddadlau.

<https://www.iwa.wales/agenda/2009/03/english-is-a-welsh-language/?lang=cy>

7. CANLYNIAD

Yr hyn sydd angen arnom wrth y Pwyllgor hwn, wrth ein Senedd ac wrth ein Llywodraeth nawr ydy sylweddoliad bod y cwestiwn anghywir yn cael ei ofyn ar hyn o bryd. Nid 'os', ond 'sut' yw'r cwestiwn cywir, a sut i wneud hynny ar frys mawr. Digon ar hyn nawr, dewch i ni ddechrau ar y gwaith o holi'r cwestiynau cywir ac ar lunio ein dyfodol gwell i'r genedl, yn unol â Deddf Llesiant y Dyfodol. Mae'r ddogfen hon, ynghyd â'r dystiolaeth flaenorol a gyflwynwyd i chi wedi dechrau ar y gwaith. Bydd y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol yn parhau â'r gwaith hwn tan bod ein Senedd a'n Llywodraeth yn barod i gydnabod eu cyfrifoldeb.

Cyflwynwn hefyd y clip hwn, fel dystiolaeth bellach, o gyfweiliad gyda dau aelod o Fwrdd y Cyngor Cyfathrebu Cenedlaethol yn esbonio eu haelodaeth:

<https://youtu.be/dCKAdzdrRr0>



Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: Ymateb gan Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru)

Cyflwyniad

Mae Cytûn yn rhychwantu 19 o brif enwadau Cristnogol Cymru. Mae gan yr enwadau hyn dros 150,000 o oedolion sy'n aelodau, a chyswllt agos â miloedd yn rhagor o oedolion, plant a phobl ifainc ymhob cymuned yng Nghymru. Mae yna nifer o fudiadau Cristnogol sy'n aelodau 'Categori B' ac yn cydweithio yn ein gwaith. Gellir gweld rhestr gyflawn o'r aelod enwadau a mudiadau yma:

<https://www.cytun.co.uk/hafan/pwy-ydym-ni/>

Lluniwyd yr ymateb hwn yn dilyn ymgynghori gyda swyddogion priodol ein henwadau a mudiadau, ac ar sail datganiadau a wnaed gan ein haelodau dros y blynyddoedd. Fel y mae'r enw 'Cytûn' yn awgrymu, rydym yn datgan yn enw Cytûn pan fo ein haelodau yn gytûn; ar faterion lle mae yna anghytuno bydd enwadau neu fudiadau unigol yn datgan eu barn eu hunain.

Yn benodol, nid oes cytundeb rhyngom am batrwm cyfansoddiadol dyfodol Cymru, ac felly nid ydym yn ymateb i gwestiwn 6. O'r 1950au ymlaen bu rhai o'n henwadau yn cefnogi sefydlu Senedd i Gymru, ac eraill yn niwtral. Yn 1996 cyhoeddodd Cytûn *Cymru: Cymdeithas Foesol?* a roedd yr adroddiad hwnnw yn dweud fod mwyafrif (ond nid y cyfan) o'r aelod eglwysi ar y pryd o blaid mesur o ddatganoli i Gymru.

Yn refferenda 1997 a 2011 gwelwyd rhai enwadau yn cefnogi pleidlais o blaid newid a'r gweddill yn ddi-duedd; nid oes unrhyw un o'n haelodau wedi gwrthwynebu yn gyhoeddus sefydlu nac ehangu datganoli, ond fe wyddom fod llawer o aelodau unigol yn ein heglwysi wedi pleidleisio yn erbyn, yn yr un modd ag y mae eraill yn frwd o blaid datganoli neu yn cefnogi annibyniaeth.

Yn refferendwm 2016 am aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd, ni wnaeth unrhyw un o'n haelodau ddatganiad ynghylch sut i bleidleisio yn y refferendwm, er i Fainc Esgobion yr Eglwys yng Nghymru gyhoeddi y byddent fel unigolion yn pleidleisio o blaid Aros. Bu unigolion o'n plith yn ymgyrchu ar y ddwy ochr. Wedi'r refferendwm, derbyniodd Cytûn gais gan gynadleddau blynyddol tri o'n haelod enwadau i sefydlu Gweithgor i fynd i'r afael â'r oblygiadau, a mae Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn wedi bod yn weithredol yn y maes oddi ar hynny, yn cynnig gwybodaeth i eglwysi ac yn cyd-weithio ag eraill yn y trydydd sector, ac â mudiadau eglwysig ledled Ewrop.

1. Beth sy'n bwysig i chi o ran sut y caiff Cymru ei rhedeg?

Mae ein holl aelod enwadau a mudiadau wedi ymrwymo i ddulliau democrataidd o lywodraethu gwlad, tra hefyd yn credu ein bod yn derbyn arweiniad am faterion moesol gan Dduw ac nid o reidrwydd trwy bleidlais fwyafrifol. Byddem o hyd, felly, yn arddel safbwynt *Cymru: Cymdeithas Foesol?* yn 1996:

Sut bynnag y beirnedir ei hegwyddorion a'i gwaith, dylid gwerthfawrogi a chryfhau'r gyfundrefn ddemocrataidd sy'n nodweddiadol o'r drefn llywodraeth o fewn Cymru a'r Deyrnas Gyfunol. Mewn egwyddor, mae'n rhoi'r cyfle i ddynion a merched i ddod i rym ac yn caniatáu iddynt gymryd rhan yn eu llywodraeth eu hunain yn lleol, ac o fewn y Deyrnas Unedig... Mae trefn llywodraeth ddemocrataidd yn ceisio cadw tegwch a chytundeb o fewn cymdeithas. Yn draddodiadol, mae democratiaeth wedi cadw cydbwysedd realistig rhwng yr unigolyn a chymuned, rhyddid a threfn, hunan-fudd a lles pawb. ... Fodd bynnag, yn ymarferol, nid yw democratiaeth erioed wedi gwireddu'r egwyddorion hyn yn llawn. Difwynwyd hi gan wrthnysigrwydd yr hil ddynol yn ogystal â'r anghydbwysedd gwastadol o fewn fframwaith cymdeithas. Mae dinasyddion unigol wedi gwangalonni'n aml oherwydd y maent wedi gweld bod grymoedd sefydlog braint wedi camddefnyddio'r broses wleidyddol er budd iddynt hwy. Prin y cyffyrddir â buddiannau breintiedig gan awydd yr etholwyr am newid, tra bo unrhyw welliannau arwynebol sy'n digwydd yn cael eu gor-bwyso gan effeithiau blociau grym sydd wedi eu hen sefydlu gan draddodiad, yn seiliedig naill ai ar ddiddordeb economaidd, dosbarth, adran neu ryw. (pennod 6, para 1.2-1.3).

Yn 2022, fel yn 1996, mae'n bwysig i ni, felly, fod llywodraethiant:

- Yn arddangos gwerthoedd gwirionedd a didwylledd. Rydym yn croesawu'n fawr sylwadau cryf y Comisiwn am hyn ym mhennod 2 yr Adroddiad Interim, ac yn cynnig yn ychwanegol at hynny ddatganiad diweddar gan Gymdeithas y Cyfeillion (y Crynwyr), sy'n aelod o Cytûn, am y materion hyn. **Atodir eu datganiad nhw i'r ymateb hwn** fel enghraifft o sut y credwn y dylai'r gwerthoedd hyn ymdreiddio i lywodraethiant ar bob lefel. Nid oes comisiwn ar gyfer safonau mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru, dim ond comisiynydd safonau'r Senedd. Gallai cael comisiwn ar safonau mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru helpu i gynnal a datblygu hyder y cyhoedd yn y llywodraeth.
- Yn agored ac yn dryloyw, ac yn gwneud ymdrech i ymgysylltu â dinasyddion, yn enwedig ar faterion lle mae yna anghytundeb dwys. Rydym yn gefnogol i'r 'pum ffordd o weithio' yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn awyddus i'w gweld yn cael eu gweithredu yn llawn. Y pump ffordd yw: meddwl yn hirdymor; atal problemau; integreiddio penderfyniadau; cydweithio; a chynnwys pobl. Hoffai rhai o'n haelodau hefyd i'r Comisiwn wneud argymhellion ynghylch hybu tryloywder lobïo yng Nghymru.
- Yn ddealladwy ac yn hygyrch i ddinasyddion cyffredin. Po fwyaf cymhleth y mae'r dull o lywodraethu, po anoddaf fydd hi i gynnwys pobl yn y broses o benderfynu. Mae cwestiynau mawr ein hoes (megis yr argyfyngau hinsawdd a bioamrywiaeth, neu atal rhagfarn ac anghydraddoldeb) yn gofyn am weithredu ar bob lefel o lywodraeth a chan bob adran o'r llywodraeth, yn ogystal â chan gymdeithas sifil. Rhaid felly i lywodraeth alluogi pobl i gyfrannu yn y man a'r ffordd sydd orau iddynt hwy, yn hytrach na dweud 'Ewch i ran arall o'r llywodraeth'.
- Yn ymateb i gyfeiriad cymdeithas, heb o reidrwydd ceisio ei lywio. Yn ystod wythnosau cynnar pandemig 2020, gwelwyd mudiadau llawr gwlad yn cynnig cymorth i'w cymunedau heb unrhyw gymorth gan ffurf-lywodraethau argyfwng swyddogol. Ar y cyfan gwerthfawrogwyd hyn gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru, ond gwelwyd sawl ymgais i geisio rheoli'r mudiadau llawr gwlad hyn yn hytrach na dysgu oddi wrthynt.
- Yn atebol i'r cyhoedd. Mae hyn yn golygu fod angen iddi fod yn glir pwy sydd wedi gwneud penderfyniad penodol, a sut y gellid felly ymgyrchu i'w newid. Roedd yr angen hwn am atebolrwydd democrataidd yn un o gonglfeini yr ymgyrch i ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, a dylid parchu dymuniad yr etholwyr i gael trefn gyfansoddiadol sy'n caniatáu hyn.

2. Yn eich barn chi, beth ddylai blaenoriaethau y Comisiwn fod?

Deallwn fod dyletswydd ar y Comisiwn i gyflwyno rhai argymhellion am ddyfodol cyfansoddiadol, ond credwn y dylai hyn fod o fewn cyd-destun argymhellion am y materion a grybwyllir yn Cn 1 uchod, yn hytrach na cheisio dychmygu patrwm cyfansoddiadol haniaethol i Gymru. Croesawn, felly, Bennod 2 yr Adroddiad Interim, a phwyswn am weld y gwerthoedd a amlygir yno yn ymdreiddio'n ddyfnach i weddill yr adroddiad terfynol.

3. Wrth ystyried sut y caiff Cymru ei llywodraethu, gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, beth yw cryfderau'r drefn bresennol, pa agweddau sy'n fwyaf gwerthfawr i chi ac yr hoffech eu hamddiffyn? A allwch roi enghreifftiau?

- Yn y meysydd datganoledig, mae Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru wedi datblygu llwybrau hygyrch i gymdeithas sifil – gan gynnwys eglwysi – gael mynediad at weinidogion y Llywodraeth, gweision sifil, ASau a staff y Senedd, trwy strwythurau ffurfiol megis Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector a'r Fforwm Cymunedau Ffydd, a thrwy barodrwydd yn aml i ymateb i geisiadau am ymwneud llai ffurfiol. Fe dalodd hynny ar ei ganfed yn ystod cyfnod Covid-19, pan oedd cydberthynas iach eisoes yn bodoli rhwng Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr eglwysi a chymunedau ffydd Cymru, a'r trydydd sector ehangach, a llwyddwyd i ddefnyddio'r rhain i sicrhau ymgynghori dwys ac aml wrth i'r sefyllfa newid.
- Mae Llywodraeth Cymru yn gallu darparu pont ddefnyddiol a hygyrch i gymdeithas sifil Cymru ymgysylltu â Llywodraeth y DU. Er enghraifft, wrth i Lywodraeth y DU baratoi a gweithredu Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i ddinasyddion Ewropeaidd fe gynullodd Llywodraeth Cymru

banel o gynrychiolwyr y sector gwirfoddol (gan gynnwys Cytûn) a'r Swyddfa Gartref i gyd-drafod y cynllun, sut oedd yn gweithio, a sut i gyrraedd pobl allai golli allan o'i herwydd. Mae hyn yn effeithiol iawn pan yn ymgysylltu â materion, megis y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog, lle bo anghenion Cymru yn rhan fach o ystyriaethau Llywodraeth y DU drwyddi draw.

- Bu Cytûn yn rhan o greu partneriaeth hynod effeithiol rhwng y ddwy lywodraeth trwy [Bartneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru](#) dros nifer o flynyddoedd. Dygodd y bartneriaeth hon ffrwyth yn nhermau cynnig ystyr i ddynodi Cymru fel Cenedl Noddfa gan Lywodraeth Cymru. Gan weithio gyda llun a bartneriaid, yn arbennig Alltudion ar Waith (Displaced People in Action), cafwyd cynlluniau arloesol fel y prosiect WARD sy'n hyfforddi ffoaduriaid sy'n feddygon. Cafwyd modd i leddfu rhai o'r anawsterau posib yn achos lleoli ceiswyr lloches ym Mhen Alun ym Mhenfro. Gan weithio gyda Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU a phartneriaethau eraill cwblhawyd gwaith arloesol yn achos croesawu ffoaduriaid o Afghanistan a'r Wcraïn gan wneud cynlluniau Uwch Noddwyr Llywodraeth Cymru yn bosib.

4. A oes unrhyw broblemau gyda'r drefn bresennol? Os oes, sut y gellid mynd i'r afael â nhw? Rhowch enghreifftiau os gwelwch yn dda.

- Mae newidiadau parhaus yn y ffin rhwng materion datganoledig a materion wedi'u cadw i San Steffan yn creu dryswch ac ansicrwydd i fudiadau ac i ddinasyddion. Mae peth o'r deddfu yn San Steffan yn dilyn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd yn cynllunio'n fwriadus ar gyfer newidiadau o'r fath.
Er enghraifft, mae Deddf Marchnad Fewnol y DU yn caniatáu i Senedd y DU ddeddfu dros Loegr yn unig, ond effeithio ar Gymru heb unrhyw broses cydsyniad gan Senedd Cymru. Mae par. 16 y [Memorandwm Esboniadol](#) ar gyfer Bil Technoleg Genetig 2022-23 yn dweud: *The mutual recognition principle in the United Kingdom Internal Market (UKIM) Act 2020 will apply to precision bred plants and animals, and food and feed derived from them, which are produced in or imported into England, meaning that it would be possible to place them legally on the market in Scotland and Wales if they can be marketed lawfully in England as a result of this Bill and the delegated legislation to be made under it.* Os daw hyn yn arferol, bydd y ffin rhwng materion datganoledig a rhai wedi'u cadw yn ôl yn newid yn rheolaidd, gan godi cwestiynau ynghylch atebolrwydd democrataidd.
- Mae nifer o ddeddfau a biliau eraill yn San Steffan yn caniatáu i Ysgrifenyddion Gwladol y DU wneud is-ddeddfau mewn meysydd datganoledig, megis [Bil Protocol Gogledd Iwerddon 2022-23](#), [Bil Masnach \(Awstralia a Seland Newydd 2022-23\)](#), [Bil Caffael 2022-23](#) ac – yn fwyaf arbennig – [Bil Cyfraith yr UE a ddargedwir \(Diddymu a Diwygio\) 2022-23](#). Mae pob bil o'r fath ddaw yn Ddeddf yn cymhlethu cwestiynau atebolrwydd, yn enwedig pan fo'r pwerau yn gydamserol rhwng Ysgrifenyddion Gwladol a Llywodraeth Cymru, gan nad oes modd i'r cyhoedd wybod pa weinidog sy'n debygol o ddefnyddio'r pwerau na pha Senedd fyddai'n craffu ar yr is-ddeddfwriaeth berthnasol. Dwyseir y sefyllfa ymhellach pan weithredir deddfau o'r fath yn groes i bleidlais yn Senedd Cymru yn gwrthod cydsyniad deddfwriaethol.
- Lle bo trafod rhwng y ddwy lywodraeth ynghylch y ffin datganoli trwy'r broses Cydsyniad Deddfwriaethol, y duedd yn aml yw dod i gytundeb na fydd pwerau Gweinidogion y DU mewn meysydd datganoledig yn cael eu defnyddio heb gydsyniad, neu o leiaf ymgynghori â, Gweinidogion Cymru. Mae pob cytundeb o'r fath, er yn parchu'r ffin datganoli, yn cynyddu pwerau Gweinidogion Cymru ar draul pwerau Senedd Cymru, sydd â'r hawl cyfansoddiadol i ddeddfu yn y meysydd hyn. Mae hyn yn pellhau'r cyhoedd o'r man lle y gwneir penderfyniadau, gan na fydd eu haelodau etholedig ynglŷn â'r penderfyniadau dan sylw.
- Yn ogystal â newidiadau cyfansoddiadol, mae cystadleuaeth wleidyddol rhwng y ddwy lywodraeth yn gallu andwyo'r sefyllfa o'r ddeutu. Er enghraifft, mae [datganiad Gweinidog yr Economi yn Llywodraeth Cymru](#) *the Welsh Government will not deploy our own resources to implement UK Government programmes in Wales which we consider to be flawed and undermining of the devolution settlement* yn golygu y gall cymunedau allai elwa o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin golli allan am na fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at gostau cynnal y rhaglenni hyn oherwydd anghytundeb gwleidyddol rhwng y ddwy lywodraeth.

- Nid mater damcaniaethol yw ein pryder am y materion hyn. Credwn eu bod yn llesteirio ymateb effeithiol i'r argyfwng costau byw a chydaddoldeb yng Nghymru – er enghraifft, mae'r ffaith bod arian codi'r gwastad yn cael ei ddsbarthu'n uniongyrchol i rai awdurdodau lleol, gan osgoi Llywodraeth Cymru ac felly'n tanseilio datganoli, yn gwneud cydgysylltu ymdrech a defnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus cyfyngedig yn llawer anoddach. Mae awdurdodau lleol wedi gorfod buddsoddi mewn adnoddau gweinyddol ychwanegol i sefydlu perthynas uniongyrchol â Llywodraeth y DU, yn ogystal â chynnal eu perthynas â Llywodraeth Cymru, sy'n darparu'r rhan fwyaf o'u cyllid.

5. Wrth ystyried Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru (eich cyngor lleol), beth yw eich barn ynglŷn â'r cydbwysedd pŵer a chyfrifoldeb rhwng y tri math o lywodraeth – a yw'n iawn ar y cyfan, neu a ddylai newid, ac os felly, sut? Er enghraifft, pwy ddylai gael mwy o bŵer, neu lai?

Mae Gweithgor Cymru ac Ewrop Cytûn am bwysleisio ein bod yn cefnogi'r egwyddor o sybsidiaredd o ran llywodraethu – hynny yw, y dylai penderfyniadau gael eu gwneud ar y lefel agosaf at bobl ag sy'n bosibl, ac yn benodol gan y bobl a effeithir fwyaf. Mae'r cysyniad hwn yn deillio o ddysgeidiaeth gymdeithasol yr Eglwys Gatholig, ac fe'i crynhoir yn y fideo byr hwn gan ein haelod fudiad, CAFOD: <https://www.youtube.com/watch?v=62I2IHxNz2w>

Byddem felly am ategu yr hyn nodwyd gan *Cymru: Cymdeithas Foeseol?* yn 1996, cyn datganoli, sef y bydd eglwysi lleol yn ymwneud o ddydd i ddydd llawer mwy â'u cyngor lleol nag â Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU. Bydd cymorth a chefnogaeth cyngorwyr ac awdurdodau lleol yn aml yn bwysig i eglwysi wrth lansio prosiectau cymunedol, a chydawyddogion llywodraeth leol y byddant yn trafod materion megis tystysgrifau hylendid bwyd, cofrestru cyfleusterau gofal plant, caniatâd cynllunio ac adeiladau rhestredig, cyd-lynu â gwasanaethau statudol ynghylch banciau bwyd ac ati. Yn aml mae gwasanaethau addysg oedolion a gwasanaethau cymdeithasol yn defnyddio adeiladau eglwysig ar gyfer dosbarthiadau, clybiau i ofalwyr, cyfleusterau dydd anffurfiol, ac ati. Mae gan lawer o eglwysi gysylltiadau byw ag ysgolion lleol a gynhelir gan yr awdurdod lleol. Byddant hefyd yn ymwneud ag awdurdodau rhanbarthol, megis awdurdodau tân ynghylch diogelwch tân yn eu hadeiladau, a Byrddau Iechyd Lleol ynghylch gwasanaethau caplaniaeth a gwirfoddoli gan aelodau. Yn yr ardaloedd hynny sydd â chynghorau cymuned, dyma'r lefel y bydd aelodau eglwysig yn aml yn fwyaf ymwybodol ohoni (ac yn debycaf o wasanaethu fel aelodau arni).

Canlyniad hyn yw y gall Llywodraeth Cymru ymddangos yn bellennig, gan mai trwy lywodraeth leol ac awdurdodau rhanbarthol y darperir cymaint o'r gwasanaethau a ariennir gan y Llywodraeth. Mae eglwysi lleol yn aml yn mynegi rhwystredigaeth fod cyngorwyr lleol a swyddogion lleol neu ranbarthol yn gweithredu rheoliadau ac yn defnyddio cyllidebau a bennwyd ar lefel Llywodraeth Cymru neu San Steffan, a bod ymdeimlad bod y sawl sy'n gwneud y penderfyniadau cenedlaethol yn methu â deall y realiti lleol i swyddogion a'r cyhoedd.

Credwn nad newid y cydbwysedd damcaniaethol o ran 'pwerau' rhwng y gwahanol lefelau yw'r ffordd i wella hyn, ond yn hytrach gweithredu'n llawnach y pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr holl gyrff a rychwentir gan y Ddeddf. Byddai integreiddio a chydweithredu wrth lunio polisi yn help mawr i'r cyhoedd hefyd allu deall beth sy'n digwydd a chyfrannu yn adeiladol at wella polisiâu a deilliannau.

7. Drwyddi draw, beth sy'n fwyaf pwysig i chi am sut y dylid llywodraethu Cymru yn y dyfodol? A oes unrhyw beth arall yr hoffech ddweud wrthym?

Yr hyn sydd ei angen yw llywodraethu da, agored, tryloyw a democrataidd, gyda llwybrau hygyrch i'r cyhoedd allu cysylltu ag aelodau etholedig, a thrwyddyn nhw â'r bobl sy'n gyfrifol am lunio polisiâu cyn i benderfyniadau terfynol gael eu gwneud.

Wrth ymateb i'r cwestiynau hyn, byddem yn croesawu eich barn ar sut y gallai'r ffurfiau llywodraethu presennol, ac unrhyw gynigion i newid ffurfiau llywodraethu yn y dyfodol, effeithio ar y Gymraeg.

Mae llawer o'n haelod enwadau a mudiadau yn gweithredu yn rhannol neu yn gyfangwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae rhai ohonynt (megis Cyngor Ysgolion Sul Cymru) wedi eu sefydlu yn unswydd er mwyn hybu gwaith Cristnogol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bu cyfieithu'r Llyfr Gweddi Gyffredin a'r Beibl i'r Gymraeg yn yr 16eg ganrif yn hanfodol i barhad yr iaith a'i datblygiad fel iaith llenyddol. Mae capeli Anghydfurfiol Cymraeg wedi bod yn greiddiol i ddiwylliant Cymraeg Cymru ers yr ail ganrif ar bymtheg, a hefyd wedi rhoi i'w haelodau brofiad o lywodraethiant ar batrwm democrataidd gyda'r holl aelodau, yn ddynion a merched, yn ethol swyddogion ac yn cyfrannu mewn cyfarfodydd eglwysig ymhell cyn iddynt gael yr etholfraint seciwlar.

Mae Llywodraeth a Senedd Cymru ar y cyfan yn gweithredu'n ddwyieithog ac felly yn hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Serch hynny, ein profiad o gymryd rhan mewn gwaith polisi yw bod llawer o'r gwaith cynnar yn cael ei wneud yn y Saesneg yn unig, ac wedyn ceir cyfieithu ar ddiwedd y broses. Nid yw hyn gyfystyr â gweithio'n drwyadl ddwyieithog, ac fe welir canlyniadau hyn o dro i dro pan gyfieithir dogfennau. Er enghraifft, mewn un ddogfen ymgynghorol am addysg grefyddol mewn ysgolion fe soniodd y ddogfen Saesneg am "a pluralistic education" a'r ddogfen Gymraeg am "addysg amblwyfol", sydd yn ystyr gwbl wahanol (a chwerthinllyd yn y cyd-destun). Yn yr un modd, wrth ymgynghori am Fil lechyd y Cyhoedd yn 2016 fe gyfeiriwyd at y bwriad i atal "intimate piercing" i blant dan 16, ond yn y Gymraeg cyfeiriwyd at ddeddfu i atal "enwaediad" (circumcision) i'r cyfryw blant, gan greu gofid yn y cymunedau Iddewig ac Islamaidd. Byddai llunio'r polisi yn ddwyieithog o'r cychwyn, yn hytrach na dibynnu ar gyfieithydd ar ddiwedd y broses, wedi arbed gofid, ac arbed y gost o ail-gyhoeddi'r ddogfen wedi ei chywiro. Credwn, felly, fod ffordd i fynd eto o ran gweithredu'n wirioneddol ddwyieithog a sicrhau cydraddoldeb gweithredol i'r ddwy iaith.

Yn achos Llywodraeth y DU, anghyson a thameidiog yw'r defnydd o'r Gymraeg. Mae rhai adrannau yn cyhoeddi dogfennau ymgynghori, neu o leiaf crynodeb ohonynt, yn y Gymraeg, ond yn aml rhaid ymateb yn Saesneg – gan greu anhawster wrth gyfeirio'n gywir at y ddogfen a'i therminoleg. Mae adrannau eraill yn gweithredu trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Mae camau tuag at newid y ffin datganoli o blaid canoli penderfyniadau yn San Steffan, felly, yn andwyo'r defnydd o'r Gymraeg yn y maes cyhoeddus, Mae'r ffaith fod deddfu am yr iaith Gymraeg yn fater datganoledig, ac na all Senedd Cymru – ers Deddf Cymru 2017 – ddeddfu am faterion y tu hwnt i ffiniau Cymru, wedi dwysáu'r anhawster hwn, gan nad oes unrhyw fodd cyfreithiol o gyflwyno dyletswyddau iaith ar adrannau Llywodraeth y DU na Senedd San Steffan.

Ymateb i ymgynghoriad y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: Cyfle i ddweud eich dweud ar ddyfodol cyfansoddiadol Cymru

Mae'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol (ERS) yn croesawu sgwrs genedlaethol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ynghylch y ffordd y caiff Cymru ei rhedeg, drwy ei ymgynghoriad agored. Mae dadleuon a phryderon ynghylch trefniadau cyfansoddiadol Cymru a'r DU, a'u sefydlogrwydd a'u heffeithiolrwydd hirdymor, wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yng ngoleuni ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd ac, yn fwy diweddar, pandemig y Coronafeirws. Mae ERS wedi ymgyrchu ers tro ar faterion sy'n ymwneud â llywodraethiant Cymru a'r DU yn y dyfodol, gan gynnwys galw am gonfensiynau cyfansoddiadol ar gyfer y DU gyfan, yn ogystal ag eirioli dros fesurau i wella democratiaeth yng Nghymru, o ddiwygio'r Senedd i ddefnyddio arfau democratiaeth gydgynghorol.

Ynglŷn â'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol

Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol yw prif lais y DU ar gyfer ad-drefnu democrataidd. Rydym yn gweithio gyda phawb – o bleidiau gwleidyddol, grwpiau cymdeithas sifil ac academyddion, i'n haelodau a'n cefnogwyr a'r cyhoedd yn ehangach – i ymgyrchu dros well ddemocratiaeth yn y DU.

Ein gweledigaeth yw democratiaeth sy'n addas ar gyfer yr 21^{ain} ganrif, lle caiff pob llais ei glywed, lle rhoddir yr un gwerth ar bob pleidlais a bod pob dinesydd wedi'i ymrymuso i gymryd rhan. Rydym o blaid newidiadau gwleidyddol parhaus, rydym yn ceisio gwreiddio democratiaeth yng nghalon y ddadl gyhoeddus, ac rydym yn meithrin manau democrataidd sy'n annog dinasyddiaeth weithredol.

Crynodeb

Hoffai'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol weld Cymru lle caiff pob llais ei glywed, lle gosodir yr un gwerth ar bob pleidlais, a lle rhoddir grym i bob dinesydd i gymryd rhan. Mae hyn yn cynnwys gwella ein democratiaeth drwy ddileu rhwystrau i gyfranogiad ar bob lefel, cynyddu

ymgysylltiad a sicrhau bod gan bawb y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus.

Gydag etholiadau datganoledig eto i gyrraedd 50% o'r rhai sydd â hawl i bleidleisio a chefnidir o [ddiffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth a gwleidyddion ledled y DU](#) yn fwy cyffredinol, mae'n amlwg bod angen gwneud rhywbeth i adfywio democratiaeth yng Nghymru yn ogystal ag ar draws y DU.

Dangosodd pandemig Covid-19 fod Llywodraeth Cymru yn gallu dilyn llwybr gwahanol a bod y [cyhoedd yn gyffredinol yn gefnogol i hynny](#). Fodd bynnag, ni arweiniodd y gefnogaeth hon a mwy o amlygrwydd i'r Senedd, Llywodraeth Cymru a datganolï at nifer sylweddol uwch yn pleidleisio yn etholiadau'r Senedd yn 2021 (roedd [46.6%](#) y ganran uchaf i bleidleisio hyd yma, er ei fod yn dal yn llai na 50 y cant o'r etholwyr) nac yn etholiadau lleol 2022, lle'r oedd y nifer a bleidleisiodd yn amrywio o 31.33% yn Nhorfaen i 48.6% yng Ngheredigion. Mae angen i ni newid y ffordd yr ydym yn cynnal democratiaeth er mwyn ailgysylltu'r etholwyr â gwleidyddion, ac mewn rhai achosion creu'r cysylltiadau cyntaf. Rydym yn canmol Llywodraeth Cymru am y camau y mae wedi'u cymryd i ehangu ymgysylltiad democrataidd yng Nghymru dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o ymestyn yr hawl i bleidleisio i'r cynlluniau peilot ar gyfer pleidleisio hyblyg, ond mae llawer o waith i'w wneud o hyd. Isod rydym wedi amlinellu'r newidiadau y credwn a allai helpu i leihau'r diffyg democrataidd hwn ac adeiladu Cymru lle mae llais pawb yn rhan o'r sgwrs.

Mae'r newidiadau hyn yn perthyn i dair prif thema:

- Proses – gwella mynediad i gyfranogiad democrataidd yng Nghymru.
- Ymgysylltiad – cynyddu ymgysylltiad a dealltwriaeth; croesawu camau arloesol mewn democratiaeth gydgynghorol.
- Llywodraethiant – ail-ddychmygu strwythurau llywodraethu'r DU i feithrin cydweithrediad ac ymddiriedaeth rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth, a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud mor agos â phosibl at y bobl a'r cymunedau y byddant yn effeithio arnynt.

1. Proses

Mae'r amcangyfrifon diweddaraf gan y [Comisiwn Etholiadol \(Rhagfyr 2018\)](#) yn awgrymu bod tua hanner miliwn o bobl yng Nghymru (410,000 – 560,000) ar goll o'r gofrestr etholiadol.

Meddai Cadeirydd yr adroddiad, Syr John Holmes [wrth ystyried y canfyddiadau hyn](#): 'Ni ddylai hyn fod yn dderbyniol mewn democratiaeth fodern', a galwodd am ddefnydd mwy arloesol o'r data cenedlaethol sydd eisoes ar gael i fynd i'r afael â'r broblem hon drwy symud tuag at ffurfiau cofrestru awtomatig neu fwy awtomataidd. Byddai gwella mynediad i'n system bleidleisio drwy gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn gam sylweddol ymlaen i gael gwared ar un o'r rhwystrau cyntaf i gyfranogiad democrataidd.

Yn ogystal â chynyddu hygyrchedd cofrestru i bleidleisio, mae gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu mynd ymlaen a bwrw eu pleidlais ar ddiwrnod yr etholiad hefyd yn hollbwysig. Rydym yn awyddus i weld canlyniadau'r cynlluniau peilot ar gyfer pleidleisio hyblyg a gynhaliwyd yn ystod yr etholiadau lleol yn gynharach eleni, a byddem yn argymhell bod unrhyw wersi o ran cynyddu ymgysylltiad drwy ehangu mynediad at bleidleisio'n cael eu datblygu a'u cyflwyno ledled Cymru cyn yr etholiadau datganoledig nesaf.

Hoffem weld system bleidleisio'n cael ei defnyddio ym mhob etholiad datganoledig sy'n sicrhau bod seddi'n cyfateb i bleidleisiau yn ogystal â chynnig y dewis mwyaf i bleidleiswyr. Y Bleidlais Sengl Drosoglwyddadwy (STV) yw'r dull y byddem yn ei argymhell ar gyfer cyflawni hyn lle, ynghyd â seddi sy'n cyfateb i bleidleisiau, mae pleidleiswyr hefyd yn gallu mynegi eu dewisiadau pleidleisio heb ofni gwastraffu eu pleidlais. Rydym yn croesawu'r cynnydd presennol ar Ddiwygio'r Senedd o ran gwreiddio ymrwymiad i gynrychiolaeth gyfrannol a symud i ffwrdd o'r system 'y Cyntaf i'r Felin' (FPTP) lle mae'r sawl sy'n derbyn y nifer fwyaf o bleidleisiau'n ennill. Serch hynny, nid yw'r cynlluniau presennol ar gyfer system etholiadol Cynrychiolaeth Gyfrannol yn seiliedig ar Restr Gaeedig yn darparu'r rhyddid o ran dewis y mae'r etholwyr yn ei haeddu. Er bod y system hon yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fynd i'r afael â'r [pleidleisio tactegol a ddefnyddir yn aml mewn etholiadau FPTP](#), gan gynnwys yr elfen o bleidleisio dros ASC etholaethol a ddefnyddir ar hyn o bryd yn etholiadau'r Senedd, nid yw'n cynnig digon o ddewis i bleidleiswyr, gyda phleidleisiau'n cael eu bwrw dros blaid yn unig ac nid i ymgeiswyr penodol. Yn y sefyllfa hon, STV yw'r safon aur, gan wneud y mwyaf o ddewis pleidleiswyr y tu hwnt i ddim ond gosod 'X' mewn blwch; mae'n cynnig pleidleisiau y gellir eu trosglwyddo, gan ddarparu canlyniadau teg a chymesur. Mae cynnydd hefyd wedi'i wneud o ran etholiadau llywodraeth leol, gyda'r cyfle i gynghorau ddewis symud i system STV os oes mwy na 2/3 o blaid gwneud hynny. Er ein bod yn croesawu'r opsiwn i gyflwyno STV ar lefel leol, mae angen gwneud llawer mwy i gefnogi cynghorau i gymryd y cam hwn.

Dylai penderfyniadau a gweithgareddau'r llywodraeth ar bob lefel fod yn dryloyw, gan gadw at egwyddorion Llywodraeth Agored (tryloywder, uniondeb, atebolrwydd a chyfranogiad rhanddeiliaid).

2. Ymgysylltiad

Mae'n amlwg o'n hadroddiad [Lleisiau Coll](#) yn 2017 bod diffyg dealltwriaeth ynghylch gwleidyddiaeth, ynghyd â rhwystredigaeth o ran sut y gwneir penderfyniadau yn rhesymau allweddol dros beidio ag ymwneud â democratiaeth yng Nghymru. Cafodd y diffyg dealltwriaeth hwn ei adleisio gan bobl ifanc ledled Cymru yn ein hadroddiad [Clywed Ein Lleisiau](#) yn 2018.

Mae diffyg cyfryngau Cymreig cadarn ac amrywiol yn cynyddu'r diffyg democrataidd yn y wlad. Nid yw'n dderbyniol fod yna lawer o bobl nad ydynt yn cael gwybodaeth sylfaenol am y Senedd a Llywodraeth Cymru, a fyddai'n caniatáu iddynt gymryd rhan ystyrlon yn etholiadau'r Senedd a gwleidyddiaeth Cymru yn gyffredinol.

Canfu arolwg gan y BBC/ICM yn 2014 mai dim ond 48% o bobl oedd yn gwybod bod iechyd yn fater datganoledig, ac roedd 42% o bobl yn credu'n anghywir bod gan y Cynulliad Cenedlaethol ar y pryd reolaeth dros blismona.

Mae nifer o adroddiadau gan bwyllgorau ac academyddion wedi sôn y byddai datganoli neu drosglwyddo rhai pwerau dros ddarlledu yn gwella darpariaeth y cyfryngau yng Nghymru. Mae'r mater hwn wedi cael ei godi'n aml ers dechrau datganoli, ac mae angen ei ystyried ar fyrder, yn enwedig gan mai barn Llywodraeth Cymru yw y dylid datganoli darlledu yn dilyn y Cytundeb Cydweithredu rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru.

Mae ERS wedi dadlau ers tro dros gael addysg wleidyddol go iawn yng Nghymru fel un ffordd o frwydro yn erbyn y diffyg democrataidd. Yn 2018 fel rhan o brosiect [Clywed Ein Lleisiau](#) buom yn gweithio gyda mwy na 200 o fyfyrwyr mewn deuddeg ysgol ledled Cymru gan gyd-gynhyrchu argymhellion ar gyfer yr hyn yr oeddent am ei ddysgu yn yr ysgol i'w paratoi i gymryd rhan lawn mewn democratiaeth. Fel y mae, mae addysg wleidyddol yn dameidiog, ond wrth siarad â phobl ifanc, mae'n amlwg bod awydd i wybod mwy am y ffordd y gwneir penderfyniadau, am sut i ymgychu a dylanwadu ar y penderfyniadau hynny, a sut mae pethau yng Nghymru'n gweithio mewn gwirionedd.

Byddai addysg wleidyddol statudol mewn ysgolion yn darparu'r genhedlaeth nesaf â'r arfau i wneud penderfyniadau gwybodus, tra gallai addysg wleidyddol ehangach helpu i fynd i'r afael â'r un materion ymhlith y boblogaeth ehangach. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod disgyblion yn '[deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd](#)' drwy'r cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru'n gam mawr ymlaen i fynd i'r afael â'r bwch yng ngwybodaeth pobl ifanc. Fodd bynnag, rhaid i bob disgybl gael cyfle i ddysgu hanfodion sylfaenol ein democratiaeth neu byddwn yn ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol.

Mae'r defnydd o offer cydgynghorol, megis cynulliad dinasyddion, yn sicrhau bod pobl wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau ac yn gallu gweld eu lleisiau a'u barn yn cael eu parchu ac yn cael effaith. Gall defnyddio offer cydgynghorol ar wahanol lefelau o lywodraeth helpu i feithrin ymddiriedaeth rhwng yr etholwyr a'r system, yn ogystal â darparu atebion dilys, effeithiol a chynaliadwy i'r problemau a wynebwn yn y 21st ganrif. Mae ERS wedi arwain y ffordd yn yr Alban gan ddefnyddio offer cydgynghorol i rymuso dinasyddion lleol i wneud penderfyniadau yn eu hardaloedd lleol drwy'r prosiect [Hawlio'n Ôl Ein Cymunedau Glofaol](#). Fel rhan o glymblaid [Ein Democratiaeth](#) sy'n bwydo i mewn i [adolygiad llywodraethiant lleol](#) llywodraeth yr Alban, mae ERS yr Alban wedi treialu a datblygu ffyrdd arloesol o gynnwys dinasyddion yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan ddangos sut i greu "[crwybr](#)' o haenau democrataidd'. Gall prosiectau fel y rhain ddarparu canllaw ar gyfer sut y gellid cyflawni ymgysylltiad tebyg ledled Cymru.

3. Llywodraethiant

Mae'r cydbwysedd presennol o ran pwerau o fewn y DU yn methu; mae wedi'i angori yn San Steffan ac yn seiliedig ar ei strwythurau a'i ddiwylliant o ganoli a chronni pŵer. Er gwaethaf datganoli ar draws y DU, mae'r canoli hwn yn treiddio trwy gydberthynas y wladwriaeth Brydeinig â gwledydd a chymdogaethau'r DU, gan weithredu fel rhwystr i gydweithio gwirioneddol a hirdymor, ymddiriedaeth a chydaddoldeb o ran parch. Cred ERS y dylid ailystyried y trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer llywodraethiant y DU. Dylai fod yna fframwaith cyfansoddiadol newydd, yn seiliedig ar weledigaeth a phwrpas trosfwaol, cynhwysfawr a hirdymor, yn seiliedig ar egwyddorion a chanllawiau clir, i wasanaethu fel strwythur cyffredinol ar gyfer trefniadau llywodraethiant y DU – ar draws, rhwng ac o fewn pob rhan gyfansoddiadol. Gallai egwyddorion gynnwys: tryloywder, cyfranogiad a chyd-greu, datganoliaeth, ymddiriedaeth, cydweithio, a chydaddoldeb o ran parch. Dylai fframwaith newydd o'r math hwn nid yn unig fod yn sail i ddiwygio trefniadau cyfansoddiadol y DU, ond y gwahanol drefniadau datganoli ar draws y DU. Byddem o blaid confensiynau cyfansoddiadol ledled y DU i helpu â sefydlu'r trefniadau hyn.

Byddem hefyd o blaid diwygio Tŷ'r Arglwyddi fel elfen ganolog ar gyfer cryfhau a gwella trefniadau llywodraethiant y DU, gan gydnabod y DU fel y mae, nid fel gwladwriaeth unedol cyn datganoli. Gallai ail siambr ddiwygiedig fod yn fforwm lle gall y pedair gwlad gydweithio. Gallai [ail siambr wedi'i hethol](#) fod yn fan lle trafodir materion sy'n ymwneud â'r DU gyfan, yn ogystal â rhai is-genedlaethol a thrawsffiniol, lle gellir trafod buddiannau a phryderon is-genedlaethol a rhoi gwrandawriad teg iddynt, i ffwrdd o awyrgylch mwy gwleidyddol a byrdymor Tŷ'r Cyffredin, gan ddarparu cyfleoedd ar gyfer cydweithio a dysgu ar y cyd ar draws yr undeb.

Yng Nghymru, mae pwerau datganoledig yn dal i fod wedi'u canoli o fewn y Senedd i raddau helaeth. Dylai pwerau gael eu gwasgaru'n ehangach ledled Cymru a'u dwyn mor agos â phosibl at bobl a chymunedau, yn unol ag egwyddor datganoliaeth gan ganiatáu ar gyfer llunio polisïau lleol a chynnwys dinasyddion yn y broses llunio penderfyniadau.



Federation of Small Businesses
Ffederasiwn y Busnesau Bach

The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales
Cathays Park
Cardiff
CF10 3NQ

Thursday 22nd June 2023.

Annwyl Gomisiynwyr / Dear Commissioners,

Thank you for your letter dated 23 May 2023 asking for our views on the scope of devolution of employment law.

You outline in your letter that you have received ‘no specific proposals for devolution’. You’ll appreciate that responding to the general scope of devolution without concrete proposals is challenging. In terms of constitutional preferences, our members individually will obviously have widely varying views. This is not an area with which we have previously had detailed conversation with our membership nor have had to seek views on proposals.

Moreover, we have not explored or been involved in discussions with governments or other stakeholders on particular proposals on options for reform or devolution or where potential devolution of any responsibilities in employment law would improve the landscape for employees or employers or indeed make it less complex – both of which would seem sensible points of priority for any suggested changes.

We would note therefore that FSB would err on the side of caution, with a compelling case needing to be made for any further such devolution on employment that it would better serve SMEs and their employees than the current system.

On general principles, we would note the following:

- Lack of consistency and increased legal complexity can have an impact on SMEs’ work and time, with potential opportunity costs for growth.
- As a broad principle, FSB has been supportive of UK-wide approaches which promote simplicity, ease of understanding and allow businesses to operate in a frictionless way across the UK market.
- While FSB has supported devolution of additional powers and responsibilities in certain areas previously, there would have to be absolute clarity on the issues which are looking to be resolved or improved by any proposed changes.

- Any divergence in law, policy and regulation on employment would necessarily require a significant investment in support and help for capacity building through institutions and agencies so as to advise SMEs to promote understanding and what changes they would need to undertake.
- Cross-border issues, where the role of employment based around workers across the border (whether commuting, hybrid, or remotely based in England) would need to be addressed to ensure clarity for employers and consistency across the workforce, with a means to ensure that SMEs do not fall into two separate employment practices or be inadvertently at risk of non-compliance. The porous nature of the border of Wales and England means that differential policymaking in such a significant area may be challenging to businesses and disproportionately so for businesses with less resource or access to sufficient professional advice.
- Any proposed changes would need be made in a holistic and transparent way. We would be uncomfortable with attempts to 'stretch' the existing settlement through piecemeal changes that consequently indirectly affect employment. This is likely to cause greater complexity, confusion, and less confidence as well as make regulation and law more difficult to navigate for SMEs.
- Any proposals for devolution of responsibilities in any legislative areas affecting SMEs, should have at their heart, simplification of existing processes and procedures – in this instance, to make it simpler for simpler for businesses to employ.
- It is vital that SMEs in Wales by comparison to the other nations of the UK are not placed in a position of competitive disadvantage.

Thank you for requesting our views, and we hope this is a helpful contribution.

Yr Eiddoch yn Gywir / Yours Sincerely,

Head of Wales, Federation of Small Businesses

Gwlad

Q1. 1. What matters to you about the way Wales is run?

Mae Cymru'n genedl, a chyflwr naturiol am genedl yw bod yn annibynnol. Felly y peth mwyaf bwysig oll wrth ystyried llywodraeth Cymru ydy, sut mae cyrraedd o le ein bod ni rwan hyd at annibyniaeth. Ar ôl cael annibyniaeth, mater am bleidleiswyr Cymru yn unig fydd y cwestiwn o sut caiff yr wlad ei llywodraethu wedyn; ond rydan ni'n dadlau mai cael ei llywodraethu o'r canol-dde gydag economi farchnad-rhydd a ffiniau agored fydd y ffordd orau i sicrhau llwyddiant economaidd a chymdeithasol i Gymru.

Q2. 2. What do you think the priorities for the commission should be?

Mi ddylai prif flaenoriaeth y comisiwn fod i edrych ar sut, yn ymarferol, y gall Cymru symud tuag at annibyniaeth mewn ffordd drefnus a sefydlog. Dylai'r Comisiwn tacllo'r cwestiwn hwnnw'n fanwl.

Q3. 3. Thinking about how Wales is governed, by the Welsh Government and the UK government, what are the strengths of the current system, what aspects do you most value and wish to protect? Can you provide examples?

Mae'r drefn bresennol yn anfoddfaol am lu o resymau. Os oes un peth da amdano, hwnnw ydy'r ffaith fod Cymru fel rhan o'r DU yn cadw ei chysylltiad gyda'r holl Ynys Prydain, gyda'r hon fod cymaint o'n hanes ynghlwm. Mae Cymru yn wahanol iawn o'r Alban nac Iwerddon yn y ffaith bod ein hanes ni fel diwylliant 'brodorol' yn ynys hon (noder y defnydd o'r gair 'diwylliant' ac nid 'tras') yn tarddu o'r holl ynys, yn cynnwys y rhan sydd y tu allan o'n ffiniau presennol, tra bod hanes yr Alban ac Iwerddon yn cymryd lle yn hollol o fewn eu ffiniau nhw. Mae'n wiw i gydnabod hynny, a bod yn ofalus na fyddai annibyniaeth yn cael y sgîl-ffraith annymunol o rwygo Cymru i fwrdd o rai o'i thiroedd cynhenid.

Q4. 4. Are there any problems with the current system, and if so, how could they be addressed? Again, please provide examples.

Mae'n anodd wybod lle i ddechrau, ond:

- 1) Wrth gymharu Cymru â gwledydd eraill o faint tebyg, neu llai, yn Ewrop (fel gwledydd y Llychlyn, a'r Ffindir, a'r gwledydd Baltig), mae'n debyg fod ein hiaith a diwylliant dan llawer mwy o straen fel canlyniad o geisiadau gan Lywodraeth y DU i'w dileu yn llwyr yn y gorffennol, a diffyg ffordd i atal mewnlifiad o Loegr yn yr oes presennol.
- 2) Wrth gymharu Cymru â gwledydd eraill o faint tebyg, neu llai, yn Ewrop (fel gwledydd y Llychlyn, a'r Ffindir, a'r gwledydd Baltig), mae'n amlwg fod ein cyflwr economaidd yn llawer gwaeth: gwaeth yn nhermau absoliwt wrth gymharu ein hunain gyda'r rhai yng Ngorllewin Ewrop, a llawer gwaeth yn nhermau tyfiant economaidd i gymharu gyda'r rhai yn y dwyrain.
- 3) Wrth gymharu Cymru gyda gweddill y DU, mae'n amlwg fod ein cyflwr economaidd yn llawer gwaeth: cymharer Wrecsam neu'r Trallwng gyda Chaer neu'r Amwythig, er enghraifft. Er fod gan hyn llawer i ymwneud gyda'r ffyrdd hanesyddol y tynnwyd adnoddau allan o Gymru (e.e. gwllân o Gymru yn cael ei fasnachu yn yr Amwythig yn hytrach nag yng Nghymru ei hunan), heddiw mae hyn yn gallu cael ei esbonio i raddau helaeth gan ddiffyg buddsoddiad yn isadeiledd yr wlad.
- 3) Mae'n beth prin i weld 'lliw' y llywodraeth yn San Steffan adlewyrchu pleidleisiau Cymru. Mae'r annhegwch sylfaenol o Gymru'n cael ei llywodraethu gan y Ceidwadwyr am y rhan fwyaf o'r ganrif ddiwethaf, er gwaethaf bod nhw erioed wedi cael mwyafrif yng Nghymru, yn amlwg iawn.
- 4) Ynghlwm gyda'r pwynt diwethaf, mae rhwystredigaeth gyda'r sefyllfa honno wedi arwain at atgasedd afresymol tuag at y Ceidwadwyr yn llygaid llawer o bleidleiswyr Cymru, sydd yn ei dro wedi cadarnhau cryfder y Blaid Lafur fel y ffordd gorau o 'gadw y Toriaid allan'. Mae hyn wedi arwain at ddominyddiaeth unbleidiol y Blaid Lafur yng Nghymru i raddau sydd yn afiach dros ben, yn arwain at lu o fan-lygreddigaethau ac at lywodraeth diog a aneffeithlon ar bob lefel, o'r Senedd i lawr.
- 5) Mae diffyg nerth gwleidyddol gwirioneddol yn y Senedd, oherwydd ei statws israddol wrth gymharu a San Steffan, yn arwain i ddiffyg sylw yn y cyfryngau (yng Nghymru ac yn y DU yn fwy gyffredin) a diffyg diddordeb gan bleidleiswyr yn y pethau sy'n mynd ymlaen yno. Mae hyn hefyd yn gadael i'r Llywodraeth

Q4. 4. Are there any problems with the current system, and if so, how could they be addressed? Again, please provide examples.

Lafur yno dianc rhag cael archwiliad go iawn, gyda'r canlyniad fod y safon llywodraethu (a safon y bobl sy'n gwneud o) yn llawer is nag y dylai fod.

Q5. 5. Thinking about the UK government, the Welsh Government and Welsh local government (your local council), what do you think about the balance of power and responsibility between these 3 types of government – is it about right or should it change and if so, how? For example, who should have more power, or less?

Yn gryno, mwy o bŵer yn y Senedd a chynghorau a llai yn San Steffan.

Ac eto, yn ymarferol yn y tymor byr, mi ddylai'r tyfiant ym maint i Senedd sydd newydd wedi ei benderfynu, mynd law yn llaw gyda lleihad ar y *rhif* o gynghorau lleol (yn enwedig cynghorau cymuned) a chynghorwyr lleol. Roedd yr etholiadau lleol ym mis Mai yn dangos unwaith eto fod llawer gormod o seddau cyngor yng Nghymru, gyda llawer iawn ohonyn nhw yn cael eu llenwi heb etholiad a rhai, yn wir, heb eu llenwi o gwbl. Yn yr etholiadau mi welwyd lawer o bobl yn cwyno nad oedd ymgeisydd ar gael o ba blaid bynnag yr oedden nhw eisiau pleidleisio drosto - doedd gan hyd yn oed y pleidiau mawrion digon o ymgeiswyr i sefyll ym mhob sedd.

Ar yr un pryd, mae'n wiw y dylai'r lleihad yn rhif Aelodau Seneddol o Gymru yn San Steffan, sydd wedi penderfynu yn San Steffan heb unrhyw ymgynghoriad gydag etholwyr Cymru, mynd law yn llaw â lleihad ym mhŵer a chyfrifoldeb San Steffan dros Gymru.

Felly:

San Steffan - llai o aelodau, llai o bŵer.

Y Senedd - mwy o aelodau, mwy o bŵer.

Cynghorau lleol - llai o aelodau, ond mwy o bŵer.

Q6. 6. As a distinct country and political unit, how should Wales be governed in the future? Should we: broadly keep the current arrangements where Wales is governed as part of the UK, and the Westminster Parliament delegates some responsibilities to the Senedd and Welsh Government, with those responsibilities adjusted as in Q5, OR move towards Wales having more autonomy to decide for itself within a more federal UK, with most matters decided by the Senedd and Welsh Government, and the Westminster Parliament decides UK-wide matters on behalf of Wales (and other parts of the UK) OR move towards Wales having full control to govern itself and be independent from the UK OR pursue any other governance model you would like to suggest alongside any of these options, should more responsibilities be given to local councils bringing decision making closer to people across Wales and if so, please provide examples.

Dylem fod yn wlad annibynnol, dim yn rhan o'r DU mewn unrhyw ystyr o gwbl.

Eto, dylai'i cwestiynau o 'annibyniaeth' a 'bod yn weriniaeth' cael eu cadw'n hollol ar wahân o'u gilydd. Mae enghreifftiau fel Awstralia, Seland Newydd, Canada, a hyd yn oed Iwerddon rhwng 1922 a 1949, yn dangos ei bod hi'n bosib i wlad fod yn hollol annibynnol i bod pwrpas ymarferol tra'n cadw Brenin neu Brenhines y dydd fel pennaeth. Os oes cefnogaeth ar lawr gwlad am gadw perthynas rhwng Gymru a'r teulu Brenhinol, nid oes angen i hyn fod yn dramgwydd rhag wasgu ymlaen gydag annibyniaeth ar lefel llywodraethol.

Mi ddylai cynghorau cael mwy o bwerau beth bynnag, ond llai o aelodau, fel y dywedwyd mewn ein hymateb i'r cwestiwn uwchben.

Q7. 7. Overall, what is most important to you about the way in which Wales should be governed in the future? Is there anything else you want to tell us?

Ym 1898, pan ymbiliodd grwp o Aelodau Seneddol Cymreig i Lywodraeth Llundain dros newid Jac yr Undeb i adlewyrchu presenoldeb Cymru yn yr Undeb, yr ymateb oedd fod hynny'n amhosib oherwydd "if we were to alter the Royal Arms, many other parts of her Majesty's dominions, besides Wales, would

Q7. 7. Overall, what is most important to you about the way in which Wales should be governed in the future? Is there anything else you want to tell us?

have to be considered".

Erbyn hyn, mae'r rhan fwyaf helaeth o'r "many other parts" hynny yn wledydd annibynnol. Dydy'r un ohonyn nhw wedi ymbilio i ail-ymuno. Dylai Cymru fod fel un ohonyn nhw, ac unig nôd dilys i brosiect fel hyn ydy gweithio allan y ffordd gorau i gyflawni hynny mewn ffordd sefydlog, effeithlon a llwyddiannus.

Q8. 8. In responding to these questions, we would welcome views on how the current forms of governance, and any proposals to change governance in the future, might impact on the Welsh language.

Fe ddylai tyfiant mewn hunan-lywodraeth a hunan-hyder unrhyw wlad yn arwain at broffil a statws uwch i'w hiaith cynhenid; ond mae profiad Iwerddon yn yr 20fed ganrif yn dangos nad yw hynny bob amser yn wir. Mae'n rhaid i lywodraeth Cymru fod yn ddyfal wrth ddysgu y gwersi cywir o brofiad Iwerddon.

Er enghraifft, dylid rhoi blaenoriaeth i greu economi ffyniannus yng Nghymru, ac yn enwedig yn yr ardaloedd lle bod Cymraeg yn cael ei defnyddio ar y mwyaf pob dydd. Dylid ddysgu oddi wrth gwledydd fel y Ffindir ac Estonia a.y.y.b sut y gellid uno'r angen i gadw yr iaith yn gryf gyda'r angen i denu'r talent gorau o'r byd i gyd i swyddi lefel-uwch yn addysg, diwydiant a llywodraeth. Mae'n bosib mae un ffordd o gyflawni hyn fyddai rhoi mwy o bwyslais ar wersi Cymraeg i oedolion, yn hytrach nag mewn ysgolion yn unig.

Q9. Information to include: Please let the commission know if you are writing in a personal capacity or on behalf of an organisation. If you are writing on behalf of an organisation, it would be helpful if you could confirm its purpose, size and membership.

Mae yr ymateb hwn ar ran Gwlad - Plaid Annibyniaeth Cymru - sy'n blaid wleidyddol Gymreig sydd wedi'w chofrestru gan y Comisiwn Etholiadol ers 2018. Ar hyn o bryd mae gennym ni un Cynghorydd Sir (yng Ngheredigion), a thri Cynghorydd Cymuned (un yng Ngwynedd, dau yn Rhondda Cynof Tâf).

Q10. Add your video or audio submissions here

No Response

Submit your response



Response to the Independent Commission on the Constitutional Future of Wales call for evidence

Sefydliad Materion Cymreig (IWA)

info@iwa.org.uk

The IWA is a registered charity no. 1078435

29th July 2022

Have your say

1. What matters to you about the way Wales is run?

The Institute of Welsh Affairs (IWA) believes in democracy in its broadest sense, as the most **effective form of governance to protect and enhance citizens' rights and freedoms and as a** key enabler for developing a successful, clean and fair economy for Wales.

Democracy is far more than simply the election of representatives to legislatures and the resulting formation of governments and decision-making bodies. To maintain and enhance the health of our democracy, the people of Wales should have access to meaningful opportunities to both inform and scrutinise the ongoing activities of decision makers.

Where appropriate, the people of Wales should take part in direct decision making at a national and local level, too.

The IWA believes in the principle of subsidiarity, that decisions should be made as close as practicable to the people affected by those decisions. This principle should inform both the structure of governance and the mechanisms used to inform and make decisions, and to learn from the impact of those decisions.

We believe that how Wales is run (our system of governance) should be as clear as possible to the people of Wales, in order for lines of accountability to be evident for those wishing to understand who made which decisions and why.

Decisions are better and are better made by bodies where elected representatives are as diverse as possible, reflecting the people they represent, whether in terms of their individual characteristics, backgrounds or their political colours or beliefs. In practice, this means that we believe in affirmative processes within the electoral system to support the proportional representation of gender, race and other characteristics. This is why we support the Diverse5050 campaign.



It also means that we support maximum proportionality in terms of the number of representatives from political parties, or independents, elected based on the number of votes those parties or independents received across Wales. In practice, this means that we support the use of Single Transferable Vote at all levels of Welsh governance.

We believe that Wales should have a vibrant public sphere for open discussion of issues **relating to how decisions impact people's lives. We would like to see a thriving, well-read** media (online and in print) ensuring increased public knowledge of devolution. We would also like to see a significant proportion of the population – cutting across socio-economic status, class and occupation – taking an informed view on Welsh politics. We would like to see a minimum 75% turnout in Senedd elections and we are in favour of expansion of the Senedd to the proposed 96 member model but elected using the Single Transferable Vote to elect those members. We would also like to see people working in micro democratic structures at grassroots, community and local levels, as well as at national level.

The IWA also firmly believes that Wales should be an outward looking nation, active both regionally and globally. Regardless of the future constitutional make up of the UK, Wales should continue to build relationships with other nations and states, particularly locally within these islands, but also much further afield.

2. What do you think the priorities for the commission should be?

The IWA urges the Commission to focus on the following themes and areas:

1) Welsh citizenship

We believe that nations thrive when the population feel shared purposes. In practice, this requires people to feel a shared responsibility for the issues and challenges facing their community, area and nation, and to feel that they share in the wealth created as a result of national, regional or community efforts.

In order to achieve a shared purpose, there needs to be a shared understanding of issues and challenges, and an effective system of governance that enables people to feel collective responsibility for solving them.

For this to happen, there must be opportunities for people of all ages and backgrounds to both learn about and discuss challenges and issues, and for them to feel that they are being listened to, in some cases directly informing or taking the decision themselves.



To facilitate this, the Commission should focus on the following sub-areas:

- Understanding how people in Wales feel about citizenship
 - Ways of supporting people in Wales to participate in decision making and scrutiny
 - Opportunities for the use of deliberative democracy in Wales
 - Opportunities for the use of sortition within Welsh democracy
 - Opportunities for the use of direct democracy in Wales.
- 2) The challenges and opportunities posed by different models of governance for Wales within and without the UK

The IWA urges the Commission to look internationally as well as to the people of Wales for examples of different models of governance and learn from them, applying that learning to the issues and challenges faced by Wales both in the present and over future decades.

- 3) The impact of the current fiscal devolution settlement on the ability of Wales to invest in its people and economy

As the power and responsibility of the Senedd and Welsh Government have increased, the inability of Welsh Government to access sufficient funding to invest has grown in prominence. This inability to access investment funding is a blocker to growth and development in Wales. Both the Barnett Formula itself and the system for managing disputes relating to the formula should be assessed against alternative models of fiscal devolution such as a needs based system. The wider fiscal framework should be assessed, particularly in relation to the ability of Welsh Government to tax and borrow.

The IWA will **be submitting a separate paper on Wales' fiscal framework to the Commission** in Autumn 2022.

3. Thinking about how Wales is governed, by the Welsh Government and the UK government, what are the strengths of the current system, what aspects do you most value and wish to protect? Can you provide examples?

Strengths

- The current system theoretically provides for a sharing of wealth across the UK.
- The current system provides for an internal market within the UK, enabling smooth trading across national borders, though we recognise the specifics in relation to Northern Ireland at the time of writing.



- In relation to Covid:
 - Response to Covid in relation to the initial lockdown and associated furlough scheme, sharing the financial impact of additional support required to households and businesses across the UK. (However this was also a weakness when it came to Welsh Government decisions on subsequent lockdowns.)
 - Procurement for the vaccination programme for the whole of the UK.
- In devolved policy areas, Wales can try out new policy approaches as an incubator with a smaller population from which the rest of the UK can learn (plastic bags, organ donation, Future Generations agenda).
- Welsh Government can also design new policy approaches that relate to the particular circumstances and needs of the Welsh population.

Weaknesses

- Under the current system, UK Parliament has ultimate power to legislate for Wales and to amend or even annul the devolution settlement.
- Existing conventions empowering the Senedd to prevent action by UK Parliament and UK Government in non-reserved areas are weak
- This includes a total lack of redress over, for example, significant funding decisions made through the Barnett Formula and UK Shared Prosperity Fund
- The devolution settlement is different in each part of the UK, ie for Wales, Scotland and Northern Ireland, at a headline level. In addition, different UK government **departments' functions are also differently devolved. This complicated situation** leads to an ongoing lack of clarity (in part due to inadequate media provision) as to where decisions are made, how resources are allocated to address issues and how to resolve disagreements.
- There is significant inequity in our borrowing powers: Wales can only borrow £150m annually up to a limit of £1bn for capital spending, whereas both Scotland and Northern Ireland can borrow up to £3bn. Scotland can also borrow more for resource spending.
- We note that, despite considerably increased responsibilities over policy making and delivery of public services between 2009 and July 2022, the headcount of Welsh Government has reduced from 6,137 to 5,644. This is not proportionate to the size of the total number of staff in UK Government departments responsible for devolved matters, and has led to the under-resourcing of both policy making and, crucially, effective public service delivery. Clearly, the size of the central administration budget is a matter for Welsh Government budget setting, but it is heavily influenced by the overall fiscal devolution settlement, including the Barnett Formula.



**Y Comisiwn Annibynnol ar
Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru**
**The Independent Commission on
the Constitutional Future of Wales**

- Divergent electoral systems across the UK can lead to democratic confusion among people in Wales, particularly given the still-young nature of the Senedd and electoral reform. However, this is also a strength, as it allows the Senedd to implement democratic systems in Wales that work for the Welsh people at all levels of government, rather than those decided at a UK level.
- Westminster acts as both a parliament for England as well as for the UK and as England has over 19 times the population of Wales (59.59m to 3.1m according to the 2021 Census), the size of England will always be more important to political leaders in Westminster.
- We have previously published on inter-parliamentary relations and the weaknesses of the current system in terms of how both parliaments hold their respective governments to account for their individual decisions. We have also published recommendations as to how they might better coordinate and work together. Our September 2020 paper [Missing Links](#) sets out our concerns in detail.

22. Yn fwy cyffredinol, gellir crynhoi profiad y Comisiynydd, a'r Bwrdd gynt, wrth ddelio â chyrrff y Goron dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg fel a ganlyn. Mae nifer o'r asiantaethau, wedi bod yn flaengar iawn yn paratoi a gweithredu eu cynllun o'r cychwyn. Ni fu eraill mor barod i gydweithredu'n llawn. Canlyniad hyn yw bod cynlluniau cyrrff y Goron ar gyfartaledd wedi cymryd tipyn yn hirach i gyrraedd safon y gellid eu cymeradwyo na rhai cyrrff cyhoeddus. Mae rhai enghreifftiau diweddar yn cynnwys trafodaethau ar



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

gynlluniau iaith gyda'r Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra), yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghyd â'r Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau.


23. O ran gweithredu'r cynlluniau, tebyg yw'r profiad. Mae rhai asiantaethau yn cymryd eu cyfrifoldeb o ddifrif, tra bod eraill yn llaesu dwylo, neu'n anwybyddu eu cynllun wrth gyflwyno neu ail-drefnu eu gwasanaethau. Nid yw'n gwbl wir i ddweud mai oherwydd statws neu afael cyfreithiol y byddai perfformiad cyrff adrannol y DU yn peri anhawster yn llawn. Tra bod hyn weithiau yn gwbl fwriadol, yn aml diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth sydd i'w gyfrif. Er enghraifft, mae eu pencadlysoedd fel arfer tu allan i Gymru, a natur y gweithlu yn llai ymwybodol o batrwm ieithyddol Cymru. Mae'n anorfod bod hyn yn effeithio ar gydymffurfiaeth o gymharu â chyrff datganoledig. Ar yr un pryd, mae modd tystio bod rhai adrannau wedi sefydlu gwasanaethau Cymraeg o ansawdd a bod y rhai hynny wedi gwreiddio.

I grynhoi

24. Mae dyfodiad safonau'r Gymraeg drwy Fesur y Gymraeg wedi golygu bod gan bobl bellach hawliau cyfreithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau dyddiol. Mae'r pwerau a roddir drwy'r Mesur i'r Comisiynydd i reoleiddio'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu y gellir eu gorfodi, pan fo angen ac yn gam enfawr ymlaen o'r drefn cynllun iaith a sefydlwyd dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
25. Yn ogystal, nid yw pob corff y Goron wedi eu nodi yn Neddf yr Iaith Gymraeg 1993, fel sefydliadau sy'n gorfod paratoi Cynllun Iaith Gymraeg er bod rhai, fel y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi gwneud er gwaethaf hynny. Hyd yn oed lle mae cynllun iaith yn bodoli, mae pwerau'r Comisiynydd yn gyfyngedig o'i gymharu â'r drefn safonau. Barn y Comisiynydd felly yw bod angen dwyn rhagor o sefydliadau o'r drefn cynlluniau iaith ac i'r drefn safonau gan ddefnyddio'r Mesur i'w llawn botensial.
26. Fodd bynnag, mae'r drefn ddatganoli bresennol yn cyfyngu ar bwerau'r Comisiynydd dan Fesur y Gymraeg yn bennaf am ddau reswm. Yn gyntaf, er bod modd dwyn rhai adrannau Llywodraeth y DU a sefydliadau sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron dan safonau o fewn y fframwaith bresennol heb bod angen cydsyniad pellach, mae hynny'n ddibynnu'n helaeth ar ewyllys gwleidyddol. Yn ail, er mwyn dod â sefydliadau eraill, yn benodol Gweinidogion y Goron a'u hadrannau, o fewn cwrpas y gyfundrefn safonau o dan Fesur 2011, byddai angen cael cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.

Cymhwysedd i ddeddfu

27. Nodwn bod Deddf Cymru 2017 eisoes wedi effeithio ar gymhwysedd Senedd Cymru i ddeddfu gan bod bellach angen caniatâd Gweinidogion y DU i gynnwys darpariaethau ym Miliâu'r Senedd sy'n ymwneud ag awdurdodau a gadwyd yn ôl. Er hynny, rydym wedi ein bodloni nad yw Deddf Cymru yn effeithio ar Fesur y Gymraeg



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

na'r rheoliadau safonau a wneir o dan y Mesur hwnnw a hynny am fod y Ddeddf yn nodi'n glir na fyddai'n effeithio ar weithrediad parhaus y Mesurau eisoes mewn lle.

28. Nid yw Deddf Cymru yn ôl weithredol ac felly mae ond yn berthnasol i Filiau a wnaed ers pasio'r Ddeddf ac i'r is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt. Felly, nid oes angen caniatâd Gweinidogion y DU yn yr un modd ar gyfer rheoliadau sy'n deillio o Fesur y Gymraeg sy'n ymwneud ag awdurdodau a gadwyd yn ôl (heblaw am Weinidogion y Goron).
29. Pe byddai'r Senedd yn penderfynu deddfu ar gyfer y Gymraeg yn y dyfodol, effaith Deddf Cymru yw na ellid cynnwys yn y ddeddf honno ddarpariaeth ar gyfer gosod, gorfodi, newid neu ddileu swyddogaeth yn ymwneud â'r Gymraeg ar yr holl ystod hynny o bersonau, heb gydsyniad y Gweinidog⁴.
30. Effaith hyn oll yw bod dadl dros barhau gyda'r fframwaith bresennol neu ni fedrai'r Senedd ddeddfu ar gyfer y Gymraeg heb wneud hynny o fewn cyd-destun lle bo'i phwerau wedi eu cyfyngu'n sylweddol o ran adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau sydd heb eu datganoli. Byddem felly am i'r mater hwn a'r sgil effeithiau tebygol gael eu hystyried yn llawn cyn bod unrhyw newid yn cael ei wneud. Byddai unrhyw newid i'r perwyl hwn yn achos pryder difrifol o ystyried bod adrannau'r llywodraeth ac awdurdodau sydd heb eu datganoli yn darparu ystod eang iawn o wasanaethau i bobol Cymru.

⁴ Mae paragraff 11, rhan 1, atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel a'i ddiwygiwyd gan Deddf Cymru 2017) yn dweud ni all unrhyw Ddeddf Senedd Cymru ddileu nac addasu unrhyw un o'r canlynol oni bai bod y Gweinidog priodol yn cydsynio i'r ddarpariaeth: (a) swyddogaethau un o Weinidogion y Goron sy'n ymwneud â swyddogaeth ddatganoledig gymwysedig (b) unrhyw swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron sy'n arferadwy mewn perthynas â'r Gymraeg (c) unrhyw swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron sy'n arferadwy mewn perthynas â chyflenwad dŵr, ansawdd dŵr, rheoli adnoddau dŵr, rheoli llygredd adnoddau dŵr, carthffosiaeth, afonydd a chyrsgiau dŵr eraill, draenio tir, rheoli perygl llifogydd neu amddiffyn yr arfordir (d) unrhyw swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron o dan Bennod 1 o Ran 3, neu adran 58, o'r Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (e) unrhyw bŵer sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 6 o Ddeddf Rheilffyrdd 2005 (cymorth ariannol yn ymwneud â gwasanaethau rheilffordd ac ati), neu (dd) unrhyw un o swyddogaethau'r Trysorlys o dan adran 138(2) neu 141(4).



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Rhan 2: Materion Polisi a gadwyd yn ôl sydd o bwysigrwydd i'r Gymraeg


Mae'r materion a gadwyd yn ôl gan atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cynnwys nifer sy'n effeithio ar sefyllfa'r Gymraeg yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Manylir ar nifer ohonynt isod.

Darlledu

31. Mae'r Cyfryngau, Diwylliant a Chwaraeon yn faterion sy'n ymddangos yn atodlen 7A Deddf Cymru fel materion sy'n cael eu cadw yn ôl. Mae darlledu yn arbennig, yn eithriadol bwysig i'r Gymraeg o safbwynt ei hamlygrwydd a chyfleoedd i bobl glywed a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae sicrhau fod y Gymraeg yn cael amlygrwydd ar wasanaethau digidol yn her anferth ac mae'n hollbwysig fod y Gymraeg yn rhan o'r symudiad hwn.
32. Yn [setliad ffi'r drwydded ar gyfer 2022-27](#) penderfynodd Llywodraeth y DU rewi'r ffi am ddwy flynedd, ac yna bydd yn codi yn unol â chwyddiant am y cyfnod tan 2027.. Bellach mae S4C fel y BBC yn derbyn ei chyllid i gyd allan o ffi'r drwydded. Cyhoeddodd [DCMS setliad](#) o £88.85 miliwn y flwyddyn i S4C ar gyfer 2022-23 a 2023-24. Bydd hynny'n cynyddu yn unol chwyddiant am y pedair blynedd ganlynol. Yn ei hanfod felly gellir crynhoi ar hyn o bryd fod darlledu yn y Gymraeg yn derbyn y cyllid canlynol i gyd allan o ffi'r drwydded yn 2022-23:

S4C	£88.8 miliwn
520 awr i S4C gan y BBC	Tua £20 miliwn
Radio Cymru	Tua £14 miliwn
Cymru Fyw a gwasanaethau digidol	Tua £2 filiwn
	Tua £124.85 miliwn

33. Yn ôl [adroddiad blynyddol 2021/22](#) y BBC swm ffi'r drwydded a gasglwyd yng Nghymru yn 2022 oedd £190 miliwn. Roedd cyfanswm gwariant y BBC yng Nghymru (yn cwmpasu S4C, Radio Cymru, Radio Wales ayb) £188 miliwn ond mae gwariant y BBC ar raglenni rhwydwaith a wneir yng Nghymru yn ychwanegol at hynny.. Wrth gwrs mae gwylwyr/defnyddwyr Cymru yn defnyddio'r gwasanaethau rhwydwaith hynny hefyd. Yn fuan bydd Llywodraeth y DU yn cynnal adolygiad o fodel cyllido ffi'r drwydded gan fod canfyddiad nad yw casglu ffi'r drwydded fel y mae bellach yn gynaliadwy. Felly, y tu hwnt i 2027 mae'n aneglur ar hyn o bryd sut y bydd y BBC (ac felly ei wasanaethau Cymraeg) ac S4C yn cael eu hariannu. Mae'n gwbl hanfodol fod darlledu yn y Gymraeg yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arni i ffynnu o 2027 ymlaen.
34. Er bod y crynodeb isod o adroddiad 5 mlynedd Comisiynydd y Gymraeg yn rhagddyddio'r penderfyniad diweddar ddechrau 2022 ar ffi'r drwydded, mae'r pwyntiau yn parhau yn berthnasol. Maent yn crynhoi ein safbwynt ynghylch datganoli



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

darlledu hefyd sef bod angen i ddarlledu yng Nghymru adlewyrchu diwylliant Cymru sy'n cynnwys y Gymraeg, ac mae'n rhaid sicrhau bod cyllideb ddigonol i alluogi darlledu yn y Gymraeg i ffynnu:

Tanlinellodd argyfwng COVID-19 ddiffyg dealltwriaeth dybryd a chamarweiniol y cyfryngau Prydeinig o'r gwahaniaeth mewn polisi cyhoeddus rhwng Cymru a gweddill y Deyrnas Unedig, ac mae hynny eisoes wedi arwain at ragor o drafodaeth ynghylch datganoli darlledu i Gymru. Bydd y drafodaeth yn rhwym o barhau yn dilyn cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, a bydd darlledu i gwrdd â gofynion Cymru yn y Gymraeg a'r Saesneg yn sicr yn bwnc a fydd o dan drafodaeth yng nghyfnod y Senedd nesaf.

Does dim amheuaeth nad oes peryglon real i'r diwylliant Cymraeg oherwydd y ddibyniaeth bresennol ar wasanaethau darlledu a ariennir gan y pwrs cyhoeddus, ac yn benodol y BBC. Gwneir nifer o benderfyniadau allweddol am ddarlledu ar lefel Brydeinig a rhaid sicrhau bod safbwyntiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a Senedd Cymru yn cael eu parchu'n llawn mewn penderfyniadau o'r fath. Mae'n hanfodol bod setliad ariannol terfynol S4C yn galluogi'r sianel i addasu a ffynnu i'r dyfodol ac i barhau â'r gwaith o gefnogi gweledigaeth Cymraeg 2050 y mae eisoes wedi bod yn gyfrannog ohono. Rhaid sicrhau bod cefnogaeth a chyllid digonol ar gael i'r dyfodol i sicrhau y bydd modd i S4C, y BBC ac eraill ddarparu arlwy addas yn y Gymraeg i gyd-fynd â'r newidiadau yn y byd digidol ac i gyfrannu'n llawn at weledigaeth Cymraeg 2050.

35. Noder fod Panel Arbenigol ar Ddatganoli Darlledu wedi ei gyhoeddi yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru (yn unol â'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru) i baratoi'r ffordd ar gyfer datganoli pwerau darlledu a chyfathrebu i Gymru. Mae'r Comisiynydd yn croesawu'r cam hwn.⁵

Cyfiawnder

36. Yn ôl Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru ni all Senedd Cymru Ddeddfu ar Awdurdodaeth gyfreithiol unigol Cymru a Lloegr. Yn 2018 rhesom dystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn Nghymru⁶ gan egluro fod y Gymraeg wedi ei sefydlu fel un o ddwy iaith cyfraith a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru oherwydd:

- Yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006⁷ mae testunau Cymraeg a Saesneg pob Mesur Cynulliad a Deddf Cynulliad sydd yn Gymraeg ac yn Saesneg pan gânt eu deddfu, a thestunau unrhyw is-ddeddfwriaeth sydd yn Gymraeg ac yn Saesneg pan gaiff ei wneud, i'w trin at bob diben fel petai eu statws yn gydradd â'i gilydd

⁵ <https://llyw.cymru/cyhoeddi-panel-arbenigol-ar-ddatganoli-darlledu>

⁶ Yn anffodus, nid oes copi o'r ymateb ar wefan y Comisiwn ar Gyfiawnder. Gellir darparu copi os oes angen.

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/32/section/156>



- Rhoddodd Deddf Llysoedd Cymru 1942 yr hawl i unrhyw barti neu dyst ddefnyddio'r Gymraeg mewn achos llys yng Nghymru pe bai peidio â gwneud hynny yn ei roi o dan anfantais. Sefydlodd Deddf yr Iaith Gymraeg yr egwyddor 'wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal...' ac aeth y Ddeddf ymlaen i ddweud y fod gan unrhyw barti, tyst neu berson arall sydd yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yr hawl i siarad y Gymraeg mewn unrhyw achos cyfreithiol yng Nghymru.⁸
- Mae Erthygl 6 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol⁹ yn rhoi'r hawl i unrhyw berson a gyhuddwyd o drosedd i wrandawriad teg ac mae hynny'n cynnwys cael gwybod yn brydlon, mewn iaith y mae'n ei deall ac mewn manylder, am natur a sail y cyhuddiad yn ei erbyn.
- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gwneud y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru. Mae'r gyfundrefn safonau yn adeiladu ar lwyddiant cynlluniau iaith drwy godi'r disgwyliadau ar sefydliadau o ran eu defnydd o'r Gymraeg. Ers diwedd Mawrth 2017 mae dyletswydd ar i heddluoedd Cymru a phum tribiwnlys gydymffurfio â safonau mewn p maes sef safonau cyflenwi gwasanaethau, llunio polisi, gweithredu a chadw cofnodion.

37. Mae'n gwbl angenrheidiol felly fod y drefn gyfiawnder a'r maes cyfreithiol yn gallu gweithredu yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn sicrhau hawliau dinasyddion. Yn anorfod mae sefyllfa'r Gymraeg o fewn y maes cyfiawnder wedi datblygu'n sylweddol. Dylid nodi, er hynny, na fu'n hawdd dros y blynyddoedd sicrhau bod yr holl faes cyfiawnder yng Nghymru yn cydymffurfio â dyletswyddau o ran y Gymraeg gan nad yw'r sector cyfan yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg. Mae'n hollbwysig fod gwahanol gydrannau o'r drefn gweinyddu cyfiawnder o'r bôn i'r brig yn gweithio gyda'i gilydd i hwyluso gweithredu dyletswyddau'r holl sefydliadau perthnasol a thrwy hynny sicrhau hawliau siaradwyr Cymraeg i gael mynediad at gyfiawnder drwy gyfrwng y Gymraeg. Trafodir un o'r cyrff perthnasol isod.

Carchardai

38. Mae Gwasanaeth Prawf a Charchardai ei Mawrhydi (HMPPS) yn gweithredu yn unol â chynllun iaith Gymraeg y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ddiwedd 2018 cyhoeddodd y Comisiynydd adroddiad ar y Gymraeg mewn carchardai¹⁰. Mae gwasanaethau allweddol (e.e. iechyd, gofal, addysg, llyfrgelloedd) o fewn carchardai'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill megis byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Yng Nghymru, mae'r gwasanaethau hyn yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg neu gynlluniau iaith Gymraeg, ond nid ydynt yn Lloegr wrth gwrs. Mae'n debygol felly fod

⁸ <https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1993/38/contents>

⁹ https://www.echr.coe.int/Documents/Convention_ENG.pdf

¹⁰ <https://www.comisiynyddygybraeg.cymru/media/10yfwuj0/cymraeg-yn-y-carchar.pdf>



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

y ddarpariaeth Gymraeg i garcharorion yn well mewn carchardai a leolir yng Nghymru, a hynny am resymau staffio ac oherwydd bod hawliau penodol yn cael eu creu gan ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i Gymru yn unig. Er hynny, nid oes capasiti i leoli carcharorion yng Nghymru sy'n fenywod, nac ychwaith oedolion ifanc rhwng 18 ac 20 oed. Mae'r diffyg darpariaeth yng Nghymru i fenywod a phobl ifanc yn fater o bryder. Canfu'r adroddiad fod darlun cymysg o argaeledd gwasanaethau a chyfleoedd i siarad Cymraeg mewn carchardai a:

- nad oedd sicrwydd bod gan HMPPS ddata oedd yn dangos yn union faint o garcharorion sy'n medru'r Gymraeg ar draws yr ystâd, sy'n ei gwneud yn anodd i gynllunio anghenion ac ymgyrchoedd i hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg. e.e. adroddwyd yn Adroddiad Monitro Blynyddol HMPPS yn Ionawr 2018 bod y Gymraeg yn ddewis iaith i 2 unigolyn yn CEM Berwyn, ond adroddwyd hefyd am grŵp ffocws siaradwyr Cymraeg lle'r oedd 12 o gyfranwyr;
- nad oedd sicrwydd bod gan HMPPS ddata manwl am lefel sgiliau iaith Gymraeg ei staff, a fyddai'n galluogi cynllunio anghenion ieithyddol y gweithlu;
- nad oedd sicrwydd bod cysondeb yn y gwasanaethau Cymraeg a gynigir ar draws yr ystâd;
- nid oedd S4C ar gael mewn carchardai yn Lloegr.
- nid oedd y Comisiynydd wedi gweld tystiolaeth fod y Gymraeg yn cael ei hystyried wrth benderfynu ym mha garchar i leoli carcharorion.

39. Ategwyd y pryderon a fynegwyd yn yr adroddiad gan y Comisiynydd gan y Pwyllgor Materion Cymreig yn ei adroddiad ar [Ddarpariaeth Carchardai yng Nghymru](#) a gyhoeddwyd yn 2019 gan nodi:

We recommend that the UK Government ensure that HMPPS collect accurate data about Welsh-speaking prisoners regularly, both in Welsh and English prisons, and provide Welsh-language services accordingly. Detailed data about Welsh speakers should be published and made available to inform service planning. HMPPS should also collaborate fully with the Welsh Government in creating and implementing its new Welsh-language scheme. The Welsh language should also be strongly considered in decision-making about the placement of prisoners.

Y proffesiwn cyfreithiol a thechnoleg gyfreithiol

40. Gan fod hawl gan unrhyw barti mewn achos llys yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg mae'n hanfodol sicrhau bod digon o aelodau o'r proffesiwn cyfreithiol yn medru'r Gymraeg er mwyn hwyluso mynediad y cyhoedd at gyfiawnder. Mae Senedd Cymru yn creu deddfwriaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae testunau'r ddwy iaith yn gyfartal. Waeth ble fo'u pencadlysoedd, boed hynny yng Nghymru neu Loegr fe



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

allai bod gofyn ar gyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr felly i ymdrin ag achosion sy'n ymwneud â chyfraith Cymru sy'n ddwyieithog yn benodol, yn ogystal â chyfraith Cymru a Lloegr. Y tu hwnt i ddehongli'r gyfraith ei hun, yn achos deddfwriaeth ddwyieithog¹¹ gallasai sefyllfaoedd godi lle byddai angen dehongli a darllen testunau Cymraeg yn unig mewn perthynas ag achosion sy'n ymwneud â chyfraith Cymru a chyfraith Cymru a Lloegr. Mae angen i gyfreithwyr, bargyfreithwyr a barnwyr fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau hyn ac mae angen iddynt ddeall eu goblygiadau. Yn gynyddol felly buasem yn disgwyl bod angen i weithwyr proffesiwn cyfreithiol yng Nghymru allu gweithio a dehongli dwy iaith deddfwriaeth a chyfiawnder Cymru. Dylai'r angen am staff sy'n medru'r Gymraeg ac sydd â dealltwriaeth o sefyllfa gyfreithiol Cymru gael ei adlewyrchu mewn polisiau cyflogi a pholisiau datblygu proffesiynol sefydliadau. Dylai'r maes cyfiawnder yn ei gyfanrwydd sicrhau bod yr anghenion hyn yn cael eu hadlewyrchu mewn cyrsiau academiaidd ar lefel addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru a Lloegr a bod myfyrwyr yn llawn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y maes cyfiawnder os ydynt yn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg.

41. Fodd bynnag, dim ond ar ôl cryn waith trafod a darbwylo gan Gomisiynydd y Gymraeg, y cyn-Gwnsler Cyffredinol, Jeremy Miles AS ac eraill y cytunodd yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr (SRA) i symud tuag at sefyllfa dros amser lle y byddai'r Arholiad Cymhwysio i Gyfreithwyr ar gael yn Gymraeg ac yn galluogi ymgeiswyr i brofi eu bod yn gymwys yn y Gymraeg neu'r Saesneg (ac nid yn y Saesneg yn unig). Dylem nodi yn hyn o beth bod safonau a chymwyseddau bargyfreithwyr fel y nodir yn y Professional Statement for Barristers¹² yn parhau i gyfeirio at feddu ar sgiliau Saesneg o lefel uchel ond nid oes cyfeiriad at feddu ar sgiliau yn y Gymraeg ac mae'r ddogfen "Future Bar Training: Curriculum and Assessment Strategy"¹³ yn dweud fel a ganlyn:

"The language of assessment is English. Written assessments may be provided in Welsh if requested. The requirements of the Welsh Language Act 1993 are recognised, but candidates who can only satisfy the assessment requirements in Welsh will not be competent to practise at the Bar of England and Wales".

42. Yn gynyddol mae symudiad tuag at ddefnyddio mwy ar dechnoleg yn y broses gyfiawnder, gydag argyfwng Covid wedi cyfrannu at hynny. O ystyried hawl unrhyw barti mewn achos llys yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg, mae'n hanfodol sicrhau bod unrhyw ddulliau digidol newydd a ddatblygir at bwrpas gweinyddu cyfiawnder yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn hytrach nag yn rhwystro hynny. Mae rhai

¹¹ Gweler *Driver v Rhondda 2020* [Driver -v- Rhondda Cynon Taf County Borough Council - Welsh Language Summary \(judiciary.uk\)](https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2020/07/Driver-v-Rhondda-Cynon-Taf-County-Borough-Council-Welsh-Language-Summary.pdf) fel enghraifft o achos o'r fath.

¹² https://www.barstandardsboard.org.uk/media/1787559/bsb_professional_statement_and_competences_2016.pdf

¹³ <https://www.barstandardsboard.org.uk/uploads/assets/0426fe70-72e5-48be-8618f7af3a28f1b0/curriculumandassessmentstrategy1april2019.pdf>



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

ymdrechion blaenorol i symud at ddulliau digidol o weinyddu cyfiawnder wedi arwain at gollu gwasanaethau Cymraeg ac at rwystro unigolion yng Nghymru rhag defnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud â'r drefn gyfiawnder. Tynnwyd sylw at hyn yn ymateb y Comisiynydd i ymgynghoriad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ddarpariaeth gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a'r ymateb i adolygiad yr Arglwydd Ustus Briggs o Strwythur y Llysoedd Sifil. Os bwriedir datblygu technoleg gyfreithiol megis llysoedd ar-lein gan ddefnyddio dulliau megis fideo gynadledda, bydd angen cynllunio gofalus a manwl i sicrhau bod modd i unrhyw barti ddefnyddio unrhyw ran o'r llys hwnnw trwy gyfrwng y Gymraeg. Gall fod angen cynnal achosion llys yng Nghymru yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog, a bydd angen ystyried hynny'n ofalus cyn ac yn ystod datblygu llysoedd ar-lein.

Economi a Masnach

43. Mae cydnabyddiaeth gyffredinol fod hyfywedd economaidd yn hollbwysig i sicrhau ffyniant y Gymraeg. Mae [Cymraeg 2050](#) yn nodi pwysigrwydd datblygu economaidd ar gyfer hyfywedd y Gymraeg:

Mae'r economi'n hanfodol er mwyn creu'r amodau cymdeithasol priodol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Er nad ydym yn gallu rheoli pob ffactor sy'n dylanwadu ar dwf economaidd, mae yna bethau y gallwn ddylanwadu arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys sgiliau, y pwys a roddir ar y Gymraeg, lleoliad swyddi yn y sector cyhoeddus, clystyrau, sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld fel sgil gwerthfawr mewn datblygiadau mawr, a chyfleoedd i ddefnyddio'r sgiliau hyn.

44. Mae Materion Ariannol ac Economaidd; Masnach a Diwydiant yn faterion a gadwyd yn ôl yn Atodiad 7A Deddf Cymru felly nid oes modd i'r Senedd ddeddfu ar y materion hyn. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru bolisiâu yn y maes economi, busnes ac arloesi yn benodol [Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi](#) sy'n cynnwys model datblygu economaidd ar sail ranbarthol sy'n golygu bod fframweithiau rhanbarthol wedi'u llunio i gwrdd â gofynion pob rhanbarth. Yn benodol o safbwynt y Gymraeg yn ystod Senedd 2016–20 cyflwynodd Llywodraeth Cymru gronfa arbrofol Arfor, sef cronfa o £2m ar gyfer creu rhagor, a gwell, swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a chefnogi twf yr iaith ym Môn, Gwynedd, Ceredigion a Chaerfyrddin. Yn dilyn gwerthusiad o'r prosiect bellach mae cynllun newydd Arfor gwerth £11miliwn dros gyfnod o dair blynedd ar droed gyda'r awdurdodau lleol uchod yn datblygu eu cynlluniau ar hyn o bryd. Sefydlodd Llywodraeth Cymru hefyd Fwrdd Crwn Economi a'r Iaith yn ystod y Senedd ddiwethaf.
45. Yn dilyn ymadawriad Prydain â'r Undeb Ewropeaidd cyflwynodd Llywodraeth y DU Ddeddf y Farchnad Fewnol 2020 sydd ymysg pethau eraill yn galluogi Lywodraeth y DU i ddarparu cyllid mewn meysydd datganoledig a fyddai'n eistedd ochr yn ochr ag unrhyw gyllid a ddarperir gan y gweinyddiaethau datganoledig yn y meysydd hynny. Mae ei agenda 'levelling up' a chynlluniau economaidd megis y [Gronfa Ffyniant](#)




Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

[Gyffredi](#) in a phapur gwyn [Levelling Up](#) yn bwriadu lleihau anghydraddoldeb yn economaidd ac yn ehangach ar draws y DU. Roedd ardaloedd sylweddol o ogledd a gorllewin Cymru yn derbyn arian Amcan 1 gan Ewrop oherwydd eu bod mor dlawd. Dyma'r ardaloedd lle ceir nifer o gymunedau lle mae'r Gymraeg yn parhau i gael ei siarad gan ganrannau uchel o'r boblogaeth. Rhaid sicrhau bod polisïau economaidd y DU a Chymru gyda'i gilydd yn sicrhau ffyniant economaidd y cymunedau hyn er mwyn cyfrannu at hyfywedd y Gymraeg a bod y gwariant a ddaw yn uniongyrchol gan Lywodraeth y DU yn gwneud hynny yn benodol. Mae tystiolaeth fod cyllid Ewropeaidd yn y gorffennol wedi gosod targedau oedd yn ymwneud yn benodol â'r Gymraeg.

46. Mae gan bolisïau masnach Llywodraeth y DU ac yn fwy diweddar Gytundebau Masnach Rydd y mae Llywodraeth y DU yn eu negodi yn sgil Brexit botensial i effeithio ar hyfywedd ffermydd bach, teuluol yng Nghymru. Mae ffermydd teuluol yn ganolog i'r economi wledig, i ddiwylliant Cymru ac i hyfywedd y Gymraeg. Mae ffermydd Cymru ar gyfartaledd yn sylweddol lai na ffermydd Lloegr a'r Alban. Yn ôl ffigurau'r Cyfrifiad Cenedlaethol mae 43% o weithwyr amaethyddol yn siarad Cymraeg, o gymharu â 19% o'r boblogaeth yn gyffredinol. Dyma'r sector cyflogaeth â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg. Mae'n bosibl y gallasai cytundebau heb dariffau na chwtotâu olygu bod prisiau cig o Brydain yn gostwng dros amser, gyda safonau uchel cynhyrchu bwyd ym Mhrydain yn ei gwneud yn anodd i ffermwyr gystadlu â chynhyrchwyr o dramor â safonau is. Nid oes sicrwydd y byddai prynwyr yn cefnogi ffermwyr Cymru. Gallai prisiau is fod yn llawer pwysicach na safonau cynhyrchu uwch, yn enwedig i'r cwsmeriaid nad ydynt yn derbyn cyflogau uchel. Ar ben hynny, petai cytundebau masnach rydd yn caniatáu gwerthu bwyd ym Mhrydain a gynhyrchir i safon is, gallai'r UE rwystro allforion o Brydain er mwyn diogelu safonau bwyd yr Undeb. Byddai hyn yn golygu, nid yn unig bod ffermwyr Cymru yn cystadlu â mewnforyn cynyddol i'r wlad hon, ond y byddent yn colli mynediad i farchnadoedd gwledydd eraill. Yn hyn o beth yn ei adroddiad ar [Effaith economaidd a diwylliannol polisïau masnach ac amgylcheddol ar ffermydd teuluol yng Nghymru](#) nododd y [Pwyllgor Materion Cymreig](#) y canlynol yn ddiweddar:

As we concluded in our report on the implications for Wales of the UK/Australia FTA, we are acutely aware of the concerns held by Welsh farmers of the potential competitive threat posed by FTAs. However, while it is far from certain that the UK will be flooded with produce from countries that the UK Government is negotiating FTAs with, it is important that due thought is given to the impact of FTAs on the agricultural sector, food and drink production in Wales. One particular concern is negotiating tactics which will have a disproportionate impact on Wales, because of the greater reliance on agriculture and food production sectors—for example, subverting the interests and protections on agricultural and food production sectors in order to secure preferential access for larger domestic markets, such as, say, financial services.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

47. Amlygu y mae'r enghraifft hon fod penderfyniadau ar lefel Brydeinig yn gallu cael eu gwneud heb ystyried eu heffaith ar y Gymraeg hyd yn oed mewn meysydd nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â'r Gymraeg.

Budd-daliadau

48. Mae Nawdd Cymdeithasol, Cynnal Plant, Pensiynau ac lawndal hefyd yn faterion a gedwir yn ôl. Mae adroddiad diweddar gan [y Pwyllgor Materion Cymreig ar fudd-daliadau](#) yn nodi data pwysig am faterion sy'n ymwneud â chyflwr economaidd Cymru gan drafod materion megis lefelau cyflogaeth; tlodi ac amddifadedd; tlodi mewn gwaith ayb. Roedd data'r ONS ar 17 Mai 2022 yn nodi rhwng 1 Ionawr 2022 a 31 Mawrth 2022 bod y gyfradd ddiweithdra yn 3% (3.75% yw'r gyfradd Brydeinig) ymysg pobl 16+ ond bod y gyfradd o bobl 16-64 oed oedd yn economaidd anweithgar yn 23.6% (21.4% yw'r gyfradd Brydeinig). Cyfeiria adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig hefyd at y ffaith fod nifer o ardaloedd yng Nghymru yn ddiabynnol iawn ar dwristiaeth gan gynnwys Gwynedd (17.7%), Conwy (17.1%) a Sir Benfro (16.2%). Mae'n nodi hefyd fod gan 'Gymru'r cyfraddau tlodi uchaf ymysg holl genhedloedd y DU, gyda 31% o blant yn byw mewn tlodi a 71% o'r plant hynny'n byw mewn cartrefi sy'n gweithio'. Yn fwy cyffredinol, mae enillion yr awr ar gyfartaledd yn is yng Nghymru nag ar draws y DU.
49. Nid ydym yn ymwybodol o ddata ac ymchwil sy'n edrych yn benodol ar amddifadedd a dibyniaeth ar fudd-daliadau mewn cymunedau lle ceir canrannau uchel o siaradwyr Cymraeg neu ymysg siaradwyr Cymraeg yn gyffredinol. Fodd bynnag, o gymryd y ffaith o adran 4 fod cynifer o'r ardaloedd hynny lle siaredir y Gymraeg yn arfer bod yn gymwys ar gyfer derbyn cyllid Amcan 1 oherwydd eu tlodi gellir dychmygu fod cyfraddau hawlio budd-daliadau mewn sawl ardal ôl-ddiwydiannol megis broydd chwarelyddol y gogledd-orllewin ac ardaloedd glo carreg y gorllewin yn gymharol uchel. Rhaid sicrhau bod llywodraethau'r DU a Chymru yn ymwybodol o effaith tlodi ar y Gymraeg a chymunedau lle'i siaredir a bod eu polisïau ar fudd-daliadau a datblygu economaidd yn cyfrannu at hyfywedd y cymunedau hynny lle siaredir y Gymraeg gan ganran helaeth o'r boblogaeth.

Mewnfudo

50. Ddechrau 2020 amlinellodd Llywodraeth Prydain ei bwriadau ar gyfer system fewnfudo i'r DU yn seiliedig ar bwyntiau. Bydd y sawl sy'n ymgeisio am fisa ar gyfer gweithiwr â sgiliau yn gorfod gallu siarad Saesneg er mwyn bod yn gymwys, a byddant yn derbyn pwyntiau i adlewyrchu hynny fel rhan o'u cais. Nid oedd y polisi yn adlewyrchu'r ffaith fod y Gymraeg yn iaith swyddogol yng Nghymru a'i bod yn angenrheidiol ar gyfer nifer o swyddi. Yn dilyn gohebiaeth gan y Comisiynydd a Gweinidogion Llywodraeth Cymru mae'r Swyddfa Gartref yn ystyried cyflwyno dull a fyddai'n cydnabod sgiliau Cymraeg ymgeiswyr am fisa. Amlygu y mae'r enghraifft hon fod penderfyniadau ar lefel Brydeinig yn gallu cael eu gwneud heb ystyried eu



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner


heffaith ar y Gymraeg hyd yn oed mewn meysydd sy'n ymddangosiadol anghysylltiedig â'r Gymraeg.

Enwau lleoedd Cymru

51. Nid oes awdurdod enwi statudol, na deddfwriaeth sy'n pennu ffurfiau swyddogol yn y Deyrnas Unedig. Nid oes modd, felly, synio am faes polisi enwau lleoedd fel maes a gadwyd yn ôl fel y cyfryw. Serch hynny, mae'n faes lle mae yna heriau penodol yn codi mewn perthynas â'r Gymraeg – ac o ganlyniad i natur ddwyieithog stoc enwau Cymru – sy'n cael eu dwysáu gan y berthynas bresennol â sefydliadau Prydeinig. Mae'r diffyg ymwybyddiaeth sydd, neu flaenoriaeth a roddir, i anghenion penodol y Gymraeg a'i siaradwyr yn peri problemau cyson yn y maes.
52. Er enghraifft, yr Arolwg Ordnans yw prif asiantaeth mapio'r Deyrnas Unedig. Ers 2015 mae'n gwmni preifat sy'n eiddo i Lywodraeth y DU ac yn atebol i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Busnes, Egni a Strategaeth Ddiwydiannol. Mae gan yr Arolwg Ordnans [Gynllun Iaith Gymraeg](#) o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n dyddio nôl i 2006, ond y [Polisi Enwau Cymraeg](#) (diweddarwyd 2016) yw'r ddogfen allweddol mewn perthynas ag enwau Cymru gan ei fod yn gosod allan sut y bydd yr Arolwg Ordnans yn ymdrin ag enwau Cymraeg a dwyieithog. Nid yw'r polisi hwn yn ymrwmo i gofnodi ffurfiau yn y ddwy iaith a rhoddir blaenoriaeth amlwg i ffurfiau Saesneg fel yr amlyga'r dyfyniad isod: 'Fodd bynnag, os yw lle'n gyfyngedig am resymau cartograffeg, rhoddir ffafriaeth i'r diffiniad Saesneg yn unig'. Hawdd deall sut y mae'r ymagwedd hon wedi arwain at sefyllfa lle mae'r cyhoedd yng Nghymru yn teimlo nad yw enwau Cymraeg yn cael statws na sylw digonol yng nghynnyrch yr Arolwg Ordnans fel yr amlyga [straeon diweddar yn y wasg](#).
53. Rhaid cydnabod bod maes data enwau lleoedd Cymru yn faes cymhleth ac amlhaenog ac nid oes modd tadogi diffyg y sefyllfa bresennol i un asiantaeth yn unig. Mae gan sefydliadau yng Nghymru eu rhan yn y darlun ac rydym yn croesawu ymrwymiad diweddar Llywodraeth Cymru yn ei [Chytundeb Cydweithio](#): 'Sicrhau bod enwau lleoedd Cymraeg yn yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo.' Fodd bynnag, heb ragor o rymoedd deddfu a dylanwad dros asiantaethau Prydeinig y mae'n anodd gweld sut y gellir gwireddu'r ymrwymiad hwn yn llawn.

Seilwaith y Gymraeg

54. Mae datganoli wedi sbarduno datblygiadau mawr yn y proffesiwn cyfieithu yng Nghymru, nid lleiaf yn y gwasanaethau cyfieithu proffesiynol sy'n cefnogi'n uniongyrchol gwaith y Senedd a'r Llywodraeth. Mae Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi Seneddol wedi datblygu cryn arbenigedd yn eu meysydd a gwelwyd arloesi ganddynt sydd wedi arwain yn uniongyrchol at gryfhau sefyllfa'r Gymraeg, er enghraifft y [cydweithio â Microsoft i](#)



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

[greu Microsoft Translate ar gyfer y Gymraeg](#). Un arall o sgil-gynhyrchion y datblygu hwn yw adnodd [BydTermCymru](#) sy'n rhannu terminoleg wedi'i safoni gan Wasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru ac adnoddau ieithyddol eraill â chyfieithwyr allanol a'r cyhoedd. Mae'n adnodd anhepgor i'r sawl sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau proffesiynol. Bydd angen cynllunio buddsoddi pellach yn y gwasanaeth pe bai diwygio pellach i gyfansoddiad Cymru er mwyn sicrhau bod seilwaith ieithyddol mewn lle i gefnogi gweithio drwy'r Gymraeg yn y cyd-destun newydd hwn.

I grynhoi

55. Mae'r enghreifftiau uchod yn amlygu sefyllfa lle mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar lefel y DU yn cael effaith ar siaradwyr Cymraeg. Nid yw'r penderfyniadau a wneir bob tro i'w gweld yn rhoi llawn ystyriaeth i'w heffaith ar y Gymraeg. Fel y nodir yn Rhan 1 y papur hwn mae'r ffaith nad yw nifer o'r adrannau hyn o Lywodraeth y DU sy'n gwneud y penderfyniadau polisi hyn yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg yn cyfyngu yn sylweddol ar allu'r Comisiynydd i'w rheoleiddio ac i sicrhau eu bod yn ystyried y Gymraeg wrth wneud eu penderfyniadau polisi.



Atodiad 1

1. Rhestr enghreifftiol o brif sefydliadau y DU y gellid eu gwneud yn ddarostyngedig i safonau heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol.¹⁴

Enw'r corff	Statws y corff
Awdurdod Cyllid Cymru	Adran anweinidogol o Lywodraeth Cymru
Cyllid a Thollau EM	Adran anweinidogol o Lywodraeth y DU
Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd EM	Asiantaeth weithredol (y Weinyddiaeth Cyfiawnder)
Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM	Asiantaeth weithredol (y Weinyddiaeth Cyfiawnder)
Gwasanaeth Arian a Phensiynau	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol (DWP)
Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus	Asiantaeth weithredol (y Weinyddiaeth Cyfiawnder)
Tŷ'r Cwmnïau	Asiantaeth weithredol (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol)
Awdurdod Ymddygiad Ariannol	Corff arall (Trysorlys EM)
Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA)	Asiantaeth weithredol (DEFRA a Llywodraeth Cymru)
Asiantaeth Safonau Bwyd	Adran anweinidogol
Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA)	Asiantaeth weithredol (yr Adran Drafndiaeth)
Asiantaeth Swyddfa Brisio (VOA)	Asiantaeth weithredol (Cyllid a Thollau)
Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol (DWP)
Cofrestrfa Tir EM	Adran anweinidogol (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol)
Cronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol (Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon)
Hybu Cig Cymru	Corff cyhoeddus
Swyddfa Eiddo Deallusol y DU (IPO)	Asiantaeth weithredol (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol)
Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS)	Corff cyhoeddus
Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)	Corff cyhoeddus gweithredol anadrannol (Swyddfa Gartref)
Asiantaeth Safonau Trwyddedu a Cherbydau (DVSA)	Asiantaeth weithredol (yr Adran Drafndiaeth)

¹⁴ Dealltwriaeth y Comisiynydd yw bod [paragraff 1 o Atodlen 6 Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#) yn nodi bod y cofnod sy'n ymwneud ag adrannau'r llywodraeth neu'r rhai sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron i'w drin ar wahân i Weinidogion y Goron. Ymddengys felly bod angen cydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud Gweinidog y Goron (yn unig) yn ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, ac nad yw'r cydsyniad yn ofynnol ar gyfer adrannau'r llywodraeth na'r rheini sy'n arfer swyddogaethau ar ran y Goron. Nid yw'r rhestr yma yn holl gynhwysol ond yn cynnwys y prif sefydliadau yr ystyria'r Comisiynydd y dylid eu blaenoriaethu ar sail yr ymwneud gyda'r cyhoedd yng Nghymru.



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Gweinidog y Goron	Adran weinidogol
Y Prif Weinidog	Swyddfa'r Prif Weinidog, 10 Stryd Downing
Y Twrnai Cyffredinol	Swyddfa'r Twrnai Cyffredinol
Gweinidog y Gwasanaeth Sifil	Swyddfa'r Cabinet
Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol	Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol
Ysgrifennydd Gwladol dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon	Yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg	Yr Adran Addysg
Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Ysgrifennydd Gwladol dros Fasnach Ryngwladol	Yr Adran dros Fasnach Ryngwladol
Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau	Yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau
Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth	Yr Adran Drafnidiaeth
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau	Adran Gwaith a Phensiynau
Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Ysgrifennydd Gwladol dros Faterion Tramor, y Gymanwlad a Datblygu	Y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu
Canghellor y Trysorlys	Trysorlys EM
Ysgrifennydd Gwladol y Swyddfa Gartref	Y Swyddfa Gartref
Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn	Y Weinyddiaeth Amddiffyn
Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Ysgrifennydd Gwladol Gogledd Iwerddon	Swyddfa Gogledd Iwerddon
Adfocad Cyffredinol yr Alban	Adfocad Cyffredinol yr Alban
Arweinydd Tŷ'r Cyffredin	Arweinydd Tŷ'r Cyffredin
Arweinydd Tŷ'r Arglwyddi	Arweinydd Tŷ'r Arglwyddi
Ysgrifennydd Gwladol yr Alban	Ysgrifennydd Gwladol yr Alban
Ysgrifennydd Gwladol Cymru	Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru
	Allforio Cyllid y DU (UK Export Finance)

2. Rhestr enghreifftiol o sefydliadau y DU y gellid eu gwneud yn ddarostyngedig i safonau gyda chydysniad yr Ysgrifennydd Gwladol

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

Initial Welsh Liberal Democrat response to the Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

Introduction and Welsh Liberal Democrat policy position

1. The Independent Commission on the Constitutional Future of Wales wrote to the Welsh Liberal Democrats on 2nd February, inviting the Party to submit its views. We welcome the opportunity to do so, and this paper provides our high-level response to that invitation. We will look to develop our response in more detail.
2. We set out, at a high level, our principled position on the future constitution of Wales in our manifesto for the 2021 Senedd elections, as follows:

“Liberal Democrats have long argued for a federal United Kingdom. This means far more than devolution; it means that the constituent parts of the UK have power over their own affairs as a matter of enforceable legal right, as part of a wider written constitution for the UK.

Under such a system there could be no question of Westminster rolling back or circumventing the devolution settlement - as the Conservative Government in Westminster is currently trying to do.

Decisions on the future of Wales within a federal UK would be taken in Wales, with the consent of Welsh people, and with an absolute constitutional veto over any change in the relationship between the reformed United Kingdom and its constituent parts.

We are not defending the status quo. We are the only party that believes in reform both in Wales and the United Kingdom as a whole.

The Liberal Democrat vision is therefore one that creates an autonomous Wales, in which decisions are taken by democratic Welsh institutions; it is also one that avoids creating new barriers.

Since leaving the EU, Wales has seen the problems that arise when new borders are created. We believe in taking down borders, not erecting them; a federal UK is how we achieve aspirations for home rule while ensuring that people are able to continue their lives without facing border controls: after all, tens of thousands of people cross the border between England and Wales every day, in both directions, to work and carry on businesses, or just to visit family and friends on the other side of the border.”

3. We also made it clear that, within the current devolution framework, we would seek the transfer of further powers to the Senedd and Government. These include powers over policing and criminal justice, in line with the report of the Silk Commission in 2011; Welsh broadcasting; some responsibility for benefits

and welfare, to bring Wales' powers into line with those in Scotland; and a greater degree of fiscal autonomy for Wales, including greater borrowing powers and the creation of a Bank of Wales, to ensure that policy decisions in areas already devolved to Wales were not unduly constrained by HM Treasury fiscal rules and to allow the Welsh Government to take fiscal decisions for an economy whose structure and character is in many respects different from that of the UK as a whole.

4. We strongly support proposals to increase the size of the Senedd to make it more effective and better representative of the people of Wales.
5. But we have long argued in favour of constitutional change across the whole of the United Kingdom. Our support for electoral reform is long-standing and well-known. But that is only one aspect of a wider conviction that the United Kingdom needs far-reaching constitutional change, including a written constitution in which the rights and powers of the state are codified in a way that is legally enforceable. As we argue below, developments since 2016 have made that reform more urgent and more important.
6. We also seek to conduct the discourse about the constitutional future of Wales in a way that avoids simple binaries – between, most of all, concepts of independence or defending the Union. We prefer to conduct a debate about outcomes – about the way in which a renewed Welsh democracy might operate, rather than shoe-horning our views into pre-existing and often emotionally-loaded categories that we believe do not do justice to the complexities of the tasks we face. If we have learned one thing from the process of Brexit, it is that sovereignty is not a straightforward issue and the use of simplistic language to describe complex processes does not serve democracy well.

Liberal Democrats and federalism

7. Welsh Liberal Democrats define ourselves as a **federalist** party. It means that we believe that political legitimacy flows from the governed to government, and that overarching political institutions must rest on consent, and on clear enforceable rules. As a matter of principle centralised political institutions should only take decisions where they cannot be taken at a local level.
8. That statement reflects a number of key Liberal Democrat positions:
 - a. We are a **democratic** party – we believe in values of open, democratic, responsive decision-making, in which structures empower rather than restrict decision-making and in which all members of society, without exception, are able to participate fully.

- b. We are a **decentralist** party – we believe as a matter of principle that decisions should be taken as close as possible to the people that they affect, with those people being as fully involved in those decisions as possible. As a matter of principle, we believe in subsidiarity: the principle that it is not appropriate for higher levels of Government to direct local decisions.
- c. We are a **constitutional** party – we believe that democracies work best when there is a clear constitutional statement of the rights of individuals and the powers of government at all levels; a written constitution that is enforceable at law. We believe that politics work best in a rules-based environment, based on a commitment to the rule of law, equality before the law and the impartial administration of justice.
- d. We are an **internationalist** party – we believe that modern democracies must be outward-looking, understanding that the most pressing issues facing the modern world – climate change above all – can only be dealt with through concerted international action, through a rules-based institutional framework. We are a party that believes in breaking down barriers between states and nations, not erecting them.
- e. We are a party of **self-determination** – we believe that people have the right to self-determination and that has been a central liberal principle throughout the three centuries that Liberalism has existed as a distinctive political force. We understand that many of the ways in which people express their political and social identity are based on their sense of belonging to, for example, a nation or an ethnic group, or through expressions of faith. But we reject nationalism in the sense of the belief that the occupation of a particular area of land, or a particular historical tradition, conveys on a group of people a unique and discernible set of characteristics that defines the nature of the political rights that they, and they alone, should enjoy – and the political system within which they should enjoy those rights. As Liberals we believe that political rights are universal and indivisible.

9. Those principles shape our approach to the constitutional future of Wales.

10. We believe that that future should enshrine the following principles:

- a. That the existence of a political authority in Westminster exercising any sovereignty over the different constituent nations of the United Kingdom should do so by the explicit consent of the people and Parliaments of those nations, from which it draws its legitimacy.

- b. That there should be no internal borders within the British Isles, allowing freedom of movement and a single market;
 - c. That Wales should be self-governing, with all political decisions taken within Wales – at Government or local level, except where the people of Wales have explicitly agreed voluntarily to cede sovereignty – and with the right to do so enshrined in a legally-enforceable written constitution;
 - d. That democracy in Wales should operate on the basis of subsidiarity, i.e. decisions are taken as close to, and as far as possible, by the people the people they affect, and that as a matter of principle higher tiers of Government should not overrule the lower (while recognising that the powers of all powers should be set out in a framework of rules).
 - e. That same principle of subsidiarity should exist across the United Kingdom – that while the different constituent parts of the UK may choose to pool sovereignty, that is a matter of agreement and choice.
11. It will be clear that this vision has profound constitutional implications, not just for Wales, but for the United Kingdom as a whole. This vision is incompatible with the preservation of the existing institutions at Westminster, and requires fundamental political change not just in the relationships between Wales and Westminster, but much more generally across the United Kingdom.

Politics and Welsh identity

12. National identity is not a straightforward concept, especially in understanding the complexities around Welshness and Britishness.
13. Wales has a distinct national, cultural and political identity. It exists within historically long-established borders. Above all, it has its own language and literary traditions, which shape our national identity to a significantly greater extent than the other non-English languages of the United Kingdom. And, unlike most minority languages, its use is growing. It adds a uniquely Welsh cultural dimension to issues that other parts of the United Kingdom face – like the crisis over second homes. On that basis, Wales fulfils the criteria for a self-contained political entity, within the Liberal tradition of self-determination.
14. But our history as part of the United Kingdom provides an extra layer of identity. Many – perhaps a majority – are happy to define themselves as both Welsh and British. Many Welsh people identify strongly with British institutions like the Monarchy. And about a quarter of the population of Wales was born in England. Tens of thousands of people cross the border every

day – in both directions – to work, or simply to go about their daily lives. North Wales and South-East Wales are tightly integrated into economic zones that cross the border.

15. The constitutional future of Wales must respect those complexities – reflecting both our distinctive Welsh identity but also our history as part of the United Kingdom; it must allow all those who live in Wales to feel a sense of belonging. There must be no hierarchy of Welshness; our Welsh democracy must be a place that respects the identities and stories of everyone living within its borders.

The challenges facing Welsh democracy

16. The history of devolution in Wales since the first Assembly was convened in 1999 is one of a fledgeling democracy that has grown in powers, legitimacy and confidence. Although the people of Wales only voted for devolution by the narrowest of margins, the institution of the Senedd and of Welsh Government now commands general support; the only political party advocating the end of devolution at the 2021 Senedd election suffered a crushing electoral defeat. The Senedd has gained in respect, authority and legitimacy during its more than two decades of existence and is now looking to expand its capacity to act as a full and functioning Parliament.
17. Moreover, Welsh democracy, although it conducts political debate robustly, has been conducted in a less confrontational and more consensual way than politics at Westminster, with working across political parties the norm. And it has been largely free of the kind of scandal that has come to characterise Westminster.
- 2.2 Mae'r berthynas bresennol rhwng Llywodraeth y DU, Senedd y DU a'r sefydliadau datganoledig (boed yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon) yn gamweithredol. Mae hyn yn rhoi straen ar gonfensiwn ac yn tynnu sylw at y ffaith bod trefniadau llywodraethu Cymru yn seiliedig ar y syniad llawer mwy hyblyg o sofraniaeth seneddol fel y mae Llywodraeth y DU yn ei deall (hawl Senedd y DU i wneud neu i beidio â gwneud unrhyw gyfraith y mae'n ei dewis yn hanfodol) ac nid ar ffurfioldeb cyfansoddiad ysgrifenedig. Mae tuedd gynyddol Llywodraeth y DU ar ôl Brexit i ddiystyru confensiwn Sewel a dibynnu ar sofraniaeth seneddol i ddeddfu heb gael cydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig mewn perthynas â materion datganoledig, ac i newid eu pwerau, yn drech na mandad democrataidd y sefydliadau hynny ac yn tanseilio ymddiriedaeth rhwng llywodraethau.
- 2.3 Er mwyn i'r Deyrnas Unedig weithredu'n effeithiol, mae angen iddi fod yn bartneriaeth gyfartal, gyda phob rhan yn cyfuno eu sofraniaeth yn wirfoddol, ac yn cydweithredu ar sail parch ar bob ochr. I'r gwrthwyneb, mae risg ar hyn o bryd y bydd deddfwriaeth Senedd Cymru yn cael ei gwrthdroi neu ei dirymu gan Senedd y DU – er bod ei Haelodau yn atebol i etholwyr Cymru mewn perthynas â'r holl faterion datganoledig.

- 2.4 Mae'r pwerau sydd wedi'u datganoli i Senedd Cymru yn gyfyng ac yn cael eu gwanhau ymhellach gan gyfyngiadau cymhleth ar ei chymhwysedd deddfwriaethol. Yn fwyaf arwyddocaol, mae hyn yn cynnwys cadw pwerau mewn perthynas â chyfiawnder, sy'n anochel yn rhyngweithio'n agos â materion datganoledig. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i Senedd Cymru sicrhau diwygio cydlynol a chynhwysfawr.
- 2.5 Mae'n ymddangos bod llawer o'r cyfyngiadau a osodir ar Senedd Cymru yn deillio o awydd (ofer) Llywodraeth y DU i gadw awdurdodaeth ar y cyd Cymru a Lloegr. Mae'r awdurdodaeth ar y cyd yn anghysondeb cyfansoddiadol hen ffasiwn na all oroesi gwirionedd sylfaenol datganoli: bod cyfraith Cymru yn gwyro fwyfwy oddi wrth gyfraith Lloegr. Rhaid sefydlu awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru a rhaid i'r cyfrifoldeb dros y system gyfiawnder ehangach gael ei drosglwyddo i Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru.
- 2.6 Mae llawer o gyfyngiadau ar bwerau Senedd Cymru sy'n unigryw i setliad Cymru, yn benodol, y rheolau cymhleth yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r rhain yn golygu y gall y gofynion ar gyfer cydsyniad un o Weinidogion y DU rwystro Senedd Cymru rhag deddfu – hyd yn oed mewn perthynas â materion y mae'n ymddangos eu bod wedi'u datganoli gan nad ydynt wedi'u cadw'n ôl i Senedd y DU gan Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae hyn yn rhwystro'r ddeddfwrfa; yn cuddio llinellau atebolrwydd democrataidd; ac yn gwneud y setliad yn anoddach ei ddeall i bobl Cymru. Mae hefyd yn creu potensial pellach ar gyfer anghydfodau ac ymgyfreitha.
- 2.7 Mae'r swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru wedi'u gwasgaru ar draws lluo o ffynonellau. Nid yw'r mecanwaith ar gyfer trosglwyddo rhagor o swyddogaethau yn cynnwys cysondeb ac eglurder setliad yr Alban, lle'r oedd swyddogaethau gweithredol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban i gyd (oni bai am lond llaw o eithriadau) yn cael eu trosglwyddo'n awtomatig i Weinidogion yr Alban ar ddechrau'r datganoli. Yn lle hynny, mae gennym yng Nghymru glytwaith o bwerau nad yw eu ffiniau'n cyd-fynd â chymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac sydd mewn rhai achosion yn parhau i fod yn ddarostyngedig i amodau a chyfyngiadau. Mae hyn yn dangos agwedd afresymol a thymor byr Llywodraeth y DU at ddatganoli, lle mae pwerau'n cael eu hystyried fesul achos yn hytrach na thrwy gyfeirio at ddarlun mwy sy'n seiliedig ar gydlyniaeth ac eglurder.
- 2.8 Mae hyn i gyd yn dangos, er bod Deddf Cymru 2017 wedi cyflwyno rhai gwelliannau i'r setliad datganoli, nad oedd wedi cyflawni'r hyn a addawyd gan Lywodraeth y DU, sef setliad cliriach, lle'r oedd gan bobl Cymru lais cryfach. Doedd dim rhaid iddo fod fel hyn, a does dim rhaid iddo fod fel hyn: mae setliad yr Alban yn cynnwys llai o faterion a gedwir yn ôl (mae 70 o faterion penodol wedi'u cadw yn ôl yn setliad yr Alban, o'i gymharu â 101 yn setliad Cymru), llai o gyfyngiadau ar allu Senedd yr Alban i ddeddfu ynghylch materion sydd heb eu cadw'n ôl; a chynllun llawer cliriach o bwerau gweithredol.
- 2.9 Hyd yn oed pan oedd cyfyngiadau yn setliad yr Alban wedi'u mapio ar draws

setliad Cymru, fel y cyfyngiad ar addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl³, ni roddwyd digon o ystyriaeth i'r gwahaniaethau yn y ddau anheddiad (ee y ffaith bod gan yr Alban ei hawdurdodaeth ei hun; a bod ganddi nifer llawer llai o faterion a gedwir yn ôl). Mae cyfyngiadau sy'n gymharol fach ac yn rhesymegol yng nghyd-destun yr Alban yn cael llawer mwy o effaith mewn perthynas â Chymru. Dyma reswm arall pam mae'r ddau setliad, er eu bod yn debyg ar yr wyneb, yn sylfaenol anghyfartal.

- 2.10 Mae hyn yn cuddio gwirionedd pellach: bod angen diwygio'r Deyrnas Unedig yn sylfaenol, a newid agwedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, er mwyn gweithredu'n effeithiol fel partneriaeth o genhedloedd, a ffynnu er budd ei holl bobl.

3. Y berthynas gyfansoddiadol rhwng Senedd Cymru a Senedd y DU

Statws cyfansoddiadol a chyfreithlondeb democrataidd

- 3.1 Fel mater o theori gyfansoddiadol o leiaf, nid yw Senedd Cymru yn 'sofran' oherwydd bod ei bodolaeth, a'i phwerau, yn ddarostyngedig i ewyllys Senedd y DU. Yn yr un modd ag y cafodd Senedd Cymru ei chreu gan Ddeddf Seneddol (sef, Deddf Llywodraeth Cymru 2006) gellir ei diddymu hefyd (ond gweler paragraffau 3.4-3.5 isod).
- 3.2 Fodd bynnag, mae Senedd Cymru yn rhannu â Senedd y DU y dilysrwydd democrataidd a roddir gan y bobl sofran ar ddeddfwrfa etholedig. Mae'r rhinwedd hon wedi cael ei chydabod a'i pharchu gan y Goruchaf Lys. Yn ôl yr Arglwydd Hope, a oedd yn rhoi'r prif ddyfarniad yn achos *AXA v Arglwydd Adfocad*:

Prif nodwedd Senedd yr Alban yw'r ffaith ei bod yn gwreiddio traddodiadau democratiaeth gyffredinol yn gadarn. Mae'n cael ei nerth gan yr etholwyr. Er mai'r barnwyr, nad ydynt yn cael eu hethol, sydd yn y sefyllfa orau i amddiffyn hawliau'r unigolyn, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu hanwybyddu neu eu diystyru gan y mwyafrif, aelodau etholedig deddfwrfa o'r math hwn sydd yn y sefyllfa orau i farnu beth sydd er lles gorau'r wlad yn gyffredinol. Yn ôl y farn draddodiadol, mae Senedd sofran yn rhydd rhag craffu barnwrol oherwydd ei bod yn cael ei gwarchod gan egwyddor sofraniaeth. Ond mae'n rhannu gyda'r deddfwrfeydd datganoledig, nad ydynt yn sofran, y manteision sy'n deillio o ddyfnder a lled profiad ei aelodau etholedig a'r mandad a roddwyd

³ Paragraffau 1 a 2, Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ystyrir isod)

iddyn nhw gan yr etholwyr. Mae hyn yn awgrymu y dylai'r barnwyr ymyrryd, os o gwbl, dim ond o dan yr amgylchiadau mwyaf eithriadol. ⁴

- 3.3 Mae cyfreithlondeb democrataidd Llywodraeth Cymru yn deillio o gyfreithlondeb Senedd Cymru. Dim ond ar ôl cael ei enwebu gan Senedd Cymru y penodir y Prif Weinidog gan Ei Mawrhydi. Penodir Gweinidogion Cymru a Dirprwy Weinidogion Cymru gan Brif Weinidog Cymru, gyda chymeradwyaeth Ei Mawrhydi. Penodir y Cwnsler Cyffredinol gan y Frenhines, ar argymhelliad y Prif Weinidog.⁵

Sefydlogrwydd Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru

- 3.4 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf yr Alban 1998 yn darparu bod y sefydliadau datganoledig ar gyfer pob gwlad *yn rhan barhaol o drefniadau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig*.⁶ Mae'r ddeddfwriaeth yn datgan ymhellach *na ddylid diddymu'r sefydliadau datganoledig ac eithrio ar sail penderfyniad gan bobl Cymru/Yr Alban sy'n pleidleisio mewn refferendwm*.⁷
- 3.5 Fodd bynnag, mae sofraniaeth Seneddol yn golygu efallai na fydd hyn yn rhoi'r warchodaeth barhaol i'r Senedd a Llywodraeth Cymru (na Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban) y gallai darlleniad syml o'r ddarpariaeth ei awgrymu. Effaith Deddfau Senedd y DU 1911 a 1949 yw, o leiaf fel mater o gyfraith, y gallai darpariaethau 'sefydlogrwydd', fel y'u gelwir yn y setliadau datganoli, gael eu diddymu yn y pen draw gan fwyafrif syml o Aelodau Seneddol sy'n pleidleisio yn Nhŷ'r Cyffredin.
- 3.6 Dychwelwyd Llywodraeth bresennol Cymru i'r swydd ar bolisi o ddatganoli cryf, sydd wedi gwreiddio mewn Teyrnas Unedig ddiwygiedig a gwirioneddol unedig. Fel y nodwyd gennym yn *Diwygio ein Hundeb*⁸, dylid cydnabod bod yr egwyddorion sy'n sail i ddatganoli yn hanfodol i gyfansoddiad y DU. Rhaid i'r sefydliadau datganoledig gael eu hystyried yn briodol fel nodweddion parhaol o drefniadau cyfansoddiadol y DU; dylai unrhyw gynigion ar gyfer diddymu sefydliadau o'r fath fod yn amodol nid yn unig ar gydsyniad yr etholwyr perthnasol, ond hefyd ar gydsyniad y sefydliadau eu hunain.

⁴ *AXA General Insurance Limited and others (Appellants) v The Lord Advocate and others (Respondents) (Scotland)* [2011] UKSC 46, paragraff 49

⁵ Adranau 45-50, Deddf Llywodraeth Cymru 2006

⁶ Ar gyfer Cymru, gweler a.A1 Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a fewnosodwyd gan Ddeddf Cymru 2017, a.1

⁷ Ibid

⁸ Llywodraeth Cymru (2021) *Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU*, Cynnig 2, ar gael yn <https://gov.wales/reforming-our-union-shared-governance-in-the-uk-2nd-edition>

Confensiwn Sewel

- 3.7 Nid yw datganoli i Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn newid egwyddor sofraniaeth Seneddol yn gyfreithiol, sy'n golygu bod Senedd y DU yn gallu pasio deddfwriaeth ar gyfer pob rhan o'r DU, gan gynnwys mewn perthynas â meysydd polisi datganoledig. Mae ei allu i wneud hynny wedi'i ddiogelu'n benodol gan adran 107(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006:

Nid yw'r Rhan hon [Rhan 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhoi cymhwysedd deddfwriaethol sylfaenol Senedd Cymru] yn effeithio ar bŵer Senedd y Deyrnas Unedig i wneud deddfau ar gyfer Cymru.

- 3.8 Mae hyn yn golygu, er gwaethaf dilysrwydd democrataidd Senedd Cymru, bod gan Senedd y DU hawl gyfreithiol absoliwt i ddiystyru neu 'ddadwneud' y cyfreithiau y mae Senedd Cymru yn eu gwneud. Yn hytrach na throsglwyddo pŵer yn llawn i Senedd Cymru, cadwodd Senedd y DU gymhwysedd deddfwriaethol diderfyn sy'n gorgyffwrdd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol iddo fabwysiadu deddf hunanymwadiad os yw am roi parch cyfansoddiadol priodol i'r Senedd fel deddfwrfa a etholwyd yn ddemocrataidd i Gymru mewn perthynas â materion datganoledig.
- 3.9 Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r farn draddodiadol ac absoliwtaidd hon o sofraniaeth Senedd San Steffan bellach yn egwyddor drefniadol briodol ar gyfer cyfansoddiad y Deyrnas Unedig. Pan nad oedd ond un ddeddfwrfa yn y Deyrnas Unedig yr oedd yn glir ym mhle yr oedd sofraniaeth, ond erbyn hyn mae gennym bedair senedd etholedig gyda phwerau deddfwriaethol. Os ydym wir yn ystyried (fel y dylem) fod sofraniaeth yn nwylo pobl y Deyrnas Unedig, yna mae sofraniaeth bellach yn cael ei rhannu rhwng ei phedair senedd; ac yng Nghymru, mae arfer sofraniaeth Senedd Cymru yn seiliedig ar ei mandad etholiadol gan bobl Cymru.
- 3.10 Mae'r mecanwaith a fabwysiodd Senedd y DU ar ddechrau datganoli mewn perthynas â deddfu ar gyfer Cymru a'r Alban mewn meysydd datganoledig yn cael ei alw'n gonfensiwn Sewel, yn dilyn polisi a luniwyd gan yr Arglwydd Sewel yn Nhŷ'r Arglwyddi wrth basio Deddf yr Alban 1998 (gyda phwyslais wedi'i ychwanegu):

nid yw datganoli cymhwysedd deddfwriaethol i senedd yr Alban yn effeithio ar allu San Steffan i ddeddfu ar gyfer yr Alban, hyd yn oed mewn perthynas â materion datganoledig. Yn wir, rydym yn rhagweld y gallai fod achosion lle byddai'n fwy cyfleus i ddeddfwriaeth ar faterion datganoledig gael ei phasio gan Senedd y Deyrnas Unedig. Fodd bynnag ... byddem yn disgwyl i gonfensiwn gael ei sefydlu na fyddai San Steffan fel arfer yn deddfu mewn perthynas â materion datganoledig yn yr Alban heb gydsyniad Senedd yr Alban.”⁹

- 3.11 Mae'r un confensiwn yn berthnasol i setliad datganoli Cymru. Y ddealltwriaeth rhwng Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig yw na fydd Senedd y DU 'fel arfer' yn deddfu (a) mewn meysydd datganoledig, nac (b) er mwyn addasu cymhwysedd datganoledig, heb gydsyniad y ddeddfwrfa ddatganoledig. Cafodd hyn ei adlewyrchu i ddechrau mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth¹⁰ rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig, ac wedyn yng Nghanelwiau ar Ddatganoli Llywodraeth y DU ei hun¹¹ (nad oes ganddynt rym cyfreithiol ond sy'n darparu canllawiau mewnol i weision sifil ar weithredu'r setliad).
- 3.12 Datblygodd gweithdrefn lle byddai Llywodraeth y DU yn gofyn am gydsyniad Senedd Cymru i ddarpariaethau Bil y DU a oedd yn cynnwys y naill agwedd neu'r llall ar gonfensiwn Sewel drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Mae Rheolau Sefydlog Senedd Cymru¹² yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil y DU sy'n cynnwys darpariaethau o'r fath. Wrth bleidleisio ar Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gall Senedd Cymru wedyn fynegi ei gydsyniad, neu fel arall, i Fil y DU.
- 3.13 Tan yn ddiweddar¹³, lle bu anghytundeb rhwng Senedd Cymru a Senedd y DU ynghylch a yw deddfwriaeth y DU yn ymgysylltu â chonfensiwn Sewel ac felly'n gofyn am gydsyniad Senedd Cymru, yn gyffredinol y cwestiwn oedd a yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig mewn maes datganoledig yn hytrach nag a yw'r amgylchiadau'n '*normal*' ai peidio. Mae defnyddio'r dull hwn wedi mynd i'r afael ag ystyr ddim '*fel arfer*', sy'n derm sydd heb bamedrau wedi'u diffinio fel nad oes dealltwriaeth glir o ba fath o amgylchiadau a allai arwain at Senedd y DU i basio deddfwriaeth mewn meysydd datganoledig, neu ddeddfwriaeth sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol, heb gydsyniad Senedd Cymru.
- 3.14 Roedd Deddf Cymru 2017 yn cadw'r amwysedd cyfansoddiadol hwn, yn hytrach na'i ddatrys. Roedd yn mewnosod adran 107(6) yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006:

⁹ Hansard, HL Deb 21 Gorff 1998 Cyfrol 592 c 791

¹⁰ Command Paper Cm 5240 (Rhagfyr 2001), superseded by Memorandum of Understanding between the UK Government, the Scottish Ministers, the Welsh Ministers, and the Northern Ireland Executive Committee (Hydref 2013), ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/316157/MoU_between_the_UK_and_the_Devolved_Administrations.pdf

¹¹ UK Government (2018) Devolution Guidance Note: Parliamentary and Assembly Primary Legislation Affecting Wales, ar gael yn https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/701462/DGN_-_Parliamentary_and_Assembly_Primary_Legislation_Affecting_Wales.pdf

¹² Rheolau Sefydlog Senedd Cymru (Rhagfyr 2021), Rheol Sefydlog 29, ar gael yn https://senedd.wales/media/hzlf2rf/clean_sos-eng.pdf

¹³ Gweler enghraifft y Deyrnas Unedig a Marchnad Fewnol 2020, isod: dyma'r enghraifft gyntaf o Lywodraeth y DU yn gwahodd Senedd y DU i roi Bil ar waith y maent yn ei dderbyn sy'n ymwneud â chonfensiwn Sewel, ond y gwrthododd Senedd Cymru roi cydsyniad iddo.

Ond cydnabyddir na fydd Senedd y Deyrnas Unedig fel arfer yn deddfu yng nghyswllt materion datganoledig heb gydsyniad Senedd Cymru.

- 3.15 Fodd bynnag, ni fanteisiodd ar y cyfle i egluro cwmpas y confensiwn drwy ddiffinio'r hyn a olygir wrth '*fel arfer*'. Ac ym *Miller Rhif 114*, dywedodd y Goruchaf Lys nad yw cwestiynau am gydymffurfio â chonfensiwn Sewel yn berthnasol ar hyn o bryd, er eu bod bellach wedi'u nodi gan Senedd y DU mewn statud. Mae'r methiant i ddiffinio'r cwestiwn o'r hyn a olygir gan '*fel arfer*' yn parhau i fod yn wendid mawr, gwendid ac achos gwrthdaro diangen yn y fframwaith cyfansoddiadol, gan adael i Lywodraeth y DU a Senedd y DU ddisgresiwn sylweddol wrth benderfynu pa amgylchiadau sydd '*ddim yn normal*'. Mae hynny'n eu galluogi i fwrw ymlaen â deddfwriaeth ar faterion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig – neu hyd yn oed ddeddfwriaeth sy'n honni ei bod yn newid cymhwysedd Senedd Cymru yn radical – er bod Senedd Cymru wedi gwrthod rhoi ei chydsyniad.
- 3.16 Rydym wedi galw am ymgorffori Confensiwn Sewel yn statudol mewn ffordd fwy ystyrllon, sy'n rhoi eglurder i'r llywodraethau perthnasol, ac sy'n parchu mandad democrataidd Senedd Cymru:

Dylai'r gofyniad ddim 'fel arfer' gael ei wreiddio a'i godeiddio gan ddiffiniad a meini prawf priodol sy'n llywodraethu sut mae'n cael ei gymhwyso, gan roi cydnabyddiaeth go iawn iddo yn hytrach na chydabyddiaeth symbolaidd yn ein trefniadau cyfansoddiadol. Neu, gallai setliad cyfansoddiadol newydd ddarparu na fydd Senedd y DU yn deddfu ar faterion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig, nac yn ceisio addasu cymhwysedd deddfwriaethol na swyddogaethau'r llywodraethau datganoledig, heb gydsyniad y ddeddfwrfa ddatganoledig berthnasol. 15

- 3.17 Mae'r camau gweithdrefnol diweddar a gymerwyd gan Dŷ'r Arglwyddi i gryfhau'r confensiwn i'w croesawu, ond nid ydynt yn ddigonol. Erbyn hyn, mae'n ofynnol i Weinidogion Llywodraeth y DU roi gwybod i Dŷ'r Arglwyddi os oes cydsyniad deddfwriaethol wedi'i wrthod, neu heb ei roi, drwy drydydd darlleniad Bil; ac i nodi pa ymdrechion sydd wedi'u gwneud i gael cydsyniad. Er bod hynny'n darparu rhyw lefel o atebolrwydd Gweinidogol yn y DU i Senedd y DU, nid yw'n gadael lle i drafodaeth bellach rhwng y deddfwrfeydd – rhywbeth sy'n sail i gonfensiwn Sewel ac sy'n hanfodol i weithrediad cyfansoddiadol heb ei godio'r DU, fel y nodwyd gan y Goruchaf Lys ym *Miller Rhif 116*.

¹⁴ *R (Miller) v Secretary of State for Exiting the European Union* [2017] UKSC 5, paragraffau 146-149

¹⁵ Llywodraeth Cymru (2021) *Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU*, Cynnig 5

¹⁶ *R (Miller) v Secretary of State for Exiting the European Union* [2017] UKSC 5, paragraff 151

Nodwn sylwadau Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar y Cyfansoddiad yn ei Adroddiad *Respect and Co-operation: Building a Stronger Union for the 21st Century*, fod hyd yn oed yr arfer sydd wedi'i ddiweddarau yn cyfyngu ar gyfleoedd ar gyfer craffu seneddol ystyrlon yn gynharach wrth ystyried y bil a bod diffyg tryloywder¹⁷.

- 3.18 Hyd yma, nid oes gweithdrefn gyfatebol yn Nhŷ'r Cyffredin, y daeth ei Bwyllgor Gweithdrefnau i'r casgliad ei fod wedi cymryd tystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad i weithdrefn Tŷ'r Cyffredin a'r cyfansoddiad tiriogaethol ym mis Awst 2021 ond nid yw wedi adrodd eto¹⁸.
- 3.19 Gallai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig, sy'n nodi'r amgylchiadau y cytunwyd arnynt lle gallai Llywodraeth y DU – mewn achosion eithafol – wahodd Senedd y DU i ddeddfu heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig, gyfrannu rhywfaint at y broses o ailadeiladu'r ymddiriedaeth, yr eglurder a'r sicrwydd sydd wedi'u herydu o dan Lywodraeth bresennol y DU.
- 3.20 Fodd bynnag, yn y pen draw, rydym o'r farn ei bod yn ofynnol i feini prawf statudol clir, sy'n gallu cael eu hadolygu a'u cymhwyso gan y Llysoedd, ddiogelu'r mandad cyfansoddiadol a democrataidd a roddir gan bobl Cymru i Aelodau etholedig Senedd Cymru i wneud eu cyfreithiau eu hunain. Rydym yn cytuno â'r Sefydliad Llywodraeth y gallai fod *risg i ddyfodol yr Undeb heb ddiwygiadau i'r egwyddor o gydsyniad deddfwriaethol sydd wrth galon y setliad datganoli*.¹⁹
- 3.21 Yn y cyfamser, dylai'r berthynas rhwng Senedd Cymru a Senedd y DU (a rhwng y llywodraethau perthnasol) fynd rhagddi ar sail parch ar y ddwy ochr, a chydabod y dilysrwydd democrataidd sy'n sail i bob sefydliad.

4. Cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru

Trosolwg

- 4.1 Mae Adran 107(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu fel a ganlyn:

Caiff Senedd Cymru wneud deddfau, i'w galw'n Ddeddfau Senedd Cymru (y cyfeirir atynt yn y Ddeddf hon fel "Deddfau'r Senedd").

- 4.2 Ond mae cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru wedyn wedi'i gyfyngu gan adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn ei hanfod, mae adran 108A yn gosod pum prawf neu rwystr deddfwriaethol ar wahân ar bob un o ddarpariaethau Bil y Senedd, ac mae'n rhaid pasio pob un ohonynt er mwyn iddynt ddod o fewn cymhwysedd.

¹⁷ [Respect and Co-operation: Building a Stronger Union for the 21st century \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk)

¹⁸ <https://committees.parliament.uk/work/618/the-procedure-of-the-house-of-commons-and-the-territorial-constitution/>

¹⁹ Institute for Government (2020) *Legislating by Consent: how to revive the Sewel Convention*, ar gael yn <https://www.instituteforgovernment.org.uk/publications/sewel-convention>

- 4.3 Pan fydd darpariaeth y tu hwnt i gymhwysedd, oherwydd ei bod yn methu unrhyw un o'r pum prawf yn Adran 108A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, nid yw'n gyfraith.²⁰ Mae trosolwg o'r berthynas gymhleth rhwng y pum prawf cymhwysedd hyn wedi'i nodi yn y siart llif yn **Atodiad A** i'r papur hwn.
- 4.4 Cafodd nifer o'r profion hyn (yn enwedig y cyfyngiadau a nodir yn Atodlen 7B; a'r gofyniad nad yw deddfwriaeth yn cael mwy o effaith heblaw mewn perthynas â Chymru nag sy'n angenrheidiol i roi pwrpas datganoledig ar waith) eu cyflwyno gan Ddeddf Cymru 2017, sydd i bob golwg er budd gwneud y system yn gliriach. Fodd bynnag, mae'r cymhlethdod ychwanegol a ychwanegodd Deddf Cymru at y matrices cymhwysedd, yn ein barn ni, yn cael yr effaith gwbl groes i hynny.
- 4.5 Ar ben hynny, mae'r profion newydd yn gwaethygu'r anghydbwysedd cyfansoddiadol yn y setliad. Er bod Senedd Cymru yn rhydd i ddeddfu ar gyfer Cymru ar unrhyw fater (gan gynnwys materion datganoledig); mae wedi'i chyfyngu (hyd yn oed mewn perthynas â materion datganoledig) gan faterion a gedwir yn ôl a chyfyngiadau cymhleth sy'n gwneud atebolrwydd democrataidd yn ddryslyd, ac yn llesteirio'r gwaith o gyflawni ein Rhaglen Lywodraethu.

Adran 108A(2)(a) Deddf Llywodraeth Cymru: rychwant

- 4.6 Nid oes gan Senedd Cymru bŵer i basio deddfwriaeth sy'n ymestyn y tu hwnt i awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr, hyd yn oed o ganlyniad i fater datganoledig.
- 4.7 Bydd diwygiad i Ddeddf y DU a wneir gan Fil y Senedd yn rhan o'r llyfr statud yng Nghymru a Lloegr yn unig. Ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon, nid effeithir ar y gyfraith bresennol ar gyfer yr awdurdodaethau hynny, oni bai fod Senedd y DU yn gwneud darpariaeth ar gyfer y diwygiad i 'ymestyn i' (h.y. yn rhan o gyfraith) yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon.
- 4.8 Pan fyddwn o'r farn bod angen darpariaeth ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn gwneud Deddf Senedd Cymru yn effeithiol, gallwn gysylltu â Llywodraeth y DU i wneud y newidiadau angenrheidiol. Mae adran 150 Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaeth o ganlyniad i ddeddfwriaeth Senedd Cymru; a gallai hyn gynnwys Gorchymyn sy'n ymestyn darpariaethau'r Senedd i'r Alban neu Ogledd Iwerddon (ond nid os ydynt yn dod o fewn cymhwysedd Senedd yr Alban, ac os felly mae'n ddyletswydd ar y ddeddfwrfa honno i benderfynu a oes angen newid cyfraith yr Alban, a phryd i wneud hynny – nid oes darpariaeth debyg i Ogledd Iwerddon).
- 4.9 Mae'r broses ar gyfer gwneud addasiadau angenrheidiol i'r gyfraith o ganlyniad

i Ddeddf gan Senedd Cymru sy'n ymwneud â mater cwbl ddatganoledig

²⁰ Adran 108A(1) Deddf Llywodraeth Cymru 2006

felly yn feichus ac yn ddigyswllt. Mae'n dibynnu ar adnoddau Llywodraeth y DU, a bod amser Seneddol y DU (a/neu'r Alban) (gan fod angen i'r Gorchymyn gael ei gymeradwyo gan bob un o Dai'r Senedd) ar gael i ddelio â hwy. Mae hyn yn annhebygol o fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth y DU; ac felly mae potensial i Ddeddfau'r Senedd beidio â bod yn gwbl effeithiol; ac i'r gyfraith gael ei gadael mewn cyflwr aneglur ac anhygyrch, hyd yn oed ar faterion annadleuol.

- 4.10 Rydym o'r farn y dylai Gweinidogion Cymru allu delio â'r materion hyn yn uniongyrchol gyda'r gwledydd datganoledig perthnasol, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y DU. Er enghraifft, gellid gwneud darpariaeth i Senedd Cymru newid cyfraith yr Alban a/neu Ogledd Iwerddon o ganlyniad i ddarpariaeth sydd o fewn cymhwysedd Senedd Cymru, yn amodol ar gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban a/neu Weinidogion Gogledd Iwerddon.

Adran 108A(2)(b) a (3) Deddf Llywodraeth Cymru 2006: ar waith

- 4.11 Effaith gyfunol adran 108A(2)(b) a (3) Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yw:

(a) ni all Senedd Cymru wneud cyfraith sy'n berthnasol ac eithrio o ran Cymru; oni bai

(b) fod y ddarpariaeth o dan sylw yn;

(i) ategol²¹ i ddarpariaeth arall mewn Deddf gan Senedd Cymru; ac

(ii) nad yw'n cael unrhyw effaith fwy heblaw mewn perthynas â Chymru nag sy'n angenrheidiol er mwyn rhoi effaith i ddiben y ddarpariaeth y mae'n ategol iddi.

- 4.12 Mae'r rhain yn brofion cymhleth i'w cymhwyso yng nghyd-destun ffin agored, y mae trigolion Cymru a Lloegr yn ei chroesi'n rheolaidd er mwyn cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus fel addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, ac ati.

Adran 108A(2)(c), ac Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006: materion a gedwir yn ôl

- 4.13 Mae darpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru y tu hwnt i gymhwysedd os yw'n ymwneud â mater a gedwir yn ôl. Mae'r rhestr o faterion a gedwir yn ôl wedi'i nodi yn Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru

²¹ Mae darpariaeth yn atodol i ddarpariaeth arall os yw'n darparu ar gyfer gorfodi'r ddarpariaeth arall neu fel arall yn briodol ar gyfer gwneud y ddarpariaeth honno'n effeithiol neu os yw'n gysylltiedig fel arall â'r

ddarpariaeth honno, neu'n ganlyniadol iddi.

2006. Mae'r rhestr hon o faterion a gedwir yn ôl yn llawer hwy, ac yn llawer mwy cymhleth na'r rhestrau cyfatebol ar gyfer yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Sybsidiaredd

- 4.14 Dylai sybsidiaredd fod yr egwyddor drefniadol sylfaenol ar gyfer y setliadau datganoledig.
- 4.15 Pan ddrafftiwyd Deddf Cymru 2017 (a oedd yn mewnosod Atodlen 7A yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006), ni fabwysiadwyd unrhyw egwyddor drefniadol o'r fath. Er bod y Ddeddf honno wedi creu model cadw pwerau ar gyfer Cymru (a oedd yn golygu datganoli pwerau ehangach, yn debyg i'r sefyllfa yn yr Alban), roedd Llywodraeth y DU yn meddwl ei bod yn ymddangos mai'r unig beth a oedd yn sail i'r dull gweithredu ar gyfer cadw pwerau oedd gwrthdroi'r setliad pwerau a roddwyd, a'r rhagdybiaeth gychwynnol oedd bod popeth wedi'i gadw'n ôl oni bai eu bod wedi'u rhoi'n benodol.
- 4.16 Mae'r dull hwn wedi arwain at lawer mwy o faterion a gedwir yn ôl yn setliad Cymru; ac wedi parhau â chlytwaith o ddatganoli pwerau anghymesur ar draws y DU. Yn hytrach nag ystyried beth sy'n rhesymegol a chydlynol, mae cynnwys pob setliad wedi deillio'n bennaf o hanes ac amgylchiadau gwleidyddol ac ymarferol penodol (tymor byr) y wlad mae'n berthnasol iddi. Ceir camagraff o unffurfiaeth yn y *model* ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yng *ngyhynnwys* sylweddol pob setliad.
- 4.17 Er enghraifft; mae paragraff 94 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cadw pwerau'n ôl i Senedd y DU:

Pwnc Rhan 4 o Ddeddf Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth 2015.

Mae Rhan 4 o'r Ddeddf honno yn ymdrin â Chod Tafarndai Cymru a Lloegr, sy'n gosod rhwymedigaethau ar fusnesau sy'n berchen ar dafarnau wrth iddynt ddelio â'u tenantiaid tafarndai clwm. Mae'n sefydlu Dyfarnwr annibynnol ar gyfer y Cod Tafarndai i orfodi'r Cod. Y pwrpas yw sicrhau tegwch yn y diwydiant; ac yn hawliau tenantiaid tafarndai rhydd a chlwm. Mae'r materion hyn yn integreiddio'n agos â materion sy'n ymwneud â thai, rhent teg, a chymunedau, sydd heb eu cadw'n ôl ac sydd felly wedi'u datganoli. Yn fwy sylfaenol, nid oes rheswm cyfansoddiadol da, yn ein cyflwyniad, pam y dylid eu cadw'n ôl. Nid ydynt wedi'u cadw'n ôl yn setliad yr Alban nac yn setliad Gogledd Iwerddon; sydd ynddo'i hun yn dangos nad ydynt yn faterion y mae angen ymdrin â hwy ar lefel y DU gyfan. Y gwir yw mai'r rheswm y mae rhywbeth mor ddibwys â'r Cod Tafarndai wedi'i gadw'n ôl yw am fod trwyddedu alcohol wedi'i gadw'n ôl. Ac mae trwyddedu alcohol yn cael ei gadw'n ôl oherwydd bod plismona a chyfiawnder yn cael eu cadw'n ôl. Ond nid oes rheswm cyfansoddiadol da pam y dylid cadw *unrhyw un* o'r materion hynny'n ôl.

4.18 Ein barn ni yw:

Dylai pwerau'r sefydliadau datganoledig fod yn seiliedig ar set gydlynol o gyfrifoldebau a ddyrennir yn unol â'r egwyddor sybsidiaredd. Dylid diffinio'r pwerau hynny drwy restru'r materion penodol y cytunir y dylid eu cadw i San Steffan mewn perthynas â phob tiriogaeth, pob mater arall (yn achos Cymru) sy'n dod yn gyfrifoldeb i Senedd Cymru a/neu Lywodraeth Cymru. ²²

Cyfiawnder

4.19 Mae cyfiawnder a'r awdurdodaeth gyfreithiol unigol, gan gynnwys y llysoedd, barnwyr, achosion sifil a throseddol yn faterion a gedwir yn ôl i Senedd y DU gan Atodlen 7A (gyda rhai eithriadau cyfyngedig). Gellir cyferbynnu hyn â'r Alban, a Gogledd Iwerddon, lle mae'r sefydliadau datganoledig yn gyfrifol am weinyddu cyfiawnder yn eu tiriogaethau eu hunain.

4.20 Mae hyn yn cyflwyno set unigryw o heriau i Senedd Cymru ac i Lywodraeth Cymru. Fel y cyfeirir uchod, fel mater o egwyddor nid oes rheswm da pam na ddylid datganoli'r system gyfiawnder. Ar ben hynny, mae'r rhaniad mewn cyfrifoldeb rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn cael effaith niweidiol ar y system gyfiawnder sydd heb ei datganoli a'r materion cysylltiedig sydd wedi eu datganoli. Fel yr esboniwyd yn *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*:

Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid mewn meysydd datganoledig a phartneriaid mewn meysydd nad ydynt wedi'u datganoli fel rhan o ddull system gyfan, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ar gyfer cyfiawnder. Mae meysydd datganoledig fel tai, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn hanfodol i alluogi dinasyddion Cymru i fyw bywydau iach, di-drosedd. Rydym yn chwarae rhan weithredol yn y system bresennol, gan weithio gyda phartneriaid i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl. Dangosir hyn yn arbennig gan waith ar y Glasbrintiau Cyfiawnder Ieuencid a Chyfiawnder Menywod, yn ogystal â'n gwaith ar y cyd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Er hyn, rydym yn gwybod y gallai ein system gyfiawnder fod gymaint yn well.

*Mae ein partneriaethau llwyddiannus yn gweithredu yng nghyd-destun ehangach system sy'n ddigyswllt, lle mae gwasanaethau a ddylai fod ynghlwm wrth ei gilydd yn hytrach wedi'u gwasgaru ar draws cyrff datganoledig a chyrrff nad ydynt wedi'u datganoli. Felly, mae effeithiolrwydd y trefniadau partneriaeth hyn a'u gallu i wneud gwelliannau yn sylfaenol gyfyngedig – gan effeithio ar ein gallu cyfunol i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl Cymru.*²³

²² Llywodraeth Cymru (2021) *Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU*, Cynnig 3

²³ Llywodraeth Cymru (2022) *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, ar gael yn <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru-mai-2022.pdf>

- 4.21 Roedd y cyhoeddiad hwnnw'n ymateb i adroddiad y Comisiwn annibynnol ar Gyfiawnder yng Nghymru, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, cyn Arglwydd Brif Ustus Cymru a Lloegr. Yn ôl y Comisiwn, "*mae pobl Cymru yn cael eu siomi gan y system gyfiawnder yn ei chyflwr presennol.*"²⁴
- 4.22 Daeth y Comisiwn i'r casgliad – yn unfrydol – bod angen pennu a chyflawni polisïau a phenderfyniadau ynghylch cyfiawnder yng Nghymru er mwyn diwygio'r system gyfiawnder go iawn. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod angen iddynt gyd-fynd â'r polisïau a'r gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, cyfiawnder cymdeithasol ac addysg unigryw a datblygol yng Nghymru a'r corff cynyddol o gyfreithiau i Gymru. Dylid datblygu polisi cyfiawnder i wasanaethu anghenion pobl Cymru a darparu mwy o fuddion iddynt – gyda chyllid yn cael ei ddyrannu yn unol â hynny. Nid oes sail resymegol dros drin Cymru'n wahanol i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.
- 4.23 Fel y nododd y Comisiwn, mae toriadau i'r gyllideb cyfiawnder gan Lywodraeth y DU wedi cael effaith anghymesur o ddifrifol yng Nghymru, lle mae ffactorau daearyddol ac economaidd-gymdeithasol unigryw yn effeithio ar fynediad at gyfiawnder. Rydym wedi ceisio llenwi'r bylchau, mewn ymgais i liniaru'r effaith hon, ond yn ôl y Comisiwn mae hyn yn *anghynladwy pan nad oes gan Lywodraeth Cymru fawr o lais mewn polisi cyfiawnder a gwariant cyffredinol.*²⁵
- 4.24 Rydym yn cytuno ag argymhelliad y Comisiwn y dylid datganoli cyfiawnder i Gymru yn awr. Rydym wedi ymrwmo i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli cyfiawnder a phlisma. Nid ydym ar ein pen ein hunain: roedd y cynnig hwnnw'n rhan o fanifesto sawl plaid cyn etholiad 2021 Senedd Cymru, felly mae ganddo fandad democrataidd clir gan bobl Cymru.
- 4.25 Mae ein cynigion wedi'u nodi'n fanylach yn *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, lle rydym yn ystyried yr effaith ar addysg, teuluoedd, cydraddoldeb a chyfiawnder, diogelwch cymunedol a'r economi.
- 4.26 Ar ben hynny, yn 2016 gwnaethom gyhoeddi Bil drafft Llywodraeth a Chyfraith yng Nghymru²⁶, a oedd yn nodi cynigion deddfwriaethol penodol ar gyfer awdurdodaeth benodol ac ar wahân yng Nghymru a (ymhlith materion eraill) datganoli'r system gyfiawnder. Wrth wneud hynny, roeddem yn derbyn y byddai hyn yn golygu bod angen rhai cyfyngiadau rhesymegol, cyfatebol, ar gymhwysedd Senedd Cymru mewn perthynas â chymhwyso tiriogaethol ac i ba raddau, er budd eglurder, sefydlogrwydd a buddiannau strategol y DU. Mae'r rhain eto'n adlewyrchu'r sefyllfa o ran yr awdurdodaethau cyfreithiol ar wahân yn yr Alban a Gogledd Iwerddon.

²⁴ Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) *Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru*, ar gael yn <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-10/Justice%20Commission%20WEL%20DIGITAL.pdf>

²⁵ Ibid, Crynodeb Gweithredol, paragraff 3

²⁶ Llywodraeth Cymru (2016) *Bil drafft Llywodraeth a Chyfraith Cymru*, ar gael yn <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/wales-bill-draft.pdf>

- 4.27 Hyd yma, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthsefyll galwadau i ddatganoli cyfiawnder a phlisma; er gwaethaf argymhelliad clir ac unfrydol y Comisiwn, a'r mandad democrataidd ar gyfer newid. Mae wedi methu hyd yn oed ag ystyried yn briodol ac ymateb i'r gwahanol bapurau a sylwadau a gyflwynwyd. Nid yw wedi darparu ymateb rhesymegol i adroddiad Comisiwn Thomas, nac i bapur *Diwygio ein Hundeb* Llywodraeth Cymru. Mae'r methiant hwn i gymryd rhan mewn trafodaeth ynghylch sut y gellir gwella a moderneiddio plisma a chyfiawnder yn nodweddiadol, ac mae'n rhan o ddarlun ehangach o fethiant Llywodraeth y DU i ymgysylltu â chynigion polisi Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn arwydd o anwybyddu mandad democrataidd Llywodraeth Cymru yn ehangach, ac nid yw'n gydnaws â chael Teyrnas Unedig iach sy'n gweithio.
- 4.28 Dadleuodd un o weinidogion cyfiawnder Llywodraeth y DU, wrth ymateb i adroddiad y Comisiwn mewn dadl yn Neuadd San Steffan yn 2020, y byddai datganoli cyfiawnder yn *gwaethygu'r ffin amrwd* yn y rhyngwyneb rhwng cyfiawnder a materion sydd eisoes wedi'u datganoli i Gymru. Er nad oedd tystiolaeth ar gyfer y ddadl honno, mae'r ymateb o leiaf – ynddo'i hun – yn cydnabod bod ffiniau presennol y datganoli yn aneglur, yn anghyson ac yn methu â chyflawni nodau datganedig Deddf Cymru 2017.
- 4.29 Mae'n ganlyniad naturiol, ac anochel, i ddatganoli y bydd y gyfraith yng Nghymru yn parhau i wyro oddi wrth y gyfraith yn Lloegr. Mae'r gwahaniaethau'n mynd y ddwy ffordd, sy'n digwydd o ganlyniad i gyfreithiau sy'n cael eu deddfu gan Senedd Cymru a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru; a gan Senedd y DU a Llywodraeth y DU sy'n deddfu cyfreithiau ar gyfer Lloegr yn unig. Mae ein profiad yn ystod pandemig Covid-19, lle'r oedd yr ymateb deddfwriaethol yng Nghymru yn wahanol iawn i'r profiad yn Lloegr, yn enghraifft amlwg o hyn.
- 4.30 Mae Llywodraeth y DU yn gwadu'r realiti cyfansoddiadol, ac mae'n rhy hwyr i geisio glynu wrth yr awdurdodaeth ar y cyd. Mae awdurdodaeth unigol Cymru a Lloegr yn anghysondeb, oherwydd ei sail oedd bod y gyfraith ar draws Cymru a Lloegr yr un fath, a'i phwrpas oedd ymgorffori unffurfiaeth – mewn geiriau eraill, i ddangos bod y gyfraith yr un fath. Mae honni bod un corff o gyfreithiau yn bodoli yn peri dryswch i'r darlennydd ac nid yw o fudd. O ganlyniad, mae'n amlwg nad yw'r awdurdodaeth ar y cyd yn addas i'r diben mwyach.
- 4.31 Y dull naturiol, a fyddai'n adlewyrchu'r sefyllfa yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon, fyddai cydnabod y dylai'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru gael ei galw'n gyfraith Cymru, ac y dylai hyn wedyn gael ei gymhwyso yn llysoedd Cymru gan farnwyr a benodir i lysoedd yng Nghymru. Byddai dull o'r fath hefyd o fudd i ddinasyddion Lloegr, gan y byddai hefyd yn creu cysyniad o gyfraith Lloegr. Nid oes unrhyw reswm yn ymarferol pam na allai'r un set o farnwyr (a chyfreithwyr) wasanaethu mewn llysoedd yng Nghymru ac yn Lloegr. Dyma'r dull sy'n cael ei grybwyll ym Mil drafft Llywodraeth a Chyfraith Cymru.
- 4.32 Byddwn yn parhau i fynd ar drywydd cynigion egwyddorol, rhesymegol a manwl ar gyfer datganoli cyfiawnder a phlisma.

Awdurdodau penodol

- 4.33 Mae paragraff 197 o Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cadw cyfansoddiad a swyddogaethau “awdurdodau penodol”. Yn gryno, diffinnir y rhain²⁷ fel unrhyw gwmni Swyddfa'r Post (neu gwmni cysylltiedig); Cyngorau Ymchwil; Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu; y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; ac unrhyw gorff arall a gedwir yn ôl ei enw yn Rhan 2 o Atodlen 7A (ee yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch²⁸; a'r Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig²⁹).
- 4.34 Yr effaith yw rhoi statws arbennig i'r cyrff hyn, ar wahân i'r cyfyngiad mewn perthynas ag “awdurdod a gedwir yn ôl” fel y nodir yn Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler isod). Er bod Senedd Cymru wedi'i chyfyngu o ran sut y gall ddeddfu mewn perthynas ag awdurdodau a gedwir yn ôl, mae'n gallu deddfu (er enghraifft i roi swyddogaethau i awdurdod a gedwir yn ôl) gyda chydysniad Gweinidog priodol Llywodraeth y DU.
- 4.35 Fodd bynnag, nid oes eithriad o'r fath i'r rheol yn erbyn deddfu mewn perthynas ag “awdurdod penodol”. Felly, hyd yn oed pan fydd Llywodraeth y DU wedi dweud na fyddai ganddi wrthwynebiad i Senedd Cymru'n deddfu mewn perthynas ag awdurdod penodol, mae wedi dod i'r casgliad nad oes lle i roi cydsyniad i'r Senedd wneud hynny. Mae'r mater hwn a gedwir yn ôl wedi achosi cymhlethdodau hyd yn oed mewn perthynas â materion annadleuol; ac mae wedi gwneud diwygiadau diweddar a gyflwynwyd gan ddeddfwriaeth Senedd Cymru fiwrocraidd a chymhleth yn ddiangen.
- 4.36 Fel enghraifft, roedd Llywodraeth y DU o'r farn nad oedd yn gallu cydsynio i ddarpariaeth yr oeddem yn dymuno ei chynnwys yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, gan ddiwygio pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â chyfrifon “cyrff llywodraeth leol”, gan gynnwys comisiynwyr heddlu a throseddu, prif gwnstabiliaid, byrddau prawf lleol ac ymddiriedolaethau prawf Cymru. Roedd ymateb Llywodraeth y DU i'n cais am gydsyniad yn dangos nad oedd ganddynt wrthwynebiad polisi i'r cynigion, ond eu bod o'r farn bod y cyfyngiad ar Senedd Cymru yn deddfu mewn perthynas ag awdurdodau penodol yn rhwystr llwyr, ac felly nad oeddent yn gallu cydsynio i'r ddarpariaeth. O ganlyniad, ni chafodd y ddarpariaeth ei chynnwys. Mae'n amlwg mai un o'r prif gymhellion dros gynnwys y cyfyngiadau newydd yn y setliad gan Ddeddf Cymru 2017 oedd dymuniad Llywodraeth y DU i gadw rheolaeth dros gyrff y mae'n gyfrifol yn ariannol ac yn wleidyddol amdanynt; ond, ar gyfer awdurdodau eraill, darperir y rheolaeth honno gan drefn gydsynio Gweinidog y Goron yn Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (gweler isod). Nid yw'n glir i ni pam

²⁷ Ym mharagraff 197, Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru

²⁸ Ym mharagraff 156, Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru

²⁹ Ym mharagraff 159, Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru

na fyddai'n ddigon i Lywodraeth y DU gael disgresiwn i ganiatáu newidiadau i swyddogaethau awdurdodau penodol, fel sydd ganddi ar gyfer awdurdodau eraill a gedwir yn ôl.

- 4.37 Yn y cyfamser, mae'r feto llwyr hwn ar newid swyddogaethau awdurdodau penodol yn ddiangen, ac yn rhwystrol. Mae'r berthynas rhwng awdurdodau penodol ac awdurdodau a gedwir yn ôl yn aneglur. Dyma enghraifft arall lle mae Deddf Cymru 2017 yn methu â chyflawni ei haddewidion i wneud y setliad yn gliriach, ac i roi llais cryfach i bobl Cymru (a'u cynrychiolydd etholedig) dros eu materion eu hunain.

Anghysondeb

- 4.38 Mae diffyg cysondeb mewnol o ran sut mae'r materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael eu drafftio a'u hamlinellu.
- 4.39 Disgrifir rhai materion yn syml, gydag eithriadau clir, ac nid ydynt yn achosi fawr o ddadlau, ee paragraff 70:

Adran C4

C4 Eiddo deallusol

70 Eiddo deallusol.

Eithriadau

Amrywiadau planhigion a hadau.

- 4.40 Disgrifir materion eraill a gedwir yn ôl drwy gyfeirio at ddeddfwriaeth bresennol, ee paragraff 43:

Adran B6

B6 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

43 Pwnc Rhan 1 i 4 a Rhan 6 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014.

- 4.41 Mae hwn yn fath llawer llai hygyrch o ddrafftio, sy'n gofyn am groesgyfeirio at ddeddfwriaeth arall. Mae'n cael ei gymhlethu ymhellach gan y ffaith bod angen³⁰ cyfeirio at y ddeddfwriaeth honno fel yr oedd ar 1 Ebrill 2018³¹, pan ddaeth Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i rym, er mwyn datod cwlwm cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru mewn perthynas â mater penodol.

³⁰ Yn rhinwedd paragraff 200, Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

³¹ Dyma'r "prif ddiwrnod penodedig" o dan adran 71(3) Deddf Cymru 2017, yn rhinwedd Rheoliad 2

- 4.42 Mae'n ddigon anodd i gyfreithwyr y llywodraeth gael mynediad at gyfraith hanesyddol er mwyn sefydlu ffiniau cymhwysedd ac mae hyn bron yn amhosibl i ddinasyddion a rhanddeiliaid. Hyd yn oed os ydynt yn ymwybodol o'r angen i gael mynediad at gyfraith hanesyddol er mwyn deall a yw cynnig cyfredol o fewn cymhwysedd, ni fydd gan y rhan fwyaf fynediad at y cronfeydd data cyfreithiol cost uchel sy'n ei gwneud yn haws cael gafael ar yr wybodaeth hon.
- 4.43 Mae'r anghysonderau wrth ddrafftio'r materion a gedwir yn ôl yn datgelu gwirionedd ehangach am Atodlen 7A, a'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU wrth baratoi Deddf Cymru 2017. Mae'n cynrychioli casgliad tameidiog ac afresymol o faterion a gyflwynwyd gan swyddogion ar draws gwahanol adrannau Llywodraeth y DU wrth baratoi'r Bil; ac absenoldeb egwyddor gyfansoddiadol drefniadol. Mae hyn ynddo'i hun wedi arwain at gynnydd yn nifer y materion a gedwir yn ôl, sydd yn ei dro yn cynyddu'r potensial ar gyfer anghydfod ar ymylon cymhwysedd; yn groes i nodau datganedig Deddf Cymru 2017.
- 4.44 Mae'r arddull hon yn llesteirio pa mor hygyrch a chlir yw cyfraith Cymru i bobl Cymru: i'w rhoi'n syml – nid yw'n cynhyrchu cyfraith dda y gall pobl ddod o hyd iddi'n rhwydd.

Gwneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch: dosbarthu, cydgrynhoi a chodeiddio

- 4.45 Rydym wedi dechrau ar raglen uchelgeisiol i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch drwy ddosbarthu, cydgrynhoi a chodeiddio deddfwriaeth ddatganoledig.
- 4.46 Mae'n amlwg bod pobl Cymru yn cael problemau wrth ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau. Mae consensws trawsbleidiol yn Senedd Cymru bod angen i'r gyfraith yr ydym yn gyfrifol amdani fod yn haws dod o hyd iddi, ac yn haws ei darllen. Mae *Dyfodol Cyfraith Cymru: dosbarthu, cydgrynhoi a chodeiddio*³² a *Dyfodol Cyfraith Cymru: Rhaglen ar gyfer 2021 i 2026*³³ yn nodi trywydd ar gyfer tirwedd gyfreithiol yn y dyfodol lle mae'r holl gyfreithiau sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru mewn trefn, yn hawdd eu llywio, ar gael ar ffurf gyfredol ac mor ddealladwy ag y mae cymhlethdod y cynnwys yn caniatáu. Mae hyn yn ei dro yn helpu dinasyddion Cymru i ddeall eu hawliau a'u rhwymedigaethau cyfreithiol.
- 4.47 Er mwyn cyflawni hyn, mae angen ailwampio'r llyfr statud. Gwneir hyn drwy sefydlu system o ddosbarthu'r gyfraith bresennol fel y gellir ei threfnu yn ôl pwnc; drwy gydgrynhoi'r gyfraith honno wedyn yn unol â'r dosbarthiad pwnc; ac, unwaith y cyflawnir trefn yn y

³² Llywodraeth Cymru (2019), ar gael yn https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-10/the-future-of-welsh-law-consultation-document_1.pdf

³³ Llywodraeth Cymru (2021), ar gael yn <https://gov.wales/the-future-of-welsh-law-accessibility-programme>

[2021-to-2026.html](#)

ffordd hon, sefydlu proses o godeiddio gyda'r bwriad o gadw trefn ar y gyfraith. Mae hefyd yn golygu gwella'r ffordd rydym yn cyfathrebu am y gyfraith drwy wella cyhoeddiadau a darparu mwy o ddeunydd esboniadol am ddeddfwriaeth.

- 4.48 Y maes cyntaf a nodwyd ar gyfer cydgrynhoi yw'r gyfraith ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru; a Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru), sydd gerbron Senedd Cymru³⁴ ar hyn o bryd. Mae'r Bil yn cyflwyno nifer o argymhellion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith yn ei adroddiad terfynol ar *Gyfraith Cynllunio yng Nghymru*³⁵. Nid newid hanfod y gyfraith bresennol yw ei phwrpas, fel sydd i'w weld ar hyn o bryd ar draws ystod o Ddeddfau Seneddol Senedd Cymru a Senedd y DU, ond dod â hi at ei gilydd mewn un ffynhonnell; a moderneiddio'r ffurf a'r drafftio fel ei bod yn haws dod o hyd iddi a'i defnyddio.
- 4.49 Yn ein profiad ni, bu hwn yn brosiect llawer mwy cymhleth nag a ragwelwyd gan unrhyw un – mae enghraifft o'r materion cymhwysedd sydd wedi codi yn y Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) wedi'i nodi uchod (o dan y pennawd *Graddfa*).
- 4.50 Un cymhlethdod arall yw, er bod paragraff 13 o Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi eithriad rhag y gwahanol gyfyngiadau yn yr Atodlen honno ar gyfer darpariaethau sy'n ailddatgan y gyfraith bresennol yn unig, nid oes eithriad tebyg o'r materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A.
- 4.51 Credwn y gellid drafftio hyn mewn ffordd sy'n parchu ffiniau cyfansoddiadol, ee fel bod darpariaeth sy'n ailddatgan y gyfraith bresennol ar faterion a gedwir yn ôl mewn ffordd sy'n atodol, yn ganlyniadol, neu'n briodol ar gyfer gorfodi neu wneud darpariaeth ddatganoledig effeithiol wedi'i heithrio o'r cyfyngiad yn adran 108(2)(A) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- 4.52 Yn well fyth, pe bai darpariaeth debyg i'r hen adran 108(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cael ei chynnwys, yna ni fyddai amheuaeth ynghylch cymhwysedd Senedd Cymru i weithredu darpariaethau cydlynol ac effeithiol sy'n cydgrynhoi ac yn codeiddio cyfraith Cymru ar faterion datganoledig.
- 4.53 Yn fwy cyffredinol, cyn deddfu Deddf Cymru 2017, roedd adran 108(5) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn darparu hyblygrwydd pwysig fel:

Mae darpariaeth mewn Deddf gan y Cynulliad yn dod o fewn cymhwysedd y Cynulliad os—

³⁴ Cyflwynwyd Bil Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) yn Senedd Cymru ar 4 Gorffennaf 2022. Mae'r Bil, ynghyd â'r deunyddiau esboniadol cysylltiedig, ar gael yn <https://busnes.senedd.cymru/mglssueHistoryHome.aspx?Id=39698>

³⁵ Comisiwn y Gyfraith yng Nghymru a Lloegr (2018) y Gyfraith Cynllunio yng Nghymru (Comisiwn y Gyfraith 383)

(a) yw'n darparu ar gyfer gorfodi darpariaeth (o'r Ddeddf honno neu unrhyw Ddeddf arall gan y Cynulliad) sy'n dod o fewn cymhwysedd neu ei bod fel arall yn briodol ar gyfer gwneud darpariaeth o'r fath yn effeithiol, neu os

(b) yw fel arall yn gysylltiedig â darpariaeth o'r fath, neu'n ganlyniadol i ddarpariaeth o'r fath.

- 4.53 Roedd y gydnabyddiaeth statudol hon fod y llinellau o gwmpas y setliad yn aneglur, ac y byddai angen i'r Cynulliad weithiau gyffwrdd â materion a gedwir yn ôl er mwyn gwneud cyfraith gydlynol am faterion datganoledig, yn ddefnyddiol, yn realistig ac yn ddibynadwy'n rheolaidd.

Adran 108A(2)(d), ac Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006: cyfyngiadau

- 4.54 Fel y nodwyd eisoes, mae ystyried a yw deddfwriaeth arfaethedig Cymru yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl yn waith cymhleth oherwydd nifer y materion a gedwir yn ôl yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, megis dechrau'r stori yw hyn. Mae darpariaeth mewn Deddf gan Senedd Cymru hefyd y tu allan i gymhwysedd os yw'n torri unrhyw un o'r cyfyngiadau yn Rhan 1 o Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae Rhan 2 o'r Atodlen honno'n nodi rhai eithriadau i'r cyfyngiadau hynny.
- 4.55 Yn ein profiad ni, mae'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B yn rhwystr mwy cymhleth, amlach a rhwystredig i'r Senedd ddeddfu ar faterion datganoledig. Mae'r newid i fodel cadw pwerau yn rhoi'r argraff bod popeth nad yw wedi'i restru yn Atodlen 7A o fewn cymhwysedd Senedd Cymru. Fel y dangosir isod, nid yw hyn yn wir.

Paragraffau 1 a 2, Atodlen 7B: y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl

- 4.56 Effaith gyfunol paragraff 1 a 2 o Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yw nad yw'r Senedd yn gallu newid y "*gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl*"³⁶ oni bai (a) bod y newid yn ategol i ddarpariaeth ddatganoledig (hy un nad yw'n ymwneud â materion a gedwir yn ôl), a (b) nad yw'n cael mwy o effaith ar faterion a gedwir yn ôl na'r hyn sy'n angenrheidiol i weithredu'r ddarpariaeth ddatganoledig.
- 4.57 Mae hwn yn brawf cymhleth, aml-haenog: mae'r cysyniadau o'r hyn sy'n "*ategol*" ac yn "*angenrheidiol*" yn agored i'w dehongli, yn cynnwys diffyg eglurder ac maent yn creu'r potensial ar gyfer ymgyfreitha y bwriadwyd i Ddeddf Cymru 2017 ei osgoi.
- 4.58 Ar ben hynny, mae'r prawf yn gwbl ddiangen. Credwn iddo gael ei gynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru (drwy Ddeddf Cymru 2017) i efelychu darpariaeth debyg yn setliad

³⁶ Boed yn gyfraith statud, neu'n gyfraith gyffredin: paragraff 1(2), Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006

yr Alban³⁷. Ond mae hynny er mwyn defnyddio cyfyngiad o gyd-destun cyfansoddiadol cwbl wahanol (mae gan yr Alban ei hawdurdodaeth ei hun ac mae ganddi lawer llai o faterion a gedwir yn ôl). Nid oedd ychwaith yn ystyried datblygiadau yn y gyfraith achosion ar y prawf “ymwneud â” dros y ddau ddegawd rhwng pasio Deddf yr Alban 1998 a dyfodiad Deddf Cymru 2017.

4.59 Dyma esboniad Llywodraeth y DU dros gynnwys y prawf hwn:

Er mai bwriad Atodlen 7A yw pennu paramedrau Deddfau'r Cynulliad yn y dyfodol o ran materion a gedwir yn ôl na all ddeddfu yn eu cylch, bwriad y cyfyngiadau ym mharagraffau 1 a 2 o Atodlen 7B yw darparu math arall o ddiogelwch ar gyfer y ddeddfwriaeth bresennol a'r gyfraith gyffredin sydd â mater a gedwir yn ôl fel ei bwnc.

Er na ellir cadw'n ôl diben darpariaeth ar Ddeddfau gan y Cynulliad (sy'n golygu nad yw darpariaeth o'r fath yn mynd yn groes i adran 108A(2)(c) ac Atodlen 7A), gall, serch hynny, addasu'r gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl, er enghraifft i orfodi neu fel arall roi effaith i'r ddarpariaeth honno.³⁸

4.60 Rydym o'r farn bod y gyfraith ar faterion a gedwir yn ôl yn cael ei diogelu'n ddigonol drwy gadw'r materion hynny'n ôl yn Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n anodd rhagweld amgylchiadau lle byddai defnyddio'r prawf ym mharagraffau 1 a 2 o Atodlen 7B yn arwain at ganlyniad gwahanol i'r prawf (“yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl”) yn adran 108A(2)(c) a (6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

4.61 Hyd yma, nid yw ychwanegu'r rhwystr cymhwysedd pellach hwn wedi atal deddfwriaeth Senedd Cymru yn sylweddol. Ond mae'n ddiangen, mae'n cymylu'r darlun; ac mae ei fodolaeth ar brydiau wedi achosi dryswch mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU. Credwn y byddai dileu'r rhwystr yn gwneud y setliad yn gliriach ac yn fwy effeithlon, gan barchu ffiniau cyfansoddiadol a democrataidd ar yr un pryd.

Paragraff 3, Atodlen 7B: y gyfraith breifat

4.62 Ni all Senedd Cymru addasu'r gyfraith breifat, ac eithrio at ddiben datganoledig. Mae'r “*gyfraith breifat*” yn golygu cyfraith contract, asiantaeth, beili, camwedd, cyfoethogi anghyfiawn a gwneud iawn, eiddo, ymddiriedolaethau ac olyniaeth³⁹.

4.63 Mae'r cyfyngiad yn cydnabod, er mwyn deddfu'n gydlynol ynghylch mater datganoledig, efallai y bydd angen i Senedd Cymru ymgysylltu â'r gyfraith breifat.

³⁷ Adran 29(2)(c), a pharagraffau 2 a 3 o Atodlen 4 Deddf yr Alban 1998

³⁸ Llywodraeth y DU (2017) *Deddf Cymru 2017: Nodiadau Esboniadol*, ar gael yn https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2017/4/pdfs/ukpgaen_20170004_en.pdf

[f](#)³⁹ Paragraff 3(2), Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006

- 4.64 Yn ymarferol, mae'r cyfyngiad hwn yn achosi dryswch, yn ychwanegu haen arall o gymhlethdod, ac yn cuddio eglurder y setliad.
- 4.65 Mae'r cyfyngiad unwaith eto wedi'i ysbrydoli gan yr anghysondeb cyfansoddiadol o ran sut mae'r model datganoli pwerau cadw yn cael ei weithredu o fewn awdurdodaeth ar y cyd Cymru a Lloegr. Pe bai gan Gymru ei hawdurdodaeth ei hun, fel yr ydym wedi dadlau o'i blaid, byddai'r cyfyngiad yn ddiangen a gellid datblygu'r gyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr i gyd-fynd ag amgylchiadau ac anghenion penodol pob gwlad.

Paragraff 4 Atodlen 7B: y gyfraith trosedd

- 4.66 Ni all Senedd Cymru addasu (na chreu) rhai troseddau sy'n ymwneud â brad, lladdiad, troseddau corfforol difrifol, troseddau rhywiol neu anudon⁴⁰.
- 4.67 Mae'r cyfyngiad ar addasu'r "*math o droseddau sy'n dod o dan Ddeddf Anudon 1911*" yn achosi problemau penodol. Mae Adran 5(b) o Ddeddf Anudon 1911 yn nodi:

Os bydd unrhyw berson yn gwneud datganiad anwir mewn manylyn perthnasol yn fwriadol a chan wybod hynny (ac eithrio ar lw), a bod y datganiad yn cael ei wneud—

...(b) mewn crynodeb, cyfrif, mantolen, llyfr, tystysgrif, datganiad, cofnod, amcangyfrif, rhestr eiddo, hysbysiad, adroddiad, ffurflen, neu ddogfen arall y mae wedi'i awdurdodi neu y mae'n ofynnol iddo ei gwneud, ei hardystio, neu ei dilysu, gan unrhyw Ddeddf gyffredinol gyhoeddus gan Senedd y Deyrnas Unedig sydd mewn grym am y tro;

...

bydd yn euog o gamymddwyn a bydd yn agored, ar gollfarn ar ddiad, i garchar gyda neu heb lafur caled, am unrhyw gyfnod nad yw'n hwy na dwy flynedd, neu i ddirwy neu i garchar a dirwy o'r fath.

- 4.68 Yn gyffredinol, mae'n ymddangos bod y drosedd honno wedi'i chynllunio i sicrhau bod yr wybodaeth sy'n ofynnol am reswm swyddogol ("datganiadau statudol") yn cael ei rhoi'n onest. Mae angen i Ddeddfau'r Senedd yn aml gynnwys darpariaethau ynghylch cyflenwi gwybodaeth i awdurdodau datganoledig Cymru – er enghraifft, lle mae angen gwybodaeth i asesu cymhwysedd ar gyfer cyllid cyhoeddus; rhwymedigaeth i dreth ddatganoledig; neu gymhwyster i sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad datganoledig. Er mwyn i Senedd Cymru ddeddfu'n gydlynol ac yn effeithiol, ac er mwyn diogelu buddiannau pobl Cymru, bu'n rhaid gwneud gwahaniaethau anodd er mwyn

gallu cynnwys y darpariaethau hyn.

- 4.69 Y rheswm dros gynnwys y cyfyngiad ar addasu troseddau anudon yw'r awdurdodaeth ar y cyd, a'r mater o gadw cyfiawnder yn ôl. Pe bai gan Gymru ei hawdurdodaeth ei hun, a phe bai cyfiawnder yn cael ei ddatganoli (gweler uchod), byddai'r cyfyngiad yn ddiangen. Yn y cyfamser, byddai eithriad i'w gwneud yn glir y gall Senedd Cymru ddeddfu ynghylch datganiadau statudol ffug yn rhoi sicrwydd cyfreithiol ynghylch y darpariaethau hyn, sy'n arfau hanfodol i ddiogelu gwasanaethau cyhoeddus a chyllid.
- 4.70 Gall Senedd Cymru ddeddfu i greu troseddau newydd mewn perthynas â materion datganoledig. Fodd bynnag, wrth wneud hynny ni all addasu rhai agweddau sylfaenol ar gyfraith trosedd. Maent yn cynnwys cyfrifoldeb a gallu troseddol; bwriad, anonestrwydd ac elfen feddyliol troseddau; atebolrwydd troseddol cychwynnol ac eilaidd (ee y gyfraith ar ymdrechion i gyflawni trosedd); a dedfrydu.
- 4.71 Felly, pan fydd Senedd Cymru yn creu trosedd, gall ddewis o'r ddewislen o ddedfrydau a gwarediadau troseddol presennol. Ond ni all greu mathau newydd o ddedfryd. Unwaith eto, mae hyn wedi llesteirio datblygiad polisi mewn rhai meysydd datganoledig; er enghraifft, wrth ystyried dewisiadau eraill yn lle dedfrydau o garchar am beidio â thalu'r Dreth Gyngor.
- 4.72 Unwaith eto, mae'r cyfyngiad yn ganlyniad i awdurdodaeth ar y cyd Cymru a Lloegr a byddai'n ddiangen pe bai gan Gymru ei hawdurdodaeth ei hun gyda chyfiawnder wedi cael ei ddatganoli. Nid yw'r mater hwn yn ymwneud â chreu rhwystrau neu gyfyngiadau ar weithrediad y llysoedd, y farnwriaeth na'r proffesiwn cyfreithiol, ond gwella cyfiawnder yng Nghymru a'i gyflwyno mewn ffordd wahanol drwy uno'r system gyfiawnder â gweddill y broses o lunio polisiâu yng Nghymru fel y gallwn ddod o hyd i ffyrdd gwirioneddol effeithiol o leihau troseddu, fel yr ydym yn ei gynnig yn *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*⁴¹.

Paragraffau 5-7, Atodlen 7B: deddfiadau gwarchodedig

- 4.73 Mae paragraffau 5-7 o Atodlen 7B yn atal Senedd Cymru rhag addasu rhai "*deddfiadau gwarchodedig*". Mae'r rhain yn cynnwys Deddf Hawliau Dynol 1998; Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020; y rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018; ac amrywiol ddarpariaethau eraill⁴², gan gynnwys nifer o ddarpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru ei hun.⁴³
- 4.74 Yn yr un modd â'r cyfyngiadau eraill yn Atodlen 7B, mae'r cyfyngiad hwn ar bŵer Senedd Cymru yn gweithredu yn ogystal â'r cyfyngiadau eraill ar gymhwysedd yn adran 108A(2)(a)-(e) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr effaith yw rhoi statws arbennig

⁴¹ Llywodraeth Cymru (2022) *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*, ar gael yn

<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/delivering-justice-for-wales-may-2022-v2.pdf>

⁴² Fel y nodir ym mharagraff 5 Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

⁴³ Fel y nodir ym mharagraff 7 Atodlen 7B o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

i'r deddfiadau gwarchoddedig hyn: hyd yn oed pan fo Senedd Cymru yn deddfu at ddiben datganoledig, mewn perthynas â mater datganoledig, mae'r darpariaethau hyn yn sacrosanct ac ni ellir eu haddasu.

Paragraffau 8-11, Atodlen 7B: Cydsyniad Gweinidogion y Goron

- 4.75 Mae'r paragraffau hyn yn cynnwys set gymhleth arall o reolau ar gyfer penderfynu a yw darpariaeth mewn Bil Senedd yn gofyn am gydsyniad un o Weiniadogion Llywodraeth y DU – er bod y ddarpariaeth yn ymwneud â mater datganoledig, a'i bod fel arall o fewn cymhwysedd.
- 4.76 Y cymhelliad cyfansoddiadol y tu ôl i gynnwys y cyfyngiadau hyn yw dymuniad Llywodraeth y DU i ddiogelu “*awdurdodau a gedwir yn ôl*”, hy cyrff y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol yn ariannol ac yn wleidyddol amdanynt. O dan y setliad blaenorol, roedd Llywodraeth y DU wedi mynegi pryder ynghylch y baich adnoddau a roddir ar awdurdodau a gedwir yn ôl gan ddeddfwriaeth Senedd Cymru; er enghraifft, mynnu bod yr heddlu'n aelodau o Fyrddau Diogelu Plant a Byrddau Diogelu Oedolion⁴⁴, er mwyn lliniaru'r risg o niwed i unigolion agored i niwed drwy ddull amlasiantaeth. Gosodwyd y rheolau er nad oedd unrhyw beth cyfatebol yn gwahardd hyn rhag cael ei wneud y ffordd arall, hy pan fydd Senedd y DU yn deddfu mewn perthynas â mater a gedwir yn ôl (a hyd yn oed mewn meysydd datganoledig yr unig beth sy'n atal Senedd y DU rhag deddfu mewn ffordd sy'n effeithio ar Lywodraeth Cymru yw'r confensiwn na fyddai “*fel arfer*” yn deddfu).
- 4.77 Yn gyffredinol, mae paragraffau 8-11 o Atodlen 7B yn mynnu bod Senedd Cymru yn cael cydsyniad Llywodraeth y DU i newid swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, mae'r gyfres hon o reolau'n aneglur ac mae wedi bod yn anodd ei gweithredu'n ymarferol; ac felly mae'n rhwystr cudd i ddeddfwriaeth Senedd Cymru mewn perthynas â meysydd polisi y mae pawb yn deall eu bod wedi'u datganoli.

Awdurdodau a gedwir yn ôl / awdurdodau Cymreig datganoledig

- 4.78 Er mwyn sefydlu a oes angen cydsyniad ar Senedd Cymru i newid swyddogaethau corff penodol (boed hynny drwy greu swyddogaethau newydd; addasu rhai sy'n bodoli eisoes; neu ddileu swyddogaethau), mae'n ofynnol yn gyntaf i'r Senedd benderfynu a yw'r corff yn awdurdod Cymreig datganoledig, neu'n awdurdod a gedwir yn ôl.

Diffiniadau: awdurdodau a gedwir yn ôl, awdurdodau cyhoeddus ac awdurdodau Cymreig datganoledig

⁴⁴ Adran 134, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae paragraff 8(3) o Atodlen 7B Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi bod “awdurdod neilltuedig” yn:

- (a) *Weinidog y Goron neu'n adran o'r Llywodraeth;*
- (b) *unrhyw awdurdod cyhoeddus arall ar wahân i awdurdod Cymreig datganoledig.*

Dyma ddiffiniad o “awdurdod cyhoeddus” ym mharagraff 8(4) o Atodlen 7B:

... corff, swydd neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus.

Dyma'r diffiniad o “awdurdod Cymreig datganoledig” yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru:

(1) *Yn y Ddeddf hon ystyr “awdurdod Cymreig datganoledig” yw—*

(a) *awdurdod cyhoeddus sy'n bodloni'r amodau yn is-adran (2),*

(b) *awdurdod cyhoeddus a bennir, neu o ddisgrifiad a bennir, yn Atodlen 9A (pa un a yw'n bodloni'r amodau hynny ai peidio), neu*

(c) *corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg uwch (o fewn ystyr adran 91(5) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992) y mae ei weithgareddau'n cael eu cyflawni yng Nghymru, neu'n cael eu cyflawni'n bennaf yng Nghymru.*

(2) *Mae awdurdod cyhoeddus yn bodloni'r amodau yn yr adran hon os yw ei swyddogaethau—*

(a) *yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig*

(b) *yn swyddogaethau sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n bennaf â materion a gedwir yn ôl.*

(3) *At ddibenion yr adran hon, wrth benderfynu a yw swyddogaethau awdurdod cyhoeddus yn arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig, ni roddir ystyriaeth i unrhyw swyddogaeth—*

(a) (b) *sy'n arferadwy ac eithrio o ran Cymru ac*

(b) *a allai (ar wahân i'r paragraff hwn) gael ei roi neu ei osod drwy ddarpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru (yn rhinwedd adran 108A(3))...*

...

(8) *Yn yr adran hon ystyr “awdurdod cyhoeddus” yw corff, swydd neu ddeiliad swydd sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus.*

- 4.79 Mae hwn yn ddiffiniad croes-gyfeiriadol a chymhleth; ac nid yw'n glir a yw rhai cyrff yn dod o fewn ei gwmpas.
- 4.80 Er enghraifft, mae'r diffiniad o "*awdurdod cyhoeddus*" yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r diffiniad yn adran 6 o Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sydd ei hun wedi bod yn destun llawer o ystyriaeth farnwrol, yn enwedig mewn perthynas ag awdurdodau "hybrid", hy y rheini sy'n meddu ar rywfaent o swyddogaethau preifat, a rhai swyddogaethau cyhoeddus. Mae cwestiwn ynghylch yr ystod a'r math o gyrff y mae'r diffiniad yn berthnasol iddynt. Mae hyn yn arwyddocaol, gan y bydd y cyrff hynny sy'n awdurdodau cyhoeddus hefyd yn awdurdodau a gedwir yn ôl, oni bai bod eu swyddogaethau'n arferadwy mewn perthynas â Chymru yn unig, ac nad ydynt wedi'u cadw'n ôl yn bennaf; ac, os felly, byddant yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau cydsyniad. Mae hyn yn creu amheuaeth, a'r potensial ar gyfer ymglyfreitha.
- 4.81 Mae hefyd yn anffodus nad yw Atodlen 9A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhestru rhai awdurdodau Cymreig datganoledig (ond nid pob un), yn gynhwysfawr. Nid oes gan Senedd Cymru, na Gweinidogion Cymru, y pŵer i ddiwygio Atodlen 9A⁴⁵, sy'n ddeddfiad a warchodir (gweler uchod)⁴⁶. Felly, pan fydd Senedd Cymru yn creu corff cyhoeddus newydd i Gymru, hyd yn oed pan fo'r corff hwnnw'n bodloni'r diffiniad o awdurdod Cymreig datganoledig o dan adran 157A(2), ni chaiff ddiweddarau Atodlen 9A (sydd felly'n anghyflawn ac yn hen). Mae hyn yn gwneud y gyfraith yn llai hygyrch nag y gallai fod.
- 4.82 Nid oes rheswm da pam na allai'r Senedd fod wedi cael y pŵer i ddiwygio Atodlen 9A i ddileu, addasu ac ychwanegu cyfeiriadau at awdurdod Cymreig datganoledig; ar yr amod bod y corff dan sylw'n bodloni'r diffiniad yn adran 157A(2). Gellid defnyddio Atodlen 9A wedyn fel catalog cyfoes a hygyrch o awdurdodau Cymreig datganoledig; a byddai'r baich ar amser Llywodraeth y DU a Senedd y DU yn cael ei osgoi.
- 4.83 Mae'r cyfyngiad hwn ar addasu Atodlen 9A yn enghraifft arall o agwedd grintachlyd at ddatganoli, sy'n gadael Senedd Cymru'n ddibynnol ar gydweithrediad Llywodraeth y DU – hyd yn oed mewn perthynas â materion sy'n gwbl ganlyniadol i ddarpariaethau datganoledig.

Cydsyniad Gweinidog y Goron: newid swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl

- 4.84 Mae'n anodd iawn llywio drwy gymhlethdodau paragraffau 8-11 Atodlen 7B.

⁴⁵ Mae Adran 157A(5) yn rhoi'r pŵer i ddiwygio Atodlen 7A i'w Mawrhydi i arfer drwy Orchymyn yn y

Cyfrin Gyngor, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth pob Tŷ Seneddol, a Senedd Cymru.
⁴⁶ Yn rhinwedd paragraff 7(1), Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006

4.85 Mae crynodeb o'r newidiadau mewn swyddogaethau y mae angen cydsyniad Gweinidog y Goron⁴⁷ ar eu cyfer isod:

Tabl: crynodeb o'r gofynion ar gyfer cydsyniad Gweinidog y Goron

Math o gorff	Math o newid swyddogaeth		
	Rhoi swyddogaeth newydd	Addasu swyddogaeth	Dileu swyddogaeth
Gweinidog y Goron	Angen cydsyniad	Dim angen cydsyniad; <u>ond</u> rhaid ymgynghori â Gweinidog y Goron	Dim angen cydsyniad; <u>ond</u> rhaid ymgynghori â Gweinidog y Goron
		<u>Oni bai</u> : fod y math o swyddogaeth yn un a restrir ym mharagraff 11(2), os felly, <i>mae</i> angen cydsyniad	
Awdurdodau eraill a gedwir yn ôl	Angen cydsyniad	Angen cydsyniad	Angen cydsyniad
Eithriadau	Nid oes angen cydsyniad ar gyfer y Comisiwn Etholiadol; yr Asiantaeth Safonau Bwyd; yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr; y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu; yr Awdurdod Meinweoedd Dynol; Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG; Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG; y Brifysgol Agored; swyddogaeth comisiynwyr traffig fel Rheolydd Hawliau Amrywiaeth Planhigion mewn perthynas â gwasanaethau bysiau lleol; swyddogaethau datganoledig llysoedd a thribiwnlysoedd; ariannu comisiynwyr heddlu a throseddau drwy braeseptau'r dreth gyngor; ymgwymerwyr dŵr neu garthffosiaeth; y Cyngor Defnyddwyr Dŵr; y Prif Arolygydd Dŵr Yfed ar gyfer Cymru; na swyddog cofrestru etholiadol.		

4.86 Mae'n amlwg nad oes rhesymeg gyfansoddiadol yn sail i'r rheolau hyn. Dim ond *ymgynghori* â Gweinidog y Goron y mae angen i Senedd Cymru ei wneud er mwyn newid swyddogaethau Gweinidog o'r fath, neu adran o Lywodraeth y DU y mae'n

⁴⁷ Paragraff 8(5), Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006: pan fo angen cydsyniad un o Weinidogion y

Goron (neu ymgynghori ag ef), y Gweinidog priodol yw'r Ysgrifennydd Gwladol (neu Drysorlys EF, os mai Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi yw'r corff yr effeithir ar ei swyddogaethau)

ei harwain. Ond er mwyn newid swyddogaethau awdurdodau eraill a gedwir yn ôl48, mae angen *cydsyniad*. O'n profiad ni, nid oes modd cael gafael ar hyn yn rhwydd. Mae gan Lywodraeth y DU ddisgresiwn llwyr o ran a ddylid rhoi cydsyniad ac, yn ogystal â hyn, mae oedi sylweddol wedi bod o ran cael ymateb i geisiadau am gydsyniad. Mae hyn yn rhwystro'r broses ddemocrataidd yn Senedd Cymru.

- 4.87 Mae'r drefn gydsynio yn unigryw i'r setliad Cymreig ac nid yw wedi'i phrofi eto yn y Llysoedd. Mae'r ffaith bod lle i amau, sy'n debygol o olygu y bydd angen ymglyfreitha i ddatrys hyn, yn dangos bod Deddf Cymru 2017 wedi methu'n llwyr â chyflawni nodau datganedig Llywodraeth y DU: sef gwneud y setliad yn gliriach, a rhoi llais cryfach i'r sefydliadau datganoledig dros eu materion eu hunain.

Swyddogaethau datganoledig cymwysedig

- 4.88 Mae'r broblem wedi gwaethygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn groes i fwriad datganedig Llywodraeth y DU ar adeg Deddf Cymru 2017, gyda thuedd ar ôl Brexit i Lywodraeth y DU lunio swyddogaethau newydd a roddwyd i Weinidogion Cymru ym Miliâu Seneddol y DU fel "*swyddogaethau datganoledig cymwysedig*", hynny yw, swyddogaethau sydd:

... i unrhyw raddau yn arferadwy—

- (i) yn gyddredol neu ar y cyd â Gweinidog y Goron, neu*
- (ii) dim ond gyda chydsyniad neu gytundeb un o Weinidogion y Goron, neu ar ôl ymgynghori â hwy.*⁴⁹

Diffiniadau: swyddogaethau cyddredol a swyddogaethau ar y cyd

Rhoddir swyddogaeth "*gyddredol*" i Weinidogion Cymru ac i un o Weinidogion y Goron mewn perthynas â Chymru, a gall y naill neu'r llall ei harfer yn annibynnol ar y llall.

Mae swyddogaeth "*ar y cyd*" yn arferadwy gan Weinidogion Cymru a Gweinidog y Goron sy'n gweithredu gyda'i gilydd mewn perthynas â Chymru, hynny yw, mae angen i'r ddau gytuno er mwyn arfer y swyddogaeth.

⁴⁸ Yn ddarostyngedig i'r eithriadau a nodir ym mharagraffau 8-11, Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, fel y'u crynhoir uchod

⁴⁹ Paragraff 11(3), Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

- 4.89 Mae hyn yn mynd at wraidd y cwestiwn ynghylch sut y dylai'r Deyrnas Unedig weithredu. Ein safbwynt ni yw y dylai'r berthynas rhwng y pedair llywodraeth fynd rhagddi ar sail partneriaeth gyfartal, yn deg, a chan ddangos parch at y naill a'r llall. Mae hyn yn ei dro yn ei gwneud yn ofynnol (oni chytunir ar drefniadau eraill a deddfu ar eu cyfer) bod gan Weinidogion ym mhob llywodraeth awdurdod unigryw, a'u bod yn gwbl atebol i'w deddfwrfa a'u hetholwyr eu hunain, am arfer swyddogaethau statudol yn eu tiriogaethau yn unol â'u pwerau cyfreithiol – heb Weinidogion llywodraeth arall yn herio, adolygu na goruchwyllo.
- 4.90 Mae swyddogaethau cydredol ac ar y cyd yn rhedeg yn gwbl groes i hyn: maent naill ai'n rhoi rhywfaint o reolaeth i Lywodraeth y DU (yn achos swyddogaethau ar y cyd), neu (yn achos swyddogaethau cydredol) yn rhoi pŵer iddi ymyrryd mewn materion datganoledig sy'n annemocrataidd, ac sy'n gwrth-ddweud nod datganoledig Deddf Cymru 2017 i roi llais cryfach i bobl Cymru dros eu materion eu hunain. Fel y nodwyd uchod ar adeg pasio Deddf Cymru 2017, dywedodd Llywodraeth y DU nad oedd ganddi unrhyw fwriad i greu unrhyw swyddogaethau datganoledig cymwysedig newydd.
- 4.91 Mae anhawster pellach. Ar ôl eu creu, ni all swyddogaethau datganoledig cymwysedig gael eu haddasu na'u dileu gan Senedd Cymru heb gydsyniad un o Weinidogion y Goron50. Felly, mae llygru meysydd datganoledig gyda swyddogaethau ar y cyd a chydredol fel hyn yn cyfyngu ar allu Senedd Cymru i ddeddfu'n gydlynol ynghylch materion o'r fath yn y dyfodol.
- 4.92 Mae arfer wedi dod i'r amlwg lle rydym, fel amod o argymell i Senedd Cymru ei bod yn cydsynio i Fil Seneddol perthnasol y DU sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig yn y ffordd hon, yn ceisio cael Llywodraeth y DU i neilltuo rhywbeth o'r cyfyngiad ym mharagraff 11 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; fel bod modd i'r swyddogaeth gydredol berthnasol gael ei haddasu neu ei dileu yn y dyfodol gan Senedd Cymru heb yr angen i geisio cydsyniad Llywodraeth y DU. Erbyn hyn, mae rhestr gynyddol o swyddogaethau cydredol wedi'u neilltuo o'r cyfyngiad hwn ym mharagraff 11(6) o Atodlen 7B.
- 4.93 Yn ein barn ni, mae hon yn ffordd anhygyrch a chyfansoddiadol amhriodol o fynd ati i ddiffinio pwerau'r llywodraethau perthnasol. Llywodraeth Cymru yn unig ddylai gael arfer swyddogaethau gweithredol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Paragraff 8(1)(c): swyddogaethau y gellir eu harfer yn benodol mewn perthynas ag awdurdodau a gedwir yn ôl

- 4.94 Nid swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl yn unig sy'n gyfyngedig. Hyd yn oed pan fo Senedd Cymru yn rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru, neu i awdurdod datganoledig arall yng Nghymru, a hyd yn oed pan fo'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn gyfan gwbl â

⁵⁰ Paragraff 11(1)(a), Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

materion datganoledig – mae angen cydsyniad Gweinidog y Goron os yw'r swyddogaethau hynny'n rhai “y *gellir eu harfer yn benodol*” mewn perthynas ag awdurdod a gedwir yn ôl.

- 4.95 Mae hyn yn golygu, hyd yn oed pan fo Senedd Cymru yn dymuno rhoi swyddogaeth mor ddiniwed ag anfon adroddiad at awdurdod a gedwir yn ôl i Weinidogion Cymru (neu awdurdod datganoledig arall yng Nghymru nad yw Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdano yn ariannol nac yn wleidyddol), ni all wneud hynny heb gael cydsyniad un o Weinidogion y Goron yn gyntaf.
- 4.96 Mae'n enghraifft arall o'r agwedd amheus o ddatganoli sy'n treiddio drwy Ddeddf Cymru 2017; gan greu cyfyngiadau diangen, biwrocraidd ac annemocrataidd ar gymhwysedd Senedd Cymru, sy'n lledaenu ansicrwydd ynghylch ffiniau'r setliad ar yr un pryd.

Paragraff 12: diffiniad o “gymhwysedd deddfwriaethol”

- 4.97 Mae paragraff 12 o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn amodi nad yw cyfeiriadau mewn deddfwriaeth arall at gymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru yn cynnwys darpariaethau y gallai Senedd Cymru yn unig eu gwneud, oni cheir cydsyniad un o Weinidogion y Goron.
- 4.98 Mae hyn yn gwaethygu'r twyll cyfansoddiadol sydd wrth wraidd y setliad presennol: nid yw pethau sy'n ymddangos eu bod wedi'u datganoli wedi cael eu datganoli mewn gwirionedd. Mae'r swyddogaeth gydredol a roddwyd i Weinidogion Cymru gan adran 52 o Ddeddf yr Amgylchedd 2021 yn esbonio'r pwynt: dim ond o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru y gall Gweinidogion Cymru arfer y swyddogaeth honno, sydd yn ei dro wedi'i ddiffinio'n fanwl er mwyn eithrio mesurau y gallai Senedd Cymru fod wedi'u gosod gyda chydsyniad Gweinidogol y DU yn unig (hynny yw, y rheini a fyddai'n newid swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl).
- 4.99 Mae'r cyfyngiadau cuddhyn ar bwerau yn rhwystro'r math o gydweithredu trawslywodraethol sy'n aml yn ofynnol i sicrhau diwygio rheoleiddiol cydlynol ar draws ffin agored.

Cydsyniadau Gweinidogion y Goron: casgliad

- 4.100 Mae trefn cydsynio Gweinidog y Goron yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth 2006 yn unigryw i'r setliad Cymreig: nid oes darpariaethau cyfatebol yn setliadau'r Alban na Gogledd Iwerddon. Mae'n rhwystr aneglur ac annemocrataidd i bwerau Senedd Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn cadw rheolaeth dros faterion a gyflwynir fel rhai datganoledig fel arall, ac nid yw Gweinidogion y DU yn atebol yn ddemocrataidd (yng Nghymru o leiaf) am benderfyniadau ynghylch a ydynt yn rhoi cydsyniad ai peidio.

- 4.101 Ar ben hynny, mae'n anodd deall a gweithredu'r set ddryslyd o reolau, cyfyngiadau ac eithriadau ym mharagraffau 8-11 Atodlen 7B. Mae'n rhwystro hygyrchedd y gyfraith i ddinasyddion; a gweithrediad y setliad. Mae gan gyfreithwyr rhesymol, medrus a phrofiadol y llywodraeth safbwyntiau gwahanol ynghylch sut mae'r darpariaethau'n gweithio, ac mae hyn yn creu'r potensial ar gyfer anghydfodau ac ymglyfreitha – sef yr hyn y bwriadwyd i Ddeddf Cymru 2017 ei osgoi.
- 4.102 Credwn, mewn Teyrnas Unedig weithredol, lle mae Llywodraeth y DU yn dangos parch priodol at fandad democrataidd y llywodraethau datganoledig, na ddylai cyfyngiadau o'r fath fod yn angenrheidiol. Yn hytrach na gosod cyfyngiadau deddfwriaethol ar y Senedd etholedig yng Nghymru, credwn y gallai Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth fodloni buddiant dilys Llywodraeth y DU o ran diogelu swyddogaethau ac adnoddau cyrff y maent yn gyfrifol amdanynt yn ariannol ac yn wleidyddol, lle mae holl lywodraethau gwledydd y DU yn cydnabod ac yn parchu llinellau atebolrwydd democrataidd ac ariannol wrth greu swyddogaethau datganoledig newydd.
- 4.103 Yn anffodus, mae cysylltiadau rhynglywodraethol wedi dirywio dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyhoeddiadau a chymau gweithredu diweddar gan Lywodraeth y DU wedi dangos gelyniaeth tuag at ddatganoli drwy ddilyn agenda ganoli. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn awgrymu penderfyniad i danseilio ac ymyleiddio rôl y llywodraethau datganoledig a'r deddfwrfeydd, a gweithredu strwythurau Llywodraeth y DU sydd wedi'u cynllunio'n uniongyrchol i herio, dyblygu a chystadlu â rhai'r seneddau a'r llywodraethau datganoledig mewn meysydd cymhwysedd datganoledig. Mae'r cyfyngiadau yn Atodlen 7B yn hwyluso'r dull canoli hwn.

Adran 114, Deddf Llywodraeth Cymru: Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd

- 4.104 Hyd yn oed pan fo Deddf gan Senedd Cymru yn gyfan gwbl o fewn ei chymhwysedd deddfwriaethol, gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn sy'n ei hatal rhag cael ei chyflwyno ar gyfer Cydsyniad Brenhinol (ac felly'n ei hatal rhag dod yn gyfraith) lle mae'n credu'n rhesymol ei bod yn cynnwys darpariaethau a fyddai'n cael effaith niweidiol ar fater a gedwir yn ôl; yn cael effaith niweidiol ar weithrediad y gyfraith fel y mae'n gymwys yn Lloegr; neu'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, neu fuddiannau amddiffyn neu ddiogelwch gwladol.⁵¹
- 4.105 Er ein bod yn deall yr angen cyffredin i gynnal buddiannau'r DU o ran amddiffyn a diogelwch gwladol, o ystyried y we o gyfyngiadau eraill ar bwerau Senedd Cymru – ac yn benodol y ffaith bod amddiffyn a diogelwch gwladol yn faterion a gedwir yn ôl⁵² – nid yw'n ymddangos y byddai llawer o gyfle i Senedd Cymru fygwth y rhain. Yn yr achosion prin iawn hynny lle'r oedd deddfwriaeth Senedd Cymru yn ymdrin â materion o'r fath,

⁵¹ Adran 114(1), Deddf Llywodraeth Cymru 2006

⁵² Paragraffau 11 a 32, Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006

rydym o'r farn y gallai'r materion hynny – mewn Teyrnas Unedig weithredol sy'n seiliedig ar egwyddorion o barch rhwng y naill a'r llall – gael eu diogelu'n ddigonol gan ddeialog rhynglywodraethol, efallai ar sail y gweithdrefnau a nodir mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

- 4.106 Rydym hefyd yn deall yr angen i sicrhau nad yw'r DU yn torri ei rhwymedigaethau rhyngwladol. Yn wahanol i Lywodraeth y DU53, fodd bynnag, nid ydym wedi ceisio (ac ni fyddem yn ceisio) deddfu yn groes i rwymedigaethau rhyngwladol. Unwaith eto, credwn y gellid diogelu'r rhain drwy ddeialog barchus o fewn mecanweithiau rhynglywodraethol effeithiol.
- 4.107 Nid oes diffiniad clir o'r seiliau eraill y gall Ysgrifennydd Gwladol ymyrryd yn unol a hwy ac, yn ein barn ni, ni ellir cyfiawnhau hynny. Mae'n ymddangos i ni fod p'un a yw Bil Senedd yn cael "*effaith niweidiol*" ar fater a gedwir yn ôl, neu ar gyfraith Lloegr, yn ddyfarniad cwbl oddrychol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei wneud. Yn waeth na hynny, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn atebol yn llwyr i Senedd Cymru, a phrin y mae'n atebol i Senedd y DU na'r Llysoedd am wneud dyfarniad o'r fath. Er ei bod yn ofynnol iddo roi rhesymau dros wneud Gorchymyn o dan adran 114, nid yw'r Gorchymyn hwnnw ond yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn Senedd y DU. Credwn fod hyn yn eithriadol yn gyfansoddiadol, o ystyried mai pŵer Harri'r Wythfed yw hwn (hynny yw, pŵer i aelod o'r weithrediaeth – ac yn waeth fyth, aelod o weithrediaeth Llywodraeth wahanol – neilltuo deddfwriaeth a basiwyd gan y ddeddfwrfa a etholwyd yn ddemocrataidd).
- 4.108 Nid yw'r gofyniad bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael "*seiliau rhesymol*" dros gredu y bydd Bil y Senedd yn cael effaith mor niweidiol yn galluogi craffu barnwrol digonol ar Orchymyn o'r fath ychwaith. Dehongliad y gyfraith gyffredin o "*resymoldeb*" yw penderfyniad nad yw'n afresymol, oni fyddai'r un awdurdod rhesymol fyth wedi gallu dod i'r penderfyniad hwnnw.⁵⁴ Mae hyn yn rhoi cymaint o ryddid i'r Ysgrifennydd Gwladol fel ei fod yn ei gwneud yn annhebygol iawn y bydd Gorchymyn o'r fath yn cael ei herio'n llwyddiannus.
- 4.109 Mae pŵer adran 114, mewn termau cyfansoddiadol, yn opsiwn niwclear; mae'n rhoi hawl fetu unochrog i'r Ysgrifennydd Gwladol yng nghyswllt deddfwriaeth sydd wedi'i phasio gan Senedd Cymru a etholwyd yn ddemocrataidd, ac sydd o fewn y terfynau cyfreithiol a bennwyd gan Senedd y DU. Er nad yw'r pŵer hwn wedi cael ei arfer eto, mae'n gysgod dros ddeddfwriaeth Senedd Cymru. Mae hyn yn annerbyniol, ac nid oes lle iddo mewn setliad cyfansoddiadol priodol, sy'n seiliedig ar barch rhwng deddfwrfeydd a llywodraethau a etholwyd yn ddemocrataidd.

⁵³ Ystyrir yn eang bod Bil Protocol Gogledd Iwerddon, sydd gerbron Senedd y DU ar hyn o bryd ac sydd ar gael yn <https://bills.parliament.uk/bills/3182>, yn torri cyfraith ryngwladol. Gweler, er enghraifft, Dr Ronan Cormacain, Bingham Centre for the Rule of Law (2022) Northern Ireland Protocol Bill: *A Rule of Law Analysis of its Compliance with International Law*, sydd ar gael yn

<https://binghamcentre.biicl.org/publications/northern-ireland-protocol-bill-a-rule-of-law-analysis-of-its-compliance-with-international-law>

⁵⁴ *Associated Provincial Picture Houses v Wednesbury Corporation* [1948] 1 KB 223

5. Cyfyngiadau ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

- 5.1 Mae'r modd y mae pwerau gweithredol (hynny yw, pwerau a drosglwyddwyd o'r ddeddfwrfa i'r llywodraeth) wedi'u datganoli i Weinidogion Cymru, yn ein barn ni, yn ddianghenraid o gymhleth. Mae unwaith eto'n dameidiog, yn gymhleth ac yn anghydlynol; ac nid yw'r eglurder a geir ym model yr Alban i'w weld ynddo. Mae hyn yn gwneud y setliad yn anoddach ei ddeall, ac yn cymylu llinellau atebolrwydd democrataidd.

Adran 58 Deddf Llywodraeth Cymru: trosglwyddo swyddogaethau

- 5.2 Roedd adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 yn gwneud darpariaeth gyffredinol i drosglwyddo swyddogaethau mewn meysydd datganoledig o Lywodraeth y DU i Weinidogion yr Alban. Mae hyn yn golygu, yn gyffredinol, bod cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban (y materion y mae'n rhaid iddi basio deddfau arnynt) a chymhwysedd gweithredol Llywodraeth yr Alban (y materion y maent yn arfer pwerau mewn perthynas â hwy) yn cyfateb i'r canlynol:

(1) Rhaid i'r swyddogaethau a grybwyllir yn is-adran (2), i'r graddau y maent yn arferadwy o fewn cymhwysedd datganoledig, fod yn arferadwy gan Weinidogion yr Alban yn lle gan un o Weinidogion y Goron.

(2) Dyma'r swyddogaethau hynny—

(a) swyddogaethau uchelfreiniol Ei Mawrhydi a swyddogaethau gweithredol eraill y gellir eu harfer ar ran Ei Mawrhydi gan un o Weinidogion y Goron,

(b) swyddogaethau eraill a roddwyd i un o Weinidogion y Goron gan offeryn uchelfreiniol, a

(c) swyddogaethau a roddwyd i un o Weinidogion y Goron gan unrhyw ddeddfiad cyn cychwyn...

- 5.3 Nid yw Deddf Cymru 2017 yn cynnwys trosglwyddiadau o'r fath. Yn hytrach na'r dull 'clec fawr' yn Neddf yr Alban 1998, mae'r mecanwaith a ddefnyddir i drosglwyddo swyddogaethau o Lywodraeth Cymru yn un cynyddrannol. Nid yw swyddogaethau'n cael eu trosglwyddo'n awtomatig; yn hytrach, mae'n fater ar gyfer Ei Mawrhydi/ei Fawrhydi, drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i drosglwyddo swyddogaethau Gweinidogion y Goron y gellir eu harfer mewn perthynas â Chymru, neu barth Cymru i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol ar sail dameidiog.

- 5.4 Y canlyniad yw bod pwerau Llywodraeth Cymru wedi'u nodi mewn lluo o ffynonellau gwahanol: Deddfau Seneddol (boed wedi'u deddfu cyn neu ar ôl Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a Deddf Cymru 2017); Deddfau Senedd Cymru sy'n rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru; Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau; ac yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 ei hun (gweler isod).
- 5.5 O'i gymharu â'r trosglwyddiad eithaf cain o bwerau cymharol yn Neddf yr Alban 1998, mae hyn yn ei gwneud yn anos dod o hyd i'r gyfraith nag y mae angen iddi fod. Nid oes un rhestr o swyddogaethau Gweinidogion Cymru; na darpariaeth sy'n debyg i adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 i greu rhagdybiaeth bod swyddogaethau mewn perthynas â materion datganoledig wedi cael eu trosglwyddo.
- 5.6 Yn wahanol i fecanwaith yr Alban, mae'r ddibyniaeth ar Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau yn ei gwneud yn ofynnol i ddynodi pwerau'n gadarnhaol gael eu trosglwyddo. Mae hyn yn rhoi pwerau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, ac y dylid felly gael eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru, mewn risg o gael eu hepgor o'r Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau ac aros gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU. Yn ei dro, mae'n creu diffyg democrataidd: Nid yw Gweinidogion y DU yn atebol i Senedd Cymru am arfer y pwerau hyn.
- 5.7 Mae hanes Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau yn dangos hyn. Trosglwyddwyd y Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau cychwynnol yn 1999⁵⁵ i swyddogaethau amrywiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (ar y pryd), a arferid yn flaenorol gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Ar y pryd, roedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gyfansoddi fel un corff corfforaethol a oedd yn arfer swyddogaethau a oedd gynt yn eiddo i Ysgrifennydd Gwladol Cymru, ac roedd y dull hwn yn gwneud synnwyr cyfansoddiadol. Roedd y swyddogaethau a drosglwyddwyd yn rhan o 20 maes pwnc, a restrir yn Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.
- 5.8 Fodd bynnag, ni throsglwyddwyd yr holl swyddogaethau (er enghraifft, cafodd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau sy'n ymwneud ag ysgolion eu trosglwyddo ond nid y rhai sy'n ymwneud â chyflogau athrawon). Ac ar ben hynny, cafwyd Gorchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau tameidiog; er enghraifft, trosglwyddo swyddogaethau a oedd yn cael eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol gynt mewn perthynas ag ymgymeryddwyr dŵr neu garthffosiaeth;⁵⁶ a'r swyddogaethau anstatudol y codwyd y Bwrdd Ymyrraeth ar gyfer Cynnyrch Amaethyddol arnynt cyn ei ddiddymu⁵⁷.
- 5.9 Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn gwahanu Llywodraeth Cymru oddi wrth y Cynulliad Cenedlaethol yn ffurfiol ac yn gyfreithiol; ac, o ganlyniad, cafodd pwerau gweithredol a oedd eisoes wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru⁵⁸. Ond roedd y swyddogaethau hynny a oedd, er eu bod o fewn y cymhwysedd deddfwriaethol a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol erbyn hyn, wedi cael eu cadw'n ôl gan

Lywodraeth y DU – gan gynnwys cyflogau athrawon.

⁵⁵ SI 1999/672, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999

⁵⁶ SI 1999/287, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 1999

⁵⁷ SI 2001/3679, Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2001

⁵⁸ Drwy baragraff 30, Atodlen 11 Deddf Llywodraeth Cymru 2006

- 5.10 Yn y pen draw, cafodd swyddogaeth gosod cyflogau ac amodau athrawon yng Nghymru ei throsglwyddo i Weinidogion Cymru yn 2018⁵⁹, tua 20 mlynedd ar ôl i'r rhan fwyaf o'r swyddogaethau gweithredol sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru gael eu throsglwyddo i ddechrau. Mae'r ffaith ei bod wedi cymryd cyhyd i'r swyddogaeth hon gael ei throsglwyddo'n dangos dull gweithredu datganoli sy'n rhy ganolog; sydd yn ei dro'n gwaethygu ffiniau amrwd y setliad.
- 5.11 Cafodd Gorchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 2018⁶⁰, a drosglwyddodd grŵp mawr arall o swyddogaethau gweithredol i Weinidogion Cymru, ei wneud ar ôl i Ddeddf Cymru 2017 gael ei dwyn i rym. Nid oes rheswm cyfansoddiadol da pam y dylai'r dull tameidiog hwn, a gafodd ei gynllunio ar gyfer "cyfnod gweithredol" cychwynnol datganoli o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, gael ei ddefnyddio yng nghyfnodau dilynol datganoli, lle mae Senedd Cymru wedi cael pwerau deddfu sylfaenol mewn perthynas â materion datganoledig, a'r cyfrifoldeb dros graffu ar Lywodraeth Cymru mewn perthynas â nhw.
- 5.12 Mae trosglwyddo swyddogaethau drwy Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau yn aneffeithlon, gan ddibynnu ar dreilliadau trawslywodraethol sy'n defnyddio llawer o adnoddau i ganfod swyddogaethau sydd o fewn cymhwysedd datganoledig; ac amser Seneddol. Mae'n annemocrataidd; oherwydd mae'n atal craffu priodol ar weithredoedd gweithredol a gedwir gan Lywodraeth y DU gan aelodau o'r ddeddfwrfa sy'n atebol i bobl Cymru am y materion hynny. Ac nid yw'n hygyrch: hyd yn oed ar wahân i'r anawsterau o olrhain datganoli graddol ar swyddogaethau drwy'r gwahanol Orchmynion Trosglwyddo Swyddogaethau a Deddfau Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau trosglwyddo eu hunain weithiau'n gymwysedig ac yn gymhleth – er enghraifft, mae angen cydsyniad Trysorlys EF i arfer rhai swyddogaethau penodol gan Weinidogion Cymru⁶¹; ond ar gyfer swyddogaethau eraill, mae'r cyfyngiad hwn wedi cael ei ddileu⁶². Mae angen nodi a dadansoddi pob pŵer yn ei delerau ei hun.
- 5.13 Fe wnaethom ofyn i ddarpariaeth sy'n cyfateb i adran 53 o Ddeddf yr Alban 1998 gael ei chynnwys yn Neddf Cymru 2017; cafodd y cais hwn ei wrthod gan Lywodraeth y DU heb esboniad digonol. Yn waeth fyth, mae adran 21(1) o Ddeddf Cymru 2017 wedi addasu adran 58 ac wedi ychwanegu adran 59 ac Atodlen 3A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, er mwyn trosglwyddo swyddogaethau i Weinidogion Cymru ar y sail eu bod yn arferadwy ar y cyd neu ar yr un pryd â Gweinidog y Goron. Fel y nodir uchod (gweler *Swyddogaethau datganoledig cymwysedig*), mae'r rheolaeth hon gan Lywodraeth y DU dros bwerau mewn meysydd datganoledig, fel y mae Senedd Cymru yn gofyn am gydsyniad un o Weinidogion y Goron er mwyn addasu neu ddileu'r swyddogaethau hynny.

⁵⁹ Drwy Erthygl 39 o Offeryn Statudol 2018/644, Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018

⁶⁰ Ibid

⁶¹ ee yn unol ag adran 56(1) Deddf Cyllid 1963, sy'n gofyn am gydsyniad Trysorlys EM ar gyfer ffioedd a godir

mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir yn unol â chytundeb neu drefniant rhyngwladol.
⁶² ee Roedd Erthygl 44(3) o Offeryn Statudol 2018/644, Gorchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2018 yn dileu'r gofyniad am gydsyniad Trysorlys EM mewn perthynas â Gweinidogion Cymru yn gosod Ardoll Seilwaith Cymunedol o dan adran 205 o Ddeddf Cynllunio 2008.

- 5.14 Canlyniad hynny yw clytwaith o bwerau, wedi'u gwasgaru ar draws ffynonellau gwahanol, nad yw eu ffiniau'n cyd-fynd â chymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru; ac sydd mewn rhai achosion yn parhau i fod yn ddarostyngedig i amodau a chyfyngiadau. Mae hyn yn dangos agwedd grintachlyd a nawddoglyd Llywodraeth y DU at ddatganoli.

Adran 82, Deddf Llywodraeth Cymru 2006: Pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i ymyrryd


- 5.15 Yn union fel y mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i ymyrryd yn neddfwriaeth Senedd Cymru ar sail cred resymol y byddai'n anghydnaws â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU⁶³, felly mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i wneud y canlynol:
- (a) atal Gweinidogion Cymru rhag cymryd camau a fyddai, yn ei farn ef, yn torri rhwymedigaethau rhyngwladol;
 - (b) cyfarwyddo Gweinidogion Cymru i gymryd camau a fyddai'n angenrheidiol yn ei farn ef er mwyn rhoi effaith i rwymedigaeth ryngwladol; a/neu
 - (c) dirymu unrhyw is-ddeddfwriaeth (y gallai Gweinidogion Cymru ei dirymu) sy'n anghydnaws â rhwymedigaeth ryngwladol.
- 5.16 Yn yr un modd â'r cyfyngiad ar bwerau Senedd Cymru, rydym o'r farn bod hawl fetu unochrog (neu gyfarwyddyd, neu ddirymiad) o'r math hwn yn amhriodol yn gyfansoddiadol, ac yn ddiangen. Mae gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol wedi'i ddatganoli⁶⁴ (i'r graddau y mae'n ymwneud â materion datganoledig), ac nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn atebol i Senedd Cymru am ddefnyddio'r pŵer hwn, sy'n arferadwy drwy Orchymyn sy'n ddarostyngedig yn unig i'r weithdrefn negyddol yn Senedd y DU.
- 5.17 O'r herwydd, mae goruchwyliaeth Seneddol dros y pŵer hwn yn gyfyngedig; yn yr un modd â goruchwyliaeth farnwrol – er bod yn rhaid i Orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol nodi ei resymau dros ei wneud, mae'r trothwy ar gyfer herio rhesymoldeb Gorchymyn o'r fath yn uchel, ac mae'r disgrisiwn y mae'r Llys yn debygol o'i roi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn sylweddol.
- 5.18 Rydym yn cydnabod ei bod er budd pob un o bedair gwlad y DU i gadw at ein rhwymedigaethau rhyngwladol cyfunol, ac ni fyddem yn ceisio gweithredu'n anghydnaws â hwy. Rydym o'r farn, mewn DU weithredol sy'n seiliedig ar egwyddorion cyd-barch, y byddai darpariaeth mewn Memorandwm Cydddealltwriaeth ar gyfer deialog o fewn mecanwaith rhynglywodraethol effeithiol yn darparu lefel ddigonol o sicrwydd ar y pwynt hwn i'r holl lywodraethau yn y DU.

⁶³ Adran 114 Deddf Llywodraeth Cymru 2006: gweler uchod

⁶⁴ Paragraff 10, Atodlen 7A Deddf Llywodraeth Cymru 2006

6. Casgliad

- 6.1 Nid oedd newid i fodel cadw pwerau yn unol â Deddf Cymru 2017 wedi sicrhau cydraddoldeb â setliad yr Alban. Nid yn unig y mae llawer mwy o faterion wedi'u cadw'n ôl yn setliad Cymru; ond hyd yn oed mewn perthynas â materion sy'n ymddangos eu bod wedi'u datganoli, mae'r Senedd yn ddarostyngedig i gyfres gymhleth o gyfyngiadau, ac mae rhai ohonynt (fel trefn cydsyniad Gweinidog y Goron) yn unigryw i setliad Cymru. Ar ben hynny, mae diffyg trosglwyddo swyddogaethau gweithredol yn gyfan gwbl i Weinidogion Cymru o fewn cymhwysedd datganoledig yn gwneud y setliad yn anhygyrch ac yn aneglur heb fod angen.
- 6.2 O ganlyniad, mae'r setliad datganoli yng Nghymru yn ddiangen o gul a chymhleth. Er bod y papur hwn yn cynnwys rhai awgrymiadau penodol ynghylch sut y gellid ei wella, credwn fod y cynigion hyn yn haeddu ystyriaeth yng nghyd-destun adolygiad ehangach o gyfansoddiad y Deyrnas Unedig; ac rydym yn croesawu ystyriaeth y Comisiwn o'r materion hyn.
- 6.3 Ar lefel materion unigol a gedwir yn ôl, yn y pen draw, mae rhai o'r rhain yn deillio o'r awdurdodaeth ar y cyd rhwng Cymru a Lloegr. Mae hyn yr un fath a'r cyfyngiadau ar addasu cyfraith breifat a chyfraith droseddol. Yn ein barn ni, nid oes rheswm pam y dylai Llywodraeth y DU barhau i lynu wrth yr anghysondeb cyfansoddiadol mewn awdurdodaeth ar y cyd yng nghyd-destun gwahaniaethau anochel a chynyddol rhwng cyfreithiau Cymru a Lloegr. Nid yw ein dadleuon rhesymegol yn y cyswllt hwnnw wedi cael ymateb o sylwedd eto.
- 6.4 Ar lefel ehangach, rydym o'r farn na ddylai athrawiaeth sofraniaeth seneddol, fel y'i deallir yn draddodiadol (hy hawl absoliwt Senedd San Steffan i ddiystyru deddfwriaeth a gyflwynwyd gan y Seneddau datganoledig, ac i newid eu pwerau'n unochrog) fod yn brif egwyddor gyfansoddiadol drefniadol y Deyrnas Unedig sydd bellach yn cynnwys pedair deddfwrfa, pob un â'i mandad democrataidd ei hun.
- 6.5 Credwn fod sofraniaeth, ym mhob achos, yn deillio o'r etholwyr; ac y dylai'r Deyrnas Unedig weithredu ar sail cyfuno sofraniaeth yn wirfoddol mewn perthynas â'r materion hynny y mae'r pedair gwlad yn cytuno y byddai'n well delio â hwy ar y cyd. O dan hyn, dylai sybsidiaredd, a pharch at fandad y sefydliadau etholedig yn y gwledydd datganoledig, fod yn egwyddor sylfaenol.



Llywodraeth Cymru

**Tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru –
Engbreiffiau o'r polisiau mwyaf arwyddocaol a fu'n bosibl oherwydd datganoli**

Dyddiad: Medi 2022

Y cefndir

1. Sefydlwyd datganoli yng Nghymru yn dilyn 18 mlynedd o lywodraethu gan blaid na chafodd erioed fwy na thraean o'r pleidleisiau na'r seddi yng Nghymru yn un o etholiadau cyffredinol y DU. O ganlyniad, nid oedd mwyafrif sylweddol yr etholwyr yng Nghymru yn cefnogi'r polisïau a weithredwyd yng Nghymru.
2. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu is-ddeddfwriaeth benodol i Gymru ar draws ystod o feysydd polisi domestig ers i'r Swyddfa Gymreig gael ei chreu ym 1965, Deddfau a luniwyd gan adrannau arweiniol Whitehall, gan adlewyrchu polisi ehangach Llywodraeth y DU, oedd yn pennu'r fframwaith deddfwriaethol cyffredinol. Golygai'r cyfyngiadau a osodwyd gan y ddeddfwriaeth wreiddiol, ynghyd ag athrawiaeth cydgyfrifoldeb, nad oedd fawr o le ar gyfer ymwahanu – nid oedd y gwaith o weithredu'r rhan fwyaf o bolisïau yng Nghymru yn fawr mwy na fersiwn Gymreig o'r hyn a weithredwyd yn Lloegr. Yn ogystal, rhwng 1987 a 1997, nid oedd Ysgrifenyddion Gwladol Cymru yn cynrychioli etholaethau yng Nghymru, gan olygu eu bod yn llai atebol ac ymatebol.
3. Ym Mhapur Gwyn Llywodraeth y DU ar ddatganoli, *Llais dros Gymru*, ym 1997, amlinellodd yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd nodau datganoli a rôl y Cynulliad Cenedlaethol. Byddai'r Cynulliad yn rhoi llais a etholwyd yn ddemocrataidd i bobl Cymru, ac yn dal llywodraeth weithredol yng Nghymru i gyfrif. Byddai penderfyniadau ar ysgolion, gofal iechyd, a gwasanaethau allweddol eraill yn cael eu gwneud gan bobl a etholwyd yn uniongyrchol gan bleidleiswyr Cymru ac a fyddai'n atebol iddynt, ac a fyddai felly yn ymateb i'w safbwyntiau. Byddai'r Cynulliad yn cael y dulliau i bennu agenda economaidd newydd i Gymru, gan ganolbwyntio ar anghenion a blaenoriaethau Cymru.
4. Cafodd y Cynulliad cyntaf ei gynllunio hefyd i fod yn fath newydd o gorff etholedig, gan weithio mewn partneriaeth â llywodraeth ganolog a lleol, byd busnes a diwydiant, a'r sector gwirfoddol – sylfaen unigryw. Rhoddwyd cyfrifoldebau statudol ar y Cynulliad, ac, yn dilyn gwahanu'r ddeddfwrfa a'r weithrediaeth yn 2007, fe'u trosglwyddwyd i Weinidogion Cymru. Mae disgrifiad mwy manwl o'r system lywodraethu neilltuedig a grëwyd gan ddatganoli yng Nghymru ym mhapur 6.
5. Ar y dechrau, roedd pwerau'r Cynulliad cyntaf wedi'u cyfyngu i'r swyddogaethau gweithredol a gafodd eu trosglwyddo o'r Ysgrifennydd Gwladol. Er i Senedd y DU fwrw ymlaen â nifer bach o Ddeddfau penodol i Gymru ar gais y Cynulliad, wrth lunio polisïau roedd yn dal rhaid gweithio o fewn y fframweithiau a osodwyd gan ddeddfwriaeth San Steffan, i raddau helaeth. Roedd y broses o symud i wahanu'r weithrediaeth a'r ddeddfwrfa, a rhoi pwerau deddfu i'r Cynulliad yn 2007, yn ganlyniad i adroddiad Comisiwn Richard yn 2004 ac wedi'i sbarduno'n rhannol gan natur gyfyngedig pwerau'r Cynulliad. O ystyried bod y fframwaith deddfwriaethol yn dal yn cael ei osod gan Lywodraeth y DU i raddau helaeth, mynegwyd pryderon hefyd yn ystod gwaith y Comisiwn am yr anawsterau tebygol a fyddai'n deillio o Lywodraeth y DU yn y dyfodol a fyddai o argyhoeddiad gwleidyddol gwahanol i'r hyn a fyddai yn y Cynulliad.

6. Er mai cyfyngedig oedd y pwerau deddfu a gafodd eu datganoli i ddechrau i'r Cynulliad yn 2007, roedd datganoli pwerau deddfu sylfaenol llawn i Gymru yn sgil refferendwm 2011, a symud i fodel o bwerau a gedwir yn ôl yn 2017, yn creu mwy o le i ymwahanu o ran polisi.

Polisiâu arwyddocaol

7. Mae enghreifftiau cynnar o'r polisiâu a ddaeth yn bosibl yn bosibl yn sgil camau cyntaf datganoli yn cynnwys darparu **presgripsiynau am ddim** a system benodol i Gymru ar gyfer **cymorth ariannol i fyfyrwyr**. Roedd y gwaith o **ddarparu Cronfeydd Strwythurol yr UE** yng Nghymru hefyd yn adlewyrchu'r dull partneriaeth o lywodraethu a oedd wedi'i ymgorffori yn y setliad ei hun.
8. Mae sefydlu **Comisiynydd Plant Cymru**, sef y swydd gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig, a **gwahardd ysmegu mewn mannau cyhoeddus** yn enghreifftiau o bolisiâu arloesol Llywodraeth y Cynulliad. Gan fod angen deddfwriaeth San Steffan ar eu cyfer, roeddent hefyd yn dangos natur annigonol y setliad datganoli cynnar a'r ffaith bod y Cynulliad yn dibynnu ar Senedd y DU ac ar Lywodraeth y DU a fyddai'n barod i gydweithio er mwyn gwneud darpariaeth ddeddfwriaethol.
9. Er mai rheoliadau a wnaed o dan ddeddfwriaeth San Steffan a ddefnyddiwyd, Cymru hefyd oedd rhan gyntaf y Deyrnas Unedig i osod **tâl am fapiau siopa plastig untro**. Mae Cymru hefyd **ymysg y gwledydd sy'n cyflawni orau yn y byd o ran ailgylchu**, sy'n deillio o gyfuniad o osod targedau ailgylchu statudol ar awdurdodau lleol, darparu cyllid i wella gwasanaethau ailgylchu, annog mwy o ailgylchu, ac amryw o fesurau eraill, gan gynnwys hybu economi gylchol. Mae'r ddau bolisi yn cyfrannu at **ymrwymiad** Llywodraeth Cymru i **gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral** erbyn 2030.
10. Mae hawliau plant wedi cael sylw mawr wrth greu polisiâu i Gymru. Yn dilyn sefydlu rôl y Comisiynydd Plant, cafodd hawliau plant eu hymgorffori yng nghyfraith Cymru o dan **Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011**, gan roi dyletswydd ar Weinidogion i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth lunio deddfwriaeth a pholisiâu neu eu hadolygu. Polisi arwyddocaol arall yn y maes hwn, sydd ag iddo effaith uniongyrchol ar fywydau plant, oedd **Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020**, a ddaeth i rym ym mis Mawrth eleni.
11. Cyflwynodd y **Cyfnod Sylfaen** gwricwlwm statudol arloesol newydd i bob plentyn 3 i 7 oed yng Nghymru o 2011. Mae'n rhoi pwyslais ar "ddysgu drwy wneud", gan annog plant i ddefnyddio'u dychymyg a bod yn greadigol, a gwneud dysgu yn hwyl ac yn fwy effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgymryd â dull trawsnewidiol hirdymor o ymdrin ag addysg drwy'r **Cwricwlwm i Gymru** newydd, sy'n darparu dull modern a blaengar o addysgu a dysgu o 2022. Deddfwyd ar gyfer hyn yn y Senedd drwy **Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021**.
12. Deddf bwysig ac arloesol, sy'n effeithio ar yr holl waith dilynol o lunio polisiâu, yw **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**. Nod y Ddeddf yw

gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau, a mabwysiadu dull mwy cydgysylltiedig o weithredu. Yn ogystal ag adlewyrchu'r gofynion o ran cynwysoldeb a chynaliadwyedd a osodwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Ddeddf hefyd yn adlewyrchu dull neilltuedig Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cydweithredol, sy'n canolbwyntio ar y dinesydd.

13. Yn wir, mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru wedi dilyn trywydd tra gwahanol i un Lloegr, lle mae gwasanaethau fel iechyd ac addysg wedi dod yn fwyfwy agored i'w marchnadeiddio, gan drin defnyddwyr gwasanaethau fel cwsmeriaid. Yn ogystal â'i gwneud yn bosibl **diddymu marchnad fewnol y GIG**, mae datganoli wedi sicrhau bod modd **gwrthsefyll dod ag egwyddorion y farchnad i'r system addysg**, ac ymrwmo i gael ysgolion cynhwysol ac annetholiadol, sy'n canolbwyntio ar y gymuned.
14. Drwy **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** (Deddf 2014), cafodd dyletswyddau a swyddogaethau awdurdodau lleol ar gyfer gwella llesiant *pobl* – oedolion, plant a gofalwyr – y mae angen gofal a chymorth arnynt eu dwyn ynghyd. Roedd hyn yn ein galluogi i ddarparu fframwaith statudol sydd, cyhyd ag y bo modd, yn integreiddio / cysoni gwasanaethau cymdeithasol i gynorthwyo pobl o bob oedran, ac fel rhan o deuluoedd a chymunedau. Dyma ddull gwahanol i'r un a fabwysiadwyd yn Neddf Gofal 2014, sy'n gwneud darpariaeth mewn perthynas â gofal cymdeithasol i oedolion yn unig.
15. Drwy Ddeddf 2014, rydym hefyd wedi gosod dyletswyddau i roi "sylw dyladwy" i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn a Rhan 1 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn uniongyrchol ar bersonau sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas ag oedolion, plant a gofalwyr sydd ag anghenion gofal a chymorth. Yn ogystal, mae'r Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol), a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014, yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â phobl anabl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr anabl sydd angen cymorth, roi "sylw priodol" i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anabledau.
16. Ym mis Mehefin 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru **ei chynllun peilot arloesol ar gyfer Incwm Sylfaenol**, sy'n werth £20 miliwn. Bydd y cynllun yn cefnogi pobl sy'n gadael gofal yng Nghymru, gan gynnig £1600 iddynt bob mis (cyn treth) am ddwy flynedd i'w cynorthwyo wrth iddynt bontio i fywyd oedolyn.
17. Roedd **Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018** yn gwrthdroi polisi blaenllaw gan Lywodraeth y DU, sy'n parhau ar waith yn Lloegr. Ynghyd â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a **Safon Ansawdd Tai Cymru**, mae'r ddeddfwriaeth wedi ei gwneud yn bosibl mabwysiadu dull gwahanol iawn o ddarparu a chynnal tai cymdeithasol a phreifat yng Nghymru. Yn sgil **Deddf Tai (Cymru) 2014**, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i symud i

ganolbwyntio ar atal digartrefedd, yn ogystal ag arwain y ffordd o ran diogelu tenantiaid drwy ei gwneud yn ofynnol i bob landlord preifat gofrestru a hyfforddi.

18. Mae **Deddf Sector Amaethyddol (Cymru) 2014** a **Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017** yn enghreifftiau pellach o'r setliad datganoli yn amddiffyn buddiannau Cymru, gan adlewyrchu hefyd ddull partneriaeth Llywodraeth Cymru o weithio. Drwy'r ddwy Ddeddf, cafodd agweddau ar ddeddfwriaeth a basiwyd gan Senedd y DU eu gwrthdroi (er bod ymrwymiad cyhoeddus Llywodraeth y DU i ddiddymu Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) hefyd yn amlygu pa mor fregus yw'r setliad presennol).
19. Drwy ddatganoli maes polisi etholiadau ar gyfer etholiadau'r Senedd a llywodraeth leol, bu modd datblygu agenda eang i Gymru o ran diwygio etholiadol. Hyd yma, drwy **Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020**, rydym wedi gostwng yr oedran pleidleisio i 16 oed ac wedi etholfreinio pawb sy'n preswyllo'n gyfreithlon yng Nghymru. Cafodd hyn effaith ym mis Mai 2021 a mis Mai 2022 ar gyfer etholiadau'r Senedd ac etholiadau llywodraeth leol, yn y drefn honno. Oherwydd datganoli, ym mis Mai 2022, bu modd hefyd dreialu pleidleisio cynnar a phleidleisio mewn mannau ar wahân i orsafoedd pleidleisio. Mae'r diwygiadau hyn yn ategu ein nod o wneud Cymru yn wlad gynhwysol lle y mae pawb yn teimlo eu bod yn gallu cymryd rhan mewn democratiaeth, ac yn dymuno gwneud hynny.
20. Gan gyd-fynd unwaith eto â'r dull cynhwysol o gyflawni swyddogaethau a nodir yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i ddatblygu a phrofi pecyn o **ddiwygiadau i lywodraeth leol**. Penllanw'r gwaith hwn oedd **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** (Deddf 2021), a oedd yn canolbwyntio ar wella perfformiad a llywodraethiant; galluogi gweithio'n rhanbarthol mewn modd mwy strwythuredig; a chreu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu democrataidd mwy eang ac amrywiol.
21. Mae pwerau datganoledig sy'n ymwneud â chyllid llywodraeth leol a threthi lleol wedi sicrhau bod modd mabwysiadu dull Cymreig penodol o weithredu sy'n cefnogi lleoliaeth tra bo hefyd yn trechu tlodi ac yn ennyn tegwch. Ymhlith y polisiâu arwyddocaol y mae cynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau lleol hanfodol, Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, sef cynllun cenedlaethol, i gefnogi'r 275,000 o aelwydydd incwm isel, a nifer o newidiadau i drethi er mwyn cefnogi'r economi. Bydd diwygio'r dreth gyngor ac ardrethi annomestig yn y dyfodol yn ymestyn uchelgeisiau yn y maes hwn ymhellach, wrth i syniadau radical fel treth gwerth tir leol gael eu hystyried. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gasgliad o waith ymchwil ac yn ddiweddar mae wedi amlinellu cynigion ar gyfer treth gyngor decach.
22. Drwy Ddeddf 2021 y cyfeiriwyd ati uchod, daeth y trefniadau a roddwyd ar waith yn ystod cyfnod dwysaf yr ymateb i COVID-19 i alluogi cynghorau i gyfarfod o bell yn rhai parhaol. Mae'r adborth yn hynod gadarnhaol yn y cyswllt hwn, gan nodi manteision o ran amrywiaeth yr aelodaeth, arbedion effeithlonrwydd, a gwell

mynediad ar gyfer y cyhoedd. Mae cynghorau yn Lloegr yn lobïo Llywodraeth y DU yn frwd i wneud y trefniadau hyn yn barhaol yno hefyd.

23. Mae'r ymwahanu deddfwriaethol cynyddol sydd wedi bod yn bosibl yn sgil datganoli wedi arwain at greu corff o gyfreithiau ar wahân i Gymru. Oherwydd cymhlethdod y 'llyfr statud' presennol, cafodd **Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019** ei phasio i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch, clir a hawdd i'w defnyddio.
24. Roedd **Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013** yn feiddgar o ran y modd yr oedd yn gwyro oddi wrth ddulliau o gydsynio i roi organau yn y DU ehangach. Ysgogodd hyn newid yn yr Alban ac yn Lloegr yn eu tro, sydd wedi mabwysiadu polisi o 'gydsyniad tybiedig' sy'n debyg i'r un a fu mor llwyddiannus yng Nghymru. Mae Gogledd Iwerddon hefyd yn y broses o weithredu newid tebyg. Yn yr achos hwn, mae ymwahanu cynnar yng Nghymru wedi arwain yn y pen draw at gyfraddau cydsynio gwell, ac at foderneiddio dulliau gweithredu ym mhob un o'r tair gwlad, er budd pawb.
25. Gan gydnabod cyfrifoldebau cyllidol newydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno **deddfwriaeth drethi gyntaf Cymru ers 800 mlynedd**. Roedd dwy dreth gwbl ddatganoledig, sef y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, yn daladwy yng Nghymru o 1 Ebrill 2018. O Ebrill 2019, daeth Cyfraddau Treth Incwm Cymru o dan reolaeth y Senedd. Drwy ddeddfwriaeth a gymeradwywyd gan y Cynulliad a'r Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud penderfyniadau polisi sy'n wahanol i drethi rhagflaenol. Mae'r trethi datganoledig a'r rhai sydd wedi'u datganoli'n rhannol yn cyfrannu cyfanswm o fwy na £2.5 biliwn at gyllideb Llywodraeth Cymru. Oherwydd datganoli, bu modd creu Awdurdod Cyllid Cymru (sef adran lywodraeth anweinidogol gyntaf Cymru), sydd wedi datblygu dull penodol o gasglu a rheoli'r trethi datganoledig, y mae gweithwyr proffesiynol ym maes trethi wedi ei ganmol a'i werthfawrogi'n fawr.
26. Yn benodol, mae'r dreth gwarediadau tirlenwi yn cynnwys tâl am warediadau heb eu hawdurdodi, fel bod y rhai sy'n gwaredu gwastraff ar safle nad yw wedi'i awdurdodi ar gyfer gwarediadau tirlenwi yn dal yn agored i dalu treth. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod cyfraddau a throthwyon gwahanol ar gyfer y dreth trafodiadau tir, gan olygu, yn achos rhai pobl, nad oes dim treth i'w thalu o gymharu â'r sefyllfa mewn rhannau eraill o'r DU. At hynny, pan ostyngodd Llywodraeth y DU symiau treth dir y dreth stamp a oedd yn daladwy mewn ymateb i bandemig COVID-19, ymatebodd Llywodraeth Cymru yn wahanol. Yng Nghymru, nid oedd y gostyngiad dros dro yn y dreth trafodiadau tir yn berthnasol i brynwyr ail gartrefi nac i eiddo prynu i osod, yn wahanol felly i fannau eraill. Bellach mae Llywodraeth Cymru yn ceisio darparu cyfraddau lleol o ran y dreth trafodiadau tir a fydd yn berthnasol i anheddau a brynir i fod yn ail gartrefi neu'n llety gwyliau i'w osod, gan ddefnyddio trethi datganoledig i helpu i fynd i'r afael â materion polisi ehangach.
27. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio creu trethi eraill i helpu gyda nodau polisi eraill, gan gynnwys treth ddatganoledig a fyddai'n codi tâl ar dir gwag y rhoddwyd caniatâd i'w ddatblygu ond nad yw'n cael ei ddatblygu, a rhoi pŵer i

awdurdodau lleol i gyflwyno ardoll ymwelwyr, er mwyn cefnogi buddsoddiad ychwanegol mewn cymunedau lleol.

28. Er bod Llywodraeth Cymru wedi arwain datblygiadau deddfwriaethol uchelgeisiol, mae meinciau cefn y Senedd hefyd wedi sbarduno newid – mae **Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016** yn un enghraifft o'r fath. Ar ôl llwyddo mewn pleidlais ar gyfer biliau aelodau preifat, datblygodd Kirsty Williams – arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar y pryd – ffurfiau cynnar yr hyn a fyddai'n dod yn Ddeddf 2016. Y Ddeddf oedd y ddeddfwriaeth gyntaf yn Ewrop a oedd yn ymwneud â lefelau staff nyrsio.
29. Gellid dadlau bod pandemig COVID-19 ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo wedi dangos y modd y mae datganoli yn gweithredu a'i effaith ar fywydau pobl yn gliriach nag y gwnaeth unrhyw faes polisi arall ers dechrau datganoli. Er gwaethaf y dull unffurf a fabwysiadwyd gan bedair llywodraeth y Deyrnas Unedig i ddechrau, roedd effaith uniongyrchol y dull mwy gofalus o lacio'r cyfyngiadau symud yng Nghymru ar fywydau bob dydd pobl, a'r cyhoeddusrwydd cynyddol o ganlyniad, yn gwneud y gwahaniaeth rhwng cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn fwy amlwg i'r cyhoedd. Awgrymodd polau piniwn drwy gydol y pandemig fod lefelau uchel o gymeradwyaeth ymysg y cyhoedd i ddull Llywodraeth Cymru o weithredu.

Llywodraeth Cymru

Tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru – cyfyngiadau rheolaeth ariannol Trysorlys Ei Fawrhydi (Trysorlys EF), a chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer newid

Dyddiad: Medi 2022

Cynnwys

- | | |
|-----------------------------------|------------------|
| 1. Cyflwyniad / trosolwg | tudalen 3 |
| 2. Mater | tudalen 4 |
| 3. Cefndir | tudalen 4 |
| 4. Y sefyllfa bresennol | tudalen 7 |
| 5. Cynigion ar gyfer newid | tudalen 7 |
| 6. Goblygiadau terfynol | tudalen 8 |
| 7. Casgliadau | tudalen 9 |

1. Cyflwyniad / Trosolwg

- 1.1 Mae'r papur hwn yn nodi'r fframwaith presennol o ran rheolaeth ariannol i Lywodraeth Cymru, y materion y mae hyn yn eu codi, a sut y gellid gwella'r trefniadau.
- 1.2 Nid yw'r papur yn ymdrin â safbwyntiau Llywodraeth Cymru am ddiwygiadau ehangach i'r trefniadau cyllido ar gyfer y Llywodraethau Datganoledig. Ei nod hirdymor yw y bydd un fframwaith cyllidol sy'n seiliedig ar anghenion y DU, y cytunir arno gan bob Llywodraeth ac a gaiff ei weithredu a'i sicrhau yn annibynnol. Mae hyn yn cael ei nodi'n fanylach yn Llywodraeth Cymru (2021) *Diwygio ein Hundeb: Cydlywodraethu yn y DU Mehefin 2021*, sydd ar gael yn <https://llyw.cymru/diwygio-ein-hundeb-cydlywodraethu-yn-y-du-ail-olygiad.html>.
- 1.3 Ariennir Llywodraeth Cymru yn bennaf trwy grant bloc oddi wrth Lywodraeth y DU (Terfyn Gwariant Adrannol yn nhabl 1). Yn ogystal, mae'n cael reffeniw trethi datganoledig o gyfraddau treth incwm Cymru, y dreth trafodiadau tir, a'r dreth gwarediadau tirlenwi. Mae ardrethi annomestig sy'n cael eu casglu yng Nghymru hefyd wedi eu cynnwys yn rhifydded gyllidebol Llywodraeth Cymru.

Tabl 1: Cyllideb Derfynol ar gyfer 2022-23, ffynonellau cyllid

	£ million
Resource Departmental Expenditure Limit*	15,245
Capital Departmental Expenditure Limit	2,643
Welsh rates of income tax	2,478
Non domestic rates	1,030
Land transaction tax	381
Landfill disposals tax	35
Drawdown from cash reserve	34
Capital borrowing	150
Principal repayment of borrowing	-6
TOTAL FINANCING	21,990

* excluding depreciation

- 1.4 Mae newidiadau i gyllid y grant bloc yn cael eu pennu trwy fformiwla Barnett. Mae Llywodraeth Cymru yn cael yr un newidiadau i bob pen o'r boblogaeth ag yn Lloegr ar gyfer rhaglenni sydd wedi'u datganoli yng Nghymru. (Erbyn hyn mae ffactor ychwanegol hefyd sy'n seiliedig ar anghenion.) Nodir manylion sut mae hyn yn gweithio yn Trysorlys Ei Mawrhydi (2021) *Statement of Funding Policy: Funding the Scottish Government, Welsh Government and Northern Ireland Executive*, sydd ar gael yn: [Autumn Budget and Spending Review 2021: documents - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/100222/Autumn_Budget_and_Spending_Review_2021_documents_-_GOV.UK.pdf). Pennir y grant bloc fel rheol fel rhan o adolygiadau gwariant Llywodraeth y DU. Mae'r rhain yn cwmpasu 3 neu 4 mlynedd ymlaen fel rheol, ond yn ddiweddar bu nifer o adolygiadau un flwyddyn.
- 1.5 Mae mecanwaith addasu'r grant bloc sy'n lleihau'r grant i gydnabod ffrydiau reffeniw trethi datganoledig. Yn fras, mae'r gostyngiadau'n tyfu yn unol â'r

refeniw cyfatebol mewn mannau eraill yn y DU. Nodir y trefniadau yn fanwl yn *The agreement between the Welsh Government and the United Kingdom Government on the Welsh Government's fiscal framework* (2016) sydd ar gael yn: [Cytundeb ar fframwaith cyllidol Llywodraeth Cymru | LLYW.CYMRU](#).

- 1.6 Mae Llywodraeth Cymru'n cael ei rhwymo hefyd gan *HM Treasury (2022) Consolidated Budgeting Guidance: 2022-23* sydd ar gael yma: [HM Treasury Consolidated Budgeting Guidance \(CBG\)](#). Mae hyn yn rhan o'r fframwaith gwariant cyhoeddus, sy'n nodi egwyddorion a safonau sy'n sail i'r system gyllidebu sydd wedi'i mandadu i'w defnyddio gan bob corff sy'n cael ei gategoreiddio fel un o gyrff y Llywodraeth ganolog, gan gynnwys y Llywodraethau Datganoledig.

2. Mater

- 2.1. Fel y dangosir yn Nhabl 1, mae sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru'n cael ei dominyddu gan y grant bloc, gan gyfrif am dros 80% y cant o'r cyllid yn 2022-23. Mae newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn cael eu hysgogi, felly, gan benderfyniadau cyllido Llywodraeth y DU, sydd wedi'u cynllunio i fodloni gofynion gwariant cyhoeddus yn Lloegr. Gall fod newidiadau hefyd i'r grant bloc yn ystod y flwyddyn, sy'n cael eu gyrru eto gan amgylchiadau yn Lloegr, sy'n gallu gofyn am addasiadau i gynlluniau cyllideb Llywodraeth Cymru ar fyr rybudd.
- 2.2. Mae gan Lywodraeth Cymru rai offer i'w helpu i reoli newidiadau yn ystod y flwyddyn a darparu rhywfaint o hyblygrwydd rhwng blynyddoedd. Mae'r trethi datganoledig, cronfa arian parod, a phwerau benthyca yn cynnig rhywfaint o gapasiti i Lywodraeth Cymru reoli anwadalrwydd a gwyro oddi wrth y lefel gyffredinol a'r proffil blynyddol o wariant a orfodir gan y grant bloc. (Darperir manylion offer rheoli'r gyllideb yn yr adran nesaf.)
- 2.3. Er hynny, mae natur gyfyngedig yr offer hwn yn golygu bod capasiti cyfyngedig i addasu'r proffil cyllidebol i beri iddo gyd-fynd yn well ag amgylchiadau Cymru. Mae hyn wedi ei waethygu gan raddfa'r newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r grant bloc dros y blynyddoedd diwethaf, gan arwain at faterion tymor byr o ran rheoli'r gyllideb a'i gwneud yn anodd cynyddu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwario cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

3. Cefndir

- 3.1. Ar sawl ystyr, mae'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol (CBG) yn trin y Llywodraethau Datganoledig yn yr un modd ag y mae'n trin adrannau llywodraeth y DU. Mae'n nodi rhai rheolau cyllidebol sy'n cyfyngu ar yr ymreolaeth sydd gan y Llywodraethau Datganoledig dros eu cyllidebau. Er enghraifft, o dan CBG, efallai na fydd cyllidebau cyfalaf yn cael eu newid i gyllidebau refeniw, ac nid yw'r driniaeth ar gyfer torri'r cyfansymiau rheoli refeniw a chyfalaf yn cydnabod y trefniadau unigryw i'r Llywodraethau Datganoledig gario adnoddau heb eu gwario ymlaen trwy gronfa benodol wrth

gefn sy'n cyfuno refeniw a chyfalaf. Yn achos y Llywodraethau Datganoledig, mae cyllidebau'n agored i fwy o risg nag adrannau o lywodraeth y DU o ganlyniad i ddatganoli trethi a gweithrediad y grant bloc. O'r herwydd mae offer ychwanegol cyfyngedig ar gael ar gyfer rheoli cyllidebau.

- 3.2. Mae cytundeb y fframwaith cyllidol yn nodi'r offer sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb. Y rhain yw:
- **Benthyca cyfalaf** gyda chap cyffredinol o £1biliwn a therfyn blynyddol o £150miliwn.
 - **Benthyca adnoddau** os yw refeniw trethi yn is na'r disgwyl, gyda chap cyffredinol o £500miliwn a therfyn blynyddol o £200miliwn. (Rhaid gwneud ad-daliadau o fewn pedair blynedd.)
 - **Cronfa arian parod** lle y gall Llywodraeth Cymru arbed refeniw dros ben y gellir ei dynnu i lawr fel sy'n ofynnol yn y blynyddoedd i ddod. Mae maint cyffredinol y gronfa wrth gefn wedi'i gapio yn £350miliwn, gyda therfynau tynnu i lawr blynyddol o £125miliwn ar gyfer adnoddau a £50miliwn ar gyfer cyfalaf.
- 3.3. Gall yr offer hwn gael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru i amrywio'r proffil gwariant blynyddol a osodwyd gan drefniadau'r grant bloc. Er hynny, gallai fod yn ofynnol hefyd iddynt ddelio â newidiadau annisgwyl yn ystod y flwyddyn i'r grant bloc a'r anwadalrwydd mewn refeniw trethi datganoledig.
- 3.4. Mae newidiadau yn ystod y flwyddyn i'r grant bloc yn codi drwy broses Amcangyfrifon Atodol yn y DU. Mae hyn yn adlewyrchu newidiadau o ran dyrannu cyllid newydd ac ailddefnyddio cyllid sydd eisoes yn bodoli i weithgarwch newydd gan Lywodraeth y DU. Mae'n gymhleth, gydag amryfal ddarnau symudol. Nid yw nifer o'r darnau hyn ond yn cael eu cwblhau ar ddiwedd y broses - tua diwedd y flwyddyn ariannol fel rheol.

Tabl 2: Newidiadau adeg Amcangyfrifon Atodol (£m)

	2018-19	2019-20	2020-21*
Resource DEL (exc depreciation)	125.4	37.8	126.7
Capital DEL	14.7	-31.2	81.6
Total	140.2	6.6	208.3

* Excludes COVID-19 changes

- 3.5. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, bu nifer o newidiadau mawr yn ystod y flwyddyn i'r grant bloc (tabl 2). Roedd y cynnydd yn Nherfyn Gwariant Adrannol Adnoddau Llywodraeth Cymru adeg Amcangyfrifon Atodol y DU yn fwy na £125 miliwn yn 2018-19 a £126m yn 2020-21. Mae cyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn destun newidiadau mawr, hwyr, ac annisgwyl gyda £82miliwn yn ychwanegol yn 2020-21 a gostyngiad yn 2019-20 o £31miliwn. Mae'r newidiadau hyn yn fawr o'u cymharu â'r terfynau cronfeydd arian parod a nodir uchod.
- 3.6. Erbyn ail hanner y flwyddyn ariannol, efallai y byddai cynlluniau eisoes wedi'u gwneud i gario ymlaen rhywfaint o gyllid trwy'r gronfa arian parod. Felly, gall

cynnydd mawr, annisgwyl mewn cyllid beri risg o dorri terfynau cronfeydd wrth gefn - a fyddai'n arwain at ddychwelyd adnoddau i Lywodraeth y DU. Er mwyn osgoi hyn, rhaid defnyddio cyllid ychwanegol yn gyflym. I'r gwrthwyneb, os bydd gostyngiad sylweddol mewn cyllid, mae'r rheolau llym ar lefelau cronfeydd wrth gefn a thynnu cyllid i lawr, a'r amgylchiadau lle y gall benthyca ddigwydd, yn golygu bod gan Lywodraeth Cymru offer cyfyngedig yn unig i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion cyllido.

- 3.7. Nid yw'r problemau hyn gyda rheolaeth yn ystod y flwyddyn yn dangos nad oes angen unrhyw gyllid ychwanegol drwy gyhoeddiadau hwyr. Bydd Llywodraeth Cymru wedi pennu ei chynlluniau ar sail y cyllid sydd ar gael, gan gydbwysu blaenoriaethau sy'n cystadlu. Gellir defnyddio unrhyw gynnydd mewn cyllid bob amser i wella gwasanaethau cyhoeddus a chefnogi poblogaeth Cymru, ond mae newidiadau o'r fath yn fwy effeithiol os oes amser i addasu cynlluniau yn drefnus.
- 3.8. Mae rhaid i system rheoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn ddarparu ar gyfer anwadalarwydd mewn refeniw trethi a gall roi straen ar y terfynau sydd ar gael. Mae'r refeniw o'r trethi sydd wedi'u datganoli'n llawn, y dreth trafodiadau tir a'r dreth gwarediadau tirlenwi, yn cael effaith uniongyrchol ar gyllid Llywodraeth Cymru ar unwaith. Mae'r addasiadau cysylltiedig i'r grant bloc yn cael eu pennu cyn y flwyddyn o dan sylw ac yna'n cael eu diwygio hanner ffordd drwy'r flwyddyn, ar ôl cyllideb Hydref Llywodraeth y DU. Mae Tabl 3 yn dangos y newid yn y sefyllfa gyllidebol net rhwng y gyllideb derfynol ar gyfer pob blwyddyn a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Tabl 3: Newid mewn refeniw trethi wedi'u datganoli'n llawn ac addasiadau i'r grant bloc yn ystod y flwyddyn (£m)

	2018-19	2019-20	2020-21	2021-22
<u>Final Budget</u>				
Devolved revenues*	276	299	285	264
Block grant adjustments	269	275	271	254
<i>Net position</i>	<i>7</i>	<i>24</i>	<i>14</i>	<i>10</i>
<u>End of year</u>				
Devolved revenues*	272	297	242	448
Block grant adjustments	268	260	196	300
<i>Net position</i>	<i>3</i>	<i>38</i>	<i>46</i>	<i>147</i>
<i>change in net position</i>	<i>-3</i>	<i>13</i>	<i>32</i>	<i>137</i>

* Land transaction tax and landfill disposals tax

- 3.9. Mae'r newid yn ystod y flwyddyn i'r sefyllfa net wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd effeithiau ansicr COVID-19 ar yr economi a newidiadau polisi a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig. Roedd y newid yn 2021-22 bron yn 40% o derfyn y gronfa arian parod gyffredinol. Mae'r addasiadau i'r grant bloc erioed wedi symud i'r un cyfeiriad â'r refeniw datganoledig, gan leihau effaith net newid, ond yn aml gyda symiau pur wahanol.

- 3.10. Daw newidiadau mewn refeniw (ac addasiadau i'r grant bloc) i'r amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen, trwy fonitro gwybodaeth ac wrth i bolisiâu gael eu newid. Mae hyn yn helpu gyda rheoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn - ond mae'r trethi datganoledig yn dal i gyfrif am rannau symudol ychwanegol sylweddol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru sy'n rhoi straen ychwanegol ar yr offer sydd ar gael.
- 3.11. Mae'r refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru a'r addasiad cysylltiedig i'r grant bloc cysylltiedig yn cael eu pennu cyn blwyddyn y gyllideb o dan sylw. Nid ydynt yn cael eu hailystyried nes bod gwybodaeth am alldro ar gael 18 mis yn ddiweddarach, felly nid ydynt yn effeithio ar reoli'r gyllideb yn ystod y flwyddyn.
- 3.12. Mae proses gysoni ar gyfer yr holl addasiadau i'r grant bloc a hefyd y refeniw o gyfraddau treth incwm Cymru unwaith y bydd gwybodaeth am alldro ar gael. Mae unrhyw wahaniaeth rhwng alldro a'r rhagolygon a ddefnyddir mewn cyllidebau yn cael ei gymhwyso i'r grant bloc yn y flwyddyn yn dilyn yr wybodaeth am alldro.
- 3.13. Mae newidiadau i refeniw trethi wedi'u datganoli'n llawn yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar unwaith, fel y nodwyd uchod, ond nid yw gwybodaeth am alldro mewn perthynas â'r addasiadau i'r grant bloc yn cael ei chymhwyso tan ddwy flynedd yn ddiweddarach drwy'r broses gysoni. Mae hyn yn golygu bod newidiadau sy'n cael eu gyrru'n aml gan yr un ffactorau economaidd, yn effeithio ar gyllideb Llywodraeth Cymru ar adegau gwahanol. Efallai nad oes ffordd well o reoli'r broses gysoni, ond mae'n werth nodi bod rhaid rheoli'r gwahaniaethau amseru hyn hefyd drwy ddefnyddio'r offer cyfyngedig sydd ar gael i Lywodraeth Cymru.

4. Y sefyllfa bresennol

- 4.1 Mae cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2022-23 tua 40 y cant yn fwy o ran arian parod nag yn 2016-17, pan bennwyd y gronfa arian parod wrth gefn a'r terfynau benthyca yng nghytundeb y fframwaith cyllidol. Mae'r capasiti i Lywodraeth Cymru addasu ei phroffil cyllidebol blynyddol a rheoli'r sefyllfa yn ystod y flwyddyn yn sylweddol is yn awr mewn termau cymharol a bydd yn parhau i ddirywio oni bai bod y terfynau hynny'n cael eu cynyddu.

5. Cynigion ar gyfer newid

- 5.1 Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Llywodraethau Datganoledig eraill, wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth y DU am fwy o hyblygrwydd er mwyn rheoli ei chyllideb.
- 5.2 Mae cynigion cymedrol yn cynnwys y gallu awtomatig i gario newidiadau hwyr i'r grant bloc ymlaen i'r flwyddyn ariannol ddilynol. Byddai hyn yn rhoi mwy o amser i'r Llywodraethau Datganoledig addasu cynlluniau er mwyn darparu ar gyfer y newidiadau hynny. Mae trefniadau o'r fath wedi cael eu cytuno gyda Llywodraeth y DU yn y gorffennol, ond dim ond fesul achos.

Byddai gallu awtomatig i gario newidiadau hwyr ymlaen yn lleihau ansicrwydd a'r amser sy'n cael ei dreulio'n negodi trefniadau diwedd blwyddyn.

- 5.3 Mae'r Llywodraethau Datganoledig hefyd wedi galw am godiadau i derfynau ar fenthyca a chronfeydd arian parod wrth gefn. Yn ddelfrydol, byddai rhyw fath o fynegeio yn cyd-fynd â hyn a fyddai'n newid terfynau yn unol â chyllidebau ac yn osgoi'r angen i negodi yn y dyfodol.
- 5.4 Yn ganolog i'r cynigion hyn mae dull y cytunwyd arno sy'n seiliedig ar reolau, yn ddelfrydol gyda chyflafareddu annibynnol. Byddai hyn yn dileu'r sail fesul achos, a mympwyol ar adegau, y mae'r system bresennol yn gweithredu arni a byddai'n sicrhau canlyniadau mwy rhagweladwy – gan hwyluso gwell rheolaeth ar y gyllideb. Yn y cyd-destun hwn, mae'n werth cofio mai Trysorlys EF, tan yn ddiweddar, oedd â'r rôl fwyaf blaenllaw yn y gwaith o ddehongli'r rheolau presennol a datrys unrhyw anghydfod sy'n codi, ar draws yr holl system gyllido ar gyfer y Llywodraethau Datganoledig. Mae'r trefniadau newydd o ran Cysylltiadau Rhynglywodraethol yn nodi gweithdrefn newydd ar gyfer datrys anghydfod a'i osgoi, sy'n cynnwys elfen o gyngor annibynnol am y tro cyntaf.
- 5.5 Mae'r Llywodraethau Datganoledig yn wynebu risgiau gwahanol i adrannau llywodraeth y DU ac mae arnynt angen mwy o ymreolaeth i weithredu fel rheolwyr gwario cyhoeddus. Dylai'r Canllawiau Cyllidebu Cyfunol gydnabod y gwahaniaethau hynny'n llawnach a chyd-fynd yn well â'r trefniadau ar wahân ar gyfer y Llywodraethau Datganoledig o dan gytundebau'r fframwaith cyllidol. Yn benodol, dylai'r rheolau ynghylch newid o gyfalaf i refeniw ac amseru, a thorri cyfansymiau rheoli cymryd y cytundebau hynny i ystyriaeth.
- 5.6 Dull gweithredu amgen, mwy radical fyddai dileu pob terfyn ar faint y gronfa arian parod a'r swm y gellir ei dynnu i lawr bob blwyddyn. Gallai terfynau benthyca, yn enwedig at ddibenion cyfalaf, hefyd gael eu dileu neu eu llacio'n fawr, gyda chanolbwynt ar gost gwasanaethu'r ddyled yn hytrach na lefel y benthyca. Byddai hyn yn rhoi mwy o gwmpas i Lywodraeth Cymru alinio cyllidebau blynyddol ag amgylchiadau yng Nghymru. I bob pwrpas, byddai Llywodraeth Cymru yn cymryd cyfrifoldeb llawn dros reoli ei chyllid dros amser, o fewn y cyfyngiadau cyffredinol a osodir gan gyllid y grant bloc.
- 5.7 Byddai'r dull gweithredu hwn yn cynnwys risgiau yn ogystal â chyfleoedd. Byddai rhaid i Lywodraeth Cymru reoli'r posibilrwydd o ostyngiadau hwyr yn ystod y flwyddyn i'r grant bloc, sy'n deillio o broses amcangyfrifon atodol Llywodraeth y DU. Byddai hefyd yn debygol o golli mynediad at gronfa wrth gefn y DU ym mhob un ond yr amgylchiadau mwyaf eithafol. (Mae gan y Llywodraethau Datganoledig fynediad cyfyngedig iawn eisoes at gronfa wrth gefn y DU i ddelio ag amgylchiadau annisgwyl eithriadol na ellir eu rheoli gyda'r offer sydd ar gael ar hyn o bryd.) Ond byddai gan Lywodraeth Cymru set fwy cynhwysfawr o ddulliau i reoli'r risgiau hynny.

6. Goblygiadau terfynol

- 6.1 Dylid galluogi Llywodraeth Cymru i gymryd mwy o reolaeth o'i chyllid. Yn benodol, dylid llacio'r cyfyngiadau blynyddol a osodir gan drefniadau'r grant bloc a'r terfynau ar offer rheoli'r gyllideb.
- 6.2 Gall y trefniadau presennol arwain at newidiadau hwyr iawn yn nyraniadau'r gyllideb i ddarparu ar gyfer newidiadau mewn cyllid sy'n cael eu gyrru gan amgylchiadau yn Lloegr yn hytrach nag yng Nghymru. Mae risg ynghlwm wrth hyn nad yw adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i Gymru, neu fod rhaid dychwelyd cronfeydd y mae galw mawr amdanynt i Lywodraeth y DU.

7. Casgliad

- 7.1 Byddai'r diwygiadau a amlinellir uchod yn gwella gallu Llywodraeth Cymru i reoli ei hadnoddau yn effeithlon, ac i ariannu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru'n effeithiol.

Llywodraeth Cymru

**Tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru –
Rhoi cyfrif o waith partneriaeth â Llywodraeth y DU, er enghraifft Bargeinion
Twf, Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, protocolau trawsffiniol ar wasanaethau
iechyd ac addysg ac ati.**

Dyddiad: Medi 2022

Cynnwys

1. Trosolwg	4
2. Cynghrais Mersi a'r Ddyfrdwy.....	4
Y Prif Lwyddiannau	5
Yr Uwchgynhadledd Ynni a Thwf Glân	5
Rhaglen Buddsoddi a Chyflawni.....	6
Trafnidiaeth.....	6
Busnes a Sgiliau.....	6
Heriau.....	7
Astudiaeth Achos Ymgysylltu: Growth Track 360	7
Casgliad.....	8
3. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	9
Cyflwyniad.....	9
Mater: Talu am Driniaeth (2019).....	10
Sefyllfa bresennol Llywodraeth Cymru.....	10
Gwasanaethau Gofal Iechyd Trawsffiniol GIG Lloegr/Cymru: Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion) (SVP).....	10
Rhwydwaith Trawsffiniol y GIG.....	11
Canllawiau'r Cyrff Cyfrifol ar gyfer y GIG yng Nghymru.....	11
Grŵp Cyngori ar Dariffau GIG Lloegr.....	12
Trefniadau Gofal Iechyd Rhyngwladol.....	12
Pandemig COVID-19.....	13
Profiad pandemig COVID-19 mewn perthynas ag Offer Diogelu Personol.....	13
Profiad pandemig COVID-19 mewn perthynas â Phrofi.....	14
Profiad pandemig COVID-19 mewn perthynas â Brechiadau	15
Dyheadau ar gyfer y dyfodol	15
Goblygiadau Terfynol.....	15
Casgliad.....	16
4. Addysg.....	16
Trosolwg	16
Ymgysylltu - Ffurfiol	16
Cyngor Gweinidogion Addysg y DU.....	16
Cyllid Myfyrwyr.....	17

Ymgysylltu - Anffurfiol	18
Arian cyfatebol i ddysgwyr trawsffiniol	18
Cymwysterau	19
Prentisiaethau a Datblygu'r Fframwaith Prentisiaethau	20
Heriau	20
Ffyniant Bro – Academi Genedlaethol y DU	20
Ffyniant Bro - Multiply	21
Erasmus+ a'r Cynllun Turing	21
5. Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf.....	22
Bargen Ddinesig Caerdydd	22
Bargen Ddinesig Bae Abertawe	23
Bargen Twf y Gogledd	24
Bargen Twf y Canolbarth	24

1. Trosolwg

- 1.1 Mae gweithio mewn partneriaeth â llywodraeth ganolog bob amser wedi bod yn rhan o ddatganoli. Yn nyddiau cynnar datganoli, roedd pwerau gweithredol cyfyngedig y sefydliad cyntaf a natur cyllid y Cynulliad yn golygu bod cydweithio â Llywodraeth y DU yn hanfodol. Mae pwerau deddfwriaethol cynyddol y Senedd a'r newidiadau i'r setliad cyllid wedi arwain at fwy o ymreolaeth a llai o ddibyniaeth ar lywodraeth ganolog. Er hyn, oherwydd bod llywodraeth ganolog wedi cadw llawer o'r ysgogiadau deddfwriaethol ac ariannol yn ôl a bod ffin fân-dyllog rhwng Cymru a Lloegr, mae partneriaeth weithio gadarn rhwng llywodraethau ar bob lefel yn angenrheidiol.
- 1.2 Mae'r papur yn nodi ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU ym meysydd yr economi, iechyd ac addysg. Er nad ydym yn cydweld â Llywodraeth y DU bob amser, fel a nodir mewn rhai enghreifftiau (**a gweler, yn benodol, bapur tystiolaeth 10**), dangosir pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i sicrhau canlyniadau llwyddiannus i wella bywydau pobl.
- 1.3 Mae'r papur hwn yn ymdrin â nifer o feysydd. Yn gyffredinol, rydym wedi darparu enghreifftiau o'r trefniadau sydd ar waith gan roi cyfrif ffeithiol o'n profiadau, yn hytrach na rhoi sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn (er yr amlinellir yr heriau a wynebir yn fanylach mewn rhai achosion i roi mwy o gyd-destun, yn enwedig mewn perthynas ag addysg).

2. Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy

- 2.1 Llywodraeth Cymru yw un o aelodau sylfaenu Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy (MDA), partneriaeth anffurfiol lwyddiannus sy'n cefnogi twf economaidd strategol ar draws Gogledd-ddwyrain Cymru, Gorllewin Swydd Gaer a Wirral.
- 2.2 A hithau'n cael ei chydabod fel is-ranbarth economaidd sengl, a chanddi boblogaeth yn agos at un miliwn, mae ardal Mersi a'r Ddyfrdwy yn lleoliad hollbwysig yn y DU.

Y Prif Ffeithiau
<ul style="list-style-type: none">• Mae 78% o boblogaeth y rhanbarth yn byw ac yn gweithio yn ardal Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy• Ei gwerth ychwanegol gros yw £22bn• Mae yno 380,000 o swyddi• Mae yn yr ardal 700 o gwmnïau â throsiant o dros £1 miliwn y flwyddyn• Mae Ardal Fenter Coridor Gwyddoniaeth Swydd Gaer, Ardal Fenter Dyfroedd Wirral ac Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn ardal y Gynghrair.

- 2.3 Mae yn ardal Mersi a'r Ddyfrdwy bum prif ganolfan, ac iddynt hanes gwahanol, sy'n ategu rolau economaidd ei gilydd er eu bod ar ochrau gwahanol ffin genedlaethol Cymru a Lloegr.
- 2.4 Uchelgais Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yw dod â phartneriaethau economaidd cyfagos at ei gilydd a darparu cyfrwng i lywodraethau weithio gyda'i gilydd, mewn modd adeiladol, er mwyn sicrhau manteision ar gyfer pob parti a chanlyniadau economaidd a chymdeithasol gwell ar gyfer cymunedau ar bob ochr y ffin.
- 2.5 Mae'r Gynghrair yn gweithio gydag amrediad eang o bartneriaid a rhanddeiliaid, gydag aelodaeth sy'n dod â Sir y Fflint a Wrecsam yng Nghymru a Gorllewin Swydd Gaer a Wirral yng Ngogledd-orllewin Lloegr ynghyd. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gynghrair fod â chysylltiadau agos â'r partneriaethau economaidd lleol y mae'r awdurdodau partner yn rhan ohonynt:
- Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru – Gogledd Cymru
 - Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington – Swydd Gaer a Warrington¹
 - Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl – Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl

Y Prif Lwyddiannau

- 2.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy i ymgysylltu, hwyluso, a chyfathrebu'n effeithiol â rhanddeiliaid ar draws yr ardal. Mae'r berthynas anffurfiol hon wedi gweithio'n dda yn y gorffennol ac mae'n parhau i wneud hynny hyd heddiw. Hefyd, mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy wedi defnyddio'i phlatfform i lywio a dylanwadu ar bolisi a darpariaeth y ddwy lywodraeth.

Yr Uwchgynhadledd Ynni a Thwf Glân

- 2.7 Cynhaliodd y Gynghrair Uwchgynhadledd Ynni a Thwf Glân yn 2018, mewn partneriaeth â Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a Phartneriaethau Menter Leol Swydd Gaer a Warrington. Canlyniad mwyaf arwyddocaol yr Uwchgynhadledd oedd cydnabod yr angen a'r ewyllys i gydweithio ar ddwy ochr y ffin i gefnogi twf yn y sector ynni.
- 2.8 Arweiniodd yr Uwchgynhadledd Ynni a Thwf Glân at gydweithio gyda'r sector ynni i gynhyrchu prospectws ynni ar gyfer gogledd Cymru ac ardal Mersi a'r Ddyfrdwy, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020.

¹ Ar hyn o bryd mae Llywodraeth y DU yn adolygu Partneriaethau Menter Leol ar draws y DU i gwestiynu eu gwerth ac i ystyried a fyddai dull maer ac awdurdod cyfun yn fwy addas

Rhaglen Buddsoddi a Chyflawni

- 2.9 Mae'r Gynghrair wedi cynhyrchu Rhaglen Buddsoddi a Chyflawni sy'n nodi'r buddsoddi sydd ei angen mewn cysylltiadau trafndiaeth, datblygu sgiliau, cysylltedd digidol, a charbon isel a thwf glân dros y 5–20 mlynedd nesaf. Bydd hyn yn rhyddhau'r potensial ar gyfer twf economaidd ar safleoedd datblygu strategol ac yn creu cysylltiadau gwell rhwng ardal Mersi a'r Ddyfrdwy ac economi ehangach Pwerdy Gogledd Lloegr, Iwerddon ac Ewrop.

Trafnidiaeth

- 2.10 Mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy wedi cefnogi gweithgor Metro Gogledd Cymru ac mae'n parhau i gefnogi Growth Track 360 (GT360). Mae'r Gynghrair yn parhau i lobio am fuddsoddiadau i wella cysylltiadau rheilffyrdd o fewn ei hardal ac o'i chwmpas.
- 2.11 Gweithiodd y Gynghrair yn agos gyda Thasglu Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy i hyrwyddo'r blaenoriaethau trafndiaeth ar gyfer ardal Mersi a'r Ddyfrdwy a oedd i'w cynnwys yng Nghynllun Trafnidiaeth Strategol Trafnidiaeth y Gogledd. Mae gwelliannau i gapasiti Gorsaf Caer a gwasanaeth Bidston-Wreccsam a gwelliannau i'r llinell bellach wedi cael eu cynnwys.
- 2.12 Roedd y Gynghrair yn cefnogi'r gweithgor yn ystod cam cyntaf prosiect Coridor Twf Caer-Brychdyn, a elwid gynt yn Ffordd Liniaru Gorllewinol Caer.
- 2.13 Gweithiodd GT360 gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu fforwm trafndiaeth trawsffiniol a gefnogir gan Drafnidiaeth y Gogledd, er mwyn dod â Gweinyddiaethau Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a Swyddfa Cymru at ei gilydd,. Hefyd argymhellodd gyd-fwrdd rheilffyrdd llywodraethol (rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU) mewn ymateb i Adolygiad Cysylltedd yr Undeb. Mae hyn wedi'i gymeradwyo gan Bwyllgor Dethol Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin y DU ond nid yw wedi'i sefydlu eto.

Busnes a Sgiliau

- 2.14 Bydd y Gynghrair yn cynnal hyd at chwe Brechwast Busnes Rhwydweithio bob blwyddyn mewn gwahanol leoliadau yn yr ardal. Bydd dros 150 o gynrychiolwyr yn bresennol a gwahoddir busnesau i gymryd rhan a marchnata eu hunain.
- 2.15 Gwnaeth Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru noddi symposiwm sgiliau ac arloesedd Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy, gyda Phrifysgol Glyndŵr Wreccsam, Prifysgol Bangor a Phrifysgol Caer.

Heriau

- 2.16 Mae'r Gynghrair wedi llunio Pecyn Adfer Economaidd yn gofyn am gymorth ariannol gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r cais hwn yn rhan o adferiad y rhanbarth o Brexit a COVID, yn dilyn eu heffaith ar ddiwydiant gweithgynhyrchu a chadwyni cyflenwi'r rhanbarth.
- 2.17 Gofynnodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy am restr o brosiectau â blaenoriaeth. Wedyn nodwyd saith blaenoriaeth ym meysydd Trafnidiaeth/Teithio Llesol, Busnes, Sgiliau, Arloesi a Thechnoleg Ddigidol, Ynni Carbon Isel a Lle.
- 2.18 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol o tua £110,000 i Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy i ddatblygu'r achosion busnes ar gyfer prosiectau blaenoriaeth unigol.
- 2.19 Er bod consensws i'w weld ymysg rhanddeiliaid ac aelodau o Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy y gallai'r eitemau hyn gyflawni polisïau'r ddwy lywodraeth, nid oes mecanwaith cyffredinol i ariannu gweithgareddau o'r fath ar sail drawsffiniol.
- 2.20 Gan fod y Gynghrair wedi'i chyfansoddi fel partneriaeth anffurfiol, nid yw'n cyflawni gweithgareddau buddsoddi. Yn hytrach, mae'r prif bartneriaid a'r cyd-bartneriaid o fewn y Gynghrair yn cyflawni ar ei rhan. Mae trafodaethau diweddar rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru a swyddogion partner y Gynghrair yn awgrymu y bydd pethau'n parhau fel hyn, yn enwedig mewn perthynas â'r Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Maent fodd bynnag wedi cytuno i archwilio cyfleoedd ar gyfer caffael a chyflawni prosiectau ar y cyd, pan fo'n briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu mai dyma'r ffordd gywir a phriodol o weithredu ar hyn o bryd.

Astudiaeth Achos Ymgysylltu: Growth Track 360

- 2.21 Yn hyn o beth, mae'r Gynghrair yn gweithio'n agos gyda Growth Track 360 (Tasglu Rheilffyrdd Gogledd Cymru a Mersi a'r Ddyfrdwy). Mae Growth Track 360 yn gweithredu fel is-bwyllgor i Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy, gan gynghori'r Gynghrair ar faterion sy'n ymwneud â Pholisi Trafnidiaeth (gwasanaethau a gwelliannau seilwaith) ar gyfer rheilffyrdd, bysiau a theithio llesol. Mae GT360 yn gweithio gydag arweinwyr trafniadaeth Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru, Partneriaeth Menter Leol Swydd Gaer a Warrington ac Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl. Mae Cadeirydd Pwyllgor Trafnidiaeth Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl yn gwasanaethu ar Fwrdd GT360.
- 2.22 Mae gan Gynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy a GT360 hefyd fynychwyr sy'n cynrychioli busnes ar ddwy ochr y ffin. Mae Cyngor Busnes Mersi a Dyfrdwy Gogledd Cymru a Siambr Fasnach Gorllewin Swydd Gaer a Gogledd Cymru yn gweithio gyda'r ddau gorff, gan fynychu cyfarfodydd

bwrdd ac adrodd am faterion economaidd a thrafnidiaeth trawsffiniol i'w haelodau busnes ehangach.

- 2.23 Mae'r Gynghrair a GT360 yn blaenoriaethu trafodaethau â chynrychiolwyr etholedig. Mae'r Gynghrair yn cefnogi Grŵp Seneddol Holl Bleidiol yn San Steffan a Grŵp Seneddol Holl Bleidiol Mersi a'r Ddyfrdwy Gogledd Cymru. Mae'r Grŵp Seneddol Holl Bleidiol yn grŵp trawsbleidiol sy'n agored o bob Aelod o Senedd y DU o Ogledd Cymru, Gorllewin Sir Gaer a Chaer a Wirral.
- 2.24 Mae'r Gynghrair a GT360 yn chwarae rhan yn y broses o ddod ag Aelodau o Senedd y DU ac Aelodau o Senedd Cymru ynghyd drwy Grŵp Trawsbleidiol Gogledd Cymru yn Senedd Cymru. Mae'r grŵp hwn ar agor i holl Aelodau'r Senedd o'r Gogledd. Ar hyn o bryd mae'r Grŵp Trawsbleidiol yn gwahodd Aelodau o Senedd DU o Gogledd Cymru ac Arweinwyr Cynghorau i ymuno â'u cyfarfodydd. Cyhoeddir diweddariadau ysgrifenedig rheolaidd gan y Gynghrair a GT360 i Aelodau o Senedd y DU ac Aelodau o Senedd Cymru.
- 2.25 Nod y ddau sefydliad yw gweithio gyda Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Gweinidogion Llywodraeth y DU, gan gynnwys Gweinidog yr Economi a Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, a Gweinidogion y DU o Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, yr Adran Drafnidiaeth, BEIS a Swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Casgliad

- 2.26 Mae llwyddiant Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy wedi bod yn seiliedig ar gyfathrebu ar draws gwahanol ffiniau gwleidyddol a chenedlaethol, gan ddod â phobl at ei gilydd i gydweithio ar amrediad o faterion. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir mewn perthynas â thrafnidiaeth sy'n parhau i fod yn llwyddiant allweddol.
- 2.27 Mae Llywodraeth Cymru a swyddogion Llywodraeth y DU yn parhau i gefnogi Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy i ddatblygu ei chynigion ar gyfer adfer. Mae gan y Gynghrair y potensial i gefnogi datblygu sgiliau y mae eu hangen yn fawr iawn, cynigion teithio llesol, a datgarboneiddio diwydiant drwy ddull sydd wirioneddol yn seiliedig ar le.
- 2.28 Mae'r Gynghrair yn parhau i fod â sawl uchelgais allweddol:
- 2.28.1 Bod y Gynghrair yn gweithio'n dda fel corff anffurfiol. Byddai dychwelyd i fusnes fel arfer yn cynnwys cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb a Brecwastau Busnes Rhwydweithio.

2.28.2 Eu bod yn ennill cyllid gan Lywodraeth y DU ar gyfer eu prosiectau adfer. Ar hyn o bryd nid yw unrhyw lwybr cydnabyddedig ar gyfer cymorth wedi cael ei nodi y tu hwnt i ddyraniadau sydd eisoes yn bodoli.

2.28.3 Gan nad yw gweithgareddau trawsffiniol yn cael eu cydnabod yn rheolaidd yn y strwythurau ariannu presennol, mae'r Bwrdd wedi cytuno y bydd yn ystyried a oes angen i Gynghair Mersi a'r Ddyfrdwy ddod yn endid cyfreithiol i gyflawni prosiectau yn y dyfodol. Pe penderfynir bwrw ymlaen â'r gwaith hwn, byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus sut y byddai'n cysoni ac ychwanegu gwerth at gyrff rhanbarthol a phartneriaethau presennol yn y Gogledd.

3. Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cyflwyniad

3.1 Mae ystod a nifer y llifoedd iechyd a gofal cymdeithasol trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr yn gymhleth ac mae llawer o feysydd gweithredol lle mae ymwahaniadau mewn polisi rhwng Cymru a Lloegr wedi arwain at heriau gan gynnwys cyfathrebu â phobl ar y gwahaniaethau mewn gwasanaethau o fewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Taliadau o Gymru/i Gymru ac o Loegr/i Loegr a'r system dariffau
- Systemau trafndiaeth y GIG (e.e. Ambiwlansys a thrafnidiaeth nad yw'n argyfwng)
- Lleoliadau plant sy'n derbyn gofal
- Gwasanaethau Gofal Llygaid Cymru
- Presgripsiynau am ddim
- Cronfa Triniaethau Newydd
- Meddyginiaethau a Argymhellir
- Ceisiadau Cyllido Cleifion Unigol
- Atgyfeirio pobl am wasanaethau y tu allan i'r ardal
- Gwasanaethau Iechyd Rhywiol (gan gynnwys gofal HIV)
- Sgrinio
- Rheoleiddio ac Arolygu darparwyr gofal iechyd
- Cofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol rheng flaen
- Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol yn Gilyddol
- Codi tâl am Ofal Cymdeithasol a Chymorth
- Deintyddiaeth y GIG
- Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig
- Gofalwyr Di-dâl - yr hawl i gael asesiad o anghenion gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014
- Data'r GIG

- Hawliau o ran y Gymraeg wrth gael gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru
 - Gwasanaeth 111 y Tu Allan i Oriau
 - Iechyd Meddwl
 - Amseroedd Aros ar gyfer Atgyfeiriadau
 - Pobl sy'n cael mynediad at wahanol systemau gofal iechyd neu ofal cymdeithasol, gan gynnwys cofrestru gyda meddyg teulu/atgyfeiriad gan feddyg teulu
 - Gwahaniaethau mewn trothwyon polisi triniaeth
- 3.2 Mae gan y DU nifer o Gytundebau Gofal Iechyd ar waith sy'n darparu ar gyfer gwahanol lefelau o ddarpariaeth gofal iechyd cyfatebol rhwng y DU a'r wlad 3ydd parti. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau gyda'r Undeb Ewropeaidd (drwy'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu) a Thiriogaethau Tramor Prydain. Mae Llywodraeth y DU wrthi'n negodi cytundebau â nifer o wledydd.

Mater: Talu am Driniaeth (2019)

- 3.3 Mewn rhai meysydd mae'r rhain wedi achosi anawsterau gweithredol, er enghraifft, anghydfod ynghylch cyllid yn gynnar yn 2019, sydd bellach wedi'i ddatrys, lle y rhoes y Countess of Chester NHS Foundation Trust (CoCh) y gorau i dderbyn atgyfeiriadau dewisol o Gymru. Roedd y mater i'w briodoli i ddisgwyliad gan CoCh fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi talu am driniaeth i drigolion o Gymru gan ddefnyddio Tariff Cenedlaethol Lloegr, er bod y Tariff wedi'i gyfyngu mewn statud i gael ei weithredu yn Lloegr. Er mai anghydfod rhwng dau o gyrff y GIG oedd hwn, roedd angen ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr i'w ddatrys.

Sefyllfa bresennol Llywodraeth Cymru

- 3.4 Mae **pedwar mecanwaith allweddol**, a ddisgrifir isod yn 3.5 i 3.14, ar waith i ddelio'n benodol â materion iechyd trawsffiniol.

Gwasanaethau Gofal Iechyd Trawsffiniol GIG Lloegr/Cymru: Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion) (SVP)

- 3.5 Cytunwyd ar y SVP (<https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2018/11/cross-border-statement-of-values-and-principles.pdf>) rhwng y GIG yng Nghymru a'r GIG yn Lloegr i sicrhau rhyngweithio llyfn ac effeithlon rhwng cyrff y GIG i gleifion ar hyd ac ar draws y ffin rhwng Cymru a Lloegr, er mwyn cefnogi gwell canlyniadau i gleifion ac atal gofal rhag mynd yn dameidiog.

- 3.6 Un o'i egwyddorion allweddol yw 'both countries will act in the best interest of patients at all times, and there will be no delay in accessing healthcare services whilst commissioning responsibilities are clarified'.
- 3.7 Mae'r SVP hefyd yn darparu proses ddatrys ar gyfer materion, gyda'r bwriad o atal materion rhag gwaethygu i'r pwynt lle'r effeithir ar ofal cleifion. Er hynny, nid yw Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o unrhyw achosion lle mae'r broses wedi'i defnyddio.
- 3.8 Mae'r SVP hefyd yn darparu proses ddatrys ar gyfer materion, gyda'r bwriad o atal materion rhag gwaethygu i'r pwynt lle'r effeithir ar ofal cleifion.
- 3.9 Mae'r SVP wedi bod yn destun adolygiad o dan arweiniad GIG Lloegr sydd ar hyn o bryd yn aros i gael ei gyhoeddi. Cytunwyd ar gwmpas yr adolygiad ymlaen llaw gyda Llywodraeth Cymru ac fe'i cynhaliwyd yn unol â holl aelodau'r Rhwydwaith Trawsffiniol (isod), gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Rhwydwaith Trawsffiniol y GIG

- 3.10 Mae'r Rhwydwaith Trawsffiniol wedi bodoli ers nifer o flynyddoedd fel fforwm i drafod a cheisio/hwyluso datrys materion sy'n benodol i drefniadau gofal iechyd i gleifion sy'n byw ar hyd y ffin rhwng Cymru a Lloegr.
- 3.11 Mae cyfarfodydd y rhwydwaith yn cael eu mynychu gan swyddogion Llywodraeth Cymru, cynrychiolwyr GIG Lloegr a chynrychiolwyr o sefydliadau'r GIG ar y ddwy ochr i ffin Cymru/Lloegr.
- 3.12 Mae'r grŵp yn ystyried materion sy'n berthnasol i ffin uniongyrchol Cymru/Lloegr a materion trawsffiniol ehangach sy'n effeithio ar Gymru a Lloegr. Mae gan y grŵp oruchwyliaeth ar faterion polisi ehangach, yn ogystal â materion gweithredol penodol, i lefel cleifion unigol, yn ôl y gofyn.

Canllawiau'r Cyrff Cyfrifol ar gyfer y GIG yng Nghymru

- 3.13 Mae'r canllawiau'n pennu fframwaith a chyfrifoldebau ynghylch triniaeth a chodi tâl ar gyfer y cyrff sy'n gyfrifol am sicrhau gofal iechyd eilaidd a thrydyddol i unigolion yng Nghymru. Mae'n cynnwys canllawiau ar reolau preswyllo ynghylch darpariaeth gofal iechyd mewn perthynas â ffiniau mewnol y DU a newidiadau mewn cyfrifoldeb pan fydd pobl yn symud preswylfa ar draws y ffiniau hyn (er enghraifft myfyrwyr). Mae dolen i'r canllawiau i'w chael yma:
<https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-04/responsible-body-guidance-for-the-nhs-in-wales.pdf>. Mae canllawiau tebyg, *Who Pays*, ar waith yn Lloegr ac maent i'w cael yma:
<https://www.england.nhs.uk/publication/who-pays-determining-which-nhs-commissioner-is-responsible-for-commissioning-healthcare-services-and-making-payments-to-providers/>

Grŵp Cyngori ar Dariffau GIG Lloegr

- 3.14 Yn dilyn yr anghydfod Trawsffiniol â'r Countess of Chester NHS Foundation Trust, dyrannwyd sedd i Lywodraeth Cymru ar Grŵp Cyngori ar Dariffau GIG Lloegr er mwyn galluogi ymgysylltu mwy gweithredol wrth ddatblygu polisi tariffau yn Lloegr. Yn ogystal, mae swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr GIG Cymru bellach yn cyfarfod yn rheolaidd â chynrychiolwyr DHSC a GIG Lloegr i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyllid trawsffiniol.

Trefniadau Gofal Iechyd Rhyngwladol

- 3.15 Er mai mater a gedwir yn ôl (heb ei datganoli i Gymru) yw "cysylltiadau rhyngwladol" gan gynnwys Cytundebau Rhyngwladol, mae parchu a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol a darparu gofal iechyd yng Nghymru (gan gynnwys, felly, drin cleifion sy'n dod i mewn ac ystyried ceisiadau gan drigolion o Gymru am driniaeth dramor) yn faterion datganoledig.
- 3.16 Mae Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir) 2019 ("HEEASAA") (i'w hailenwi'n Ddeddf Gofal Iechyd (Trefniadau Rhyngwladol) 2019 ("HIAA") yn dilyn cychwyn adran 162 o Ddeddf Iechyd a Gofal 2022) yn gosod rhwymedigaeth statudol ar Ysgrifennydd Gwladol Llywodraeth y DU i ymgynghori â'r Llywodraethau Datganoledig cyn gwneud rheoliadau sy'n ymwneud â chytundebau gofal iechyd cyfatebol o dan y Ddeddf, pan fo'r rheoliadau hynny yn cynnwys darpariaeth o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y deddfwrfeydd datganoledig.
- 3.17 I gefnogi'r gofyniad statudol i ymgynghori â'r Llywodraethau Datganoledig, cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraethau Cymru a'r Alban.
- 3.18 Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn mynd ymhellach na dim ond ymgynghori ar reoliadau i'w gwneud o dan HEEASAA/HIAA i roi cytundebau gofal iechyd cyfatebol ar waith. Mae Llywodraeth y DU wedi cydnabod y rôl y mae'r Llywodraethau Datganoledig a'u cyrff iechyd yn ei chwarae wrth weithredu a pharchu'r cytundebau gofal iechyd ac felly mae'r Memorandwm yn cynnwys rôl y Llywodraethau Datganoledig yn y broses o ddatblygu polisi ar natur a chynnwys y cytundebau gofal iechyd yn ogystal ag ar y rheoliadau i'w gweithredu yn ôl y gyfraith. Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth, felly'n nodi egwyddorion cyffredinol, ac yn disgrifio sut y dylid cynnal y broses ymgynghori, gan gynnwys adrannau ar:
- Mandadu a llunio polisi
 - Negodiadau a Drafftio Cytundebau Rhyngwladol
 - Ymgysylltiad y Gweinidogion
 - Datrys Anghydfodau

- Cyfrinachedd
- Gweithredu Gweithredol – Rheoliadau o dan HIAA

3.19 Mae ymgynghori rheolaidd o dan delerau'r Memorandwm Cydddealltwriaeth rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ynglŷn â'r ddau Reoliad i'w gwneud o dan HEEASAA/HIAA a Chytundebau Rhyngwladol gyda siroedd trydydd parti eisoes yn cael ei gynnal.

Pandemig COVID-19

3.20 Mae pandemig COVID-19 wedi bod yn enghraifft glir lle cafodd penderfyniadau Llywodraeth y DU effaith sylweddol ar y penderfyniadau ar iechyd a gwasanaethau iechyd yng Nghymru, sy'n faes datganoledig. Roedd hyn yn wir am reolaethau ar deithio rhyngwladol. Gan fod Cymru yn rhannu ffin agored gyda Lloegr, ychydig iawn o effaith fyddai gweithredu unochrog yng Nghymru wedi'i chael, felly roedd angen inni weithio a dylanwadu ar lefel y DU. Cafwyd sawl achos lle roeddem o blaid rheolaethau llymach ar deithio rhyngwladol, er enghraifft, i atal yr amrywiolyn Delta rhag cyrraedd y DU. Fodd bynnag, byddai hyn wedi gofyn am weithredu cyson ar lefel y DU. Mewn achosion lle nad oedd modd inni ddod i gytundeb, gwnaethom barhau i gadw cofnod o'n hanghytundebau a nodi'r dystiolaeth iechyd y cyhoedd dros gynnal mwy o reolaethau ar deithio, er bod rhaid inni gydweithredu o'n hanfodd.

Profiad pandemig COVID-19 mewn perthynas ag Offer Diogelu Personol

3.21 Yn ystod pob cam o'r pandemig COVID-19, gofynnwyd i ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru lynu wrth ganllawiau'r DU ar Atal a Rheoli Heintiau COVID-19, gan gynnwys y canllawiau ar Offer Diogelu Personol.

3.22 Roedd y canllawiau'n seiliedig ar adolygiad parhaus o'r sylfaen dystiolaeth ryngwladol ac yn cael eu cyhoeddi fel canllawiau swyddogion ar y cyd gan yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC), Asiantaeth Iechyd Cyhoeddus Gogledd Iwerddon, Gwasanaethau Cenedlaethol GIG yr Alban, Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) a GIG Lloegr.

3.23 Mae Cymru wedi chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a gwerthuso'r canllawiau hyn yn barhaus drwy gael uwch gynrychiolaeth ar grŵp Atal a Rheoli Heintiau y DU ac yn sgil y ffaith bod y Dr Eleri Davies o Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadeirio'r grŵp.

3.24 Mae'r ffaith bod dystiolaeth newydd wedi'i chymhathu mewn pum cant o iteriadau o'r canllawiau dros ddwy flynedd yn fesur o gyflymder ac ymatebolrwydd gwaith grŵp Atal a Rheoli Heintiau y DU. Mae canllawiau

grŵp Atal a Rheoli Heintiau y DU wedi bod yn gyson ag argymhellion gan Sefydliad Iechyd y Byd drwy gydol yr amser a chawsant sêl bendith yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

- 3.25 Mae'r dull hwn sy'n cynnwys pedair gwlad y DU wedi bod yn effeithiol iawn o ran sicrhau ymateb cyson yn y DU i faterion fel galw ymysg staff ac undebau am ddefnydd cyffredin o Offer Diogelu Anadlol gwell.

Profiad pandemig COVID-19 mewn perthynas â Phrofi

- 3.26 Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a gwledydd eraill y DU i gyflwyno'r Rhaglen Brofi Genedlaethol wrth ymateb i Covid-19. Ymrwymodd Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) i gontractau i ehangu'r ddarpariaeth brofi ar ran y pedair gwlad a rhoddwyd Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn ei le gyda Gweinidogion Cymru i sicrhau trefniadau llywodraethu digonol. Datblygwyd y trefniadau llywodraethu hyn dros amser ac fe'u cryfhawyd o dan y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno.
- 3.27 Gweithiodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn agos gyda swyddogion DHSC (UKHSA yn ddiweddarach) i ddarparu profion yng Nghymru drwy safleoedd profi ffisegol, profi mewn cartrefi gofal, profi yn y gweithle a phecynnau profi gartref, gan gynnwys cyfleusterau labordy cysylltiedig. Cafwyd cyfarfodydd gweithredu a pholisi wythnosol gyda Llywodraeth y DU i drafod materion sy'n codi neu wahaniaethau yn y dull gweithredu ar draws y pedair gwlad, a Bwrdd Strategol Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig gyda Phrif Weithredwr UKHSA yn cadeirio. Trafodwyd materion sylweddol hefyd yng nghyfarfodydd wythnosol y Gweinidogion yn ystod anterth y pandemig. Roedd systemau'r DU, gan gynnwys systemau digidol ar gyfer profi, yn gweithio'n dda ar y cyfan ac yn darparu capasiti a gallu ychwanegol. Er hynny roedd heriau, yn enwedig pan oedd gwahaniaethau mewn polisi yng Nghymru o gymharu â Lloegr. O ganlyniad i gyflymder y gwaith, roedd heriau hefyd yn ymwneud â'r ffordd yr oedd Llywodraeth y DU wedi methu glynu wrth ofynion Safonau'r Gymraeg.
- 3.28 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag UKHSA i ddarparu'r gwasanaethau profi sy'n parhau, ac i sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn eu lle ar gyfer unrhyw donnau Covid yn y dyfodol, yn enwedig pe bai amrywiolyn sy'n achosi pryder yn ymddangos. Mae trefniadau llywodraethu hefyd yn cael eu datblygu ymhellach ac mae Bwrdd Llywodraethau Datganoledig / UKHSA wedi'i sefydlu a fydd yn cyfarfod bob chwe wythnos i ystyried materion strategol o bwys sy'n effeithio ar y pedair gwlad.

Profiad pandemig COVID-19 mewn perthynas â Brechiadau

- 3.29 Yn ystod pandemig COVID-19, yn sgil cyflwyno'r rhaglen frechu COVID-19 i bawb, cafwyd cytundeb rhwng pedair gwlad y DU i ddilyn cyngor y Cydbwyllgor Brechu ac Imiwneiddio rhagnodedig.
- 3.30 Er bod trefniadau gweithredu a chyflawni y rhaglen yn aml yn wahanol ar draws y pedair gwlad, roedd cyfarfodydd rheolaidd ar lefel swyddogol ac ar lefel y Gweinidogion yn helpu i feithrin cysylltiadau cydweithredol, gan gynnwys rhannu deallusrwydd a gwersi a ddysgwyd.
- 3.31 Ar faterion trawsffiniol, rhoddwyd trefniadau rhannu data ar waith fel bod modd cofnodi brechiadau a gafwyd mewn gwlad wahanol ar gofnodion meddygon teulu y wlad gartref.

Dyheadau ar gyfer y dyfodol

- 3.32 Mae adolygiad GIG Lloegr o'r Datganiad Trawsffiniol o Werthoedd ac Egwyddorion bellach wedi'i gwblhau ac yn aros i gael ei gyhoeddi. Mae'r adolygiad i wneud argymhellion gyda'r bwriad o gryfhau'r Datganiad o Werthoedd a'r Rhwydwaith Trawsffiniol.
- 3.33 Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynigion ar gyfer newid o ran trefniadau gofal iechyd rhyngwladol, er y bwriedir adolygu'r Memorandwm Cydddealltwriaeth o fewn 24 mis i gytuno arno (erbyn 2024). Y disgwyl yw yr ymgynghorir o hyd â Gweinidogion Cymru o dan delerau'r Memorandwm o ran Rheoliadau a ddatblygwyd o dan HEEASAA/HIAA, ac o ran cytundebau gofal iechyd rhyngwladol yn y dyfodol rhwng Llywodraeth y DU a gwledydd trydydd parti.

Goblygiadau Terfynol

- 3.34 Mae Awdurdodau Iechyd a Llywodraethau ar ddwy ochr y ffin yn cydnabod bod gan wahanol bolisiau'r potensial i achosi problemau wrth ddarparu iechyd a gofal trawsffiniol ac mae mecanweithiau (a nodir uchod) ar waith i geisio atal, lliniaru a datrys materion lle maent yn digwydd. Disgwylir i'r argymhellion yn yr adolygiad o'r Datganiad o Werthoedd ac Egwyddorion, pan gânt eu gweithredu, gryfhau'r mecanweithiau hyn ymhellach.
- 3.35 Mae Gweinidogion Cymru yn gallu dylanwadu ar faterion ynglŷn â Chytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol o dan y Memorandwm Cydddealltwriaeth.

Casgliad

- 3.36 Mae ystod a nifer y llifoedd iechyd a gofal cymdeithasol trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr yn gymhleth ac mae llawer o feysydd gweithredol lle mae ymwahaniadau mewn polisi rhwng Cymru a Lloegr sy'n gallu achosi heriau gan gynnwys dryswch i'r cyhoedd sy'n cael mynediad at wasanaethau. O ganlyniad, mae mecanweithiau i atal, lliniaru a datrys materion wedi'u rhoi ar waith rhwng yr Awdurdodau Iechyd a Llywodraethau ar ddwy ochr y ffin.
- 3.37 Mae Llywodraeth y DU yn ymgynghori â Gweinidogion Cymru ynglŷn â materion sydd wedi'u datganoli ynghylch Cytundebau Gofal Iechyd Rhyngwladol gan Lywodraeth y DU, yn unol â darpariaethau HEEASAA/HIAA. Nodir telerau'r ymgynghoriad hwn wedi'u nodi mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno rhwng Ysgrifennydd Gwladol y DU dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru Mae'r Memorandwm yn mynd ymhellach na'i gwneud yn ofynnol ymgynghori ar faterion datganoledig ac yn darparu ar gyfer ymgynghori rhwng Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig ynghylch cwmpas a chynnwys y Cytundebau Rhyngwladol eu hunain. Mae swyddogion a swyddogion Llywodraeth y DU o'r Llywodraethau Datganoledig yn cyfarfod yn rheolaidd o dan delerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

4. Addysg

Trosolwg

- 4.1 Ymgysylltwn â swyddogion addysg Llywodraeth y DU ar draws ystod o feysydd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Mae'r wybodaeth yn yr adran hon yn darparu rhai enghreifftiau o'r ymgysylltu hwn.

Ymgysylltu - Ffurfiol

Cyngor Gweinidogion Addysg y DU

- 4.2 Ar 27 Ionawr 2022 cadeiriodd Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg Llywodraeth y DU bryd hynny, Nadhim Zahawi AS, gyfarfod cyntaf Cyngor Gweinidogion Addysg y DU. Mae'r Cyngor yn debyg i Grŵp Rhyngweinidogol ar Bolisi a'i fwriad yw darparu trefniadau cydgysylltu canolog a hybu mwy o gydweithio mewn meysydd o ddiddordeb cyffredin rhwng y Gweinidogion Addysg sy'n arwain ar y materion hyn ar ran pedair gweinyddiaeth y DU. Mae portffolios y gweinidogion yn amrywio o ran cwmpas ar draws y pedair gweinyddiaeth. Er hynny, mae'r meysydd o ddiddordeb cyffredin yn cwmpasu ystod lawn y gwasanaethau addysg, o'r Blynyddoedd Cynnar i Addysg i Oedolion. Mae'r rhain yn cynnwys y materion polisi a chyflawni a'r materion technegol a deddfwriaethol pan fo'r gweinyddiaethau wedi penderfynu ymgysylltu ar sail amlochrog.

4.3 Mae'r Cylch Gorchwyl yn nodi y bydd yn gwneud y canlynol:

- i. sicrhau bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i gefnogi trefniadau ymgysylltu gan gynnwys trefniadau cyfnewid gwybodaeth, cydweithredu a chydweithio mewn meysydd y cytunwyd eu bod o ddiddordeb cyffredin;
- ii. rhannu gwybodaeth â fforymau rhynglywodraethol ehangach yn ôl y galw, a chyda rhanddeiliaid allanol os cytunir ar wneud hynny;
- iii. gosod, cyfarwyddo a goruchwyllo'r gwaith o gyflawni unrhyw weithgareddau ar y cyd y cytunwyd arnynt; a
- iv. ymgynnull i ddarparu trefniadau datrys anghydfodau cyn i unrhyw anghydfod waethygu.

4.4. Cyfarfu'r Grŵp am yr ail waith wyneb yn wyneb ar 17 Mehefin yng Nghaeredin. Y bwriad yw i'r Grŵp gyfarfod bob chwarter. Mae grŵp swyddogion y pedair gwald hefyd sy'n cyfarfod ar wahân.

Cyllid Myfyrwyr

- 4.5 Mae Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU yn gyd-gyfranddalwyr o'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr. Rydym yn ymgysylltu â nhw o ran llywodraethu'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr, gan eistedd ar y Prif Fwrdd, ynghyd ag amryw o grwpiau eraill.
- 4.6 O ran ymgysylltu ehangach, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â swyddogion yn Adran Addysg Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig eraill, i weithio gyda'n gilydd i ddatblygu polisi (ee newidiadau yn ymwneud ag Wcráin, COVID ac ad-daliadau).
- 4.7 Mae polisi ad-dalu cyllid myfyrwyr yn seiliedig ar reoliadau ar y cyd ar gyfer Cymru a Lloegr ond mae hyn wedi peri problemau yn ystod y misoedd diwethaf. Cafwyd sawl digwyddiad lle gwnaed cynlluniau ad-dalu ar gyfer Lloegr heb ymgysylltu ymlaen llaw â Llywodraeth Cymru ac, yn realistig, heb drywydd amgen ar gael i Lywodraeth Cymru heb iddi fynd i gostau anghymesur o ran systemau'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr a systemau CThEM. Mae hyn wedi bod yn wir am y trothwyon ad-dalu ar gyfer Cynllun 2 yn 2022-23 a 2023-24, ac ar gyfer y trothwy ar gyfer Cynllun 3 yn 2023-24.
- 4.8 Mae i hyn oblygiadau ehangach, wrth i Lywodraeth y DU gyflwyno'i hymateb i adolygiad Augar o gyllid myfyrwyr yn gynharach eleni. Mae'r diwygiad arfaethedig i ad-daliadau (Cynllun 5) yn seiliedig ar gyd-destun Lloegr ac yn mynd i'r afael â phryderon gan Drysorlys Ei Mawrhydi bod y tâl Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau (RAB) yn Lloegr yn rhy uchel (mae'r tâl

hwn yn ymwneud â lefel y benthyciad nad ad-delir ac a gaiff ei ddileu yn y pen draw gan y Llywodraeth). Yng Nghymru mae'r tâl RAB yn is, felly nid oes yr un cyfiawnhad dros wneud y newidiadau hyn i'r ad-daliadau, newidiadau sy'n cymryd cam yn ôl. Pe byddai Cymru yn cyflwyno system ad-dalu amgen, byddai'n cymryd sawl blwyddyn i weithredu'r system, gyda chostau sylweddol ymlaen llaw ac yn rheolaidd wedi hynny. Mae gwaith polisi ar hyn wedi'i atal dros dro oherwydd ein bod ni hefyd yn ddibynnol ar Drysorlys Ei Mawrhydi i nodi tâl RAB targed ar gyfer Cymru. Heb hyn ni allwn asesu'r opsiynau yn iawn ar gyfer polisi ad-dalu yn y dyfodol.

- 4.9 Fodd bynnag, mae ymgysylltu ac arferion gweithio wedi gwella dros amser. Mae'r grwpiau llywodraethu ffurfiol yn darparu'r sylfaen ar gyfer cynnal y berthynas ag Adran Addysg Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, mae meithrin cydberthynas â phob cymheiriad allweddol wedi bod yn hollbwysig yn hyn o beth, fel y gallwn gael trafodaethau agored ac adeiladol i sicrhau bod pob rhan yn ymgysylltu ac yn gallu ymateb pan fo angen.
- 4.10 Mae'r heriau yn y maes hwn yn ymwneud â hyd a lled datblygiad polisi ar draws Adran Addysg y DU. Mae timau ar wahân ar gyfer nawdd, datblygu polisi, modelu cyllid myfyrwyr, ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ac ati y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr, gyda Dirprwy Gyfarwyddwr yn aml yn arwain ymhob un o'r meysydd. Mae trefniadau ymgysylltu â chyfranddalwyr ffurfiol y Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr yn dibynnu ar a yw tîm nawdd Adran Addysg Llywodraeth y DU yn ymwybodol ac yn ymgysylltu mewn perthynas â phob datblygiad polisi cysylltiedig, sy'n digwydd weithiau ar yr un pryd. Mae hyn wedi arwain at roi gwybod am newidiadau polisi i swyddogion Llywodraeth Cymru ar fyr rybudd, heb unrhyw amser i ystyried dewisiadau eraill.
- 4.11 Mewn meysydd fel cyllid myfyrwyr, gyda threfniadau ariannu penodol a systemau gweinyddu sydd wedi'u cysylltu'n agos â nhw, mae cyhoeddiadau polisi yn Lloegr yn debygol iawn o gael effaith ar lefydd eraill yn y DU. Byddai felly yn ddefnyddiol rhoi gwybod i'r llywodraethau datganoledig am ddatblygiadau polisi yn Lloegr yn y meysydd hyn. Os, am ba bynnag reswm, nad yw hynny'n bosibl, yna dylid sicrhau cyfnodau gras digonol yn rhan o'r trefniadau cyllidebol er mwyn cael digon o amser i ddatblygu polisi yn drefnus.

Ymgysylltu - Anffurfiol

Arian cyfatebol i ddysgwyr trawsffiniol

- 4.12 Ceir llif o ddysgwyr yn croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Pan fo dysgwr yn croesi'r ffin yng Nghas-gwent i ymgymryd â dysgu ôl-16 mewn coleg neu chweched dosbarth yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU yn darparu cyllid i'r sefydliad cyflenwi. Yn yr un modd, pan fo dysgwr sy'n byw yn Lloegr yn croesi'r ffin i goleg yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r dysgwr hwn. Rydym yn fodlon ar y trefniant presennol.

- 4.13 Mae'r trefniant hwn hefyd yn gweithredu ar gyfer darpariaeth arbenigol a allai fod yn fwy na dim ond teithio dros y ffin. Enghraifft o hyn yn ddiweddar yw dysgwyr o Gymru yn ymgymryd â chyrsgiau trwydded joci. Gan nad oes darpariaeth yng Nghymru, gall dysgwyr deithio i Loegr i ymgymryd â chyrsgiau a bydd y costau'n cael eu talu o dan drefniadau cyllido Llywodraeth y DU.
- 4.14 Ar gyfer nifer bach o ddysgwyr ag anghenion ychwanegol penodol lle mae angen ymyriadau sy'n costio llawer, rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod cyfraniad teg yn cael ei wneud.
- 4.15 Er enghraifft, byddai anghenion dysgu ychwanegol nifer bach iawn o ddysgwyr o Gymru sy'n byw wrth y ffin yn cael eu cefnogi'n well drwy ddarpariaeth arbenigol yn Lloegr. Gall rhai o'r costau sy'n gysylltiedig â'r dysgwyr hyn fod yn uchel. Eleni, er enghraifft, mae cost un dysgwr yn £28k. Yn yr amgylchiadau hyn, mae Lloegr yn cytuno i dalu'r £6k cyntaf ac mae'r coleg cysylltiedig wedyn angen ceisio cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru. Yn 2022/23 hyd yma byddwn yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer tua 120k o gyllid ychwanegol. Fodd bynnag, mae'n werth nodi y bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn gosod y cyfrifoldeb hwn ar yr awdurdod lleol yn fuan, a bryd hynny bydd Llywodraeth Cymru yn dod â'r broses cyllid ychwanegol i ben.

Cymwysterau

- 4.16 Yn sgil y pandemig roedd angen cydweithio'n agosach a rhannu gwybodaeth ar draws y pedair gwlad ym mhob maes addysg. Datblygodd y sefyllfa hon o sefyllfa lle, yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, roedd llawer o benderfyniadau gan Lywodraeth y DU yn cael eu gwneud neu eu rhannu heb lawer o amser i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn briodol wrth wneud penderfyniadau (enghraifft o hyn fyddai'r addasiadau i gymwysterau 2020).
- 4.17 Mae'r sefyllfa wedi gwella ers hynny, lle mae pob gwlad bellach yn cydnabod y rhyngddibyniaethau. Rydym wedi cael trafodaethau polisi eithaf manwl (ee cwmpas y broses apelio yn haf 2021 a'r gwahaniaethau ar draws y DU) ac mae gwahanol ddulliau wedi'u cydnabod a'u parchu. Cafwyd achosion cadarnhaol o rannu gwybodaeth yn gynnar (yn aml yn gyfrinachol) i helpu i baratoi gwahanol lywodraethau at gyhoeddiadau a oedd ar y gweill. Mae ein rheoleiddwyr hefyd yn gweithio gyda'i gilydd, gan arwain at gydweithio ar bolisi cyfatebol, sy'n ddefnyddiol.
- 4.18 Mae swyddogion Cymwysterau Galwedigaethol Cymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cyfarfod bob mis. Mae llawer yn mynychu'r cyfarfodydd ac maent wedi gwella amlygrwydd a dylanwad y gwledydd datganoledig. Fodd bynnag, mae llawer o'r cynnig cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn ddibynnol ar y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU. Mae'r gostyngiad arfaethedig yn nifer y dyfarniadau galwedigaethol sydd ar gael yn Lloegr i gefnogi'r gwaith o gyflwyno Lefelau T yn debygol o effeithio ar Gymru. Bydd effeithiolrwydd costau a hyfywedd

masnachol rhai dyfarniadau penodol yn llai os ydynt ond ar gael mewn un neu ragor o wledydd llai y Deyrnas Unedig.

Prentisiaethau a Datblygu'r Fframwaith Prentisiaethau

- 4.19 Mae grŵp anffurfiol rhwng y pedair gwlad yn cwrdd bob deufis i rannu syniadau polisi. Yn fwyaf diweddar, rhannodd y grŵp fewnwelediadau i wahanol ddulliau o fynd i'r afael ag effaith Covid-19 a helpodd i lywio ein ffordd o feddwl ynghylch addasu ein rhaglen yng Nghymru.
- 4.20 Drwy beidio â rhoi mynediad i Lywodraeth Cymru at gyllid sy'n disodli cyllid yr Undeb Ewropeaidd (UE) drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, neu drwy beidio â rhoi rôl gwneud penderfyniadau iddi yn y gwaith o ddyrannu cyllid, mae Llywodraeth y DU wedi creu bylchau ariannu sylweddol ar gyfer rhaglenni yng Nghymru, gan gynnwys prentisiaethau, a oedd yn arfer cael eu hariannu'n rhannol gan yr UE.
- 4.21 Bydd lefelau cyllid ar gyfer prentisiaethau yn cael eu cynnal drwy gyllid craidd Llywodraeth Cymru pan fydd cyllid yr UE yn dod i ben. Mae'r blaenoriaethu hwn yn effeithio ar fathau eraill o weithgareddau neu fuddsoddiadau a fyddai wedi bod yn bosibl pe byddai Llywodraeth y DU wedi gwneud cyllid ar gael i Lywodraeth Cymru i ddisodli cyllid yr UE.
- 4.22 Mae cyfeirio cyllid i ddisodli cyllid yr UE dim ond drwy awdurdodau lleol ar gyfer prosiectau lleol a rhanbarthol yn amharu'n ofnadwy ar y ddarpariaeth ddatganoledig o sgiliau a chymorth busnes sydd wedi dod yn rhan o'r dirwedd gyllido yng Nghymru dros flynyddoedd lawer. Mae risgiau dyblygu, chwalu darpariaeth a gwerth gwael am arian sylweddol hefyd yn perthyn i'r dull hwn.

Heriau

Ffyniant Bro – Academi Genedlaethol y DU

- 4.23 Mae'r pandemig wedi gwella gwaith partneriaeth ar draws nifer o feysydd. Er hynny mae pryderon ynghylch sut y gallai'r agenda Ffyniant Bro danseilio natur ddatganoledig addysg.
- 4.24 Ym mis Chwefror/Mawrth 2022 cawsom wybod gan Adran Addysg Llywodraeth y DU ei bod ar fin cyhoeddi academi genedlaethol/corff cwricwlwm newydd Lloegr ac, yn benodol, yr hyn a nodwyd yn y papur gwyn Ffyniant Bro:

*Hefyd, byddwn yn creu **Academi Genedlaethol y DU**. Yn union fel y gwnaeth y DU arloesi gyda'r Brifysgol Agored, bydd y gwasanaeth addysg ddigidol newydd hwn yn cefnogi disgyblion o bob cefndir ac o bob ardal o'r DU i lwyddo ar y lefelau uchaf un. Bydd Academi Genedlaethol y DU ar gael am ddim ac ar-lein i gefnogi gwaith ysgolion ar hyd a lled y wlad. Bydd*

yn caniatáu i fyfyrwyr gaffael gwybodaeth a sgiliau uwch ychwanegol, gan gynnig hyd yn oed mwy o gyfleoedd i bob plentyn ffynnu.

- 4.25 Yn benodol, roedd hyn yn cynnwys datblygu adnoddau wedi'u llunio i 'ymestyn' disgyblion y tu hwnt i'r cwricwlwm ffurfiol. Fe wnaeth swyddogion o Lywodraeth Cymru (a Llywodraeth yr Alban) dynnu sylw at bryderon cryf ynghylch labelu unrhyw agwedd ar academi genedlaethol/corff cwricwlwm newydd Lloegr yn agweddau sy'n berthnasol i'r DU o ystyried natur gwbl ddatganoledig addysg. Roedd y swyddogion yn glir na ddylai fod unrhyw ragdybiaeth y byddai unrhyw adnoddau sy'n cael eu creu gan gorff cwricwlwm newydd Lloegr yn estyn i Gymru. Fodd bynnag, rydym wedi derbyn gohebiaeth bellach gan Adran Addysg Llywodraeth y DU yn ailadrodd ei nod i ddarparu cynnig i ddisgyblion ledled y DU a bod eu polisi o ran adnoddau o'r fath yn ei gyfnod cynnar.
- 4.26 Rydym hefyd yn deall bod Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi cael cyllid Ffyniant Bro at y diben hwn ond ni chafwyd llif canlyniadol o ystyried bod maes addysg wedi'i ddatganoli.

Ffyniant Bro - MultiPLY

- 4.27 Llywodraeth Cymru fydd yn penderfynu sut y caiff gweithgareddau addysg eu darparu. Mae datblygiad parhaus y rhaglen MultiPLY yn diystyru hynny. Mae datblygiad y rhaglen yn mynd yn groes i'r setliad datganoledig ac yn ei danseilio.
- 4.28 Ar ddechrau mis Mawrth, rhoddwyd cyfnod byr i'r Llywodraethau Datganoledig gadarnhau a fyddem yn mabwysiadu'r ddewislen o opsiynau yr oedd Llywodraeth y DU wedi'i datblygu, ynteu a fyddem yn darparu dewislen o opsiynau yn benodol i'n gwledydd ni. Mae'r lefel a natur y math hwn o ymgysylltu yn annerbyniol. Nid yw wedi helpu i sicrhau bod MultiPLY yn parchu datganoli ac, yn hollbwysig, yn fuddiol i'r dysgwyr sy'n oedolion yng Nghymru sydd fwyaf angen ymyriadau dysgu.
- 4.29 Mae MultiPLY wedi 'brigdorri' cyllid SPF, nid yw ei feini prawf cyfyngol yn cyd-fynd ag anghenion Cymru, sy'n ei gwneud yn anodd gwario dyraniad MultiPLY o fewn cyfnod cyfyngedig SPF.

Erasmus+ a'r Cynllun Turing

- 4.30 Dywedodd Llywodraeth y DU na fyddai'r Deyrnas Unedig yn cymryd rhan yn y rhaglen Erasmus+ yn y dyfodol. Roedd y penderfyniad hwn yn mynd yn erbyn dymuniadau a fynegwyd yn glir gan Lywodraeth Cymru gan effeithio'n uniongyrchol ar faes cwbl ddatganoledig.
- 4.31 Mae Llywodraeth y DU wedi dewis yn lle hynny lansio 'Cynllun Turing' ar hyd a lled y DU gan ddefnyddio pwerau Deddf Marchnad Fewnol y DU i osgoi datganoli. Heb fod angen cydsyniad y gwledydd datganoledig,

gadawodd Llywodraeth y DU Erasmus+ am ddewis amgen am bris gostyngedig nad yw'n llwyddo i ddisodli'r cwmpas na'r lefelau cyllido. Y canlyniad yw rhaglen wannach nad yw'n cynnwys elfennau allweddol Erasmus+, gan gynnwys symudedd o'r tu allan, staff a lleoliadau ieuencid.

- 4.32 Ar yr wyneb, mae Adran Addysg Llywodraeth y DU wedi bod yn ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, ond mae penderfyniadau ar bolisi a darpariaeth y Cynllun Turing wedi cael eu gwneud ac yn parhau i gael eu gwneud gan weinidogion Llywodraeth y DU heb roi ystyriaeth i ddatganoli a heb gydsyniad y gwledydd datganoledig.

5. Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf

- 5.1. Mae dwy Fargen Ddinesig weithredol yng Nghymru (Caerdydd ac Abertawe) a Bargeinion Twf yng ngogledd a chanolbarth Cymru.
- 5.2. Yn y pen draw, arweinir y bargeinion gan uchelgais ein Partneriaid Cyflawni Rhanbarthol (awdurdodau lleol) sy'n nodi eu blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth i sbarduno twf economaidd cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gyd-lofnodwyr yn y Bargeinion, ond yr egwyddor allweddol yw mai'r Partneriaid Cyflawni Rhanbarthol sy'n gyfrifol am weledigaeth, amcanion, trefniadau llywodraethu a sicrwydd rhanbarthol, datblygu Portffolios Rhaglenni a Phrosiectau ac, yn bwysig, cyflawni allbynnau, canlyniadau a buddion i bob Bargaen Ddinesig a phob Bargaen Twf.
- 5.3. Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn gyd-gadeiryddion Bwrdd Gweithredu Dinasoedd a Thwf Cymru. Mae Grŵp Swyddogion Cydlynw cyd-lywodraethol wedi'i sefydlu er mwyn rhoi cymorth i'r Bwrdd. Mae'r Grŵp yn cyfarfod cyn y prif Fwrdd. Wrth gydnabod bod Bargeinion Dinesig a Bargeinion Twf yn cael eu datblygu a'u darparu yn y pen draw gan bartneriaid rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cael eu hystyried yn Gyrrff Noddwyr ar y cyd.

Bargaen Ddinesig Caerdydd

- 5.4 Mae Bargaen Ddinesig Caerdydd yn fuddsoddiad o £1.229 biliwn dros 20 mlynedd sy'n cynnwys £734 miliwn a glustnodwyd i gyflenwi Metro Ddeddwyrain Cymru, dan reolaeth Llywodraeth Cymru, a chronfa fuddsoddi o £495 miliwn a ddosbarthwyd gan Gyd-gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd trwy swyddfa'r rhaglen Bargaen Ddinesig Caerdydd.

- 5.5 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd i archwilio cyfleoedd cyd-fuddsoddi ar draws y rhanbarth.
- 5.6 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthynas waith agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau dull cydlynol a chyson o fonitro cynnydd y fargen. Mae hyn yn cynnwys:
- Cyfarfodydd ar y cyd rhwng Gweinidogion ac Arweinwyr Prifddinas-Ranbarth Caerdydd bob 6 mis;
 - Arsylwi Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac adolygu papurau;
 - Cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol ar y cyd;
 - Cyfarfodydd prosiect misol i drafod trywydd y Fargen.

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

- 5.7 Dros y tymor 15 mlynedd, mae Bargen Ddinesig Rhanbarth Bae Abertawe wedi addo cydweithio i gyflawni tri nod buddsoddi strategol canlynol Bargen Ddinesig Bae Abertawe i gyfrannu'n sylweddol at Strategaeth Adfywio Economaidd Dinas-Ranbarth Bae Abertawe 2013-2030:
- i. Creu dros 9,000 o swyddi sy'n gofyn am weithwyr medrus ac sy'n cyd-fynd â chyflymiad economaidd, ynni, gwyddorau bywyd a gweithgynhyrchu clyfar ar draws y rhanbarth o fewn 15 mlynedd (2017-33).
 - ii. Cynyddu gwrth ychwanegol gros (GVA) Dinas-Ranbarth Bae Abertawe o £1.8-2.4 biliwn drwy Dinas-Ranbarth Bae Abertawe erbyn 2033 a chyfrannu at yr ardal gan gyflawni 90% o lefelau cynhyrchiant y DU erbyn 2033.
 - iii. Darparu cyfanswm o oddeutu £1.15-1.3 biliwn o fuddsoddiad yn economi ranbarthol de-orllewin Cymru erbyn 2033.
- 5.8. Bydd y tri amcan buddsoddi yn cael eu cyflawni gyda buddsoddiad disgwylidiedig o £1.15 – 1.3 biliwn, sy'n sefyll ar hyn o bryd fel hyn: Bargen Ddinesig £241 miliwn; Sector Cyhoeddus £330 miliwn; Sector Preifat £592 miliwn.
- 5.9. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthynas waith agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau dull cydlynol a chyson o gefnogi Bargen Ddinesig Bae Abertawe.
- Mae swyddogion o'r ddwy lywodraeth yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid rhanbarthol i arsylwi ar y gwaith o ddatblygu a chyflawni'r Fargen yn y rhanbarth.
 - Arsylwi yng nghyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen.
 - Ar lefel rynglywodraethol mae Cyd-Fwrdd wedi ei sefydlu y mae'r ddwy Lywodraeth yn cael eu cynrychioli arno.

5.10 Mae pob un o'r naw prosiect bellach wedi'u cymeradwyo.

Bargen Twf y Gogledd

5.11 Mae Bargen Twf Gogledd Cymru, a lofnodwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn cynnig cyfle am bron i £1 biliwn o fuddsoddiad dros 15 mlynedd, gan gynnwys £120 miliwn yr un gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

5.12 Mae Bargen Twf Gogledd Cymru yn eiddo i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac yn cael ei darparu ganddo, sy'n cynnwys chwe Awdurdod Lleol a phartneriaid academiaidd yn y Gogledd. Llofnodwyd Cytundeb Terfynol y Fargen gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Bwrdd Uchelgais ym mis Rhagfyr 2020 a thalwyd y rhan gyntaf o arian y Llywodraeth, sef £16 miliwn, i'r Bwrdd Uchelgais ym mis Mawrth 2021, a gwnaed dyfarniad cyllid arall ym mis Mawrth 2022 am £20.445 miliwn, yn cynnwys £8 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £12.445 miliwn gan Lywodraeth y DU. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn atebol i'r ddwy lywodraeth ar gyfer cyflawni'r Fargen.

5.13 Mae Gweinidogion a swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i hyrwyddo Bargen Twf Gogledd Cymru.

Bargen Twf y Canolbarth

5.14 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo £55 miliwn tuag at y Fargen Twf yng Nghanolbarth Cymru, ac mae £55 miliwn o gyllid hefyd yn cael ei ymrwymo gan Lywodraeth y DU, o dan Gytundeb terfynol y Fargen a lofnodwyd yn gynharach eleni.

5.15 Llofnodwyd y Cytundeb gan y tri parti ar 13 Ionawr 2022, gan nodi fframwaith Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer sut bydd y Fargen yn cael ei chyflawni gan gynnwys y trefniadau sylfaen hanfodol megis llywodraethu a sicrwydd, monitro a gwerthuso a chyfathrebu.

5.16 Arweinir y Bargeinion yn y pen draw gan uchelgais ein Partneriaid Cyflawni Rhanbarthol (awdurdodau lleol) sy'n nodi eu blaenoriaethau ar gyfer ymyrraeth i sbarduno twf economaidd cynaliadwy. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gyd-lofnodwyr yn y Bargeinion, ond yr egwyddor allweddol yw mai'r Partneriaid Cyflawni Rhanbarthol sy'n gyfrifol am weledigaeth, amcanion, trefniadau llywodraethu a sicrwydd rhanbarthol, datblygu Portffolios Rhaglenni a Phrosiectau ac, yn bwysig, cyflawni allbynnau, canlyniadau a buddion i bob Bargen Ddinesig a phob Bargen Twf.

5.17 Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi datblygu perthynas waith agos gyda swyddogion Llywodraeth y DU i sicrhau dull cydlynol a chyson o gefnogi Bargen Twf Canolbarth Cymru.

- Mae swyddogion o'r ddwy lywodraeth yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd gyda phartneriaid rhanbarthol i arsylwi ar ddatblygiad y Fargen yn y rhanbarth.
- Ar lefel rynglywodraethol mae Cyd-Fwrdd wedi ei sefydlu y mae'r ddwy lywodraeth yn cael eu cynrychioli arno.

Llywodraeth Cymru

**Tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol
Cymru – Cofnod o ddatganoli fel system lywodraethu unigryw yng
Nghymru**

Dyddiad: Medi 2022

Cynnwys

1	Trosolwg	3
2	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	3
3	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - Dangosyddion Cenedlaethol, Cerrig Milltir Cenedlaethol a Thueddiadau'r Dyfodol	6
4	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Archwilydd Cyffredinol Cymru	7
5	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru	7
6	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Disgwyliadau ar gyfer y dyfodol 10	
7	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 – Rhagor o Wybodaeth . 11	
8	Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus	11
9	Rôl Comisiynwyr yng Nghymru	15
10	Rôl Partneriaethau	19
11	Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru	21
12	Cynllun y Sector Gwirfoddol (Cynllun y Trydydd Sector)	25

1 Trosolwg

- 1.1 Mae'r papur hwn yn disgrifio datganoli fel system lywodraethu unigryw yng Nghymru. Wrth wneud hynny, mae'r papur yn ystyried model Cymru o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus, a rôl Comisiynwyr, partneriaethau (cenedlaethol, rhanbarthol a lleol), undebau llafur, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- 1.2 Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn rhoi sail unigryw i'r broses o lywodraethu Cymru. O dan y croesbennawd *dull gweithredu "Cynhwysol" ar gyfer arfer swyddogaethau* yn Rhan 2 o'r Ddeddf honno, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru fwrw ymlaen ag amrywiol gamau ac ystyriaethau – gan gynnwys dyletswyddau i gynnal (ymysg pethau eraill) Cyngor Partneriaeth Cymru; i lunio Cynllun Llywodraeth Leol i gynnal a hyrwyddo llywodraethau lleol; i hyrwyddo buddiannau mudiadau gwirfoddol drwy Gynllun Sector Gwirfoddol; ac i wneud Cynllun Busnes i ystyried buddiannau Busnes. Mae'r elfennau hyn yn rhan annatod o'r setliad datganoli ei hun.
- 1.3 Mae dull Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn wahanol iawn i ddull Lloegr, lle mae gwasanaethau fel iechyd ac addysg wedi dod yn fwyfwy agored i newid yn economi'r farchnad gyda defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu trin fel cwsmeriaid. Mewn gwlad o faint Cymru, mae'n anymarferol ac yn annymunol ceisio creu pellter o'r fath rhwng cyfrifoldeb gwleidyddol a'r broses o ddarparu gwasanaethau. Mae'r model llywodraethu a fabwysiadwyd yng Nghymru, sy'n cynnwys cydnabod y gofynion statudol a nodir uchod ochr yn ochr â gofynion eraill sy'n ymwneud â chynaliadwyedd, cyfle cyfartal a'r iaith Gymraeg, yn adlewyrchu amgylchiadau Cymru ac yn dylanwadu ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. O ganlyniad, rydym wedi datblygu dull cydweithredol unigryw sy'n canolbwyntio ar y dinesydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn credu mai'r prif sbardun ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yw gweithio ar y cyd â phartneriaid: y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol/trydydd sector a, lle bo'n briodol, y sector gwirfoddol, a blaenoriaethu'r cyhoedd yng Nghymru. Mae Gweinidogion Cymru a etholwyd yn ddemocrataidd yn cynrychioli pobl Cymru ar lefel genedlaethol mewn penderfyniadau mawr ac maent yn cael eu dal yn atebol am eu gweithredoedd.

2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- 2.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth arloesol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn tarddu o'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy a sefydlwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 1998 (a 2006). Mae'n fecanwaith i gyflawni polisi a dyheadau datblygu cynaliadwy. Nod y Ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac mae'n mynnu bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn meddwl mwy am y tymor hir, yn gweithio'n well gyda phobl, cymunedau a gyda'i gilydd, yn ceisio atal problemau ac yn mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Yn ogystal ag adlewyrchu'r gofynion ar gyfer cynhwysiant a chynaliadwyedd a osodir gan Ddeddf Llywodraeth Cymru,

mae

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hefyd yn adlewyrchu dull cydweithredol unigryw Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar y dinesydd o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. O'r herwydd, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu i bobl Cymru. Dim ond drwy ddatganoli y gwnaed y darn sylfaenol hwn o ddeddf yn bosibl.

- 2.2 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi pwrrpas a rennir sydd wedi'i rwymo mewn cyfraith – y saith nod llesiant ar gyfer llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill ledled Cymru (cyfanswm o 48 ar hyn o bryd).
- 2.3 Mae'n manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i'r cyrff hyn weithio, a chydweithio er mwyn gwella llesiant Cymru. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi dyletswydd ar gyrf cyhoeddus penodedig i weithredu ar y cyd drwy fyrdau gwasanaethau cyhoeddus i wella eu hardal a chyfrannu at y saith nod llesiant.
- 2.4 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i llunio i osod datblygu cynaliadwy yn brif egwyddor drefniadol Llywodraeth a chyrff cyhoeddus yng Nghymru.
- 2.5 Dyma'r 44 Corff Cyhoeddus yng Nghymru a gwmpesir gan y Ddeddf: Gweinidogion Cymru, 22 Awdurdod Lleol, saith Bwrdd Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, Ymddiriedolaeth GIG Felindre, tri Awdurdod Parc Cenedlaethol, tri Awdurdod Tân ac Achub, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Chwaraeon Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Cymru. Yn ogystal, mae pedair Cyd-bwyllgor Corfforedig yn dod o dan y Ddeddf.
- 2.6 Dyma brif nodweddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:
 - a. **Nodau llesiant i Gymru** – Cymru lewyrchus, gwydn, iachach, mwy cyfartal sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu (manyllion isod).
 - b. **Dyletswydd llesiant** – Dyletswydd llesiant ar 44 o gyrf cyhoeddus ledled Cymru i sicrhau datblygiad cynaliadwy. Rhaid i hyn gynnwys gosod amcanion llesiant sydd wedi'u llunio i wneud y mwyaf o'u cyfraniad at y nodau llesiant, a gweithredu i'w cyflawni.
 - c. **Diffinio datblygu cynaliadwy** – Mae datblygu cynaliadwy yn golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r nod o gyflawni'r nodau llesiant.
 - d. **Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy** – Mae'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y'i diffinnir yn y Ddeddf yn golygu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus *weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb*

beryllu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Ac er mwyn gweithredu yn y modd hwnnw rhaid i gorff cyhoeddus ystyried pum ffordd o weithio, sef:

- i. **Tymor Hir** - pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir.
 - ii. **Integreiddio** - yr angen i ddilyn dull integredig.
 - iii. **Cynnwys** - cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth y boblogaeth.
 - iv. **Cydweithredu** - gweithio ar y cyd.
 - v. **Atal** - Meddwl am weithredu er mwyn atal problemau rhag codi neu waethygu.
- 2.7 **Dangosyddion a Cherrig Milltir Cenedlaethol** – 50 o ddangosyddion cenedlaethol yn mesur cynnydd Cymru o dan y saith nod llesiant ac *Adroddiad Llesiant Cymru* sy'n cael eu cyhoeddi bob blwyddyn gan y Prif Ystadegydd.
- 2.8 **Archwilydd Cyffredinol** – dyletswydd ar yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal archwiliadau o'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf, ac adrodd i Senedd Cymru bob 5 mlynedd.
- 2.9 **Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** - Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol statudol i Gymru (y Comisiynydd), a'i rôl yw gwarchod budd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio at gyflawni'r nodau llesiant. Mae gan y Comisiynydd bwerau i gynnal adolygiad a gwneud argymhellion i gyrff cyhoeddus.
- 2.10 **Gweithio mewn partneriaeth leol (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus)** - Mae'r Ddeddf hefyd yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Rhaid i bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol ei ardal drwy weithio at y nodau llesiant. Byddant yn asesu llesiant yr ardal cyn cyhoeddi cynllun llesiant lleol ar y cyd.
- 2.11 **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** – Rhaid i Weinidogion Cymru Iunio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol o fewn blwyddyn i etholiad Senedd Cymru. Bydd hyn yn edrych ar dueddiadau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol tebygol Cymru yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf yn 2016 ac yn fwyaf diweddar ym mis Rhagfyr 2021.
- 2.12 **Nodau llesiant cenedlaethol** – Dyma'r saith nod llesiant a'u disgrifyddion (canlyniadau) sydd wedi'u cynnwys yn y ddeddfwriaeth yn dilyn sgwrs genedlaethol beilot dan faner 'Y Gymru a Garem' (2014/15). Dyma'r nodau llesiant hyn:
- a. **Cymru lewyrchus:** Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, garbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd

cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhrychir drwy gael gafael ar waith addas.

- b. **Cymru gydnerth:** Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol

ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft, newid yn yr hinsawdd).

- c. **Cymru iachach:** Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle mae modd deall dewisiadau ac ymddygiad sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.
- d. **Cymru sy'n fwy cyfartal:** Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau economaidd-gymdeithasol).
- e. **Cymru o gymunedau cydlynus:** Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.
- f. **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau hamdden.
- g. **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud rhywbeth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) - Dangosyddion Cenedlaethol, Cerrig Milltir Cenedlaethol a Thueddiadau'r Dyfodol

- 3.1 Mae'r dangosyddion cenedlaethol, y cerrig milltir cenedlaethol, a'r dyletswyddau tueddiadau'r dyfodol yn rhan bwysig o ddeall Cymru a darparu tystiolaeth a gwybodaeth a all helpu i wneud penderfyniadau yn y tymor hir.
- 3.2 Ar 14 Rhagfyr 2021, o dan raglen Llundain Dyfodol Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru don gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol Cymru, cyfres wedi'i diweddarau o ddangosyddion cenedlaethol i adlewyrchu effaith pandemig COVID-19, ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru 2021.

Dangosyddion Cenedlaethol

- 3.3 Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod dangosyddion cenedlaethol i asesu'r cynnydd at gyflawni'r nodau llesiant. Ar ôl ymgynghori, cafodd 50 o ddangosyddion cenedlaethol eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Senedd Cymru erbyn hyn) ym mis Mawrth 2016. Mae'r dangosyddion yn gyfres integredig o fesurau i helpu i ddeall y cynnydd y mae Cymru gyfan yn ei wneud at gyflawni'r saith nod llesiant yn y Ddeddf. Maent yn gyfuniad o fesurau meintiol ac ansoddol sy'n adlewyrchu economi, cymdeithas, amgylchedd a diwylliant Cymru. Nid ydynt wedi'u cynllunio i fesur perfformiad sefydliadau unigol.

Adroddiad 'Llesiant Cymru'

- 3.4 Bob blwyddyn, cyhoeddir adroddiad 'Llesiant Cymru' sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud yng Nghymru at gyflawni'r saith nod llesiant gan ddefnyddio'r 50 o ddangosyddion cenedlaethol, a data cyd-destunol arall. Cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ym mis Medi 2021. Mae'r adroddiad wedi ei

gynhyrchu gan ystadegwyr Llywodraeth Cymru dan arweiniad Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru. Mae wedi'i gynhyrchu yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau ac felly mae wedi'i gynhyrchu'n annibynnol ar ddylanwad gwleidyddol.

Cerrig Milltir Cenedlaethol

- 3.5 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod cerrig milltir cenedlaethol. Mae'r Ddeddf yn datgan y dylai'r rhain fod mewn meysydd y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried *y byddent yn helpu i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud at gyrraedd y nodau llesiant.*
- 3.6 Mae'r cerrig milltir yn nodau ar y cyd ar gyfer Cymru yn hytrach na thargedau i Lywodraeth Cymru neu gyrff cyhoeddus unigol. Byddant yn ymwneud â'r Dangosyddion Cenedlaethol, cyfres o 50 o ddangosyddion ar lefel Cymru, sy'n adlewyrchu'r cyfraniad cyfunol y mae pob corff cyhoeddus, unigolyn a sefydliad yn ei wneud at y nodau.

Tueddiadau'r Dyfodol

- 3.7 Rhaid i Weinidogion Cymru lunio Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol o fewn blwyddyn i etholiad Senedd Cymru. Mae'r adroddiad yn edrych ar dueddiadau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol tebygol Cymru yn y dyfodol. Cyhoeddwyd yr adroddiad cyntaf yn 2016 a chyhoeddwyd y fersiwn diweddaraf ym mis Rhagfyr 2021.

4 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Archwilydd Cyffredinol Cymru

- 4.1 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' wrth (a) gosod eu hamcanion llesiant; a (b) cymryd camau i'w bodloni.
- 4.2 Rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru edrych ar bob corff cyhoeddus (gan gynnwys Llywodraeth Cymru) o leiaf unwaith rhwng etholiadau Senedd Cymru, a rhoi adroddiad ar eu harchwiliadau i Senedd Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob etholiad y Senedd.
- 4.3 Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiadau unigol ar gyfer pob corff cyhoeddus, ac ym mis Mai 2020 cyhoeddodd adroddiad cyffredinol yn crynhoi ei ganfyddiadau cyffredinol ar gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy o'r holl archwiliadau unigol.

5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

- 5.1 Mae'r Ddeddf (Adran 17) yn sefydlu swydd statudol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y Comisiynydd), sef unigolyn a benodir gan Weinidogion Cymru ar ôl ymgynghori â phwyllgor cyfrifol Senedd Cymru (tymor o 7 mlynedd). Rôl y Comisiynydd yw gwarchod budd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i

weithio at gyflawni'r nodau llesiant. Mae

hyn yn golygu helpu cyrff cyhoeddus a'r rheini sy'n llunio polisïau yng Nghymru i feddwl am effeithiau tymor hir eu penderfyniadau. Mae gan y Comisiynydd bwerau i gynnal adolygiad a gwneud argymhellion i gyrff cyhoeddus. Dechreuodd y Comisiynydd cyntaf yn ei swydd ar 1 Chwefror 2016. Mae'r broses recriwtio ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nesaf Cymru ar y gweill, a'r bwriad yw penodi'n gyhoeddus ddechrau 2023.

- 5.2 Mae dau adroddiad bob 5 mlynedd wedi'u cynnwys yng nghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, un gan y Comisiynydd a'r llall gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y rhain yn cael eu cyhoeddi un diwrnod ac un flwyddyn cyn etholiad cyffredinol a gyda'i gilydd maent yn gofnod rheolaidd o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- 5.3 **Dyletswydd gyffredinol** – Mae Adran 18 o'r Ddeddf yn nodi mai dyletswydd gyffredinol y Comisiynydd yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, yn arbennig i warchod gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion ac i annog cyrff cyhoeddus i roi mwy o sylw i effaith hirdymor eu gweithgareddau. At y diben hwn, rhaid i'r Comisiynydd hefyd fonitro ac asesu sut caiff yr amcanion llesiant a bennir gan gyrff cyhoeddus eu bodloni.
- 5.4 **Cyngor neu gymorth** – Mae Adran 19 o'r Ddeddf yn nodi y caiff y Comisiynydd, wrth gyflawni ei ddyletswydd gyffredinol, ddarparu cyngor neu gymorth (ac eithrio cymorth ariannol) i gorff cyhoeddus neu unrhyw berson arall y mae'n credu ei fod yn cymryd, neu'n ceisio cymryd, camau a allai gyfrannu at y nodau llesiant. Mae hyn yn cynnwys rhoi cyngor ar newid yn yr hinsawdd.
- 5.5 **Arfer gorau** – gall y Comisiynydd hefyd annog arfer gorau a chodi ymwybyddiaeth ymysg cyrff cyhoeddus o ran cyflawni eu hamcanion llesiant mewn ffordd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac annog cyrff cyhoeddus i weithio gyda'i gilydd a gyda phersonau eraill pe gallai hyn eu helpu i gyflawni eu hamcanion llesiant.
- 5.6 **Ymchwil** – mae gan y Comisiynydd y pŵer o dan adran 19(2) o'r Ddeddf i gynnal ymchwil neu astudiaeth arall mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, a'r graddau y mae'r nodau llesiant a'r dangosyddion cenedlaethol yn gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac unrhyw beth sy'n gysylltiedig â'r pethau hyn ac sy'n effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru neu unrhyw ran o Gymru.

Adolygiadau ac argymhellion a wnaed gan y Comisiynydd

- 5.7 Mae adran 20 o'r Ddeddf yn nodi i'r Comisiynydd gynnal adolygiad o'r graddau y mae corff cyhoeddus, er y gall hyn ymwneud â mwy nag un corff cyhoeddus, yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy ystyried effaith hirdymor yr hyn y mae'r corff hwnnw'n ei wneud. Caiff y Comisiynydd adolygu'r camau a gymerwyd gan gorff, neu y mae'n bwriadu eu cymryd,

i gyflawni ei amcanion llesiant, i ba raddau y mae'r amcanion llesiant hynny'n cael eu cyflawni ac a yw, wrth gymryd y camau hynny, wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

- 5.8 Caiff y Comisiynydd gyflwyno argymhellion o ganlyniad i unrhyw adolygiad; mae hyn yn golygu y caiff y Comisiynydd argymhell camau gweithredu y dylai corff cyhoeddus eu cymryd er mwyn mynd i'r afael â mater penodol. Gall yr argymhellion hyn fod yn ymwneud â'r camau y mae corff cyhoeddus wedi'u cymryd i gyflawni ei amcanion llesiant a sut mae gosod amcanion llesiant a chymryd camau i'w bodloni yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. O ran Gweinidogion Cymru, gall yr argymhellion hyn hefyd ymwneud â'r nodau llesiant neu'r dangosyddion cenedlaethol.
- 5.9 Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw adolygiad y mae'n ei wneud, a rhaid anfon copi o'r adolygiad a'i argymhellion at Weinidogion Cymru.
- 5.10 Caiff y Comisiynydd ei gwneud yn ofynnol i gorff cyhoeddus ddarparu unrhyw wybodaeth y mae'r Comisiynydd yn credu ei bod yn angenrheidiol i gynnal yr adolygiad. Dim ond os nad yw'r corff wedi'i wahardd rhag datgelu'r wybodaeth gan unrhyw ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall y caiff y Comisiynydd ofyn am yr wybodaeth.
- 5.11 Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi unrhyw argymhellion y mae'n ei wneud, a rhaid anfon copi o'r adolygiad a'i argymhellion at Weinidogion Cymru.

Ymateb i argymhellion y Comisiynydd

- 5.12 Mae adran 22 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ddilyn y camau gweithredu a nodir mewn unrhyw argymhelliad y mae'r Comisiynydd yn ei wneud o dan adran 20(4) o'r Ddeddf. Fodd bynnag, gall y corff ddiystyru'r cyfan neu ran o'r argymhelliad os yw'n fodlon bod rheswm da dros wneud hynny. Gall y corff hefyd benderfynu dilyn dull gweithredu arall mewn perthynas â'r mater y mae'r argymhelliad yn cyfeirio ato, ond os yw'n penderfynu peidio â dilyn yr argymhelliad, rhaid iddo egluro ei ymateb a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd yn lle hynny.

Adroddiad Blynyddol

- 5.13 Mae'n ofynnol i'r Comisiynydd (Atodlen 2 paragraff 17 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) gynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n cwmpasu pob blwyddyn ariannol. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad hwn erbyn 31 Awst fan bellaf ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymdrin â hi. Rhaid i'r Comisiynydd anfon yr adroddiad at Weinidogion Cymru a rhaid i'r Gweinidogion ei osod gerbron Senedd Cymru.

Panel Cyngori

- 5.14 Mae adran 26 o'r Ddeddf yn sefydlu panel cyngori. Dyma banel o gynghorwyr sy'n rhoi cyngor i'r Comisiynydd ar arfer ei swyddogaethau.

- 5.15 Rhestrir aelodau statudol y panel yn adran 26(2). Caiff Gweinidogion Cymru benodi aelodau ychwanegol i'r panel cyngori, a elwir yn 'aelodau penodedig'.

Y berthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru

- 5.16 Caiff y Comisiynydd ddarparu cyngor neu gymorth i Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac i fyrdau gwasanaethau cyhoeddus ynghylch paratoi eu cynllun llesiant lleol.

Adroddiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Archwilydd Cyffredinol

- 5.17 Mae cyhoeddi dau adroddiad bob 5 mlynedd yn rhan o gylch y Ddeddf, un gan y Comisiynydd a'r llall gan yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r gyfraith yn mynnu bod y rhain yn cael eu cyhoeddi un diwrnod ac un flwyddyn cyn etholiad Senedd Cymru a, gyda'i gilydd, maent yn gofnod annibynnol a chyfnodol o ymdrechion ar y cyd ledled Cymru i greu Cymru gynaliadwy.

Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol (Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol)

- 5.18 Mae adran 23 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd baratoi adroddiad yn nodi'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud er mwyn gosod a bodloni eu hamcanion llesiant mewn modd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
- 5.19 Rhaid i'r Comisiynydd gyhoeddi'r adroddiad hwn cyn diwedd y cyfnod adrodd. Mae'r 'cyfnod adrodd' yn rhedeg o'r diwrnod ar ôl i Weinidogion Cymru gyhoeddi eu hadroddiad ar dueddiadau'r dyfodol o dan adran 11 o'r Ddeddf tan y diwrnod sy'n nodi un flwyddyn ac un diwrnod cyn dyddiad arfaethedig etholiad cyffredinol arferol nesaf Senedd Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniad o gyfnod adrodd.
- 5.20 Rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys asesiad o sut y dylai cyrff cyhoeddus ddiogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol yn well i ddiwallu eu hanghenion ac ystyried yn well effaith hirdymor yr hyn maen nhw'n ei wneud. Rhaid i'r adroddiad hefyd roi crynodeb o'r dystiolaeth a gasglwyd a'r gweithgareddau a gynhaliwyd gan y Comisiynydd yn ystod y cyfnod adrodd, crynodeb o adolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd, yn ogystal â'r camau y mae'r Comisiynydd wedi'u cymryd wrth arfer ei swyddogaethau.
- 5.21 Rhaid i'r Comisiynydd anfon copi o'r adroddiad at Weinidogion Cymru a rhaid i'r Gweinidogion osod copi gerbron Senedd Cymru.
- 5.22 Cyhoeddodd y Comisiynydd Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol ar 4 Mai 2020 a chyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad yn 2020 ar yr un diwrnod.

6 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Disgwyliadau ar gyfer y dyfodol

- 6.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus ar yr ail don o gerrig milltir cenedlaethol, a fydd yn helpu Gweinidogion Cymru i asesu

cynnydd at gyflawni'r saith nod llesiant cenedlaethol. Daw'r ymgynghoriad i ben ym mis Medi, gyda'r nod gyflwyno'r ail don o gerrig milltir i Senedd Cymru erbyn diwedd 2022.

- 6.2 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi lansio ymgynghoriad cyhoeddus yn gofyn am safbwyntiau ar ymestyn dyletswydd llesiant (Rhan 2) y Ddeddf i restr o 8 corff cyhoeddus ychwanegol. Daw'r ymgynghoriad i ben ym mis Hydref 2022.
- 6.3 Ar hyn o bryd mae'r Comisiynydd yn cynnal Adran 20 ar sut mae trefniadau Llywodraeth Cymru yn datblygu'n gynaliadwy ac yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion.
- 6.4 Mae'r broses recriwtio ar gyfer Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol nesaf Cymru ar y gweill, a'r bwriad yw penodi'n gyhoeddus ddechrau 2023.

7 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) – Rhagor o wybodaeth

7.1 Cefndir Cyffredinol:

- a. [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) (deddfwriaeth)
- b. [Memorandwm Esboniadol](#)
- c. [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#)
- d. [Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol – yr hanfodion](#)

7.2 Cyhoeddiadau allweddol Llywodraeth Cymru:

- a. [Adroddiad ar Lesiant Cymru](#)
- b. [Cerrig milltir cenedlaethol a dangosyddion cenedlaethol wedi'u diweddarau](#)
- c. [Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol](#)

7.3 Adroddiadau ar y Ddeddf:

- a. [Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol](#) Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- b. Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru [Felly, beth sy'n wahanol?](#)
- c. Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y pumed Senedd) [Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – y stori hyd yma](#)
- d. Adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol [Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Yr wybodaeth ddiweddaraf](#)

8 Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

- 8.1 Mae'r adran hon yn edrych ar rôl a swyddogaeth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o ran cefnogi llesiant yng Nghymru.
- 8.2 Fel yr esboniwyd uchod, sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail statudol ar gyfer pob ardal

awdurdod lleol yng Nghymru o fis Ebrill 2016 ymlaen, gan ddisodli'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a oedd yn gweithredu'n wirfoddol.

- 8.3 Diben Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw casglu ynghyd cyrff cyhoeddus allweddol mewn ardal ddaearyddol i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal honno.
- 8.4 Pedwar aelod statudol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw'r awdurdod lleol, y bwrdd iechyd lleol ar gyfer yr ardal, yr awdurdod tân ac achub ar gyfer yr ardal a Chorff Adnoddau Naturiol Cymru. Mae dyletswyddau statudol y Bwrdd yn disgyn ar y cyrff hyn (hy mae swyddogaethau'r Bwrdd yn un o swyddogaethau pob aelod o'r Bwrdd y gellir ei arfer dim ond drwy weithredu ar y cyd â'r aelodau eraill).
- 8.5 Yn ogystal â'r aelodau statudol hyn, rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wahodd y canlynol i gymryd rhan: Gweinidogion Cymru, prif gwnstablaid, comisinydd yr heddlu a throseddau ar gyfer yr ardal, rhai gwasanaethau prawf, awdurdod parc cenedlaethol (os yw'n berthnasol), ac o leiaf un corff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol lleol perthnasol. Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wahodd sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus eraill i gymryd rhan, er enghraifft, darparwyr addysg fel colegau a phrifysgolion a chymdeithasau tai, a chyrrff preifat fel fforymau busnes.
- 8.6 Ym mhob cylch etholiadol llywodraeth leol, mae'n ofynnol i fyrddau gwasanaeth cyhoeddus wneud y canlynol:
- Datblygu asesiad o lesiant lleol (a gyhoeddwyd ym mis Mai 2017 a mis Mai 2022)
 - Datblygu cynllun llesiant lleol (cyhoeddwyd ddiwethaf ym mis Mai 2018, sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Mai 2023)
 - Cynhyrchu adroddiad blynyddol (adroddiadau blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019, 2020, 2021, 2022)
- 8.7 Mae 15 o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, sy'n gweithredu'n bennaf ar ôl troed yr awdurdod lleol, er bod rhai wedi uno ar ôl troed mwy. Cafodd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, a Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf (Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf) eu sefydlu fel un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r dechrau. Ym mis Hydref 2021, unodd y pum Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym Mlaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen i ffurfio un Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yng Ngwent. Nid yw Ynys Môn a Gwynedd wedi'u huno ond mae ganddynt gytundeb cydweithio ffurfiol.
- 8.8 Mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu harwain gan arweinwyr lleol ac maent yn atebol iddynt. Yn wahanol i fyrddau eraill fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol neu Grwpiau Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, nid yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynnal gweithgareddau ar ran Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rhaid ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar asesiadau drafft o gynlluniau llesiant lleol a chynlluniau llesiant lleol drafft, a defnyddir y cyfle hwn i roi adborth a sicrhau bod y broses o bennu eu blaenoriaethau yn gadarn.

8.9 Nid yw Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn endidau cyfreithiol, ond yn hytrach yn bartneriaethau statudol, gyda phrosesau democrataidd lleol yn darparu her a chefnogaeth briodol. Mater i bob awdurdod lleol yw penderfynu ar ffurf y trefniadau craffu hyn. Mae llwyddiant pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei asesu'n lleol.

- 8.10 Rhaid i'r awdurdod(au) lleol sicrhau bod cymorth gweinyddol ar gael i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan sicrhau bod y bwrdd yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cefnogi'r cyfarfodydd hynny. Mater i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yw penderfynu sut y bydd yn darparu adnoddau ar gyfer y swyddogaethau y mae'n rhaid iddo eu cyflawni, fel paratoi'r asesiad a'r cynllun, sy'n gyfrifoldeb i'r holl aelodau statudol yn gyfartal. Rhaid iddynt ystyried pa gamau sy'n briodol ac yn gymesur. Gall aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus gyfuno eu hadnoddau i gyflawni amcanion y cytunwyd arnynt.

Rôl Llywodraeth Cymru

- 8.11 Mae Llywodraeth Cymru yn darparu pecyn o gymorth cyffredinol sy'n cael ei ddarparu'n genedlaethol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal â chyllid rhanbarthol wedi'i dargedu i gefnogi cydweithio ar draws Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a lleihau dyblygu ymdrechion, ee i feithrin y gallu i ymgysylltu â chymunedau. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid cyffredinol i gyflawni camau gweithredu yn y cynllun llesiant lleol. Fodd bynnag, gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddefnyddio ffrydiau ariannu polisi amrywiol Llywodraeth Cymru i gefnogi meysydd gwaith penodol, ac maent wedi gwneud hynny.
- 8.12 Ar 17 Mawrth 2021, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru yr adroddiad Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – y stori hyd yma. Roedd yn cynnwys argymhelliad i Lywodraeth Cymru *gynnal adolygiad o sut mae gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael ei ariannu. Dylai'r adolygiad ddechrau heb fod yn hwyrach na chwe mis ar ôl etholiad nesaf Senedd Cymru, gyda'i gasgliadau'n cael eu rhoi ar waith mewn da bryd er mwyn iddynt allu cyfrannu at ddyraniadau cyllid ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Dylid cynnal yr adolygiad gyda'r egwyddorion canlynol mewn golwg:*
- *Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu cael mynediad at gronfeydd cyfun o adnoddau eu haelodau statudol, ac y gallent naill ai eu dal fel endidau corfforaethol ffurfiol, neu drwy drefniadau anffurfiol.*
 - *Dylai cyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu pennu gan ganllawiau clir a chyson gan Lywodraeth Cymru.*
 - *Dylai cyllidebau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu llywio gan y rôl y mae Llywodraeth Cymru wedi'i nodi ar eu cyfer.*
 - *Dylai'r cyfraniadau y mae'n rhaid i bob sefydliad eu gwneud i ariannu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gydnabod ymrwymïadau ehangach sydd ganddynt i bartneriaethau eraill (gan gynnwys i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill).*
- 8.13 Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i gynnydd yn nodi,

Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad hyd yma mai mater i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw penderfynu sut maent yn darparu adnoddau ar gyfer eu gwaith ar y cyd – gan gynnwys cyfuno cyllid. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod partneriaid wedi cael gwahanol raddau o lwyddiant gyda hyn ac efallai y bydd lle i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dull cyffredin o gronni adnoddau. Efallai y bydd rhai partneriaid hefyd yn gwerthfawrogi canllawiau ychwanegol ar yr hyblygrwydd presennol o ran y cyllid sydd ar gael o

ffynonellau eraill.

Byddwn yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gael gwell dealltwriaeth o ble maent wedi cyfuno – neu wedi ceisio cyfuno – adnoddau, a chanfod a rhannu arferion da. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn ystyried yn flynyddol y pecyn

o gyllid a chymorth rydym yn ei ddarparu'n uniongyrchol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a byddwn yn edrych ar sut gallwn ni godi ymwybyddiaeth o'r amrywiaeth o ffynonellau cyllid sydd ar gael iddynt. Nid yw'r adolygiad hwn wedi'i gwblhau eto.

Dyheadau/disgwyliadau yn y dyfodol / Cynigion ar gyfer newid

- 8.14 Nid oes unrhyw newidiadau polisi sylweddol yn cael eu cynnig ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn datblygu eu cynlluniau llesiant lleol nesaf a byddant yn cyflawni'r cynlluniau hynny o fis Mai 2023 ymlaen.
- 8.15 O ran cyllid, y polisi hyd yma yw bod ethos Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth ar flaenoriaethau lleol a rennir ac nid mecanwaith cyflawni ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r pwyslais yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â newid y ffordd mae adnoddau presennol yn cael eu defnyddio – drwy gydweithio ac osgoi dyblygu gweithgareddau. Fodd bynnag, y gobaith yw y bydd yr adolygiad o gyllid a amlinellir uchod mewn ymateb i adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd Cymru yn galluogi ac yn cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gael mynediad at ffrydiau cyllido ehangach i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu cynlluniau.

9 Rôl Comisiynwyr yng Nghymru

- 9.1 Mae dyfodiad datganoli yng Nghymru wedi arwain at sefydlu swyddi Comisiynydd Plant Cymru (y swydd gyntaf o'i math yn y Deyrnas Unedig), Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Comisiynydd y Gymraeg, a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (mae'r manylion yn **adran 5** uchod). Mae'r Comisiynwyr annibynnol hyn yn edrych ar sut mae'r penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, yn effeithio ar ddinasyddion Cymru, gan ddal y cyrff hynny'n atebol a darparu fframwaith ar gyfer gwella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru.

Comisiynydd Plant Cymru

- 9.2 Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i sefydlu Comisiynydd Plant fel eiriolwr annibynnol dros hawliau plant. Roedd yn un o brif argymhellion Syr Ronald Waterhouse ar ôl iddo ymchwilio i gam-drin mewn cartrefi plant yng Ngogledd Cymru.
- 9.3 Penodwyd Comisiynydd Plant cyntaf Cymru ym mis Mawrth 2001.
- 9.4 Sefydlwyd Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000, ac mae'n sefydliad hawliau dynol annibynnol i blant. Mae cylch gwaith y Comisiynydd wedi'i nodi yn [Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001](#), a oedd yn diwygio [Deddf Safonau Gofal 2000](#).
- 9.5 Prif nod y Comisiynydd Plant yw diogelu a hyrwyddo hawliau a lles pob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Rhaid i'r Comisiynydd ystyried Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

- 9.6 Mae cylch gwaith Comisiynydd Plant Cymru yn cwmpasu pob maes o bwerau datganoledig Senedd Cymru i'r graddau y maent yn effeithio ar hawliau a lles plant. Cytunir ar y gyllideb bob blwyddyn ac ar gyfer 2022-23 mae'n £1.69 miliwn.
- 9.7 Mae gan y Comisiynydd y pwerau canlynol:
- Y pŵer i adolygu sut mae arfer swyddogaethau neu'r bwriad i arfer swyddogaethau cyrff cyhoeddus diffiniedig gan gynnwys Llywodraeth Cymru yn effeithio ar blant.
 - Y pŵer i adolygu a monitro pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer cwynion, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth gan gyrff cyhoeddus diffiniedig wrth ddiogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant.
 - Y pŵer i edrych ar achosion mewn perthynas â phlant unigol mewn amgylchiadau penodol.
 - Y pŵer i ddarparu cymorth i blentyn mewn amgylchiadau penodol.
 - Y pŵer i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru am unrhyw faterion sy'n effeithio ar hawliau a lles plant sy'n ymwneud â'r Comisiynydd ac nad oes ganddynt y pŵer i weithredu ar eu rhan.
- 9.8 Mae'r Comisiynydd yn dal Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy gyhoeddi [Adroddiad Blynyddol](#). Mae'r Adroddiad Blynyddol yn cynnwys cyfres o argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, crynodeb o'r camau a gymerwyd gan ei Swyddfa, ac adolygiad o faterion sy'n berthnasol i hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae rhagor o wybodaeth am bwerau cyfreithiol Comisiynydd Plant Cymru a sut maent wedi cael eu defnyddio i hyrwyddo newid i blant ers 2001 ar gael [yma](#).
- 9.9 Roedd rôl y Comisiynydd Plant yn arbennig o bwysig yn ystod pandemig y Coronafeirws (COVID-19). Arweiniodd y Comisiynydd y gwaith o ddatblygu'r arolygon *Coronafeirws a Fi* ar-lein, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, i roi cyfle i blant a phobl ifanc rannu eu barn am effaith y pandemig ar eu bywydau. Cymerodd dros 43,000 o bobl ifanc ran mewn dau arolwg; defnyddiwyd y canfyddiadau'n eang i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.
- 9.10 Mae buddsoddi yn rôl Comisiynydd annibynnol ar gyfer Plant yng Nghymru yn dangos yn gyhoeddus ymrwymiad Llywodraeth Cymru i hawliau plant. Mae'n dangos bod Llywodraeth Cymru yn croesawu craffu annibynnol a gweithio mewn partneriaeth i ddiwallu anghenion pob plentyn.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

- 9.11 Cafodd Deddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 ("y Ddeddf") Gydsyniad Brenhinol ar 25 Gorffennaf 2006. Mae'n gweithredu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sefydlu Comisiynydd annibynnol ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru, i ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yng Nghymru.

¹ [Canlyniadau Coronafeirws a Fi - Comisiynydd Plant Cymru \(childcomwales.org.uk\)](#) a [Coronafeirws a Fi - Canlyniadau ein harolwg mis Ionawr 2021 - Comisiynydd Plant Cymru \(childcomwales.org.uk\)](#)

- 9.12 Roedd sefydlu Comisiynydd Pobl Hŷn yn elfen bwysig o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i godi safonau gwasanaethau yn y sector cyhoeddus ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. Sefydlodd y Ddeddf Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru a rhoi'r pŵer dros adolygu ac archwilio. Roedd hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch materion gan gynnwys yr awdurdodau a'r mathau o gwynion y gellir eu hadolygu neu ymchwilio iddynt.
- 9.13 Cafodd y penodiad cyntaf ei wneud yn 2008 fel y Comisiynydd Pobl Hŷn cyntaf yn y Byd. Cyllideb Comisiynydd Pobl Hŷn 2022-23 yw £1.89 miliwn. Y prif swyddogaethau yw:
- Hyrwyddo a diogelu hawliau a diddordebau pobl hŷn yng Nghymru
 - Herio gwahaniaethu yn erbyn pobl hŷn yng Nghymru
 - Annog ymarfer gorau wrth ymdrin â phobl hŷn yng Nghymru.
 - Adolygu'r ddeddf sy'n effeithio ar fuddiannau pobl hŷn yng Nghymru
- 9.14 O'r cychwyn cyntaf, mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl hŷn a sicrhau dealltwriaeth lawn o'r materion sy'n eu hwynebu. Ymhlith y blaenoriaethau mae urddas a pharch mewn ysbytai, diogelu pobl hŷn rhag cael eu cam-drin, a gwneud yn siŵr bod pobl hŷn yn gallu sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- 9.15 Roedd rôl y Comisiynydd Pobl Hŷn fel eiriolwr yn arbennig o bwysig yn ystod pandemig Covid-19 i ddiogelu hawliau pobl hŷn yng Nghymru.
- 9.16 Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru wedi cynnal sawl adolygiad allweddol o brofiadau pobl hŷn. Adolygiad o brofiadau pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal oedd y mwyaf o'i fath a gynhaliwyd erioed yng Nghymru. Arweiniodd yr argymhellion at amrywiaeth o gamau gweithredu a gwelliannau.
- 9.17 Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd yn rhoi cyngor a chymorth uniongyrchol i bobl hŷn, ac mae hyn wedi bod yn arbennig o bwysig gyda chostau byw cynyddol.
- 9.18 Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn yn [Aelod Cyswllt o Rwydwaith Byd-eang o Ddinasoedd a Chymunedau Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd](#) ac mae'n gweithio i hyrwyddo cynnydd sy'n ystyriol o oedran ar lefelau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol.
- 9.19 Mae buddsoddi yn rôl Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn dangos yn gyhoeddus ein hymrwymiad i sicrhau bod pobl hŷn mewn sefyllfa dda i ddylanwadu ar y broses o ddatblygu a gweithredu polisïau. Mae hefyd yn dangos bod Llywodraeth Cymru yn croesawu craffu annibynnol a gweithio mewn partneriaeth i sicrhau Cymru sy'n cefnogi pobl o bob oed i fyw a heneiddio'n dda.

9.20 Sefydlwyd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011.
Cafodd y Mesur ei basio gan Gynulliad Cenedlaethol

Cymru ar 7 Rhagfyr 2010, a chafodd Gydsyniad Brenhinol ar 9 Chwefror 2011. Roedd y Mesur yn moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol presennol ynghylch defnyddio'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd y Mesur yn datgan bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru a dyma sefydlodd swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd).

- 9.21 Prif swyddogaethau'r Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, gweithredu system safonau'r Gymraeg, ac ymchwilio i achosion o ymyrraeth â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd gynnal yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.
- 9.22 Prif weledigaeth y Comisiynydd yw Cymru lle gall pobl fyw eu bywyd yn Gymraeg. Mae ganddo bedwar amcan strategol cyffredinol sy'n cyfrannu at gyflawni'r weledigaeth honno:
- Sicrhau tegwch, cyfiawnder a hawliau i siaradwyr Cymraeg
 - Sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth ganolog mewn polisi a deddfwriaeth
 - Cynnal a chynyddu cydymffurfiaid sefydliadau â'u dyletswyddau statudol
 - Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan sefydliadau ar draws pob sector
- 9.23 Mae'r Comisiynydd wedi gosod safonau'r Gymraeg ar dros 120 o gyrff hyd yma. Mae'r safonau hyn yn gosod dyletswyddau ar gyrff wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd, darparu gwasanaethau i'w staff eu hunain, ac maent hefyd yn mynnu bod cyrff yn ystyried y Gymraeg wrth lunio polisiau newydd. Mae'r safonau'n cyfrannu at fwy o ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, ac maent yn gweithio at wella gwasanaethau.
- 9.24 Ers ei sefydlu mae'r Comisiynydd hefyd wedi cynnal ymchwiliadau i feysydd polisi penodol megis gwasanaethau Cymraeg mewn carchardai, gwasanaethau gofal dementia sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg, a'r gweithlu addysg statudol yng Nghymru. Mae dyletswydd statudol ar y Comisiynydd hefyd i gyhoeddi adroddiad 5 mlynedd ar sefyllfa'r Gymraeg. Cyhoeddwyd yr adroddiad 5 mlynedd diwethaf yn 2021 ac mae'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Rhagfyr 2020.
- 9.25 Mae buddsoddi yn rôl y Comisiynydd yn dangos yn gyhoeddus ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r Gymraeg; ac mae'n dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithredu system safonau'r Gymraeg sydd wedi'i llunio i wella'r ddarpariaeth o wasanaethau Cymraeg. Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth uchelgeisiol ar gyfer y Gymraeg – Cymraeg 2050, mae'r strategaeth hon yn gweithio at ddau brif darged: cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, a dyblu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg. Mae'r Comisiynydd yn bartner cyflawni allweddol wrth i Lywodraeth Cymru weithredu ei strategaeth ar gyfer yr iaith.

10 Rôl Partneriaethau

- 10.1 Mae'r adran hon o'r papur yn edrych ar rôl gweithio mewn partneriaeth wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru ar draws gwasanaethau cyhoeddus, gyda phartneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector.
- 10.2 Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn rhan o ddull gweithredu Llywodraeth Cymru ers datganoli. Roedd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ffurfioli'r dull cenedlaethol o weithio mewn partneriaeth drwy sefydlu Cyngor Partneriaeth statudol Cymru a chreu dyletswyddau i gyhoeddi cynlluniau ar gyfer sut y byddai Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo, ac yn gweithio gyda, llywodraeth leol, busnes a'r trydydd sector.
- 10.3 Roedd [*Beyond Boundaries: Citizen-Centred Local Services for Wales*](#) (Beecham et al, 2006) yn nodi mai dau ffactor llwyddiant hanfodol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus mwy effeithiol oedd partneriaeth ac ymgysylltu â dinasyddion. Nododd fod partneriaeth yn anodd a bod angen buddsoddi amser, adnoddau ac arweinyddiaeth.
- 10.4 Ym mis Tachwedd 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru [*Creu'r Cysylltiadau – Cyflawni Ar Draws Ffiniau: Trawsnewid Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*](#). Roedd yn cynnwys cynigion i sefydlu Byrddau Gwasanaethau Lleol a Chytundebau Gwasanaethau Lleol i hyrwyddo cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus.
- 10.5 Roedd [*Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau sydd orau i'w darparu ym mhle?*](#) (Simpson et al, 2011) yn gwneud 21 o argymhellion ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar gydweithio rhwng cynghorau. Roedd yr adroddiad yn cynnwys sawl enghraifft o bartneriaethau a chydweithio gweithredol llwyddiannus – ffurfiol ac anffurfiol.
- 10.6 Daeth y [*Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus*](#) (Williams et al, 2014) i'r casgliad bod angen i'r broses o lywodraethu partneriaethau fod yn gliriach ac yn gryfach, gyda set gliriach o flaenoriaethau, cynlluniau a chanlyniadau. Daeth i'r casgliad bod yn rhaid symleiddio strwythurau partneriaethau lleol yn radical a'u gwneud yn fwy effeithiol. Eu casgliad oedd y dylai'r byrddau gwasanaethau lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal un gofrestr o bartneriaethau lleol a strwythurau partneriaethau lleol.
- 10.7 Ym mis Ebrill 2016, daeth [*Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015*](#) i rym, a sefydlodd Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol, a oedd yn olynu'r byrddau gwasanaethau lleol. Daeth [*Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014*](#) i rym hefyd ym mis Ebrill 2016 a sefydlwyd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i yrru darpariaeth ranbarthol strategol gwasanaethau cymdeithasol mewn cydweithrediad agos ag iechyd.
- 10.8 Ym mis Ionawr 2019, dywedodd y Gweithgor ar Lywodraeth Leol fod nifer y

partneriaethau strategol – sy'n aml yn cynnwys yr un cyrff sy'n aelodau – yn creu teimlad bod angen lledaenu'r adnoddau presennol hyd yn oed yn fwy eang. Yn dilyn hynny, cynhaliodd Llywodraeth Cymru, CLILC a Chyddfederasiwn GIG Cymru [Adolygiad o Bartneriaethau Strategol](#),

a gyflwynodd adroddiad ym mis Mehefin 2020. Daeth i'r casgliad ei bod hi'n well mynd ati'n lleol i ddatblygu'r ymdrechion i symleiddio'r gwaith a'r berthynas rhwng partneriaethau.

Sefyllfa Bresennol Llywodraeth Cymru

- 10.9 Nid oes rhestr gynhwysfawr o bartneriaethau ffurfiol a/neu anffurfiol yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd y gwaith mapio a wnaed fel rhan o'r Gweithgor ar Ddiwygio Llywodraeth Leol yn dangos cryn dipyn o weithio mewn partneriaeth ar sail wirfoddol a statudol ledled Cymru. Mae'r partneriaethau hyn yn cael eu gyrru a'u rheoli ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- 10.10 Roedd yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol yn diffinio cwmpas partneriaethau *strategol*. Ystyriwyd cydweithrediadau sector unigol neu wasanaethau ar y cyd y tu allan i gwmpas yr adolygiad ee consortia gwella ysgolion neu'r Cyd-bwyllgorau Corfforaethol. Dyma brif ganfyddiadau'r cynnwys:
- Nid oedd consensws ynghylch sut mae gwella neu symleiddio sefyllfa'r bartneriaeth.
 - Nid oedd cais cyson – yn wir roedd gwrthwynebiad – i Lywodraeth Cymru uno neu ddiddymu partneriaethau. Yr her yw gwasanaethu'r partneriaethau hyn yn briodol, gan gynnal adnoddau ar flaenoriaethau'r sefydliad ei hun.
 - Codwyd y gwahanol olion troed partneriaethau weithiau fel problem, ond roedd diwylliant o gydweithio a gweithio colegol yn cael ei ystyried yn fwy pwysig a phwerus nag ad-drefnu ffiniau daearyddol. Roedd pryder y byddai ail-alinio partneriaethau o'r brig i lawr yn tarfu ar y cysylltiadau effeithiol presennol. Er gwaethaf degawdau o weithio mewn partneriaeth, mae angen o hyd i ddatblygu'r diwylliant colegol mewn sefydliadau, gan ddechrau gyda'r arweinwyr, ar draws gwasanaethau'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
 - Mewn gwahanol rannau o Gymru, mae rhai atebion eisoes wedi cael eu harchwilio i symleiddio'r cyd-destun partneriaethau, gan fanteisio ar yr hyblygrwydd yng ngofynion y partneriaethau hyn ac – fel arfer – y cysylltiadau cynhyrchiol presennol.
- 10.11 Roedd yr adolygiad yn cynnwys un ar ddeg o argymhellion y cytunwyd arnynt gan Gyngor Partneriaeth Cymru. Un o'r prif argymhellion oedd y dylai newidiadau i symleiddio gweithio mewn partneriaeth gael eu harwain yn lleol. Gallai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddarparu rôl arwain naturiol wrth gefnogi hyn. Roedd yr adolygiad hefyd yn argymhell y dylai Cyngor Partneriaeth Cymru adolygu'r cyd-destun partneriaethau o bryd i'w gilydd.
- 10.12 Ar ôl cyhoeddi'r adolygiad, ysgrifennodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ar y pryd at bob Cadeirydd partneriaethau strategol yn cadarnhau bod ganddynt hyblygrwydd i adolygu eu trefniadau ac roedd yn cynnig cymorth i hwyluso hyn.

Dyheadau/disgwyliadau yn y dyfodol / Cynigion ar gyfer newid

- 10.13 Roedd y Cytundeb Cydweithredu, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021, yn cynnwys ymrwymiad i *sicrhau bod gwaith partneriaeth rhanbarthol yng Nghymru yn effeithlon ac yn symlach ac yn darparu atebolrwydd a rheolaeth ddemocrataidd briodol*. Mae hyn wedi ysgogi gwaith ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i ymgysylltu â Chadeiryddion partneriaethau strategol i bwysu a mesur gweithgareddau ers yr adolygiad. Y canlyniad a fwriedir yw trafod y canfyddiadau gyda Chyngor Partneriaeth Cymru yn y flwyddyn newydd.
- 10.14 Bydd y polisi a'r gweithgarwch sy'n ymwneud â gweithio mewn partneriaeth yn y dyfodol yn seiliedig ar y cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i adolygu trefniadau partneriaethau.
- 10.15 Roedd argymhelliad terfynol yr Adolygiad o Bartneriaethau Strategol yn cynnig y dylai'r Cyngor Partneriaethau fynd ati'n rheolaidd i adolygu'r cyd-destun partneriaethau i ystyried a oes angen polisi neu newid deddfwriaethol gan Lywodraeth Cymru, a phryd a ble. O'r herwydd, byddai gwerthusiad llawn o'r opsiynau ac asesiad o'r effaith arnynt yn cael eu cynnal ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r polisi presennol.
- 10.16 Ni chynigir unrhyw weithgarwch ar hyn o bryd i ddeddfu ar gyfer y partneriaethau anffurfiol neu leol eraill yn y system.

11 Partneriaeth Gymdeithasol yng Nghymru

- 11.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi annog gweithio mewn partneriaeth ers datganoli i ddod o hyd i'r atebion gorau i'r heriau sy'n wynebu Cymru. Mae partneriaeth gymdeithasol yn fath penodol o bartneriaeth sy'n cynnwys y llywodraeth, cyflogwyr a gweithwyr (a gynrychiolir yn bennaf drwy undebau llafur) yn cydweithio ar lefel genedlaethol.
- 11.2 Hyd yma, nid oes sail statudol i bartneriaeth gymdeithasol a arweinir gan y llywodraeth yng Nghymru, nac mewn mannau eraill yn y DU, ac mae partneriaethau cymdeithasol presennol wedi datblygu'n wirfoddol ac yn organig. Hefyd, nid oes fframwaith sefydledig ar gyfer partneriaeth gymdeithasol yng Nghymru ac mae partneriaethau o'r fath wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau, gan ddatblygu dros amser mewn ymateb i gyd-destunau, gofynion a blaenoriaethau sy'n newid.

Adolygu Gweithio mewn Partneriaeth Gymdeithasol

- 11.3 Mae Cyfarwyddiaeth y Bartneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg yn Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad fesul cam o strwythurau partneriaeth gymdeithasol a ffyrdd o weithio sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar draws y llywodraeth. Dangosir canlyniadau cam mapio'r adolygiad hwnnw yn **Ffigur 1** isod.

11.4 Mae nifer o'r grwpiau a nodir yn Ffigur 1 wedi bod yn allweddol wrth reoli'r ymateb i bandemig COVID-19 yng Nghymru.

- 11.5 Mae'r **Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Cysgodol**, fforwm traws-sector teiran dan gadeiryddiaeth Prif Weinidog Cymru, wedi bod yn gyfrwng i Weinidogion Cymru gysylltu â phartneriaid cymdeithasol. Roedd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Gysgodol yn chwarae rhan bwysig yn ystod yr ymateb brys i bandemig COVID-19. Darparodd y Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol Gysgodol fforwm i rannu gwybodaeth ac ymgysylltu â phartneriaid cymdeithasol i gryfhau datblygiad polisi drwy gyfnod o argyfwng cenedlaethol.
- 11.6 Yn yr un modd, mae'r ystyriaethau ynghylch iechyd a diogelwch yn y gweithle wedi cael eu newid yn sylweddol gan bandemig y coronafeirws (COVID-19). Sefydlodd Llywodraeth Cymru y **Fforwm Iechyd a Diogelwch Cenedlaethol** i ddarparu ffordd i undebau llafur, y prif gyrff cyflogwyr o'r sector preifat a'r sector cyhoeddus, a'r asiantaethau gorfodi perthnasol ddod at ei gilydd i rannu eu profiad ar y cyd a gweithio gyda'i gilydd i wella iechyd a diogelwch yn y gweithle yng Nghymru.
- 11.7 Enghraifft lwyddiannus arall o bartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru yw'r **Fforwm Gwaith Teg Gofal Gymdeithasol** sydd wedi bod ar flaen y gad o ran llywio'r ffordd o gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i weithwyr gofal cymdeithasol.

Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)


- 11.8 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (y Bil) i Senedd Cymru ar 7 Mehefin 2022. Y nod yw creu system partneriaeth gymdeithasol gryfach a mwy cyson a fydd yn arwain at wneud penderfyniadau mwy cadarn ac effeithiol yng Nghymru er mwyn gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol (gan gynnwys drwy wella'r ffordd mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu yng Nghymru).
- 11.9 Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ar gyfer y canlynol:
- sefydlu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol statudol;
 - dyletswydd statudol i rai cyrff cyhoeddus geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig neu (os nad oes undeb llafur cydnabyddedig) cynrychiolwyr eraill eu staff, wrth bennu eu hamcanion llesiant a chyflawni'r amcanion hynny o dan adran 3(2) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
 - dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â phartneriaid cymdeithasol, cyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr drwy'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol wrth gyflawni eu hamcanion llesiant o dan adran 3(2)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;
 - diwygio adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan roi 'gwaith teg' yn lle 'gwaith teilwng' yn y nod "Cymru lewyrchus" presennol;

- dyletswydd statudol ar rai cyrff cyhoeddus i ystyried caffael cyhoeddus cymdeithasol gyfrifol wrth gaffael, i osod amcanion mewn perthynas â nodau llesiant, ac i gyhoeddi strategaeth gaffael;
- rhai cyrff cyhoeddus i gyflawni dyletswyddau rheoli contractau i sicrhau bod canlyniadau cymdeithasol gyfrifol yn cael eu cyflawni drwy gadwyni cyflenwi; a
- gosod dyletswyddau adrodd ar y cyrff cyhoeddus a Gweinidogion Cymru mewn perthynas â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a'r Ddyletswydd Caffael.

11.10 Bwriad y Bil yw ategu deddfwriaeth arall, yn benodol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ffigur 1: Map o'r grwpiau partneriaeth a nodwyd yn ôl sector

Mae'r rhain yn cynnwys partneriaethau annibynnol ar lefel genedlaethol sy'n hwyluso ymgysylltu rheolaidd rhwng partneriaid cymdeithasol (cyflogwyr a/neu undebau llafur) y mae gan Lywodraeth Cymru ryw faint o ran ynddynt. Ar gyfer yr adolygiad hwn, mae partneriaethau mewn glas yn cynrychioli partneriaethau cymdeithasol sydd â chyfansoddiad ffurfiol ac mae'r rheini mewn du yn cael eu hystyried yn grwpiau ymgysylltu ehangach.



1. Trefniadau ymgysylltu nodedig ond y tu allan i gwmpas yr adolygiad hwn neu heb gael digon o ddata.

12 Cynllun y Sector Gwirfoddol (Cynllun y Trydydd Sector)

- 12.1 Dan Adran 74 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru baratoi cynllun yn nodi sut maent yn cynnig hyrwyddo buddiannau sefydliadau gwirfoddol perthnasol wrth arfer eu swyddogaethau.
- 12.2 Mae Cynllun y Trydydd Sector yn ddatganiad o fwriad Gweinidogion Cymru i fwrw ymlaen â'u perthynas â'r Trydydd Sector a Deddf 2006. Nid yw'n cael unrhyw effaith rwymol ac efallai y bydd amgylchiadau lle na ellir cyflawni'r bwriadau.
- 12.3 Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i holl aelodau'r Cabinet, Dirprwy Weinidogion a swyddogion hyrwyddo buddiannau'r Trydydd Sector yn eu gwaith a'u penderfyniadau a byddant yn gwneud y canlynol:
- cynnal trefniadau ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori'n ystyrlon â'r Trydydd Sector.
 - cynnal trefniadau ar gyfer cefnogi cymunedau a gwirfoddolwyr.
 - cynnal trefniadau ar gyfer cefnogi strwythurau sy'n caniatáu i'r Trydydd Sector ffynnu.
 - ceisio glynu wrth y Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector.
- 12.4 Tynnwyd sylw at werth y dull unigryw hwn o ymgysylltu â'r trydydd sector yn ystod yr ymateb i bandemig Covid. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau adroddiad ar effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol. Yn eu hadroddiad, dywedodd y pwyllgor *mai un o'r themâu allweddol a glywsom drwy gydol y dystiolaeth oedd pa mor effeithiol oedd y strwythurau hyn wrth ymateb i'r pandemig.* Ar ben hynny, tynnwyd sylw at dystiolaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – *Roedd CGGC yn cydnabod 'cynllun unigryw'r trydydd sector...a seilwaith trydydd sector unigryw' yng Nghymru, a bod hyn wedi arwain at 'syniadau lleol, atebion lleol i broblemau lleol' a oedd yn aml y 'cyflymaf a'r mwyaf effeithiol' yn ystod wythnosau cynnar y pandemig.*
- 12.5 Tynnwyd sylw at werth y dull unigryw hwn o ymgysylltu â'r trydydd sector yn ystod yr ymateb i bandemig Covid. Ym mis Chwefror 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau adroddiad ar [effaith Covid-19 ar y sector gwirfoddol](#). Yn eu hadroddiad, dywedodd y pwyllgor *mai un o'r themâu allweddol a glywsom drwy gydol y dystiolaeth oedd pa mor effeithiol oedd y strwythurau hyn wrth ymateb i'r pandemig.* Ar ben hynny, tynnwyd sylw at dystiolaeth Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru – *Roedd CGGC yn cydnabod 'cynllun unigryw'r trydydd sector...a seilwaith trydydd sector unigryw' yng Nghymru, a bod hyn wedi arwain at 'syniadau lleol, atebion lleol i broblemau lleol' a oedd yn aml y 'cyflymaf a'r mwyaf effeithiol' yn ystod wythnosau cynnar y pandemig.*

12.6 Roedd tystiolaeth gan Sefydliad Ymchwil Cymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru a roddwyd i'r pwyllgor yn amlygu'r canlynol:

Er bod Llywodraethau Cymru, yr Alban, Gogledd Iwerddon a San Steffan i gyd wedi cydnabod arwyddocâd y sector gwirfoddol a chymunedol wrth ymateb i argyfwng y coronafeirws, mae gwahaniaethau yn eu sefyllfa o ran y sector a sut maent yn rhoi eu cymorth ar waith. Mae'r sefyllfa yng Nghymru yn nodedig am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda systemau sefydliadol presennol a thrwyddynt. I ategu adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (2006), mae Llywodraethau olynol Cymru wedi buddsoddi yn y trydydd sector ac wedi cefnogi trefniadau ar gyfer cydweithio. Mae'n werth nodi bod Llywodraeth Cymru, drwy'r pandemig, wedi parhau i weithio drwy'r strwythurau presennol hyn, gan eu cryfhau ond nid eu disodli.

Llywodraeth Cymru

**Tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru – Yr
Wybodaeth Ddiweddaraf am Ddyheadau Llywodraeth Cymru ar gyfer Datganoli
Pellach**

Dyddiad: Medi 2022

Y cefndir

1. Nodir safbwynt cyffredinol Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r setliad datganoli yn *Diwygio ein Hundeb*.¹ Ein barn ni yw y dylai pwerau'r deddfwrfeydd a'r llywodraethau yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon fod wedi'u seilio ar gyfres gydlynus o gyfrifoldebau a bennir yn unol â'r egwyddor o sybsidiaredd.
2. Yn hytrach nag ystyried y cysyniad, sydd ychydig yn hen ffasiwn erbyn hyn, o'r hyn y dylid ei "ddatganoli", penderfynu pa bwerau y mae'n synhwyrol iddynt gael eu harfer gan Lywodraeth Cymru a Senedd Cymru ('y Senedd'), a pha bwerau sydd eu *hangen* arnynt er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i ddinasyddion Cymru, ddylai fod y man cychwyn.
3. Nid yw setliadau datganoli'r Deyrnas Unedig wedi'u sefydlu ar y sail hon ar hyn o bryd. Yng Nghymru, yn enwedig, y sefyllfa a fodolai eisoes oedd y man cychwyn, a ddilynwyd gan gyfres o gyfaddawdau gwleidyddol. O ganlyniad, mae llywodraethu yng Nghymru, yn rhyfeddol iawn, yn dal i gael ei ddylanwadu'n drwm gan ddigwyddiadau a gafwyd oddeutu 500 mlynedd yn ôl (y Deddfau 'Cyfreithiau yng Nghymru'), ac oddeutu 50 mlynedd yn ôl (creu a datblygu'r hen Swyddfa Gymreig)². O ganlyniad, datblygwyd setliadau anghymesur ac, yn achos Cymru, cafodd llawer mwy o faterion eu cadw'n ôl ar gyfer Senedd y DU. Mae pwerau'r Senedd a'r Gweinidogion, felly, yn anghyflawn ac yn anghydlynus.
4. Dylid ystyried y papur yng nghyd-destun camau diweddar gan Lywodraeth y DU i danseilio'r setliadau datganoli neu i ymwthio iddynt – er enghraifft, goblygiadau Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 ac, yn benodol, y pwerau cymorth ariannol a roddodd Llywodraeth y DU iddi ei hun o fewn y Ddeddf honno i wario arian ar draws amryw o feysydd datganoledig.
5. O'r herwydd, dylid ystyried y papur hwn hefyd ochr yn ochr â'r papur tystiolaeth sy'n ymdrin â'r broses ar gyfer sicrhau newid cyfansoddiadol. Yn benodol, mae'n hanfodol sicrhau bod y setliad datganoli yn datblygu mewn ffordd strategol a chynaliadwy, yn hytrach na thrwy fentrau tameidiog, a'i fod yn cael ei amddiffyn rhag cael ei danseilio gan weithredoedd Llywodraeth y DU yn y dyfodol. Dylid hefyd edrych ar y papur hwn ochr yn ochr â'r papurau tystiolaeth ar gyfyngiadau cyfreithiol a chyfyngiadau ariannol sy'n ymwneud â'r setliad presennol (papurau 2 a 4, yn y drefn honno).

¹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2021/6/2/1624957244/diwygio-ein-hundeb-cydlywodraethu-yn-y-du-ail-olygiad.pdf>

² Gweler tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-06/Submission-from-welsh-government-cy.pdf>
Tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder (llyw.cymru)

Trosolwg

6. Mae bylchau, diffygion ac anghysondebau sy'n hysbys i'w cael ar draws setliad datganoli Cymru.
7. Barn Llywodraeth Cymru, y mae wedi ei harddel ers cryn amser, yw bod angen pwerau pellach ar gyfer Llywodraeth Cymru a'r Senedd fel y gellir darparu polisiau a chyfreithiau cynhwysfawr a chydgyssylltiedig sy'n ymdrin â'r problemau rydym yn eu hwynebu yng Nghymru. Ac mae hynny'n hanfodol er mwyn gwella bywydau pobl ar draws Cymru. Yn bennaf oll, rhaid cael dyraniad teg o gyllid i gyd-fynd â chyfrifoldebau pellach am faterion newydd.
8. Y diffyg mwyaf, a'r un mwyaf cydnabyddedig, o ran llywodraethu Cymru – sy'n wahaniaeth allweddol o'i gymharu â setliadau'r Alban a Gogledd Iwerddon – yw'r diffyg yng nghyswllt cyfiawnder a phlisma. Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, sy'n gomisiwn annibynnol o dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgiedd, oedd yr archwiliad mwyaf erioed o gyflwr y system gyfiawnder yng Nghymru. Roedd yn seiliedig ar dystiolaeth ysgrifenedig gan fwy na 200 o unigolion a sefydliadau, a dros 150 o sesiynau tystiolaeth lafar ar draws holl sbectrwm y system gyfiawnder. Yn ei adroddiad yn 2019, argymhellodd y Comisiwn yn unfrydol y dylai polisi cyfiawnder gael ei bennu a'i gyflawni yng Nghymru. Roedd dau brif reswm am hynny: yn gyntaf, er mwyn gwella'r system, ac, yn ail, i sicrhau bod modd cysoni â datblygiad polisiau a gwasanaethau penodol cysylltiedig y mae sefydliadau Cymru yn gyfrifol amdanynt eisoes.
9. Rydym wedi dadlau ers tro, gan gynnwys yn *Diwygio Ein Hundeb*, y dylai deddfwrfa sy'n atebol i diriogaeth benodol fod yn gyfrifol am blisma ac am weinyddu cyfiawnder o fewn y diriogaeth honno, a hynny fel mater o egwyddor gyfansoddiadol. Mae awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân hefyd yn elfen gynhenid o drefniadau o'r fath. Y tu hwnt i hyn, dangosodd canfyddiadau'r Comisiwn ar Gyfiawnder (Comisiwn Thomas) fod y ffaith bod gwaith yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder yn cael ei reoli gan ddeddfwrfa wahanol i wasanaethau cyhoeddus eraill Cymru nid yn unig yn anghywir o ran egwyddor, ond yn gallu tanseilio effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny a'r system gyfiawnder yng Nghymru. Mae rhagor o fanylion ynglŷn â pham y mae'n glir inni y dylai cyfiawnder a phlisma fod yn gyfrifoldebau'r Senedd a Llywodraeth Cymru, a'r camau rydym yn eu cymryd i fynd ar drywydd hyn, wedi'u nodi yn *Sicrhau Cyfiawnder i Gymru*,³ a gyhoeddwyd gennym ym mis Mai 2022.
10. Mae'r cyfrifoldeb am y system gyfiawnder, sef y prif wahaniaeth rhwng y systemau llywodraethu yng Nghymru a'r Alban, yn ymwneud ag ystod eang o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys nid yn unig cyfraith trosedd, y llysoedd, yr heddlu, carchardai a gwasanaethau prawf, ond hefyd faterion cysylltiedig fel y drefn gyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gwasanaethau

³ <https://llyw.cymru/sicrhau-cyfiawnder-i-gymru>

crwneriaid, argaeledd cymorth cyfreithiol, ac achosion sy'n ymwneud â gofalu am blant.

11. Mae amryw o feysydd polisi eang eraill y mae Llywodraeth Cymru yn credu bod achos cryf dros eu datganoli ymhellach yn sylweddol. Roedd llawer o'r meysydd hyn i'w gweld yng nghyfnodau gwaith Comisiwn Silk ac wedi hynny mewn gwaith i ddatblygu cynnwys yr hyn a ddaeth yn Ddeddf Cymru 2017, yn ogystal ag yn y drafodaeth gyhoeddus barhaus. Mae'r enghreifftiau o feysydd polisi eang y mae elfennau penodol ohonynt wedi bod yn rhan o drafodaethau blaenorol neu ddiweddar ar ddatganoli yn cynnwys:
 - trethiant (lle mae'n werth ystyried y sefyllfa o ran y dreth ar dir gwag, fel enghraifft o ddiffygion yn y setliad presennol)
 - ynni (ac, yn gysylltiedig â hyn, Ystad y Goron)
 - pwerau gweinyddol mewn perthynas â lles (yng nghyd-destun y cyfleoedd posibl y gallai hyn eu creu i gysylltu'r trefniadau datganoledig a'r rhai a gedwir yn ôl o ran cymorth ar gyfer aelwydydd agored i niwed, sy'n gynyddol bwysig yng nghyd-destun yr argyfwng costau byw)
 - trafnidiaeth (a hynny'n benodol mewn perthynas â rheilffyrdd, ac agweddau ar borthladdoedd)
 - darlledu a thelathrebu
 - cydraddoldebau
12. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru am gyfyngu ar ystyriaethau'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru o feysydd i'w datganoli yn y dyfodol. Yn y cyd-destun hwn, nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu pennu na chyflwyno rhestr gynhwysfawr o feysydd posibl ar gyfer datganoli pellach.
13. Serch hynny, mae'n briodol tynnu sylw'r Comisiwn at [Raglen Lywodraethu](#) Llywodraeth Cymru a'r [Cytundeb Cydweithio](#) â Phlaid Cymru, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd ar drywydd datganoli pellach mewn sawl maes.

Llywodraeth Cymru

**Tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru – Y
Broses ar gyfer Sicrhau Newid Cyfansoddiadol**

Dyddiad: Medi 2022

1. Gwaith y Comisiwn yw ystyried a datblygu opsiynau i ddiwygio'n sylfaenol strwythurau cyfansoddiadol y Deyrnas Unedig, y mae Cymru yn parhau'n rhan annatod ohoni, a datblygu'r holl brif opsiynau blaengar i gryfhau democratiaeth Cymru a sicrhau gwelliannau i bobl Cymru. Rydym yn edrych ymlaen at ganlyniad eich ystyriaethau ac yn gobeithio y gall yr argymhellion y byddwch yn eu gwneud ein helpu i sbarduno'r newid sydd ei angen i gyflawni'r gwelliannau hynny.
2. Yn gyfreithiol, mater a gedwir yn ôl i raddau helaeth yw cyfansoddiad y Deyrnas Unedig. Ac eithrio aelodaeth Senedd Cymru ('y Senedd'), ei threfniadau etholiadol, a'i gweithrediad, a'r trefniadau sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau Gweinidogion Cymru, mae'n debyg y byddai angen cytundeb Llywodraeth a Senedd y DU, neu yn wir gamau gweithredu ganddynt, er mwyn gwireddu mwyafrif yr opsiynau ar gyfer newid cyfansoddiadol.
3. Mewn unrhyw achos o ymestyn cymhwysedd y Senedd, byddai angen Deddf gan Senedd y DU neu Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor o dan Adran 109 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn yr un modd, byddai angen i Lywodraeth y DU wneud Gorchymyn o dan Adran 58 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, neu i swyddogaethau newydd gael eu rhoi drwy Ddeddf gan Senedd y DU, er mwyn trosglwyddo swyddogaethau o Weinidogion y DU i Weinidogion Cymru.
4. Ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym 1999 (Deddf Llywodraeth Cymru 1998), mae diwygiadau mawr i setliad datganoli Cymru, i raddau helaeth, wedi dilyn a gweithredu cynigion a oedd yn deillio o gomisiynau a sefydlwyd i ystyried datganoli pellach. Mae hyn yn arwydd o ba mor rymus y gall dadansoddiadau annibynnol o'r fath fod, a'u potensial i ysgogi newid. Pan ystyriwyd y byddai angen mandad etholiadol er mwyn diwygio, bu cynigion hefyd yn destun ymrwymadau maniffestos etholiadau cyffredinol.
5. Felly, gweithredodd Deddf Llywodraeth Cymru 2006 argymhellion a wnaed gan Gomisiwn Richard, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2002 ac a gwblhaodd ei adroddiad yn 2004. Cafodd ymrwymadau i ddeddfu i weithredu cynigion a wnaed gan Gomisiwn Richard eu cynnwys ym maniffestos Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a Phlaid Cymru ar gyfer etholiad cyffredinol 2005.
6. Yn yr un modd, gweithredodd Deddfau Cymru 2014 a 2017 argymhellion a wnaed gan Gomisiwn Silk, a sefydlwyd gan Lywodraeth Glymblaid Geidwadol/Ddemocrataidd Ryddfrydol y DU yn 2011. Cafodd cynigion ar gyfer datganoli pwerau cyllidol a wnaed yn adroddiad cyntaf y Comisiwn eu gweithredu yn Neddf Cymru 2014. Cafodd cynigion ar gyfer datganoli pwerau pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol a oedd yn deillio o ail adroddiad y Comisiwn eu gweithredu gan Ddeddf Cymru 2017. Cafodd ymrwymadau i weithredu'r cynigion eu cynnwys ym maniffestos y Ceidwadwyr, Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol.
7. Yn achos rhai cynigion sy'n ymwneud ag egwyddor gyfansoddiadol o bwys, fel datganoli yn y lle cyntaf a symud at bwerau deddfu sylfaenol, bu'n ofynnol cynnal refferendwm er mwyn sicrhau bod digon o gefnogaeth ymysg y cyhoedd. Mae Deddf Cymru 2017 wedi ymgorffori yn y gyfraith yr egwyddor y byddai angen refferendwm i ddiddymu datganoli. Yn *Diwygio ein Hundeb*, nodwyd ein

disgwyliad y dylai cynigion ar gyfer unrhyw refferendwm ar annibyniaeth gael eu rhagflaenu gan fandad etholiadol.

8. Yn *Diwygio ein Hundeb*, nodwyd hefyd ein bod yn credu y '**[d]ylid ystyried datblygiadau cyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol ar sail holistaidd ac ar sail egwyddor gyfansoddiadol, yn hytrach na thrwy ddiwygio setliadau cyfansoddiadol penodol mewn modd *ad hoc*. Dylid gwneud hyn drwy gonfensiwn cyfansoddiadol. Rhaid i Lywodraeth Cymru a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill gael eu sedd wrth fwrdd y confensiwn, a chael y cyfle i gyflwyno eu dyheadau cyfansoddiadol penodol, a fydd yn cael eu llywio gan ddatblygiadau arfaethedig mewn manau eraill yn y DU. Dylid trefnu hefyd fod dinasyddion ledled y DU yn gallu cyfrannu at unrhyw gonfensiwn'** (Cynnig 20). Nodwyd yn ogystal y dylai'r achos dros gyfansoddiad ysgrifenedig fod yn rhan o drafodaethau'r confensiwn.
9. Yn y papur ar ein dyheadau ar gyfer datganoli pellach, nodwyd y materion hynny y credwn y dylai'r Senedd allu deddfu arnynt, ac y dylai Gweinidogion Cymru allu arfer swyddogaethau ynddynt. Mewn sawl maes, ceir mandad etholiadol clir eisoes dros ddiwygio – cafodd pleidiau a oedd yn dadlau o blaid datganoli plismona a chyfiawnder yn eu manifestos ar gyfer etholiad 2021 y Senedd dros 60% o'r bleidlais, gan ennill mwy na dwy ran o dair o'r seddi. Yn yr amgylchiadau hynny, credwn y gallai ymestyn datganoli i feysydd pwnc perthnasol gael ei fandadu'n briodol drwy gymeradwyaeth y Senedd a Senedd y DU.
10. Er ein bod yn parhau i bwysu am ddatganoli pwerau yn y meysydd hynny ac mewn eraill, mae'r ffaith ei bod yn ymddangos nad yw Llywodraeth bresennol y DU yn hoff o'r setliad datganoli, ynghyd â'i chynigion i wanhau'r Ddeddf Hawliau Dynol, a'r dirmyg a ddangoswyd ganddi tuag at Gonfensiwn Sewel a chonfensiynau cyfansoddiadol sefydledig eraill, yn gwneud yr achos dros ddiwygio cyfansoddiadol holistaidd, ledled y DU, yn fwy cymhellgar nag erioed. Mae'r drafodaeth ynghylch dyfodol y cyfansoddiad ar gynnydd. Nodwn yn benodol yr adolygiad o gyfansoddiad y DU sy'n cael ei gynnal ar y cyd gan Institute for Government a Sefydliad Bennett ar gyfer Polisi Cyhoeddus, a chomisiwn cyfansoddiadol Plaid Lafur y DU, sy'n ystyried y DU gyfan.
11. Byddai mynd ar drywydd diwygiadau cyfansoddiadol ledled y DU yn gofyn am fandad etholiadol. Rhaid i etholiad nesaf Senedd y DU gael ei gynnal erbyn diwedd 2024. O ystyried bod rhaid i'r Comisiwn gwblhau ei adroddiad erbyn diwedd 2023, oni bai bod yr etholiad yn digwydd cyn hynny, byddai'n bosibl i argymhellion y Comisiwn gael eu cynnwys ym manifestos y pleidiau ar gyfer yr etholiad hwnnw. Gyda hynny mewn golwg, gobeithiwn y bydd y pleidiau gwleidyddol yn nodi gwaith y Comisiwn a'i ganfyddiadau wrth iddynt lunio eu manifestos ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf.
12. Pan fo'r Comisiwn yn gwneud argymhellion sydd o fewn cwmpas pwerau gweithredu'r Senedd a Gweinidogion Cymru, edrychwn ymlaen at gael yr argymhellion hynny a byddwn, o'n rhan ni, yn eu hystyried o ddifrif ac yn ymateb maes o law. Fel y dangoswyd wrth gyhoeddi *Diwygio ein Hundeb*, mae Llywodraeth Cymru bob amser wedi bod yn awyddus i ysgogi deialog ynghylch

dyfodol cyfansoddiadol y DU, a bydd yn cymryd rhan ragweithiol mewn unrhyw drafodaethau rhynglywodraethol.

Llywodraeth Cymru

Tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru – Yr wybodaeth ddiweddaraf am safbwynt Llywodraeth Cymru ar gysylltiadau rhynglywodraethol

Dyddiad: Medi 2022

Cynnwys

- 1. Cyflwyniad** **tudalen 3**
- 2. Pa mor arwyddocaol yw'r diwygiadau diweddaraf?** **tudalen 3**
- 3. Pa mor hyderus yw Llywodraeth Cymru y bydd diwygiadau ym mes cysylltiadau rhynglywodraethol yn cael eu gwireddu, o ran eu hysbryd ac yn ymarferol? tudalen 5**
- 4. A fydd penderfyniadau ar y cyd, ac ym mha feysydd?** **tudalen 7**

1. Cyflwyniad

- 1.1. Ar ddechrau 2019, cymeradwyodd Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru [gytundeb cysylltiadau rhyngsefydliadol](#). Mae'r cytundeb yn cynnwys y prif ymrwymïadau canlynol:
 - rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Senedd Cymru am gysylltiadau rhynglywodraethol ffurfiol, gan gynnwys fforymau gweinidogol; a chyfarfodydd ffurfiol a rhynglywodraethol ar lefel weinidogol, concordatiau, cytundebau a memoranda cyd-ddealltwriaeth
 - darparu adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r gwaith ym maes cysylltiadau rhynglywodraethol a wnaed yn ystod y flwyddyn
- 1.2. Mae ymadawiad y DU o'r UE wedi cael effaith sylweddol ar gysylltiadau rhynglywodraethol. Roedd y cyfarfodydd rheolaidd a sefydlwyd i gydlynu safbwyntiau'r DU gyfan ar faterion yr UE (roedd llawer o'r rhai mwyaf arwyddocaol mewn meysydd pwnc datganoledig, fel amaethyddiaeth, yr amgylchedd a chyllid rhanbarthol) – cyfarfodydd fel Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Ewrop – yn methu ac nid oeddent yn cael eu disodli'n uniongyrchol. Roedd hyn yn gadael gwagle a oedd yn tanseilio gwaith rhynglywodraethol effeithiol.
- 1.3. Yn dilyn blynyddoedd o waith dwys gan Weinidogion a swyddogion yn ystod yr Adolygiad ar y cyd o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, cytunodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau a ddaeth i'r amlwg o'r Adolygiad fel sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol. Rydym yn gobeithio y bydd y trefniadau hyn yn sail i ymgysylltu systematig a rheolaidd yn y dyfodol.
- 1.4. Cyhoeddwyd y pecyn ym mis Ionawr 2022 ac mae ar gael yma: [Review of intergovernmental relations - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

2. Pa mor arwyddocaol yw'r diwygiadau diweddaraf?

- 2.1. Mae gan ganlyniad yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ("yr Adolygiad") gryn botensial i wella'r cyfathrebu a'r cydweithio rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraethau Datganoledig.
- 2.2. Mewn datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd ar ôl dod i gytundeb¹, rhoddodd y Prif Weinidog grynnodeb o'r datblygiadau fel a ganlyn:

Yn dilyn blynyddoedd o waith dwys gan Weinidogion a swyddogion yn ystod yr Adolygiad ar y cyd o Gysylltiadau Rhynglywodraethol, cytunodd Llywodraeth Cymru, ynghyd â Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, i ddefnyddio'r pecyn o ddiwygiadau

a ddaeth i'r amlwg o'r Adolygiad fel sail ar gyfer cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol.....

Mae'r pecyn yn gwneud cynnydd pwysig wrth ddatblygu'r amcanion a amlinellodd Llywodraeth Cymru yn y dogfennau polisi, 'Brexit a Datganoli' a 'Diwygio ein Hundeb', ac o ganlyniad mae'n ddatblygiad i'w groesawu a all ddod â buddion i bob un o'r pedair llywodraeth a'r pedair gwlad.....

Yn gyffredinol, mae gan y pecyn y potensial i sicrhau gwelliannau sylweddol, os caiff yr ysbryd a'r cynnwys fel y'u hamlinellir yn y pecyn eu trosi'n ddulliau a chamau gweithredu cyson, yn seiliedig ar gyfranogiad a pharch cydradd, a dyhead i ddod i gytundeb drwy drafodaeth (ac yn wir, cyfaddawd) nid gorfodaeth. Mae gan bob un o'r pedair llywodraeth gyfrifoldeb i gadw at yr egwyddorion hyn.

2.3. Mae gan sefydlogrwydd y trefniadau hyn y potensial i leddfu, i ryw raddau, pa mor fregus yw cysylltiadau rhynglywodraethol a achosir gan newidiadau Gweinidogol rheolaidd yn Llywodraeth y DU. Cychwynnodd yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol pan oedd Theresa May yn Brif Weinidog; daeth i ben yn hwyr yn ystod cyfnod Boris Johnson; a bydd yn awr yn disgyn ar y Prif Weinidog Lizz Truss a'i Chabinet newydd i'w symud ymlaen o ochr Llywodraeth y DU. Mae'r cynnwrf yn Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn anodd ffurfio perthnasoedd tymor hir effeithiol, ac mae dibynnu ar ba mor rhagweithiol yw Gweinidogion y DU, yn hytrach na pheiriant ehangach Llywodraeth y DU, wedi tanseilio hyder mewn cynnydd. Mae gan y mecanweithiau sydd gennym yn awr y potensial i ddarparu mwy o ddilyniant.

2.4. Ar 14 Mawrth 2022, ymddangosodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad gerbron y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a rhoddodd ei farn am ganlyniad yr Adolygiad:

... roedd yn adolygiad a oedd yn seiliedig ar waith a gomisiynwyd ryw ddwy neu dair blynedd yn ôl. Yn fy marn i, roedd yn gam cyfansoddiadol pwysig ymlaen. Mae ganddo wendid sylfaenol. Y prif wendid yw nad oes ganddo unrhyw statws cyfansoddiadol cyfreithiol, felly mae'n dal i fod yn seiliedig i raddau helaeth ar gonfensiwn. Ond rwy'n meddwl bod y cynnwys yn gadarnhaol.

Mae'n gosod fframwaith sy'n seiliedig ar barch a chydweithrediad rhwng pedair llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n gosod fframwaith ar gyfer cydweithredu rhwng gweinidogion. Yn benodol, mae'n cyflwyno cyfarfod i'w gadeirio gan y Prif Weinidog gyda phenaethiaid Llywodraeth pedair gwlad y DU. Ac, yn bwysig iawn, mae'n darparu trefniadau datrys anghydfod."

2.5. Mae trawsgrifiad llawn y cyfarfod hwn ar gael yma: [Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad 14/03/2022 - Senedd Cymru \(senedd.cymru\)](#)

- 2.6. Ers i'r adolygiad gael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2022, mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a phob pwyllgor perthnasol arall o Senedd Cymru, am ddatblygiadau sy'n ymwneud â chysylltiadau rhwynglywodraethol a'i drefniadau.

Mae llythyrau perthnasol ar gael yma: [Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol \(senedd.cymru\)](#)

3. Pa mor hyderus yw Llywodraeth Cymru y bydd diwygiadau ym maes cysylltiadau rhynglywodraethol yn cael eu gwireddu, o ran eu hysbryd ac yn ymarferol?

- 3.1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 14 Mawrth (gweler y ddolen i'r trawsgrifiad llawn ym mharagraff 2.4, uchod), crynhodd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad her allweddol o ran cyflawni, ac ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r gwaith:

Nawr, bydd gwir brawf llwyddiant hyn i gyd yn dibynnu ar sut mae'n gweithio'n ymarferol, gan gofio'r hyn a ddywedais ar y dechrau am beidio â chael statws datganoli traddodadwy na chyfansoddiadol.

Serch hynny, rwy'n credu ei fod yn seiliedig ar egwyddorion sydd wedi cael eu datblygu gan Lywodraeth Cymru, y Prif Weinidog, a'r Prif Weinidog blaenorol. Fel Llywodraeth Cymru, mae gennym bob bwriad o wneud ein gorau i sicrhau ei fod yn gweithio, oherwydd mae hynny er lles y Deyrnas Unedig ar y cyd, ond hefyd er budd penodol Cymru ei hun yn fy marn i.

- 3.2. Mae llawer o'r trefniadau rhynglywodraethol y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Adolygiad ar waith eisoes; mewn meysydd eraill, maent yn datblygu. Yn unol â'r Cytundeb, mae 11 o grwpiau rhyngweinidogol wedi'u sefydlu; mae chwech wrthi'n cael eu sefydlu ac mewn tri maes arall mae opsiynau'n cael eu hystyried ar gyfer sefydlu grŵp rhyngweinidogol yn ffurfiol. Mae cyfanswm o 20 o gyfarfodydd grwpiau rhyngweinidogol wedi'u cynnal ar draws pob maes. Mae'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol wedi cyfarfod ddwywaith. Mae'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid hefyd wedi cwrdd ddwywaith. Mae gwybodaeth gefndirol gyhoeddedig am y rhain ar gael yma: [Communiqués from the Interministerial Standing Committee - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) a [Communiqués from the Finance: Interministerial Standing Committee - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#).
- 3.3. Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU yr Adroddiad Chwarterol cyntaf ar gyfer 2022 ar waith rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a hynny am y cyfnod rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mawrth 2022.
- 3.4. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos am y gwahanol feysydd polisi, ac mae ar gael yma: [Intergovernmental Relations Quarterly Report Quarter 1 2022 \(publishing.service.gov.uk\)](#)
- 3.5. Hwn oedd y cyfnod adrodd cyntaf ers cyhoeddi'r Adolygiad o Gysylltiadau

Rhynglywodraethol, pan fu Llywodraeth Cymru yn rhan o gyfanswm o 61 o gyfarfodydd rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.

- 3.6. Ym mis Awst 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ail Adroddiad Chwarterol ar gyfer 2022 ar waith rhynglywodraethol rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, a hynny am y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mehefin 2022.
- 3.7. Yn ystod y cyfnod hwn, bu Llywodraeth Cymru yn rhan o gyfanswm o 26 o gyfarfodydd rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth yr Alban, a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.
- 3.8. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos am y gwahanol feysydd polisi, ac mae ar gael yma: [Intergovernmental relations quarterly report: Quarter 2 2022 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/quarterly-reports/intergovernmental-relations-quarterly-report-quarter-2-2022).
- 3.9. Er y gall yr ystadegau hyn fod o gymorth, nid yw gwerth y trefniadau rhynglywodraethol newydd yn seiliedig, wrth gwrs, ar nifer y cyfarfodydd a gynhelir. Gwir brawf llwyddiant fydd a yw'r strwythurau'n cael eu defnyddio i ddarparu fforwm ar gyfer cydweithio gwirioneddol, ymgysylltu agored, trafod gonest a rhannu gwybodaeth. Bu'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol eisoes yn fforwm defnyddiol ar gyfer gwyntyllu pryderon, pan fyddant yn codi. Yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar 29 Mehefin 2022, nododd y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad y materion y bu modd iddo eu crybwyll yn y cyfarfod yng nghyswllt deddfwriaeth:

“Mewn perthynas â'r eitem ar yr agenda ar raglen ddeddfwriaethol bresennol y DU, cafodd y cynnydd cadarnhaol a wnaed at gytuno ar ddulliau gweithio ac ymgysylltu gwell eu croesawu gennym. Er gwaethaf hynny, tynnais sylw unwaith eto at achosion annerbyniol yn y gorffennol o dorri Confensiwn Sewel ac ymgysylltu annerbyniol ar ran Llywodraeth y DU ar nifer o Filiau sy'n perthyn i'r rhaglen ddeddfwriaethol bresennol. Roedd y rhain yn cynnwys Bil Protocol Gogledd Iwerddon, y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio a'r Bil Hawliau. Wrth wneud hynny, pwysleisiais pa mor bwysig yw ymgysylltu'n gynnar ar Filiau'r DU yn y dyfodol a galwais am sicrwydd gan Lywodraeth y DU y byddent yn parhau Confensiwn Sewel.”

- 3.10. Mae'r Datganiad Ysgrifenedig llawn ar gael yma: [Datganiad Ysgrifenedig: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol \(12 Gorffennaf 2022\) | LLYW.CYMRU](https://www.gov.uk/government/consultations/intergovernmental-relations-quarterly-report-quarter-2-2022)

- 3.11. Nododd y cyd-hysbysiad dilynol:

Roedd y Pwyllgor wedi trafod rhaglen ddeddfwriaethol bresennol Senedd y DU ac wedi dilyn a datblygu'r drafodaeth ar ddulliau gweithredu ar gyfer deddfwriaeth y DU a ffyrdd o weithio, gan dynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu cynnar.

- 3.12. Mae'r hysbysiad llawn ar gael yma: [Interministerial Standing Committee Communiqué: 29 June 2022 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/interministerial-standing-committee-communique-29-june-2022)

- 3.13. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i gefnogi'r gwaith o roi'r Cytundeb ar yr Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol ar waith yn llwyr a chadw ato.

Bydd llwyddiant hirdymor y Cytundeb yn ddibynnol ar ymrwymiad tebyg gan bawb sy'n rhan o'r gwaith.

4. A fydd penderfyniadau ar y cyd, ac ym mha feysydd?

- 4.1. Fel y nodwyd uchod, mae'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau ar y cyd ac o gydgyssylltu ar draws Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig.
- 4.2. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys ymgysylltu ar bortffolios. Bydd pob llywodraeth yn ymrwmo i ymgysylltu'n rheolaidd ar lefel portffolio ar feysydd sydd o ddiddordeb cyffredin iddynt. Dylai'r ymgysylltu hwn ddigwydd yn ffurfiol mewn grwpiau rhyngweinidogol, y disgwylir iddynt gwmpasu nifer o feysydd polisi. Byddant yn anelu at gwrdd yn rheolaidd, ar sail bedairochrog, yn ôl cylch gorchwyl sefydledig. Bwriad y trefniadau a sefydlwyd, ymhlith pethau eraill, yw hwyluso cydweithio a chytuno ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin. Bydd unrhyw benderfyniadau rhynglywodraethol yn cael eu gwneud ar sail consensws – ni fydd dull o weithredu ar y cyd yn cael ei fabwysiadu mewn achos o ddiffyg consensws.
- 4.3. Mae'r broses o ddatrys anghydfod a amlinellir fel rhan o'r Adolygiad yn cynnig llwybr ffurfiol i bob Llywodraeth fynegi anghytundeb:

Bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn ceisio cynnal cysylltiadau cadarnhaol ac adeiladol ar sail parch at gyfrifoldebau Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig a'u rôl ar y cyd i lywodraethu'r DU.

Mae pob llywodraeth wedi ymrwmo i hyrwyddo cydweithio ac osgoi anghytundebau, a hwylusir gan y trefniadau rhynglywodraethol newydd lle bydd trafodaethau'n cael eu cynnal ar y lefel isaf bosibl. Ni fydd uwchgyfeirio anghytundeb rhwng llywodraethau fel anghydfod yn cael ei ystyried oni bai ei fod yn angenrheidiol a bod ystyriaeth lawn wedi'i rhoi ar lefel portffolio. Yn y cyd-destun hwn, dylid ystyried y model canlynol fel rhan o system lawer ehangach o gysylltiadau rhynglywodraethol gweithredol a rheoli anghydfodau, ac fel y proses olaf.

- 4.4. Mae'r manylion llawn ar gael yma: [Review of intergovernmental relations - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)
- 4.5. I gloi, mae cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud wrth weithredu ers cyhoeddi'r Adolygiad o Gysylltiadau Rhynglywodraethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwmo o hyd i sicrhau bod y diwygiadau hyn yn cael eu trosi'n arferion bob dydd – byddwn yn pwysu ar bawb sy'n ymwneud â'r gwaith i ddangos ymrwymiad tebyg.

Llywodraeth Cymru

**Tystiolaeth i'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol
Cymru – Y Gronfa Ffyniant Bro a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin**

Dyddiad: Medi 2022

Cynnwys

1. Trosolwg.....	3
2. Papur Gwyn y DU ar Ffyniant Bro	3
Safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd	3
3. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin.....	4
Goblygiadau ariannol i Gymru.....	4
Datblygu a gweithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru.....	5
Safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd	7
4. Y Gronfa Ffyniant Bro	7
5. Arsylwadau annibynnol	9

1. Trosolwg

- 1.1. Mae'r papur hwn yn darparu gwybodaeth i'r Comisiwn am drefniadau cyllido ar ôl gadael yr UE drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU (UKSPF), yn ogystal â gwybodaeth am Bapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ffyniant Bro ac am y Gronfa Ffyniant Bro.
- 1.2. Yn yr achosion hyn, mae dull Llywodraeth y DU yn dileu cyllid mewn meysydd datganoledig y mae'r penderfyniad terfynol yn eu cylch wedi bod yn un i Lywodraeth Cymru a'r Senedd ei wneud ers dechrau datganoli.

2. Papur Gwyn y DU ar Ffyniant Bro

- 2.1. Rhoddodd Llywodraeth y DU lawer o sylw i Ffyniant Bro yn ei maniffesto ar gyfer etholiad cyffredinol 2019 a chyhoeddodd ei Phapur Gwyn ar Ffyniant Bro ym mis Chwefror 2022. Drwy gydol y cyfnod hwn i gyd, ni chynigiodd Llywodraeth y DU ymgysylltu'n ystyrion â'r Llywodraethau Datganoledig, na dim byd mwy na'r cwrteisi lleiaf, sef gweld drafftiau ymlaen llaw, er gwaethaf ceisiadau a chynigion mynych gan Weinidogion Cymru.
- 2.2. Mae Pwyllgor Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Senedd y DU, y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig a'r Institute for Government wedi beirniadu Llywodraeth y DU yn llym am beidio ag ymgysylltu'n strategol â Llywodraeth Cymru ynghylch Ffyniant Bro. Mae pob un yn nodi y bydd dull Llywodraeth y DU yn gwanhau potensial yr agenda Ffyniant Bro a rhaglenni buddsoddi yng Nghymru yn sylweddol. Gweler yr adran 'Arsylwadau annibynnol' ar ddiwedd y papur hwn.
- 2.3. Ym mis Mai, ar ôl cyhoeddi'r Papur Gwyn ar Ffyniant Bro, cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Ffyniant Bro ac Adfywio i Senedd y DU.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd

- 2.4. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn cynnal trafodaethau â Llywodraeth y DU ynghylch y Bil (Rhan 1), a Chynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.
- 2.5. Mae Rhan 1 o'r Bil Ffyniant Bro ac Adfywio yn nodi dyletswyddau a gofynion ar Weinidogion y DU i nodi "Cenadaethau Ffyniant Bro" ar draws 11 maes polisi, y mae rhai ohonynt yn cwmpasu'r DU gyfan er eu bod wedi'u datganoli. Nid yw'r Bil yn adlewyrchu'r dirwedd ddatganoledig, ar hyn o bryd.
- 2.6. Rydym yn pryderu hefyd am y ffordd y mae'r agenda Ffyniant Bro yn bygwth tanseilio meysydd datganoledig. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, addysg sydd wedi'i datganoli'n llwyr ar draws y DU. Mae'r gwahanol wledydd yn gweithredu yn eu ffyrdd eu hunain o ran dylunio cwricwlwm, deddfwriaeth ar

wahân, ac iaith dysgu sy'n adlewyrchu diwylliant ac anghenion ein systemau addysg ein hunain.

- 2.7. Yn yr achos hwn, rydym yn pryderu'n arbennig am gwmpas a chylch gwaith Corff Hyd Braich / academi genedlaethol newydd arfaethedig Cwricwlwm Lloegr, ac yn benodol yr hyn a nodwyd yn y Papur Gwyn ar Ffyniant Bro:

*“Yn ogystal, byddwn yn creu **Academi Genedlaethol y DU**...bydd y gwasanaeth addysg ddigidol newydd hwn yn cefnogi disgyblion o bob cefndir a phob rhan o'r DU i lwyddo ar y lefelau uchaf. Bydd Academi Genedlaethol y DU ar gael am ddim ar-lein i gefnogi gwaith ysgolion ar hyd a lled y wlad...”*

- 2.8. Nid ymgysylltwyd yn adeiladol â swyddogion Llywodraeth Cymru wrth i weithgareddau cysylltiedig â'r cynigion gael eu datblygu ac maent wedi mynegi pryderon mawr am roi label 'y DU' ar unrhyw agwedd ar gorff / academi genedlaethol newydd cwricwlwm Lloegr, o gofio bod addysg wedi'i datganoli'n llwyr ac y byddai hyn yn debygol o danseilio a dyblygu ein cyfrifoldeb datganoledig dros addysg a bygwth drysu ein hysgolion a'n dysgwyr. Gwnaeth swyddogion hi'n glir na ddylai fod unrhyw ragdybiaeth y byddai unrhyw adnoddau a grëir gan gorff newydd cwricwlwm Lloegr yn estyn i Gymru. Fodd bynnag, rydym wedi cael gohebiaeth bellach gan Adran Addysg Llywodraeth y DU yn ailadrodd ei nod i ddarparu cynnig i ddisgyblion ledled y DU a bod ei pholisi ar gyfer adnoddau o'r fath yn y camau cynnar.

3. Y Gronfa Ffyniant Gyffredin

- 3.1. Sefydlwyd y Gronfa Ffyniant Gyffredin gan Lywodraeth y DU i ddisodli cyllid yr UE o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.
- 3.2. Ymrwymodd manifesto Llywodraeth y DU yn etholiad 2019 i ddisodli ac i ddarparu o leiaf yr un lefel o gyllid â chyllid blaenorol yr UE. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi methu â chyflawni'r ymrwymiad hwn, sy'n aml yn cael ei ailadrodd, ar yr un pryd ag y mae'n diystyru'n fwriadol y setliad datganoli.

Goblygiadau ariannol i Gymru

- 3.3. Dyrannwyd £2.1 biliwn i Gymru o Gronfeydd Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd a Chronfeydd Cymdeithasol Ewropeaidd ar gyfer 2014–20. Byddai hyn wedi bod yn werth £1.404 biliwn ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025, gan ganiatáu ar gyfer chwyddiant a chyfraddau cyfnewid – yn yr un modd ag y mae Llywodraeth y DU wedi'i wneud wrth gyfrifo lefel y cyllid i'w dyrannu i Gymru o Gronfa Ffyniant Cyffredin y DU. Byddai'r cyllid hwn yn ychwanegol at y taliadau sy'n parhau i

fod yn ddyledus o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyllido prosiectau yn ystod y blynyddoedd blaenorol o dan ymrwymladau rhaglenni 2014–2020.

- 3.4. Ar 13 Ebrill 2022, cadarnhaodd Llywodraeth y DU y bydd Cymru'n cael £585 miliwn drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2025. Mae hyn yn cynnwys £101 miliwn sy'n cael ei frigdorri gan Lywodraeth y DU i gefnogi rhaglen rhifedd i oedolion o'r enw *Multiply*.
- 3.5. Ynghyd â'r £47 miliwn o gynllun peilot Cronfa Adfywio Cymunedol 2021–22, bydd Cymru yn cael £632 miliwn o arian newydd yn y cyfnod, sef diffyg o £772 miliwn. Ar ben hyn, mae Llywodraeth y DU, wrth ddarparu cyllid ar gyfer ffermydd i ddisodli cyllid yr UE, yn didynnu derbyniadau'r UE sy'n ddyledus i Gymru a oedd yn rhan o raglen Datblygu Gwledig 2014–2020. Mae hyn yn golygu bod cymunedau gwledig Cymru £243 miliwn ar eu colled na phe baem wedi aros yn yr UE. Gyda'i gilydd, mae'r golled o £243 miliwn mewn cyllid gwledig a'r diffyg o £772 miliwn yng nghronfeydd strwythurol yr UE yn dod i ychydig dros £1 biliwn. Gan gymhwyso'r un addasiad ar gyfer chwyddiant i gyllid gwledig ag i'r cronfeydd strwythurol, mae'r diffyg cyffredinol i gyllideb Cymru yn fwy nag £1.1 biliwn.
- 3.6. Mae Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ar golli cyllid i Gymru (mis Mai 2022) ar gael [yma](#).

Datblygu a gweithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yng Nghymru

- 3.7. Cafodd y Gronfa Ffyniant Gyffredin ei chyhoeddi gyntaf yn 2017. Ni chafodd Llywodraeth Cymru y cyfle i roi mewnbwn na rôl yng nghynllun peilot 2021–22 Llywodraeth y DU ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin – y Gronfa Adnewyddu Cymunedol. Dim ond yn gynnar ym mis Ebrill 2022 y cynigiwyd trafodaeth a chyd-drafodaeth ystyrlon i ni ar flaenoriaethau a strwythurau llywodraethu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, a hynny cyn cyhoeddi [prospectws](#) y Gronfa (13 Ebrill).
- 3.8. Er gwaethaf yr amserlen anymarferol hon, gwnaethom geisio creu dull partneriaeth o ymdrin â'r Gronfa a fyddai'n parchu'r setliad datganoli ac yn cyd-fynd â'r dymuniadau a fynegwyd gan bobl a sefydliadau yng Nghymru o ran sut y dylid buddsoddi a darparu cyllid ar ôl gadael yr UE – fel y'u nodwyd yn y [Fframwaith ar gyfer buddsoddi rhanbarthol yng Nghymru](#) (mis Tachwedd 2020), a gafodd ei ddatblygu gyda phartneriaid yng Nghymru a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) a'i ategu gan ymgynghoriad cyhoeddus.
- 3.9. Er y gwnaethom rywfaint o gynnydd o ran blaenoriaethau buddsoddi, ni allem ffurfio partneriaeth â Llywodraeth y DU ar sail y canlynol:

- mae'r fformiwla gyllido yn cyfeirio arian i ffwrdd o'r ardaloedd hynny y mae tlodi ar ei ddwysaf ynddynt;
 - y defnydd o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU i wneud penderfyniadau mewn meysydd datganoledig a hepgor Llywodraeth Cymru o broses dryloyw o wneud penderfyniadau ar y cyd ar y Gronfa Ffyniant Gyffredin, tra'n osgoi prosesau craffu'r Senedd;
 - y ffaith bod y pecyn cyllid i Gymru £1.1 biliwn yn llai na'r hyn y byddem wedi disgwyl ei gael drwy'r UE rhwng mis Ionawr 2021 a mis Mawrth 2025.
- 3.10. Mae'r cynllun rhifedd i oedolion, *Multiply*, sy'n rhan o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, yn dresmasiad ychwanegol i faes polisi datganoledig. Nid ymgynghorwyd â ni pan gyhoeddodd Llywodraeth y DU (mis Tachwedd 2021) y byddai'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn cefnogi *Multiply*, ac mae gennym bryderon difrifol fod y cynllun yn rhy gyfyng ac y bydd yn dyblygu ac yn gwrthdaro â darpariaeth sydd eisoes ar gael yng Nghymru.
- 3.11. Yn ogystal, er bod Llywodraeth y DU yn defnyddio'r gronfa i gefnogi ei chynlluniau ei hun ar gyfer y DU gyfan, nid oes hawl gan Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gyllido cynlluniau Cymru gyfan – er gwaethaf y ffaith bod cyllid yr UE yn cefnogi ystod o raglenni busnes a sgiliau hanfodol bwysig ledled Cymru.
- 3.12. Mae'n ofynnol i lywodraeth leol gyflwyno cynlluniau buddsoddi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin erbyn 1 Awst 2022; bydd y cynlluniau rhanbarthol hyn wedyn yn cael eu hasesu gan weision sifil y DU a bydd Gweinidogion yn yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau yn penderfynu arnynt. Fel rhan o'r cynlluniau hyn, mae Llywodraeth y DU hefyd yn ei gwneud yn ofynnol, yn benodol, i awdurdodau lleol sefydlu partneriaethau Cronfa Ffyniant Gyffredin sydd â chynrychiolaeth o sectorau amrywiol, yn ogystal ag Aelodau Seneddol y DU, ond nid yw'n ofynnol cynnwys Aelodau o Senedd Cymru.
- 3.13. Rydym o'r farn bod y ffaith bod Llywodraeth y DU yn gweithredu'r gronfa mewn maes datganoledig heb unrhyw fewnbwn gan Lywodraeth Cymru ar ei chynlluniau na'r dull o'i gweithredu, a'r ffaith mai bach iawn o ymgysylltu a wnaed â rhanddeiliaid, nid yn unig yn amhriodol yn gyfansoddiadol, ond mae hefyd yn peri dyblygu gweithgareddau, yn arwain at werth gwael am arian, ac yn creu tirwedd gyllido ddrislyd ar gyfer rhanddeiliaid.
- 3.14. Mae dull Llywodraeth y DU hefyd yn golygu y bydd penderfyniadau anodd yn wynebu Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill ar draws y sectorau busnes, addysg uwch ac addysg bellach, a'r trydydd sector sydd wedi defnyddio cronfeydd strwythurol a buddsoddi i gefnogi buddsoddiadau hanfodol ym meysydd ymchwil ac arloesi, cystadleurwydd busnesau, sgiliau, cyflogadwyedd, datgarboneiddio, cymunedau cynaliadwy, seilwaith a chysylltedd, a chefnogi pobl sy'n agored i niwed. Mae'r sectorau hyn eisoes wedi lleisio pryderon wrth Lywodraeth Cymru ynghylch y bylchau mewn cyllid maen nhw'n eu hwynebu o ganlyniad i weithredoedd Llywodraeth y DU.
- 3.15. Ar y llaw arall, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal trafodaethau cadarnhaol ac adeiladol â Llywodraeth y DU ar borthladdoedd rhydd. Rydym wedi

ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gydradd â Llywodraeth y DU i weithredu ei pholisi ar borthladdoedd rhydd yng Nghymru, ar sail bargaen deg sy'n dwyn buddion clir i'n heconomi, yn parchu'r setliad datganoli, ac yn cydfynd â'n polisïau ar waith teg a'r amgylchedd. Mae hyn yn dangos sut y gallwn gydweithio a defnyddio ein pwerau gwahanol, ein dulliau gwahanol o ddylanwadu, a'n harbenigedd gwahanol i gyflawni dros Gymru, ac mae angen cymhwys hyn i feysydd eraill, gan gynnwys y Gronfa Ffyniant Gyffredin.

Safbwynt Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd

- 3.16. Ar 1 Mehefin 2022, ysgrifennodd Gweinidog yr Economi at Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol blaenorol dros Ffyniant Bro, i gadarnhau na allem gefnogi dull Llywodraeth y DU o ymdrin â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin na defnyddio ein hadnoddau i weithredu'r Gronfa, ond bod ein drws yn parhau i fod ar agor i weithio gyda nhw. Byddai hyn yn golygu bod angen i ni ddod i gytundeb ar gyllid newydd llawn i Gymru a chael dull o wneud penderfyniadau sy'n wirioneddol ar y cyd. Rydym yn dal i aros am ymateb gan Lywodraeth y DU. Mae Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn ar gael [yma](#).
- 3.17. Ysgrifennodd Gweinidog yr Economi (14 Mehefin 2022) at arweinwyr llywodraeth leol i gynnig cymorth Llywodraeth Cymru iddynt o ran datblygu eu cynlluniau buddsoddi ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU erbyn 1 Awst, hwyluso cydweithredu â sectorau eraill a sicrhau bod Cymru'n cael canlyniadau gwell o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin drwy osgoi dyblygu gwaith a sicrhau alinio â'r Rhaglen Lywodraethu, strategaethau rhanbarthol presennol a pholisïau datganoledig.
- 3.18. Mewn perthynas â *Multiply*, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi codi pryderon (mis Gorffennaf 2022) gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ffurfiol. Mae Adran Addysg y DU wedi oedi datblygu'r platfform cenedlaethol nes ar ôl cyfnod yr haf, wrth iddi ganolbwyntio ei hadnoddau ei hun ar asesu cynlluniau buddsoddi'r Gronfa Ffyniant Gyffredin a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Adran Addysg i geisio sicrhau bod y cynllun *Multiply* yn fwy hyblyg a'i fod yn ategu gwasanaethau.

4. Y Gronfa Ffyniant Bro

- 4.1 Mae Cronfa Ffyniant Bro y DU yn faes arall lle mae Llywodraeth y DU yn defnyddio Deddf Marchnad Fewnol y DU i wneud penderfyniadau gwario ynghylch meysydd datganoledig ac yn osgoi Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Nid yw'r Gronfa Ffyniant Bro yn disodli cyllid yr UE yn uniongyrchol, ond mae'n gweithredu yn y bwlch y mae cyllid yr UE wedi'i lenwi yn flaenorol.
- 4.2 Mae'r Gronfa Ffyniant Bro yn disodli Cronfa Trefi Lloegr (England Towns Fund). Cafodd ei chyhoeddi yn ystod Adolygiad o Wariant y DU ym mis Tachwedd 2020 fel mesur Lloegr y byddai Llywodraeth Cymru yn cael swm

canlyniadol o dan fformiwla Barnett oddi wrthi. Fodd bynnag, ym mis Chwefror 2021, cadarnhaodd Llywodraeth y DU, heb ymgynghori na chyfathrebu ymlaen llaw, y byddai'n gweithredu'r Gronfa Ffyniant Bro ar draws y DU gyfan. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o'r broses o'i datblygu na'i gweithredu.

4.3 Lansiodd y rownd gyllido gyntaf ym mis Mawrth 2021, a chafodd yr ymgeiswyr llwyddiannus eu cyhoeddi ym mis Hydref 2021. Yn ystod y rownd gyntaf, sicrhodd chwe awdurdod lleol yng Nghymru (RCT, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion a Wrecsam) gyllid ar gyfer deg cais gwerth cyfanswm o £121 miliwn. Roedd ceisiadau aflwyddiannus yng Nghymru yn werth £172 miliwn. Agorwyd yr ail rownd ar 23 Mawrth 2022 gyda dyddiad cau o 2 Awst am geisiadau. Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi cyflwyno un neu ragor o gynigion. Mae disgwyl i Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU gyhoeddi canlyniadau yn nhymor yr hydref eleni.

4.4 Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Senedd y DU adroddiad ar dwf economaidd lleol (mis Mehefin 2022), sydd ar gael [yma](#), gan ganolbwyntio'n benodol ar y Gronfa Ffyniant Bro. Mae'r adroddiad yn beirniadu llawer agwedd ar ddull Llywodraeth y DU, gan gynnwys ei hymgysylltu â llywodraethau datganoledig a'r sylw mae'n ei rhoi i flaenoriaethau datganoledig. Roedd yr hyn a feirniadwyd yn cynnwys:

- Y ffaith bod Gweinidogion wedi cadarnhau'r egwyddorion ar gyfer dyfarnu cyllid dim ond ar ôl iddynt ddod i wybod pwy oedd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer, a'u sgorau
- Y ffaith nad oes dealltwriaeth gref o'r hyn sy'n gweithio o ran twf lleol
- "Tuedd optimistiaeth", gan arwain at ddewisiadau buddsoddi gwael
- Sylw annigonol yn cael ei roi i flaenoriaethau llywodraethau datganoledig
- Atebolrwydd anfodhaol am ganlyniadau ffyniant bro a diffyg prosesau monitro perfformiad

4.5 Mae hyn yn dilyn beirniadaeth o Lywodraeth y DU mewn adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (mis Chwefror 2022), sydd ar gael [yma](#), mewn perthynas â gweithredu strategaethau twf lleol. Dywedodd:

"Mae'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi cael cyngor arbenigol y gallai adfywiad ffisegol mawr wella canlyniadau economaidd lleol yn sylweddol, ond nid yw'r buddsoddiadau seilwaith ar raddfa lai y mae'n eu cyllido drwy'r Gronfa Ffyniant Bro fel arfer yn ysgogi twf sylweddol."

5. Arsyllwadau annibynnol

5.1 Mae ystod o bwyllgorau trawsbleidiol ac arbenigwyr annibynnol wedi beirniadu'r dull mae Llywodraeth y DU wedi'i fabwysiadu o weithredu cyllid ar ôl gadael yr UE a chyllid ffyniant bro mewn meysydd datganoledig.

5.2 Mewn adroddiad (mis Hydref 2020) sydd ar gael [yma](#), dywedodd y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig:

“Ers dros dair blynedd, rydym wedi gweld methiant i ymgysylltu'n briodol â rhanddeiliaid a Senedd y DU. O ganlyniad, nid oes eglurder o ran sut beth fydd y Gronfa Ffyniant Gyffredin, sut y bydd yn cael ei gweinyddu, a sut y bydd yn cael ei hariannu.”

“Galwn ar Lywodraeth y DU i ddatblygu memorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda'r gweinyddiaethau datganoledig a llywodraeth leol fydd yn atgyfnerthu sut i weithredu'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Dylai sicrhau cydweithio a phartneriaeth rhwng yr holl rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraethau'r DU a Chymru, llywodraeth leol a'r trydydd sector.”

“Sut bynnag y caiff ei dylunio, ni ddylid colli'r arbenigedd a gafodd ei feithrin wrth weinyddu cronfeydd strwythurol, a rhaid i Weinidogion fabwysiadu dull partneriaeth sy'n manteisio ar arbenigedd ac adnoddau'r gweinyddiaethau datganoledig, llywodraeth leol a'r trydydd sector.”

“Credwn y byddai Llywodraeth y DU yn annoeth i gollu neu anwybyddu'r arbenigedd sydd wedi'i feithrin yn Swyddfeydd Cyllid Ewropeaidd y weinyddiaeth ddatganoledig.”

5.3 Mewn adroddiad (mis Gorffennaf 2021) sydd ar gael [yma](#), dywedodd yr Institute for Government:

“Bydd Llywodraeth y DU yn gwario arian ar swyddogaethau polisi sy'n gyfrifoldebau datganoledig yn bennaf. Rydym wedi nodi'r ffaith y bydd hyn yn arwain at ddyblygu swyddogaethau yn ddi-fudd a darnio darpariaeth gwasanaethau.”

5.4 Mewn adroddiad (mis Gorffennaf 2021), sydd ar gael [yma](#), dywedodd Pwyllgor Dethol yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol:

“Mae'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cyflawni ffyniant bro yn anghyfartal ac mae diffyg diben neu ffocws strategol cydlynol cyffredinol o ran ei weithredu.”

“Mae absenoldeb ymddangosiadol unrhyw ymgysylltu strategol ystyrion â'r gweinyddiaethau datganoledig ar yr agenda ffyniant bro yn amlygu'r diffyg eglurder a ffocws sy'n gysylltiedig â'r polisi pwysig hwn.”

5.5 Dywedodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (mis Mehefin 2022), er gwaethaf sicrwydd Llywodraeth y DU am gydweithio arfaethedig:

“nid yw’r [pwyllgor] wedi’i ddarbwylllo eto y bydd y cydweithio hwn yn effeithiol o ran sicrhau bod blaenoriaethau’r gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu hystyried yn ddigonol.”

5.6 Mae Adolygiad Dunlop (mis Mawrth 2021), sydd ar gael [yma](#), yn nodi:

“rhaid sicrhau nad yw cyllid gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig yn disodli cyllid craidd, a rhaid ei gymhwyso gyda chefnogaeth y llywodraethau datganoledig”.